

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

24/06/2014

Cynnwys Contents

[Cwestiynau i'r Prif Weinidog](#)
[Questions to the First Minister](#)

[Cwestiwn Brys: Eithafiaeth](#)
[Urgent Question: Extremism](#)

[Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon](#)
[Questions to the Minister for Culture and Sport](#)

[Datganiad a Chyhoeddiad Busnes](#)
[Business Statement and Announcement](#)

[Datganiad: Adroddiad Blynyddol Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru 2014](#)
[Statement: The Wales Infrastructure Investment Plan Annual Report 2014](#)

[Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Dadreoleiddio mewn perthynas â Gwelliannau i'r Bil mewn perthynas â Deddf Daliadau Amaethyddol 1986, Deddf Bridio Cŵn 1973 a Deddf Bridio a Gwerthu Cŵn \(Lles\) 1999](#)
[Supplementary Legislative Consent Motion on the Deregulation Bill in respect of Amendments to the Bill in relation to the Agricultural Holdings Act 1986, Breedings of Dogs Act 1973 and Breeding and Sale of Dogs \(Welfare\) Act 1999](#)

[Cyfnod Pleidleisio](#)
[Voting Time](#)

[Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Tai \(Cymru\)](#)
[Stage 3 Standing Order 26.44 Debate on the Housing \(Wales\) Bill](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (Y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.

The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.

- | | | | |
|-------|---|--|---|
| 13:30 | Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography
Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session. | Questions to the First Minister | Senedd.tv
Fideo Video |
| 13:30 | Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography
I have received notification, under Standing Order 12.58, that the Minister for Local Government and Government Business will answer questions on behalf of the First Minister. | Welsh Economy

1. Will the First Minister outline his policies for growing the Welsh economy? OAQ(4)1743(FM) | Y Senedd.tv
Fideo Video |
| 13:31 | Byron Davies Bywgraffiad Biography
<i>1. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei bolisiau ar gyfer tyfu economi Cymru? OAQ(4)1743(FM)</i> | Economi Cymru | Senedd.tv
Fideo Video |
| 13:31 | Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography
<i>Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business</i>
Our policies are outlined in the programme for government and incorporate our priorities, which are supporting business, sustainable jobs and strengthening our infrastructure. The labour market statistics show that the Welsh economy is maintaining its positive momentum and making a strong contribution to the performance of the UK economy. | Welsh Economy

1. Mae ein polisiau wedi eu hamlinellu yn y rhaglen ar gyfer llywodraethu ac yn cynnwys ein blaenoriaethau, sef cefnogi busnes, swyddi cynaliadwy a chryfhau ein seilwaith. Mae ystadegau'r farchnad lafur yn dangos bod economi Cymru yn cynnal ei fomentwm cadarnhaol ac yn gwneud cyfraniad cryf at berfformiad economi'r DU. | Senedd.tv
Fideo Video |

13:31

Byron Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much indeed for that answer, Minister. I have made a point since being elected of visiting sites of important heritage and tourism value across Wales to see what more can be done to market and support them to, in turn, grow our Welsh economy. Of particular note are our heritage railways. The confidence, energy and drive within the companies and trusts that run our heritage railways is unparalleled, from my experience. Last week, I travelled on the footplate of locomotive Hugh Napier on the Ffestiniog line to Tan-y-Bwlch with the operating manager, Paul Lewin. You would be hard pushed to find a more idyllic and truly wonderful railway. Can you outline what measures specifically the Government is taking to market these railways in the world? They are of international significance, both in terms of heritage and beauty and exist both in the north and the south of Wales.

Diolch yn fawr iawn am yr ateb yna, Weinidog. Rwyf wedi sicrhau ers cael fy ethol fy mod yn ymweld â safleoedd pwysig sy'n werthfawr o ran treftadaeth a thwristiaeth ledled Cymru i weld beth arall y gellir ei wneud i'w marchnata a'u cefnogi, yn ei dro, i dyfu ein heconomi yng Nghymru. Mae ein rheilffyrdd treftadaeth o bwys arbennig. Mae'r hyder, yr egni a'r cymhelliant o fewn y cwmnïau a'r ymddiriedolaethau sy'n rhedeg ein rheilffyrdd treftadaeth heb eu hail, yn fy mhrofiad i. Yr wythnos diwethaf, teithiais ar lawr caban locomotif Hugh Napier ar reilffordd Ffestiniog i Dan-y-bwlch gyda'r rheolwr gweithredu, Paul Lewin. Byddai'n anodd iawn dod o hyd i reilffordd hyfrytach a gwirioneddol odidog. A allwch chi amlinellu pa gamau penodol y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i farchnata'r rheilffyrdd hyn yn y byd? Maen nhw'n bwysig yn rhyngwladol, o ran treftadaeth a harddwch ac yn bodoli yng ngogledd a de Cymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:32

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I, too, have travelled on that railway line and you are quite right: it is one of the most beautiful parts of north Wales. I know that the Minister for Economy, Science and Transport does a great deal of work in relation to the tourism strategy et cetera and, obviously, heritage railways play a huge part in that.

Rwyf innau hefyd wedi teithio ar y rheilffordd honno ac rydych chi yn llygad eich lle: mae'n un o rannau mwyaf prydferth gogledd Cymru. Gwn fod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn gwneud llawer iawn o waith o ran y strategaeth dwristiaeth ac ati ac, yn amlwg, mae rheilffyrdd treftadaeth yn rhan enfawr o hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:32

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae cynlluniau cyfalaf yn eithriadol o bwysig, wrth gwrs, i lwyddiant yr economi; byddwn yn clywed mwy yn nes ymlaen y prynhawn yma am hynny. A yw'r Llywodraeth yma yng Nghymru yn credu y dylai Cymru gael arian canlynol o fformiwla Barnett yn dilyn y gwario sylweddol a fydd ar greu HS2?

Capital plans are extremely important, of course, to the success of the economy; we will hear more about that later this afternoon. Does the Government here in Wales believe that Wales should have consequential funding through the Barnett formula as a result of the substantial spending on building HS2?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:32

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Obviously, those are ongoing discussions with the UK Government. I am aware of the work that the UK Government is doing in relation to HS2 in my role as chair of the north Wales ministerial task and finish group on transport. I have also had discussions in relation to HS2, and I am sure that the Minister for Finance is having those ongoing discussions.

Yn amlwg, mae'r rheini'n drafodaethau sy'n parhau gyda Llywodraeth y DU. Rwy'n ymwybodol o'r gwaith y mae Llywodraeth y DU yn ei wneud o ran HS2 yn fy swyddogaeth fel cadeirydd grŵp gorchwyl a gorffen gweinidogol gogledd Cymru ar drafnidiaeth. Rwyf innau hefyd wedi cael trafodaethau ar HS2, ac rwy'n siŵr bod y Gweinidog Cyllid yn cael y trafodaethau parhaus hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:33

Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, it is overwhelmingly clear that it is this Welsh Government's economic policies that are hitting the right notes with people in Wales. The pioneering and successful Jobs Growth Wales scheme has demonstrated how in tune the Labour Government here in Wales is with dealing with youth unemployment, unlike the coalition Government—its first act was to stop the future jobs fund, placing many, many young people back in the dole queue. We know that some 13,000 young people are now out of their homes, back in work and no longer in the dole queue, and are playing a very active role in their society. Minister, with all the success that the programme has generated in driving up youth employment, can we all agree that youth employment plays a major role and part in Wales's economic recovery?

Weinidog, mae'n hynod eglur mai polisiau economaidd y Llywodraeth Cymru hon sy'n taro'r nodau cywir gyda phobl yng Nghymru. Mae cynllun arloesol a llwyddiannus Twf Swyddi Cymru wedi dangos gallu'r Llywodraeth Lafur yma yng Nghymru i ymdrin â diweithdra ymhlith pobl ifanc, yn wahanol i'r Llywodraeth glymblaid—ei gweithred gyntaf hi oedd rhoi terfyn ar gronfa swyddi'r dyfodol, gan roi llawer iawn o bobl ifanc yn ôl yn y ciw dôl. Rydym ni'n gwybod bod tua 13,000 o bobl ifanc allan o'u cartrefi erbyn hyn, yn ôl yn y gwaith ac nid yn y ciw dôl, ac yn chwarae rhan ymarferol iawn yn eu cymdeithas. Weinidog, gyda'r holl lwyddiant y mae'r rhaglen wedi ei greu i gynyddu cyflogaeth ymhlith pobl ifanc, a allwn ni i gyd gytuno bod cyflogaeth pobl ifanc yn cyflawni swyddogaeth bwysig a rhan yn adferiad economaidd Cymru?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:34 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I am sure that we all agree that Jobs Growth Wales, which has been a huge success, is helping Wales continue to outperform other parts of the UK in relation to both employment and the economy. Certainly, unlike the UK Government, we do not want to have a lost generation among our young people.

Rwy'n siŵr ein bod i gyd yn cytuno bod Twf Swyddi Cymru, sydd wedi bod yn llwyddiant ysgubol, yn helpu Cymru i barhau i berfformio'n well na rhannau eraill o'r DU o ran cyflogaeth a'r economi. Yn sicr, yn wahanol i Lywodraeth y DU, nid ydym eisiau cael cenhedlaeth goll ymhlith ein pobl ifanc.

13:34 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Enterprise zones are obviously a key policy in this area. An objective of the Cardiff enterprise zone since its beginning has been to create more grade-A office space in the city centre. However, over the weekend, the chief executive of Rightacres has suggested that there will soon be an oversupply of grade-A office space in Cardiff, when all the planned developments are complete. Will the Welsh Government continue to prioritise these office developments, or will there be a change in focus towards more manufacturing premises, given the amount of industrial land that is still available in the area?

Mae ardaloedd menter yn amlwg yn bolisi allweddol yn y maes hwn. Un o amcanion ardal fenter Caerdydd ers ei sefydlu fu creu mwy o swyddfeydd gradd A yng nghanol y ddinas. Fodd bynnag, dros y penwythnos, mae prif weithredwr Rightacres wedi awgrymu y bydd gorgyflenwad o swyddfeydd gradd A yng Nghaerdydd yn fuan, pan fydd yr holl ddatblygiadau arfaethedig wedi eu cyflawni. A fydd Llywodraeth Cymru yn parhau i flaenoriaethu'r datblygiadau swyddfa hyn, neu a fydd newid mewn pwyslais tuag at fwy o safleoedd gweithgynhyrchu, o ystyried faint o dir diwydiannol sydd yn dal i fod ar gael yn yr ardal?

13:35 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

That is something that the Minister for Economy, Science and Transport will closely monitor, and I am sure that she will update Members in due course.

Mae hynny'n rhywbeth y bydd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn ei fonitro'n agos, ac rwy'n siŵr y bydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau maes o law.

Craffu ar Wasanaethau sy'n cael eu Hariannu'n Gyhoeddus

Scrutiny of Publicly Funded Services

13:35 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

2. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella'r broses o graffu ar wasanaethau sy'n cael eu hariannu'n gyhoeddus? OAQ(4)1744(FM)

2. What is the Welsh Government doing to improve the scrutiny of publicly funded services? OAQ(4)1744(FM)

13:35 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We encourage the openness and transparency that are essential to effective scrutiny. For local government, the Local Government (Wales) Measure 2011 makes specific provision for the development of effective scrutiny, which offers robust challenge, and drives improvement in public service performance. The Welsh Government has invested £660,000 over three years to support this.

Rydym yn annog gweithredu'n agored a thryloyw sy'n hanfodol ar gyfer craffu effeithiol. O ran llywodraeth leol, mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gwneud darpariaeth benodol ar gyfer datblygu gwaith craffu effeithiol, sy'n cynnig her gadarn, ac yn sbarduno gwelliant i berfformiad gwasanaethau cyhoeddus. Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £660,000 dros dair blynedd i gefnogi hyn.

13:35 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Excellent. There is a lobby group called 'a dignified revolution', which has a lot of nurses involved in it, and it is specifically aiming to improve services for older people. It has been going round health boards to look at the way that they work. Its latest report was related to 'Trusted to Care', and it wrote:

'Boards do not appear to be fit for purpose with regard to scrutiny and governance. Some board members appear to put local and personal perspectives before corporate responsibility. The skills of the Chairs also appear to vary widely.'

Ardderchog. Ceir grŵp lobïo o'r enw 'a dignified revolution', y mae llawer o nyrsys yn gysylltiedig ag ef, a'i nod penodol yw gwella gwasanaethau i bobl hŷn. Mae wedi bod yn mynd o gwmpas byrddau iechyd i edrych ar y ffordd maen nhw'n gweithio. Roedd ei adroddiad diweddaraf yn ymwneud ag 'Ymddiried mewn Gofal', ac ysgrifennodd:

Nid yw'n ymddangos bod y Byrddau'n addas i'w diben o ran craffu a llywodraethu. Mae'n ymddangos bod rhai aelodau o fyrddau yn rhoi safbwyntiau lleol a phersonol o flaen cyfrifoldeb corfforaethol. Mae'n ymddangos bod sgiliau'r Cadeiryddion yn amrywio'n helaeth hefyd.

I also recall that 'Trusted to Care' raised some considerable concerns about the capacity and the competency of community health councils in doing what they are supposed to be doing in monitoring services. I just wondered how we are going to strengthen boards and CHCs, to ensure that they are inspecting those public services that it is very difficult for the general public to look at.

Rwyf hefyd yn cofio bod 'Ymddiried mewn Gofal' yn codi rhai pryderon sylweddol am allu a chymhwysedd cynghorau iechyd cymuned i wneud yr hyn y maen nhw i fod i'w wneud mewn gwasanaethau monitro. Roeddwn i'n meddwl tybed sut yr ydym ni'n mynd i gryfhau byrddau a CICAu, er mwyn sicrhau eu bod yn arolygu'r gwasanaethau cyhoeddus hynny y mae'n anodd iawn i'r cyhoedd yn gyffredinol edrych arnynt.

13:36 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am aware that the Minister for Health and Social Services has seen the report. Obviously, the responsibility for the quality and safety of services must rest with health boards and trusts. 'Delivering Safe Care, Compassionate Care' sets out the national governance framework, to enable high-quality care in Wales. It clearly describes roles and responsibility, and what needs to be in place to ensure good, safe care. However, I would imagine that the Minister is monitoring the report and the situation carefully.

Rwy'n ymwybodol bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gweld yr adroddiad. Yn amlwg, y byrddau a'r ymddiriedolaethau iechyd, o reidrwydd, sy'n gyfrifol am ansawdd a diogelwch y gwasanaethau. Mae 'Darparu Gofal Diogel, Gofal Tosturiol' yn nodi'r fframwaith llywodraethu cenedlaethol, er mwyn hwyluso gofal o ansawdd uchel yng Nghymru. Mae'n disgrifio swyddogaethau a chyfrifoldeb yn eglur, a'r hyn y mae angen ei roi ar waith i sicrhau gofal da a diogel. Fodd bynnag, byddwn yn dychmygu bod y Gweinidog yn monitro'r adroddiad a'r sefyllfa yn ofalus.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:37 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Each time a local authority department has been placed in special measures, Welsh Ministers and the Wales Audit Office have highlighted weaknesses in the scrutiny by members of those offices. However, in parallel, the outgoing ombudsman highlighted concern of instances where officers have referred elected members to him for overly zealous scrutiny. What action will you take to ensure that members do not feel deterred from robust scrutiny, for fear of referral to the ombudsman?

Bob tro mae adran awdurdod lleol wedi cael ei rhoi mewn mesurau arbennig, mae Gweinidogion Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru wedi amlygu gwendidau yn y gwaith craffu gan aelodau o'r swyddfeydd hynny. Fodd bynnag, ar yr un pryd, amlygodd yr ombwdsmon sydd ar fin gadael bryder o ran achosion pan fo swyddogion wedi atgyfeirio aelodau etholedig ato am graffu'n rhy eiddgar. Pa gamau y byddwch chi'n eu cymryd i sicrhau nad yw aelodau yn teimlo na ddylent graffu'n gadarn, rhag ofn iddynt gael eu hatgyfeirio i'r ombwdsmon?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:37 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

That is an issue that has been raised with me with some councils. However, obviously, the Commission on Public Service Governance and Delivery recognises that scrutiny is critically important to improving the delivery of public services in Wales. So, it is an area on which I do have ongoing discussions with the auditor general, but it is really important that we improve our scrutiny.

Mae hwnnw'n fater a godwyd gyda mi gan rai cynghorau. Fodd bynnag, yn amlwg, mae'r Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus yn cydnabod bod craffu yn hollbwysig i wella'r ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Felly mae'n faes yr wyf yn cael trafodaethau parhaus ynglŷn ag ef gyda'r archwilydd cyffredinol, ond mae'n bwysig iawn ein bod yn gwella ein gwaith craffu.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:38 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

How can we improve our scrutiny here in this Assembly, Minister? To give an example, the Minister for Education and Skills has twice told me that the pupil deprivation grant is additional money on top of the already promised 1% increase in school funding. He did this on 23 November and 4 December last year. It has now been confirmed, by Welsh Government e-mail and letter, that the pupil deprivation grant is actually being used to meet the 1% commitment. Minister, is this a sign of a Government negotiating a budget deal in good faith? Has the Minister for education misled the Assembly?

Sut allwn ni wella ein gwaith craffu yma yn y Cynulliad hwn, Weinidog? I roi enghraifft, mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi dweud wrthyf ddwywaith bod y grant amddifadedd disgyblion yn arian ychwanegol ar ben y codiad a addawyd eisoes o 1% i gyllid ysgolion. Gwnaeth hyn ar 23 Tachwedd a 4 Rhagfyr y llynedd. Cadarnhawyd erbyn hyn, drwy e-bost a llythyr gan Lywodraeth Cymru, bod y grant amddifadedd disgyblion mewn gwirionedd yn cael ei ddefnyddio i fodloni'r ymrwymiad o 1%. Weinidog, a yw hyn yn arwydd o Lywodraeth yn cytuno ar gyllideb gyda phob ewyllys da? A yw'r Gweinidog addysg wedi camarwain y Cynulliad?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:38 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Not at all. I do not think that the Minister for Education and Skills has misled the Assembly. I think that we have been completely transparent on the matter. The important fact is that we have increased spending on Welsh schools by more than 1%, above overall changes to the block grant, since our commitment in 2011-12. We are very proud of this achievement, and I think that we should be celebrating the fact.
- Dim o gwbl. Nid wyf yn credu bod y Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi camarwain y Cynulliad. Rwy'n credu ein bod ni wedi bod yn gwbl dryloyw ar y mater. Y ffaith bwysig yw ein bod wedi cynyddu gwariant ar ysgolion Cymru o fwy nag 1%, uwchlaw'r newidiadau cyffredinol i'r grant bloc, ers ein hymrwymiad yn 2011-12. Rydym yn falch iawn o'r llwyddiant hwn, ac rwy'n credu y dylem ni fod yn dathlu'r ffaith.
- 13:39 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Sut mae modd i'r cyhoedd graffu ar waith y consortia rhanbarthol? Mae rhanbarth y gogledd yn rhoi ei gofnodion i gyd ar y we, ond, yn ne Cymru, nid oes gwybodaeth ar gael, ac eithrio gydag un consortiwm, sydd yn rhoi cofnodion ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, ond nid y cyngorau eraill. Felly, sut yn union y gall y cyhoedd graffu ar waith y consortia rhanbarthol hyn?
- How can the public scrutinise the work of the regional consortia? In north Wales, all minutes are published online, but in south Wales, there is no information available, with the exception of one consortium, which publishes minutes on the Rhondda Cynon Taf County Borough Council website, but not other councils. So, exactly how can the public scrutinise the work of these regional consortia?
- 13:39 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I would imagine that the Minister for Education and Skills would expect all of the consortia to put their minutes on their websites, and online, so that the public can scrutinise them.
- Byddwn yn dychmygu y byddai'r Gweinidog Addysg a Sgiliau yn disgwyl i'r holl gonsortia roi eu cofnodion ar eu gwefannau, ac ar-lein, fel y gall y cyhoedd graffu arnynt.
- Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau** **Questions Without Notice from the Party Leaders**
- 13:39 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We now move to questions from the party leaders, and first this afternoon is the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.
- Symudwn nawr at gwestiynau gan arweinwyr y pleidiau, ac arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams, sydd gyntaf y prynhawn yma.
- 13:39 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*
- Minister, I am sure that we were all shocked over the weekend to see videos of young men from Cardiff in what appeared to be a jihadist recruiting video in Syria. We have a proud record, as a nation, of being a tolerant and open society that has long embraced other cultures and faiths. What steps is the Welsh Government taking to tackle extremism and radicalisation in Wales?
- Weinidog, rwy'n siŵr ein bod i gyd wedi ein syfrdanu dros y penwythnos o weld fideos o ddynion ifanc o Gaerdydd yn yr hyn a oedd yn ymddangos fel fideo recriwtio jihadaidd yn Syria. Mae gennym hanes balch, fel cenedl, o fod yn gymdeithas oddefgar ac agored sydd wedi croesawu diwyllianau a chrefyddau eraill ers amser maith. Pa gamau mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael ag eithafiaeth a radialeiddio yng Nghymru?
- 13:40 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I am sure that we were all shocked. Certainly, as parents, I think that we probably really felt for the father of the children who was speaking. Obviously, policing and issues of national security and counter-terrorism remain the responsibility of the UK Government, but the Welsh Government prioritises the safety of our citizens. The First Minister chairs the resilience forum in Wales. I have responsibility for it in my portfolio, and we work closely with the UK Government to make sure that we have a multi-agency strategy in tackling radicalisation and extremism in Wales. Obviously, other cities throughout the UK have this problem. I do not think that Cardiff is a hotbed for this.
- Rwy'n siŵr bod pob un ohonom wedi'i syfrdanu. Yn sicr, fel rhieni, rwy'n meddwl ein bod wir yn teimlo dros dad y plant a oedd yn siarad. Yn amlwg, cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw plismona a materion o ddiogelwch cenedlaethol a gwrthderfysgaeth o hyd, ond mae Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu diogelwch ein dinasyddion. Mae'r Prif Weinidog yn cadeirio'r fforwm cydnerth yng Nghymru. Mae gennyf i gyfrifoldeb drosto yn fy mhortffolio, ac rydym ni'n gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i wneud yn siŵr bod gennym strategaeth aml-asiantaeth wrth fynd i'r afael â radialeiddio ac eithafiaeth yng Nghymru. Yn amlwg, mae'r broblem hon gan ddinasoedd eraill ledled y DU. Nid wyf yn credu bod gan Gaerdydd broblem benodol yn hyn o beth.

- 13:40 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Cabinet minutes from 2013 and 2014 show that both you and the Wales extremism and counter-terrorism unit recognise that Wales is not immune from the threats posed by extremism and radicalisation. In addition, the CONTEST Wales Board recognised two years ago that there were particular issues related to increases in incidences of radicalisation in Cardiff. What actions has your Government taken since then to tackle specific problems identified in Cardiff to combat that radicalisation?
- Mae cofnodion y Cabinet o 2013 a 2014 yn dangos eich bod chi ac uned eithafiaeth a gwrthderfysgaeth Cymru yn cydnabod nad yw Cymru yn ddiogel rhag bygythiadau gan eithafiaeth a radicleiddio. Hefyd, cydnabuwyd dwy flynedd yn ôl gan Fwrdd CONTEST yng Nghymru bod problemau penodol yn gysylltiedig â chynnydd mewn achosion o radicleiddio yng Nghaerdydd. Pa gamau mae eich Llywodraeth wedi eu cymryd ers hynny i fynd i'r afael â phroblemau penodol a nodwyd yng Nghaerdydd i frwydro'r radicleiddio hwnnw?
- 13:41 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We continue to develop the framework through the delivery of the Prevent funding that we had. We work with schools, further education and higher education. We have a programme called Getting On Together, which is out in our high schools. I know that certain universities—Glyndŵr University, for instance—have an identified person to help with this. It is also important that we work with our communities and with our community leaders.
- Rydym ni'n parhau i ddatblygu'r fframwaith trwy ddarparu'r cyllid Prevent a oedd gennym. Rydym ni'n gweithio gydag ysgolion, addysg bellach ac addysg uwch. Mae gennym raglen o'r enw Cymru'n Cyd-dynnu, sydd wedi'i gyflwyno yn ein hysgolion uwchradd. Rwy'n gwybod bod gan rai prifysgolion—Prifysgol Glyndŵr, er enghraifft—unigolyn penodedig i helpu gyda hyn. Mae hefyd yn bwysig ein bod yn gweithio gyda'n cymunedau a'n harweinwyr cymunedol.
- 13:42 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, would you agree that any strategy to combat these problems will rely, indeed, on partnerships with both non-devolved and devolved organisations across education, health and local government and communities departments. Would you commit today to developing a specific Welsh anti-extremism strategy to ensure that Wales remains what we are: the tolerant and open society that we are all so proud of?
- Weinidog, a fydddech chi'n cytuno y bydd unrhyw strategaeth i fynd i'r afael â'r problemau hyn yn dibynnu, mewn gwirionedd, ar bartneriaethau gyda sefydliadau nad ydynt wedi eu datganoli a datganoledig ar draws adrannau addysg, iechyd a llywodraeth leol a chymunedau. A wnewch chi ymrwymo heddiw i ddatblygu strategaeth gwrth-eithafiaeth penodol i Gymru i sicrhau bod Cymru yn parhau i fod yr hyn yr ydym ni: y gymdeithas oddefgar ac agored yr ydym ni i gyd mor falch ohoni?
- 13:42 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- You are absolutely right. It is a matter for devolved and non-devolved services. Effective partnership working is absolutely crucial in tackling these issues. It is imperative that we listen to our communities. We need to build stronger resilience when incidents and tensions mount. The approach helps to combat radicalisation, particularly with Muslim communities. It is really important that we are out there working with the leaders of these communities, which is something that we do, and it is important that we quell any adverse community reaction to the current situation.
- Rydych chi yn llygad eich lle. Mae'n fater i wasanaethau datganoledig a heb eu datganoli. Mae gwaith partneriaeth effeithiol yn gwbl hanfodol wrth fynd i'r afael â'r materion hyn. Mae'n hollbwysig ein bod yn gwranddo ar ein cymunedau. Mae angen i ni adeiladu gwytnwch cryfach pan fydd digwyddiadau a thensiynau'n gwaethygu. Mae'r dull yn helpu i frwydro radicleiddio, yn enwedig gyda chymunedau Mwslimaidd. Mae'n bwysig iawn ein bod ni allan yna'n gweithio gydag arweinwyr y cymunedau hyn, sydd yn rhywbeth yr ydym ni'n ei wneud, ac mae'n bwysig ein bod yn tawelu unrhyw ymateb anffafriol i'r sefyllfa bresennol yn y gymuned.
- 13:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We now move to the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.
- Symudwn nawr at arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.
- 13:43 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*
- Leader of the house, when the First Minister responded to questions on the Williams commission report in January, he said:
- Arweinydd y tŷ, pan ymatebodd y Prif Weinidog i gwestiynau am adroddiad comisiwn Williams ym mis Ionawr, dywedodd:
- 'By Easter, I would like to be in a position where every party in the Assembly has a firm opinion.'
- Erbyn y Pasg, hoffwn fod mewn sefyllfa lle mae gan bob plaid yn y Cynulliad farn bendant.

In February, he went on to say that there would be a Government position announced in March. In May, he said:

'We will form a view as a Government by the end of next month.'

Your party has now announced that it is going on a three-month consultation. No-one seems to know what the Government's position is. As temporary First Minister today, and also as the Minister for Local Government and Government Business, can you tell us what the Government position is about local government reorganisation?

Ym mis Chwefror, aeth yn ei flaen i ddweud y byddai safbwynt y Llywodraeth yn cael ei gyhoeddi ym mis Mawrth. Ym mis Mai, dywedodd:

'Byddwn yn ffurfio safbwynt fel Llywodraeth erbyn diwedd mis nesaf.'

Mae eich plaid wedi cyhoeddi erbyn hyn ei bod yn mynd i ymgynghori am dri mis. Nid yw'n ymddangos bod unrhyw un yn gwybod beth yw safbwynt y Llywodraeth. Fel Prif Weinidog dros dro heddiw, a hefyd fel y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, a allwch chi ddweud wrthym ni beth yw safbwynt y Llywodraeth ar ad-drefnu llywodraeth leol?

13:43 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The First Minister will be making a statement in this Chamber before the summer recess on the Welsh Government's response to the commission's report.

Bydd y Prif Weinidog yn gwneud datganiad yn y Siambur hon cyn toriad yr haf ar ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y comisiwn.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:43 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am very disappointed with that answer. I know that you are standing in for the First Minister today, but you are also the Minister for local government. You were at the Welsh Local Government Association conference last week. You would have heard the representations made to you at that conference. A more substantive answer, I think, was deserved, given the quotes that we have heard to date, pushing this into the long grass, time and again, by the First Minister. However, there is one thing that you can commit to here today, Minister. When the health service was reorganised in 2009, there was—I think, by most people's assessment—a generous redundancy package and terms of employment package put in place for executives who found that they no longer had jobs to fill. That entailed 10 years of protected pay and conditions. If or when you come forward with your proposals, will you confirm that such generosity will not be extended this time to keep executives in positions that no longer exist?

Rwy'n siomedig iawn gyda'r ateb yna. Gwn eich bod yn dirprwyo ar ran y Prif Weinidog heddiw, ond chi yw'r Gweinidog Llywodraeth leol hefyd. Roeddech chi yng nghynhadledd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yr wythnos diwethaf. Byddwch wedi clywed y sylwadau a wnaed wrthyh yn y gynhadledd honno. Rwy'n credu ein bod yn haeddu ateb mwy sylweddol, o ystyried y dyfyniadau yr ydym ni wedi eu clywed hyd yn hyn, wrth i'r Prif Weinidog roi'r mater hwn o'r neilltu, dro ar ôl tro. Fodd bynnag, mae un peth y gallwch chi ymrwymo iddo yma heddiw, Weinidog. Pan ad-drefnwyd y gwasanaeth iechyd yn 2009, sefydlwyd—rwy'n credu, yn ôl asesiad y rhan fwyaf o bobl—pecyn dileu swydd a phecyn telerau cyflogaeth hael ar gyfer swyddogion gweithredol a ganfu nad oedd swyddi iddynt eu gwneud bellach. Roedd hynny'n golygu 10 mlynedd o gyflog ac amodau wedi eu diogelu. Os neu pan y byddwch chi'n cyflwyno eich cynigion, a wnewch chi gadarnhau na fydd haelioni o'r fath yn cael ei gynnig y tro hwn i gadw swyddogion gweithredol mewn swyddi nad ydynt yn bodoli mwyach?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:45

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am sorry you are disappointed with my answer. It is a factual answer that the Welsh Government will be responding—which is what you asked me—before the summer recess. I was at the WLGA conference, where I had some very constructive discussions. I should point out that we are not looking at local government reorganisation; we are looking at mergers, because that is the way forward. It is not wholesale reorganisation. We are looking to local authorities to merge. At least my party knows where it is going. We do not know anything from your party, apart from the fact that all you are interested in is gerrymandering. So, we will wait to see what comes from you. What is really important in this is the staff in our public services in Wales. I have announced that we will be setting up a staff commission to look at how we go forward. However, I would have thought that, in light of the deep funding cuts that we have had from your Government, what you referred to is very unlikely to happen.

Mae'n ddrwg gennyf eich bod wedi eich siomo gan fy ateb. Mae'n ateb ffeithiol y bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb—sef yr hyn a ofynasoch i mi—cyn toriad yr haf. Roeddwn i yng nghynhadledd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, lle cefais drafodaethau adeiladol iawn. Dylwn nodi nad ydym ni'n ystyried ad-drefnu llywodraeth leol; rydym ni'n ystyried uno, gan mai dyna'r ffordd ymlaen. Nid yw'n ad-drefnu llwyr. Ein nod yw i awdurdodau lleol uno. O leiaf mae fy mhlaid i yn gwybod ble mae'n mynd. Nid ydym yn gwybod unrhyw beth gan eich plaid chi, ar wahân i'r ffaith mai'r cwbl y mae gennych chi ddiddordeb ynddo yw chwarae'r ffiniau. Felly, byddwn yn aros i weld beth a ddaw gennych chi. Yr hyn sy'n wirioneddol bwysig yn hyn o beth yw'r aelodau staff yn ein gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Rwyf wedi cyhoeddi y byddwn yn sefydlu comisiwn staff i ystyried sut y dylem ni symud ymlaen. Fodd bynnag, byddwn yn meddwl, yn wyneb y toriadau cyllid dwfn yr ydym ni wedi eu cael gan eich Llywodraeth chi, bod yr hyn i chi gyfeirio ato yn annhebygol iawn o ddigwydd.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:45

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I appreciate that you are temporary First Minister today and that you are standing in for the First Minister. However, I specifically asked about a portfolio responsibility area for you, so that we could get some substantive answers. I noticed that you completely sidestepped the issue of redundancies and job security in local government, and whether it should be reorganisation or the amalgamation of authorities. I ask you again: will you commit to making sure that such ludicrous terms are not in place when these reorganisations are put in place, such as those that were put before the local health boards and maintained employment rights for 10 years for senior executives who no longer had executive positions within those health boards? Will you confirm that those terms and conditions will not be in place?

Rwy'n sylweddoli mai Prif Weinidog dros dro ydych chi heddiw a'ch bod yn dirprwyo ar ran y Prif Weinidog. Fodd bynnag, gofynnais i chi'n benodol am faes cyfrifoldeb portffolio ar eich cyfer chi, fel y gallem ni gael atebion sylweddol. Rwy'n sylwi i chi ochrgamu'n llwyr y mater o ddileu swyddi a diogelwch swyddi mewn llywodraeth leol, a pha un a ddylid ad-drefnu neu uno awdurdodau. Gofynnaf i chi eto: a wnewch chi ymrwymo i wneud yn siŵr nad yw telerau chwerthinlyd o'r fath ar waith pan wneir yr ad-drefnu hyn, fel y rhai a roddwyd gerbron y byrddau iechyd lleol gan gynnal hawliau cyflogaeth am 10 mlynedd i uwch swyddogion gweithredol nad oedd ganddynt swyddi gweithredol yn y byrddau iechyd hynny mwyach? A wnewch chi gadarnhau na fydd y telerau ac amodau hynny ar waith?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:46

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I answered the opposition leader's question. He obviously did not hear me. I said that it is extremely unlikely to happen in light of the very difficult financial situation that we are in because of the cuts to our budget from his Government. [Interruption.]

Rwyf wedi ateb cwestiwn arweinydd yr wrthblaid. Mae'n amlwg na wnaeth fy nghlywed i. Dywedais ei fod yn annhebygol iawn o ddigwydd yn wyneb y sefyllfa ariannol anodd iawn rydym ni ynddi oherwydd y toriadau i'n cyllideb gan ei Lywodraeth ef. [Torri ar draws.]

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:47

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Minister for business does not need any assistance from anybody to answer the questions. We now move to the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Nid oes angen unrhyw gymorth gan unrhyw un ar y Gweinidog busnes i ateb y cwestiynau. Symudwn nawr at arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:47

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru

Last week, Minister, your party leader announced plans to remove jobseeker's allowance for 18 to 21-year-olds without skills to A-level standard, unless they undertake training courses. Is this a policy supported by the Welsh Government?

Yr wythnos diwethaf, Weinidog, cyhoeddodd arweinydd eich plaid gynlluniau i gael gwared ar lwfans ceisio gwaith i bobl ifanc 18 i 21 mlwydd oed heb sgiliau i lefel Safon Uwch, oni bai eu bod yn mynd ar gyrsiau hyfforddi. A yw hwn yn bolisi a gefnogir gan Lywodraeth Cymru?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:47 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, it was not my party leader. My party leader is the First Minister. However, I was aware of the announcement by Ed Miliband. I do not know if the First Minister has had discussions with the leader of the Labour Party regarding this.
- Wel, nid arweinydd fy mhlaid i oedd e. Y Prif Weinidog yw arweinydd fy mhlaid i. Fodd bynnag, roeddwn i'n ymwybodol o'r cyhoeddiad gan Ed Miliband. Nid wyf yn gwybod pa un a yw'r Prif Weinidog wedi cael trafodaethau gydag arweinydd y Blaid Lafur ynglŷn â hyn.
- 13:47 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, I am surprised that you are at least reluctant to declare your public support for this policy. However, Minister, there could be very real implications for the Welsh Government. I wonder if you could tell us what assessment has been made by the Welsh Government of any potential impact of proposals like this. For example, would it affect the number of college or apprenticeship places needed, and what strain is it likely to put on local government resources?
- Wel, rwy'n synnu eich bod o leiaf yn amharod i ddatgan eich cefnogaeth yn gyhoeddus i'r polisi hwn. Fodd bynnag, Weinidog, gallai fod goblygiadau go iawn i Lywodraeth Cymru. Tybed a allech chi ddweud wrthym pa asesiad a wnaed gan Lywodraeth Cymru o unrhyw effaith bosibl o gynigion fel hyn. Er enghraifft, a fyddai'n effeithio nifer y lleoedd coleg neu brentisiaeth sydd eu hangen, a pha straen mae'n debygol o'i roi ar adnoddau llywodraeth leol?
- 13:48 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I have not undertaken that piece of work, as of now. However, I would think that it would be something that we could do. Currently, the Minister for Communities and Tackling Poverty is undertaking a piece of work looking at welfare reform cuts and how we can mitigate them. Obviously, as a Welsh Government, we are bringing through many interventions to mitigate these welfare reforms.
- Nid wyf wedi gwneud y darn hwnnw o waith, hyd yn hyn. Fodd bynnag, byddwn yn meddwl y byddai'n rhywbeth y gallwn ni ei wneud. Ar hyn o bryd, mae'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi yn gwneud darn o waith yn edrych ar doriadau diwygio lles a sut y gallwn eu lliniaru. Yn amlwg, fel Llywodraeth Cymru, rydym ni'n cyflwyno llawer o ymyraethau i liniaru'r diwygiadau lles hyn.
- 13:48 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, I am surprised to hear that, despite the prospect of a serious financial loss to young people and to the wider Welsh economy, the Welsh Government has not undertaken an impact assessment of this. As there have been no preparations by the Welsh Government to date, perhaps you can answer this question: why is it fair for Labour to single out 18 to 21-year-olds with threats of losing their income, but not any other age group lacking in certain skills?
- Weinidog, rwy'n synnu clywed, er gwaethaf y posibilrwydd o golled ariannol ddifrifol i bobl ifanc ac i economi ehangach Cymru, nad yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal asesiad o effaith hyn. Gan na fu unrhyw baratoadau gan Lywodraeth Cymru hyd yn hyn, efallai y gallwch chi ateb y cwestiwn hwn: pam mae'n deg i Lafur fygwth pobl ifanc 18 i 21 mlwydd y byddant yn colli eu hincwm, ond nid unrhyw grŵp oedran arall nad oes ganddynt sgiliau penodol?
- 13:48 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- As a Government, I would rather talk about what we are doing as a Government. You will be aware of the many interventions that we are doing as a Government. Jobseeker's allowance is not a matter for this Welsh Government. [Interruption.] What we are doing it— [Interruption.]
- Fel Llywodraeth, byddai'n well gennyf siarad am yr hyn yr ydym ni'n ei wneud fel Llywodraeth. Byddwch yn ymwybodol o'r ymyraethau niferus yr ydym ni'n eu gwneud fel Llywodraeth. Nid yw lwfans ceisio gwaith yn fater i'r Llywodraeth Cymru hon. [Torri ar draws.] Yr hyn yr ydym ni'n ei wneud—[Torri ar draws.]
- 13:49 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Carry on, Minister.
- Ewch ymlaen, Weinidog.
- 13:49 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Presiding Officer. What we are doing is bringing forward interventions to mitigate welfare reform cuts. I could read you a very long list, and I will: the council tax reduction scheme; the revenue support grant; Jobs Growth Wales; traineeships; apprenticeships; credit unions; Communities First; and Families First. We are doing a huge amount as a Government, here in Wales, to assist those people who are really suffering because of the UK Government's welfare reform cuts.
- Diolch i chi, Lywydd. Yr hyn yr ydym ni'n ei wneud yw cyflwyno ymyraethau i liniaru toriadau diwygio lles. Gallwn ddarllen rhestr hir iawn i chi, ac mi wnaf: y cynllun lleihau'r dreth gyngor; y grant cymorth refeniw; Twf Swyddi Cymru; hyfforddeiaethau; prentisiaethau; undebau credyd; Cymunedau yn Gyntaf; a Teuluoedd yn Gyntaf. Rydym ni'n gwneud llawer iawn fel Llywodraeth, yma yng Nghymru, i gynorthwyo'r bobl hynny sydd wir yn dioddef oherwydd toriadau diwygio lles Llywodraeth y DU.

13:49	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>We now move back to questions on the paper. Question 3 is from William Powell.</p>	<p>Symudwn yn ôl at gwestiynau ar y papur nawr. Daw cwestiwn 3 gan William Powell.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Rheolaeth Ystâd y GIG		Management of the NHS Estate	
13:49	<p>William Powell Bywgraffiad Biography</p> <p><i>3. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am reolaeth ystâd y GIG yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru?</i> OAQ(4)1745(FM)</p>	<p><i>3. Will the First Minister please make a statement on the management of the NHS estate in Mid and West Wales?</i> OAQ(4)1745(FM)</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:49	<p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you. I can confirm that Hywel Dda Local Health Board and Powys Teaching Local Health Board are responsible for the management of the national health service estate in the mid and west Wales counties of Powys, Ceredigion, Carmarthenshire and Pembrokeshire.</p>	<p>Diolch. Gallaf gadarnhau bod Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys yn gyfrifol am reoli ystâd y gwasanaeth iechyd gwladol yn siroedd canolbarth a gorllewin Cymru, siroedd Powys, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:50	<p>William Powell Bywgraffiad Biography</p> <p>I would like to thank you, leader of the house, for that response. Powys Teaching Local Health Board is currently making use of a £21,000 grant that has been awarded to it by the Ministry of Defence community covenant to fund the development of a pathway and therapy garden on the Bronllys hospital site. This will be open to all patients, but it will focus particularly on the benefits that will accrue to the health of veterans through a range of therapies available there. Given this positive example of harnessing the NHS asset to the benefit of public health and biodiversity locally, will you outline, please, any plans that the Welsh Government has to encourage this practice across Wales?</p>	<p>Hoffwn ddiolch i chi, arweinydd y tŷ, am yr ymateb yna. Ar hyn o bryd, mae Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys yn gwneud defnydd o grant o £21,000 a ddyfarnwyd iddo gan gyfamod cymunedol y Weinyddiaeth Amddiffyn i ariannu datblygiad llwybr a gardd therapi ar safle ysbty Bronllys. Bydd yn agored i bob claf, ond bydd yn canolbwyntio'n benodol ar y manteision y bydd yn eu cynnig i iechyd cyn-filwyr trwy amrywiaeth o therapïau sydd ar gael yno. O ystyried yr esiampl gadarnhaol hon o harneisio ased y GIG er lles iechyd y cyhoedd a bioamrywiaeth yn lleol, a wnewch chi amlinellu, os gwelwch yn dda, unrhyw gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i annog yr arfer hwn ledled Cymru?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:50	<p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>It is certainly very welcome news, particularly in Armed Forces Week, to hear of this development. Obviously, last week, the Minister for Health and Social Services announced additional funding for therapies, so I am sure that the Minister can have a look at, probably, best practice at the hospital that you have named as we go forward.</p>	<p>Mae'n sicr yn newyddion da iawn, yn enwedig yn ystod Wythnos y Lluoedd Arfog, i glywed am y datblygiad hwn. Yn amlwg, yr wythnos diwethaf, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyllid ychwanegol ar gyfer therapïau, felly rwy'n siŵr y gall y Gweinidog gymryd golwg ar, yn ôl pob tebyg, arfer gorau yn yr ysbty yr ydych chi wedi ei enwi wrth i ni symud ymlaen.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:51	<p>Rebecca Evans Bywgraffiad Biography</p> <p>The reconfiguration of services in mid and west Wales will require investment in the Glangwili site. What discussions is the Welsh Government having with the health board to ensure that any necessary work is undertaken in good time and ahead of any service change?</p>	<p>Bydd ad-drefnu gwasanaethau yng nghanolbarth a gorllewin Cymru yn golygu gwneud buddsoddiad yn safle Glangwili. Pa drafodaethau mae Llywodraeth Cymru yn eu cael gyda'r bwrdd iechyd er mwyn sicrhau bod unrhyw waith angenrheidiol yn cael ei wneud mewn da bryd a chyn unrhyw newid i'r gwasanaeth?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

13:51	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>That is a really important point that you raise, and I know that officials receive regular updates from the health board, and they are very encouraged by the progress being made with the development of new service models. I understand that planning is in hand, including that to address all the provisos in relation to the safety-net arrangements for neonatal services, with the new midwife-led unit formally opening in August, for instance. Welsh Government officials are also in discussions with Hywel Dda Local Health Board to review its proposed programme of investment for the estate, including Glangwili General Hospital, because I think that it is really important that capital developments and investments are linked to identified service change.</p>	<p>Mae hwnna'n bwynt pwysig iawn yr ydych chi'n ei godi, ac rwy'n gwybod bod swyddogion yn derbyn diweddariadau rheolaidd gan y bwrdd iechyd, ac maen nhw wedi eu calonogi'n fawr gan y cynnydd sy'n cael ei wneud gyda datblygiad modelau gwasanaeth newydd. Rwy'n deall bod cynllunio ar y gweill, gan gynnwys mynd i'r afael â'r holl amodau sy'n ymwneud â'r trefniadau rhwyd diogelwch ar gyfer gwasanaethau newyddenedigol, gyda'r uned newydd dan arweiniad bydwagedd yn agor yn ffurfiol ym mis Awst, er enghraifft. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd mewn trafodaethau gyda Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda i adolygu ei raglen arfaethedig o fuddsoddiad ar gyfer y stad, gan gynnwys Ysbyty Cyffredinol Glangwili, gan fy mod yn credu ei bod yn bwysig iawn bod datblygiadau cyfalaf a buddsoddiadau yn gysylltiedig â newid i wasanaethau a nodwyd.</p>
13:52	Paul Davies Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Minister, on that very issue, I understand that refurbishment work on the midwifery-led unit at Worthy General Hospital is currently taking place, which means, of course, that maternity services are already being downgraded by your Government. However, the worrying thing, Minister, is that I have been informed of recent circumstances in which several mothers have been transferred from Glangwili hospital to Worthy hospital for the induction of labour, as they were oversubscribed at Glangwili hospital. Does the Minister agree with me that if Glangwili hospital cannot currently cope with the mothers it already has, surely things will only become more difficult when Worthy hospital becomes a midwifery-led unit?</p>	<p>Weinidog, ar yr union fater hwnnw, rwy'n deall bod gwaith ailwampio yn yr uned dan arweiniad bydwagedd yn Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg yn cael ei wneud ar hyn o bryd, sy'n golygu, wrth gwrs, bod gwasanaethau mamolaeth eisoes yn cael eu hisraddio gan eich Llywodraeth. Fodd bynnag, yr hyn sy'n peri pryder, Weinidog, yw fy mod wedi cael fy hysbysu am amgylchiadau diweddar pan fo nifer o famau wedi cael eu trosglwyddo o ysbyty Glangwili i ysbyty Llwynhelyg ar gyfer cymell geni, gan fod Ysbyty Glangwili yn rhy llawn. A yw'r Gweinidog yn cytuno â mi os na all ysbyty Glangwili ymdopi ar hyn o bryd â'r mamau sydd ganddo eisoes, does bosib y bydd pethau yn anoddach fyth pan fydd ysbyty Llwynhelyg yn newid i fod yn uned dan arweiniad bydwagedd?</p>
13:53	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I am sure that there will be no downgrading of services. I said that the new midwife-led unit will formally open in August. I also said that the Minister for Health and Social Services, through his officials, receives regular updates from the health board and is very encouraged by the progress being made and the planning that is going on.</p>	<p>Rwy'n siŵr na fydd unrhyw wasanaethau'n cael eu hisraddio. Dywedais y bydd yr uned dan arweiniad bydwagedd newydd yn agor yn ffurfiol ym mis Awst. Dywedais hefyd bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, trwy ei swyddogion, yn derbyn diweddariadau rheolaidd gan y bwrdd iechyd a bod y cynnydd sy'n cael ei wneud a'r cynllunio sy'n digwydd yn ei galonogi'n fawr.</p>
	Ysmygu	Smoking
13:53	Sandy Mewies Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>4. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar sut y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio annog pobl ifanc yn benodol i beidio ag ysmegu? OAQ(4)1747(FM)</p>	<p>4. Will the First Minister make a statement on how the Welsh Government is trying to discourage smoking, particularly among younger people? OAQ(4)1747(FM)</p>
13:53	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Our tobacco control action plan includes a number of measures that we are already taking to discourage smoking. These include the ASSIST programme in secondary schools, our healthy schools work, a smoke-free playgrounds campaign and the national smoking cessation programme. Our public health White Paper sets out our future plans.</p>	<p>Mae ein cynllun gweithredu ar reoli tybaco yn cynnwys nifer o fesurau yr ydym ni eisoes yn eu cymryd i annog pobl i beidio ag ysmegu. Mae'r rhain yn cynnwys y rhaglen ASSIST mewn ysgolion uwchradd, ein gwaith ysgolion iach, ymgyrch meysydd chwarae di-fwg a'r rhaglen rhoi'r gorau i ysmegu genedlaethol. Mae ein Papur Gwyn Iechyd cyhoeddus yn nodi ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol.</p>

13:53

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Public Health Wales last week published a report that revealed the extent of smoking among young girls in areas of north Wales. In some communities, up to 5% of 11 and 12-year-olds are already smoking, and the report revealed that girls as young as 11 are trying e-cigarettes and finding them easy to get hold of. Yes, there are programmes in place to discourage smoking among young people, but the report suggests that more targeted awareness is needed, using things like social media. Minister, how is the Welsh Government working with partners to further educate young people and their parents about the dangers of smoking and to raise awareness of stop-smoking services?

Yr wythnos diwethaf, cyhoeddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru adroddiad a oedd yn dangos faint o ferched ifanc sy'n ysmegu mewn rhannau o ogledd Cymru. Mewn rhai cymunedau, mae hyd at 5% o blant 11 a 12 mlwydd oed eisoes yn ysmegu, a datgelodd yr adroddiad bod merched mor ifanc ag 11 yn rhoi cynnig ar e-sigarêts ac yn ei chael hi'n rhwydd cael gafael arnynt. Oes, mae rhaglenni ar waith i atal ysmegu ymhlith pobl ifanc, ond mae'r adroddiad yn awgrymu bod angen ymwybyddiaeth wedi ei dargedu'n well, gan ddefnyddio pethau fel cyfryngau cymdeithasol. Weinidog, sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i addysgu pobl ifanc a'u rhieni ymhellach am beryglon ysmegu ac i godi ymwybyddiaeth o wasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:54

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I mentioned our tobacco control action plan, and that work is being taken forward with Public Health Wales, and with partners such as Action on Smoking and Health. We continue to roll out the ASSIST programme, which, you will be aware, is a peer-led intervention that is now in approximately 60—sorry; it is going out to 45 to 60 secondary schools every academic year. We have Stop Smoking Wales, which provides support to young people aged 12 to 17, to help them to stop smoking, and, again, the sessions are delivered on a one-to-one basis, which I think is very important. You mentioned e-cigarettes and young people being able to access them; you will be aware that we passed a legislative consent motion in January that allows regulations to be taken forward relating to the age of sale.

Soniais am ein cynllun gweithredu ar reoli tybaco, a bod gwaith yn cael ei wneud gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru, a chyda phartneriaid fel Action on Smoking and Health. Rydym ni'n parhau i gyflwyno'r rhaglen ASSIST, sydd, fel y byddwch yn gwybod, yn ymyrraeth a arweinir gan gyfoedion sydd bellach mewn tua 60—mae'n ddrwg gennyf; mae'n mynd allan i 45 i 60 o ysgolion uwchradd bob blwyddyn academaidd. Mae gennym ni Dim Smygu Cymru, sy'n rhoi cymorth i bobl ifanc 12 i 17 oed, i'w helpu i roi'r gorau i ysmegu, ac, unwaith eto, darperir y sesiynau ar sail un i un, sy'n bwysig iawn yn fy marn i. Soniasoch am e-sigarêts a phobl ifanc yn gallu cael gafael arnynt; byddwch yn ymwybodol i ni basio cynnig cydsyniad deddfwriaethol ym mis Ionawr sy'n caniatáu rheoliadau i gael eu dwyn ymlaen yn ymwneud â'r oedran gwerthu.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:55

Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, according to the anti-smoking group, ASH, children who live with parents who smoke are up to three times more likely to become smokers themselves. It estimates that around 23,000 people in England and Wales start smoking by the age of 15 as a result of exposure to smoking at home. What further action can the Welsh Government take to educate parents about the effect of smoking in front of their children?

Weinidog, yn ôl y grŵp gwrth-ysmygu, ASH, mae plant sy'n byw gyda rhieni sy'n ysmegu hyd at dair gwaith yn fwy tebygol o fod yn ysmygwyr eu hunain. Mae'n amcangyfrif bod tua 23,000 o bobl yng Nghymru a Lloegr yn dechrau ysmegu yn 15 oed o ganlyniad i amlygiad i ysmegu yn y cartref. Pa gamau pellach all Llywodraeth Cymru eu cymryd i addysgu rhieni am effaith ysmegu yng ngŵydd eu plant?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:55

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

One of the initiatives that the Welsh Government brought forward was the Fresh Start Wales campaign to stop people smoking in cars, particularly when children and young people were also travelling. You will be aware that it promoted smoke-free cars, and I think that it also made parents think twice about doing it. It was something that, I think, has been very successful.

Un o'r mentrau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru oedd yr ymgyrch Cychwyn Iach Cymru i atal pobl rhag ysmegu mewn ceir, yn enwedig pan fo plant a phobl ifanc hefyd yn teithio. Byddwch yn ymwybodol ei bod yn hyrwyddo ceir di-fwg, ac rwy'n credu ei bod hefyd wedi gwneud i rieni feddwl ddwywaith am ei wneud. Roedd yn rhywbeth, rwy'n credu, sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:56

Lindsay Whittle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, figures published by Public Health England recently showed that the number of children accessing treatment services for cannabis addiction has risen by 50% in the last seven years. Cannabis, as you may know, is a weed that is primarily smoked, unless you like it in cake. How are you responding to the use of cannabis smoking among young people in Wales and are you familiar with recent Wales-only trends?

Weinidog, mae ffigurau a gyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Lloegr yn ddiweddar yn dangos bod nifer y plant sy'n manteisio ar wasanaethau triniaeth ar gyfer caethiwed i ganabis wedi codi o 50% yn ystod y saith mlynedd diwethaf. Chwynnyn, fel y gwyddoch, yw canabis, sy'n cael ei ysmegu yn bennaf, oni bai eich bod yn ei hoffi mewn cacen. Sut ydych chi'n ymateb i'r defnydd o ysmegu canabis ymhlith pobl ifanc yng Nghymru ac a ydych chi'n gyfarwydd â thueddiadau diweddar Cymru yn unig?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:56	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography I am not familiar with Wales trends, unfortunately, but I will ask the Minister for Health and Social Services to write to the Member.	Nid wyf yn gyfarwydd â thueddiadau Cymru, yn anffodus, ond gofynnaf i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ysgrifennu at yr Aelod.	Senedd.tv Fideo Video
Twristiaeth Ffydd		Faith Tourism	
13:56	Darren Millar Bywgraffiad Biography <i>5. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer twristiaeth ffydd yng Nghymru? OAQ(4)1736(FM)</i>	<i>5. Will the First Minister make a statement on Welsh Government support for faith tourism in Wales? OAQ(4)1736(FM)</i>	Senedd.tv Fideo Video
13:56	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography We fully recognise the importance of faith tourism and the Minister for Economy, Science and Transport officially launched the faith tourism action plan on 25 October 2013. A working group has been established to prioritise the action plan and agree a few key actions to be delivered jointly in the short term. This work is moving ahead.	Rydym yn llwyr gydnabod pwysigrwydd twristiaeth ffydd a lansiodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth y cynllun gweithredu ar dwristiaeth ffydd yn swyddogol ar 25 Hydref 2013. Mae gweithgor wedi ei sefydlu i flaenoriaethu'r cynllun gweithredu a chytuno ar ychydig o gamau allweddol i'w cyflwyno ar y cyd yn y tymor byr. Mae'r gwaith hwn yn symud yn ei flaen.	Senedd.tv Fideo Video
13:57	Darren Millar Bywgraffiad Biography Thank you for that answer, Minister. I am grateful for the commitment of the Welsh Government to faith tourism, in spite of some recent articles that suggest that there is not the same fondness for faith tourism from some of your backbenchers. May I ask you, Minister, to congratulate with me the people who are responsible for the development of the north Wales pilgrim's way, which is a route that traverses the whole of north Wales and is a great opportunity to attract visitors, particularly those from overseas, who want to spend a longer period on holiday here in Wales? What support are you giving to the marketing opportunities for the north Wales pilgrim's way, particularly in terms of those people who are overseas who may want the opportunity to spend longer here and therefore benefit the economy to a greater extent than usual?	Diolch i chi am yr ateb yna, Weinidog. Rwy'n ddiolchgar am ymrwymiad Llywodraeth Cymru i dwristiaeth ffydd, er gwaethaf rhai erthyglau diweddar sy'n awgrymu nad oes yr un hoffter at dwristiaeth ffydd ymhlith rhai o aelodau eich meinciau cefn. A gaf i ofyn i chi, Weinidog, i longyfarch gyda mi y bobl sy'n gyfrifol am ddatblygu ffordd bererinion gogledd Cymru, sy'n llwybr sy'n mynd trwy bob rhan o ogledd Cymru ac yn gyfle gwych i ddenu ymwelwyr, yn enwedig y rhai o dramor, a hoffai dreulio cyfnod hirach ar eu gwyliau yma yng Nghymru? Pa gymorth ydych chi'n ei roi i'r cyfleoedd marchnata ar gyfer ffordd bererinion gogledd Cymru, yn enwedig o ran y bobl hynny sydd dramor a allai ddymuno cael y cyfle i dreulio mwy o amser yma ac felly bod o fudd i'r economi i raddau mwy nag arfer?	Senedd.tv Fideo Video
13:58	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography Visit Wales is making the most of opportunities to promote the north Wales pilgrim's way. It is going to be officially launched by the Minister for Culture and Sport in July. It is also supported by Cadw and European funding.	Mae Croeso Cymru yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i hyrwyddo ffordd bererinion gogledd Cymru. Bydd yn cael ei lansio'n swyddogol gan y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon ym mis Gorffennaf. Fe'i cefnogir hefyd gan Cadw a chyllid Ewropeaidd.	Senedd.tv Fideo Video
13:58	Peter Black Bywgraffiad Biography Minister, I welcome the work that the Minister for the economy has put into developing the Cistercian way, particularly in south Wales. May I ask whether the Government intends to follow up this very important work with more investment in marketing that particular walking route, to try to promote the religious and historical heritage of the Cistercians in Wales?	Weinidog, rwy'n croesawu'r gwaith y mae Gweinidog yr economi wedi ei wneud i ddatblygu'r ffordd Sistersaidd, yn enwedig yn y de. A gaf i ofyn a yw'r Llywodraeth yn bwriadu dilyn y gwaith pwysig iawn hwn gyda mwy o fuddsoddiad mewn marchnata'r llwybr cerdded penodol hwnnw, i geisio hyrwyddo treftadaeth grefyddol a hanesyddol y Sistersiaid yng Nghymru?	Senedd.tv Fideo Video

13:58

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I understand that the Minister for Economy, Science and Transport is looking at that. As you are aware, the working group has been established to prioritise the action plan, and I am sure that that group will also look into the trail that you mentioned.

Rwy'n deall bod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn ystyried hynny. Fel y gwyddoch, mae'r gweithgor wedi cael ei sefydlu i flaenoriaethu'r cynllun gweithredu, ac rwy'n siŵr y bydd y grŵp hwnnw hefyd yn ystyried y llwybr a grybwyllwyd gennych.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diogelwch ar y Rhyngwrwd

Internet Safety

13:59

Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

6. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo diogelwch ar y rhyngwrwd ar gyfer plant? OAQ(4)1737(FM)

6. Will the First Minister make a statement on how the Welsh Government is promoting internet safety for children? OAQ(4)1737(FM)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:59

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Welsh Government has awarded a contract to South West Grid for Learning to deliver e-safety awareness-raising activities and provide e-safety tools and resources for teachers, pupils and parents. Safer Internet Day, held on 11 February 2014, was supported by the Welsh Government with organised events in schools and colleges.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu contract i South West Grid for Learning i ddarparu gweithgareddau codi ymwybyddiaeth e-ddiogelwch a darparu offer ac adnoddau e-ddiogelwch i athrawon, disgyblion a rhieni. Cefnogwyd Diwrnod Defnyddio'r Rhyngwrwd yn Fwy Diogel, a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2014, gan Lywodraeth Cymru drwy ddigwyddiadau wedi eu trefnu mewn ysgolion a cholegau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:59

Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that answer, Minister. A fortnight ago, I had the privilege of going to Ysgol Llywelyn primary school in Rhyl, which has an e-cadets scheme. They offered me the patron-ship of the e-cadets there. Why they should offer a luddite patron-ship of e-cadets, I do not know, but anyway, I accepted that. To do that, I took some challenges along with them about how to do things. It is a mentoring scheme that allows youngsters and pupils to be trained in internet safety. They discuss the issues around cyber bullying and how to be safe on the internet so that they do not say, 'We are off on our holiday to Florida with Mum and Dad', which leaves the house empty and people knowing all of those things. Those were the things that they were telling me that they had learned from this scheme. So, this is an excellent scheme, and it is the first school in Denbighshire to do this eCadets programme. I would have invited the First Minister—I still will invite the First Minister—and I invite perhaps the Minister for education and you, in local government, to go to the school to talk to those children about how they will mentor the rest of their peers in internet safety. This, I think, is an excellent way of looking at internet safety. I congratulate Ysgol Llywelyn, which is in for a national award as well. I hope that it will get that award, which would prove that we can do things right in Rhyl.

Diolch i chi am yr ateb yna, Weinidog. Bythefnos yn ôl, cefais y fraint o fynd i ysgol gynradd Llywelyn yn y Rhyl, sydd â chynllun e-gadetaid. Cefais y cynnig ganddynt o fod y noddwr ar gyfer yr e-gadetaid yno. Pam maen nhw'n cynnig i Ludiad fod yn noddwr e-gadetaid, wn i ddim, ond both bynnag, derbyniais hynny. I wneud hynny, cymerais rai heriau ynghyd â nhw ynglŷn â sut i wneud pethau. Cynllun mentora ydyw sy'n caniatáu i bobl ifanc a disgyblion gael eu hyfforddi mewn diogelwch ar y rhyngwrwd. Maen nhw'n trafod y materion yn ymwneud â seiber-fwllo a sut i fod yn ddiogel ar y rhyngwrwd fel nad ydynt yn dweud, 'Rydym ni'n mynd ar ein gwyliau i Florida gyda Mam a Dad', sy'n gadael y tŷ yn wag a phobl yn gwybod yr holl bethau hynny. Dyna'r pethau yr oedden nhw'n ei ddweud wrthyf i eu bod wedi eu dysgu o'r cynllun hwn. Felly, mae hwn yn gynllun rhagorol, a dyma'r ysgol gyntaf yn Sir Ddinbych i ddilyn y rhaglen e-gadetaid hon. Byddwn wedi gwahodd y Prif Weinidog—byddaf yn dal i wahodd y Prif Weinidog—ac rwy'n gwahodd efallai'r Gweinidog addysg a chithau, mewn llywodraeth leol, i fynd i'r ysgol i siarad â'r plant hynny am sut y byddant yn mentora gweddill eu cyfoedion mewn diogelwch ar y rhyngwrwd. Mae hon, rwy'n credu, yn ffordd ardderchog o edrych ar ddiogelwch ar y rhyngwrwd. Rwy'n llongyfarch Ysgol Llywelyn, sydd wedi ei henwebu ar gyfer gwobr genedlaethol hefyd. Rwy'n gobeithio y bydd yn ennill y wobwr honno, a fyddai'n profi ein bod yn gallu gwneud pethau'n iawn yn y Rhyl.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:00 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Certainly. I would also like to congratulate Ysgol Llywelyn, and I think I would like to invite the Deputy Minister for Skills and Technology, Ken Skates, to visit, because the Deputy Minister is doing a great deal of work to enhance internet safety. We do take it very seriously, and it is a very important point that you raise. We have, I think, as a Government, developed a very dynamic e-safety zone for the Learning Hub platform, which provides up-to-date information to children, parents and teachers on developing safe and responsible online behaviours.
- Yn sicr. Hoffwn innau hefyd longyfarch Ysgol Llywelyn, ac rwy'n meddwl yr hoffwn wahodd y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg, Ken Skates, i ymweld, gan fod y Dirprwy Weinidog yn gwneud llawer iawn o waith i wella diogelwch ar y rhyngwrwyd. Rydym yn ei gymryd o ddirif, ac mae'n bwynt pwysig iawn yr ydych chi'n ei godi. Rydym ni, rwy'n credu, fel Llywodraeth, wedi datblygu parth e-ddiogelwch deinamig iawn ar gyfer y llwyfan Canolfan Ddysgu, sy'n darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i blant, rhieni ac athrawon ar ddatblygu ymddygiad ar-lein diogel a chyfrifol.
- 14:01 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Weinidog, mae cyswllt cyfoedion, megis drwy 'eCadets' neu'r cynllun mentora yn Ysgol Gyfun Pontarddulais—gobeithio bod Ken Skates eisiau dod i Bontarddulais hefyd—yn effeithiol iawn wrth fynd i'r afael â seiberfwlio. Yn ogystal â chyfoedion, fodd bynnag, efallai y bydd angen i ddiodefwyr seiberfwlio siarad ag oedolion cyfrifol. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn sôn wrth rieni a gofawyr heb gyfrifiaduron am seiberfwlio, er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o'r risgiau a lle i ganfod gwasanaethau cymorth?
- Minister, peer support groups such as eCadets or the mentoring scheme in Pontarddulais Comprehensive School—and I hope that Ken Skates might want to visit Pontarddulais also—are very effective ways of tackling cyber bullying. However, in addition to peer support, those suffering from cyber bullying may also need to speak to responsible adults. So, how does the Welsh Government actually inform parents and carers without computers about cyber bullying so that they can be aware of the risks and of where to find support services?
- 14:02 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Certainly, in my own constituency, I have seen hard copies of information in libraries, for instance, but I think it is really important that it is an issue that is talked about, because we know, unfortunately, that many people suffer from cyber bullying. So, it is a matter that we do take very seriously.
- Yn sicr, yn fy etholaeth fy hun, rwyf wedi gweld copiau caled o wybodaeth mewn llyfrgelloedd, er enghraifft, ond rwy'n credu ei bod yn wirioneddol bwysig ei fod yn fater sy'n cael ei drafod, gan ein bod yn gwybod, yn anffodus, bod llawer o bobl yn dioddef o seiber-fwlio. Felly, mae'n fater yr ydym yn ei gymryd o ddirif.
- 14:02 **Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, the Stop it Now campaign helps to keep children safe online, and I recently attended one of its classes in Saron, where parents, grandparents and carers learned practical tips about internet safety. Rather than them fretting and feeling helpless, it gave them the tools that they need to protect their children when they are using the internet and social media. Minister, what I ask of the Government is continued support for such schemes that teach those people the skills that they need to protect the children that they are looking after.
- Weinidog, mae ymgyrch Stop it Now yn helpu i gadw plant yn ddiogel ar-lein, ac roeddwn yn bresennol yn ddiweddar yn un o'i dosbarthiadau yn Saron, lle cafodd rhieni, neiniau a theidiau a gofawyr gyngor ymarferol ar ddiogelwch ar y rhyngwrwyd. Yn hytrach na'u bod yn poeni a theimlo nad oes dim y gallant ei wneud, rhoddwyd y dulliau sydd eu hangen arnynt i ddiogelu eu plant pan eu bod yn defnyddio'r rhyngwrwyd a chyfryngau cymdeithasol. Weinidog, yr hyn yr wyf yn gofyn amdano gan y Llywodraeth yw cefnogaeth barhaus i gynlluniau o'r fath sy'n addysgu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i'r bobl hynny er mwyn iddynt allu diogelu'r plant y maen nhw'n gofalu amdanynt.
- 14:03 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, I think you can certainly have that commitment from me on behalf of the Government. The Minister for Education and Skills and the Deputy Minister for Skills and Technology are, as I said, doing a great deal to enhance internet safety. Another important area that they focus on is that they have increased the amount of resources available through the medium of the Welsh language.
- Ie, rwy'n credu y gallwch chi'n sicr gael yr ymrwymiad hwnnw gennyf i ar ran y Llywodraeth. Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau a'r Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg, fel y dywedais, yn gwneud llawer iawn i wella diogelwch ar y rhyngwrwyd. Maes pwysig arall y maen nhw'n canolbwyntio arno yw eu bod wedi cynyddu faint o adnoddau sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg.

Clustogfeydd o Gwmpas Safleoedd Glo Brig

Buffer Zones Around Opencast Sites

14:03	<p>Lynne Neagle Bywgraffiad Biography</p> <p><i>7. Pa gamau a fydd y Prif Weinidog yn eu cymryd i sicrhau y glynir at bolisi Llywodraeth Cymru ar glustogfeydd o gwmpas safleoedd glo brig? OAQ(4)1752(FM)</i></p>	<p><i>7. What steps will the First Minister take to ensure Welsh Government policy on buffer zones around opencast sites is adhered to? OAQ(4)1752(FM)</i></p>	Senedd.tv Fideo Video
14:03	<p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>Steps are already taken to ensure policy on buffer zones is adhered to. The Welsh Government is fully engaged in the preparation of local development plans. Each stage of the plan process is scrutinised to ensure relevant national planning policy is reflected. This includes the buffer zone policy in 'Minerals Technical Advice Note 2: Coal'.</p>	<p>Mae camau wedi eu cymryd eisoes i sicrhau y cydymffurfir â pholisi ar glustogfeydd. Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan lawn yn y gwaith o baratoi cynlluniau datblygu lleol. Craffir ar bob cam o broses y cynllun i sicrhau yr adlewyrchir y polisi cynllunio cenedlaethol perthnasol. Mae hyn yn cynnwys y polisi ar glustogfeydd yn 'Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2: Glo'.</p>	Senedd.tv Fideo Video
14:03	<p>Lynne Neagle Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you, Minister. It has emerged that Glamorgan Power is formally liaising with Torfaen council to submit a fresh application to opencast at Varteg. While I know that you cannot comment on specifics, it is clear that its plans will remain in breach of MTAN 2. Moving forward, planning inspectors' interpretation of that guidance will be crucial, and the First Minister has said in the past that it must be ashered to. In light of a recent letter to the Petitions Committee that said that inspectors could not answer questions about future or past decisions involving the MTAN, how can we ensure this key aim of our planning system respects that guidance on buffer zones, which has been backed unanimously by Members of this Assembly?</p>	<p>Diolch i chi, Weinidog. Mae wedi dod i'r amlwg bod Glamorgan Power mewn trafodaethau ffurfiol â chyngor Torfaen i gyflwyno cais newydd ar gyfer cloddio glo brig yn y Farteg. Er fy mod yn gwybod na allwch chi wneud sylwadau ar agweddau penodol, mae'n amlwg y bydd ei gynlluniau yn parhau i fod yn groes i MTAN 2. Wrth symud ymlaen, bydd dehongliad arolygwyr cynllunio o'r canllawiau hynny yn hollbwysig, ac mae'r Prif Weinidog wedi dweud yn y gorffennol bod yn rhaid cydymffurfio â nhw. Yng ngoleuni llythyr diweddar at y Pwyllgor Deisebau a ddywedodd na allai arolygwyr ateb cwestiynau am benderfyniadau yn y dyfodol na'r gorffennol yn ymwneud â'r MTAN, sut y gallwn ni sicrhau bod y nod allweddol hwn o'n system gynllunio yn parchu'r canllawiau hynny ar glustogfeydd, sydd wedi cael cefnogaeth unfrydol Aelodau'r Cynulliad hwn?</p>	Senedd.tv Fideo Video
14:04	<p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>As you said, I cannot comment on specifics. I know that you have campaigned a great deal on this, and the Minister for Housing and Regeneration takes your concerns very seriously. I am confident that he is just as keen to observe how Government policy is being implemented. There are several points in your question, and I would ask you to write to the Minister for Housing and Regeneration regarding the concerns.</p>	<p>Fel y dywedaso, ni allaf wneud sylwadau ar agweddau penodol. Gwn eich bod wedi ymgyrchu llawer iawn ar hyn, ac mae'r Gweinidog Tai ac Adfywio yn trin eich pryderon yn ddifrifol iawn. Rwy'n hyderus ei fod yr un mor awyddus i arsylwi sut mae polisi'r Llywodraeth yn cael ei weithredu. Mae nifer o bwyntiau yn eich cwestiwn, a byddwn yn gofyn i chi ysgrifennu at y Gweinidog Tai ac Adfywio ynglŷn â'r pryderon.</p>	Senedd.tv Fideo Video
14:05	<p>William Graham Bywgraffiad Biography</p> <p>The First Minister kindly replied to me on the same subject, stating that:</p> <p>'There is no question that the 500m buffer zone is contained in the planning guidance, and...must be given appropriate weight with any planning application regarding opencast mining'</p> <p>and mineral extraction. Despite this, applications for development challenging this guidance are being proposed. Does the Minister not think that stronger direction is needed in this respect?</p>	<p>Atebodd y Prif Weinidog yn garedig i mi ar yr un pwnc, gan ddweud:</p> <p>'Nid oes unrhyw amheuaeth bod y glustogfa 500m wedi ei chynnwys yn y canllawiau cynllunio, ac...mae'n rhaid rhoi pwys priodol i hynny o ran unrhyw gais cynllunio ar gyfer cloddio glo brig'</p> <p>ac echdynnu mwynau. Er gwaethaf hyn, mae ceisiadau ar gyfer datblygu sy'n herio'r canllawiau hyn yn cael eu cynnig. Onid yw'r Gweinidog yn credu bod angen cyfeiriad cryfach yn hyn o beth?</p>	Senedd.tv Fideo Video

14:05 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

No. I think the nature of the planning system is that discretion is given to decision makers in order that the best and most appropriate solution can be obtained in the right location. That is the strength of the system. However, MTAN 2 does provide a framework for this to happen. Officials obviously scrutinise the preparation of local development plans for each local authority at each stage to ensure that the relevant national planning policy is reflected.

Nac ydw. Rwy'n credu mai natur y system gynllunio yw rhoi disgrisiwn i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau er mwyn gallu dod o hyd i'r ateb gorau a mwyaf priodol yn y lleoliad cywir. Dyna gryfder y system. Fodd bynnag, mae MTAN 2 yn darparu fframwaith i hyn ddigwydd. Mae swyddogion yn amlwg yn craffu ar y gwaith o baratoi cynlluniau datblygu lleol ar gyfer pob awdurdod lleol ar bob cam er mwyn sicrhau yr adlewyrchir y polisi cynllunio cenedlaethol perthnasol.

14:06 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

There is a tendency, of course, when proposals, very often for opencast, come forward for individuals and communities to oppose—quite rightly, very often—but, in doing so, they rarely bring forward a positive alternative. So, would you join me in welcoming the exciting proposals put forward by local residents for the establishment of the Varteg Hill history trail and nature reserve at the former site of the Varteg Hill pit as an alternative to opencast development? It is a proposal that would provide a unique experience for tourists, it would safeguard the history and special heritage features of the site, it would protect the local environment, and would provide an excellent local amenity.

Ceir tuedd, wrth gwrs, pan gaiff cynigion, yn aml iawn ar gyfer glo brig, eu cyflwyno i unigolion a chymunedau eu gwrthwynebu—yn ddigon teg, yn aml iawn—ond, wrth wneud hynny, anaml y maen nhw'n cynnig dewis arall cadarnhaol. Felly, a wnewch chi ymuno â mi i groesawu'r cynigion cyffrous a gyflwynwyd gan drigolion lleol ar gyfer sefydlu llwybr hanes a gwarchodfa natur Mynydd y Farteg ar hen safle pwll Mynydd y Farteg fel dewis arall yn hytrach na datblygiad glo brig? Mae'n gynnig a fyddai'n rhoi profiad unigryw i dwristiaid, byddai'n diogelu nodweddion hanes a threftadaeth arbennig y safle, byddai'n amddiffyn yr amgylchedd lleol, a byddai'n darparu amwynder lleol ardderchog.

14:06 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

It certainly sounds as if some good work is being done there. It is very good to see members of the public engaging in such a way.

Mae'n sicr yn swnio fel pe byddai gwaith da yn cael ei wneud yno. Mae'n dda iawn gweld y cyhoedd yn ymgysylltu yn y fath fodd.

Iechyd Menywod

Women's Health

14:06 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

8. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella iechyd menywod yng Nghymru? OAQ(4)1755(FM)

8. What steps is the Welsh Government taking to improve women's health in Wales? OAQ(4)1755(FM)

14:06 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The Welsh Government remains committed to providing high-quality, safe and sustainable health services for the people of Wales. 'Together for Health' sets out our vision for meeting the specific needs of population groups. For women, these include services such as breast and cervical screening and HPV vaccination.

Mae Llywodraeth Cymru yn dal i fod wedi ymrwmo i ddarparu gwasanaethau iechyd o ansawdd uchel, diogel a chynaliadwy i bobl Cymru. Mae 'Law yn Llaw at Iechyd' yn amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer diwallu anghenion penodol grwpiau poblogaeth. I fenywod, mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau fel sgrinio'r fron a sgrinio serfigol a brechiad HPV.

14:07 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I thank the Minister for that response. I am sure that the Minister is aware that Cervical Screening Awareness Week was held this month, and although the percentage of eligible women in Wales of all ages who take up this test is 80%, for younger women and for women from black and minority ethnic groups, the percentage is much lower. What could the Welsh Government do to try to increase take-up among those groups of what is really a life-saving test?

Diolchaf i'r Gweinidog am yr ymateb yna. Rwy'n siŵr bod y Gweinidog yn ymwybodol y cynhaliwyd Wythnos Ymwybyddiaeth Sgrinio Serfigol y mis hwn, ac er mai 80% yw canran y menywod cymwys o bob oedran yng Nghymru sy'n manteisio ar y prawf hwn, mae'n ganran yn llawer is ymhlith menywod iau a menywod o gymunedau du a grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Beth allai Llywodraeth Cymru ei wneud i geisio cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar brawf, sydd wir yn achub bywydau, ymhlith y grwpiau hynny?

14:07

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, absolutely. The uptake of cervical screening, as you said, has remained quite constant at around 80%, but we are aware that there is some variation in uptake rates and within certain groups such as black and minority ethnic women. I remember, when I was the Minister for Health and Social Services, going to a specific health fair held in Cardiff for black and minority ethnic communities, where women were encouraged to come in and access these services, which they did not normally do. So, events such as that, which the Welsh Government both funds and supports, are very useful in that respect.

le, yn hollol. Mae'r nifer sy'n manteisio ar sgrinio serfigol, fel y dywedasoch, wedi aros yn weddol gyson ar tua 80%, ond rydym ni'n ymwybodol bod rhywfaint o amrywiaeth yn y cyfraddau sy'n manteisio ac o fewn grwpiau penodol fel menywod du a lleiafrifoedd ethnig. Rwy'n cofio, pan yr oeddwn i'n Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mynd i ffair iechyd benodol a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ar gyfer cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, lle yr anogwyd menywod i ddod i mewn a defnyddio'r gwasanaethau hyn, nad oeddent yn ei wneud fel rheol. Felly, mae digwyddiadau o'r fath, y mae Llywodraeth Cymru yn eu hariannu a'u cefnogi, yn ddefnyddiol iawn yn hynny o beth.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:08

Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, recent cancer statistics released in April show that two thirds of all new cancer cases in 2012 were in those aged 65 and over, and the chance of developing breast cancer, the most common cancer for women, increases with age. Breast Cancer Care found that older women were unaware of their increased breast cancer risk. In Wales, the age for screening is from 50 to 70, but, in England, the age range for screening accessibility is now gradually increasing from the age of 47 and is already up to 73. Will the Welsh Government commit to extending the age range in Wales so that older Welsh patients are not at an increased risk compared to their English counterparts?

Weinidog, mae ystadegau canser diweddar a gyhoeddwyd yn mis Ebrill yn dangos bod dwy ran o dair o'r holl achosion canser newydd yn 2012 ymhlith y rhai 65 oed a hŷn, ac mae'r siawns o ddatblygu canser y fron, y canser mwyaf cyffredin ymhlith menywod, yn cynyddu gydag oedran. Canfu Breast Cancer Care nad oedd menywod hŷn yn ymwybodol o'u risg uwch o gael canser y fron. Yng Nghymru, rhwng 50 a 70 yw'r oedran ar gyfer sgrinio, ond, yn Lloegr, mae'r ystod oedran ar gyfer hygyrchedd sgrinio bellach yn cynyddu'n raddol o 47 oed ac mae eisoes wedi cyrraedd 73. A wnaiff Llywodraeth Cymru ymrwymo i ymestyn yr ystod oedran yng Nghymru fel nad yw cleifion hŷn yng Nghymru mewn mwy o berygl o'u cymharu â'u cymheiriaid yn Lloegr?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:09

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, the age range for services such as screening, when patients are called for mammograms, et cetera, is something that is monitored; evidence is taken from the UK National Screening Committee, and the Minister for Health and Social Services will take advice from it as he looks at the age range of that service.

Wel, mae'r ystod oedran ar gyfer gwasanaethau fel sgrinio, pan elwir cleifion am famogramau, ac ati, yn rhywbeth sy'n cael ei fonitro; derbynnir tystiolaeth gan Bwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU, a bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cymryd cyngor ganddo wrth iddo ystyried ystod oedran y gwasanaeth hwnnw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:09

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, efallai y gweloch y bore yma fy mod i, ar ran Plaid Cymru, wedi lansio dogfen newydd, 'Ysbrydoli Cymru: Cynyddu Cyfranogiad mewn Chwaraeon', yng nghydestun yr hyn y gallwn ei wneud i annog mwy o bobl i gymryd rhan mewn chwaraeon, mewn pa bynnag ffordd, yma yng Nghymru. Bu inni wneud yr adroddiad yn benodol oherwydd ein bod wedi ffeindio mas bod llawer o ferched a menywod ifanc nad oeddent yn cymryd rhan mewn chwaraeon bellach. A gaf ofyn yn benodol beth ydych yn ei wneud o fewn y sector hwn? Rwyf yn ymwybodol o'r gwaith y mae Tanni Grey-Thompson a Laura McAllister wedi ei wneud, ond beth yn gymwys a ydym yn gallu ei wneud yng Nghymru i sicrhau bod mwy o bobl ifanc, yn enwedig merched ifanc, yn ymwneud â'r byd corfforol?

Minister, you may have seen this morning that I, on behalf of Plaid Cymru, have launched a new document, 'Inspire Wales: Increasing Participation in Sport', in the context of what we can do to encourage more people to take part in sport, in whatever way, here in Wales. We wrote the report particularly because we found that many girls and young women were not participating in sport any more. May I ask you specifically what you are doing in this particular sector? I am aware of the work that Tanni Grey-Thompson and Laura McAllister have done, but what exactly can we do here in Wales to ensure that more young people, particularly young women and girls, become involved in physical activity?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:10

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I was aware of your launch this morning, and I know that you are having a debate in the Chamber tomorrow, which we will obviously enjoy participating in. I know that the Minister for Culture and Sport is aware of concerns, particularly, as you said, about girls and young women who get out of physical education when they can; as the mother of two daughters, I remember it very well. I think it is something that the Minister is very keen on promoting. You mentioned the work undertaken with Tanni Grey-Thompson and Laura McAllister. It is important, as we have big events, such as the Commonwealth Games coming up in a month's time, that we build on that to encourage girls and young women to enjoy sport far more than they do at the current time.

Roeddwn i'n ymwybodol o'ch lansiad y bore yma, ac rwy'n gwybod eich bod yn cael dadl yn y Siambr yfory, a byddwn yn amlwg yn mwynhau cymryd rhan ynddi. Gwn fod y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon yn ymwybodol o bryderon, yn enwedig, fel y dywedaso, am ferched a menywod ifanc sy'n rhoi'r gorau i addysg gorfforol pan y cânt; fel mam i ddwy ferch, rwy'n cofio hynny'n dda iawn. Rwy'n credu ei fod yn rhywbeth y mae'r Gweinidog yn awyddus iawn i'w hyrwyddo. Soniasoch am y gwaith a wnaed gyda Tanni Grey-Thompson a Laura McAllister. Mae'n bwysig, gan fod gennym ddigwyddiadau mawr, fel Gemau'r Gymanwlad ymhen mis, ein bod yn adeiladu ar hynny i annog merched a menywod ifanc i fwynhau chwaraeon llawer mwy nag y maen nhw'n ei wneud ar hyn o bryd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Polisi Ynni

Energy Policy

14:10

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

9. *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisi ynni Llywodraeth Cymru?* OAQ(4)1746(FM)

'Energy Wales: A Low Carbon Transition' sets out our ambition to develop a low carbon energy system that enhances the economic, social and environmental wellbeing of the people and communities of Wales. The recently published 'Energy Wales' delivery plan articulates progress and indicates the actions needed to achieve our ambitions.

9. *Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's energy policy?* OAQ(4)1746(FM)

Mae 'Ynni Cymru: Newid Carbon Isel' yn nodi ein huchelgais i ddatblygu system ynni carbon isel sy'n gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau Cymru. Mae cynllun cyflawni 'Ynni Cymru', a gyhoeddwyd yn ddiweddar, yn nodi'r cynnydd a'r camau sydd eu hangen i gyflawni ein huchelgeisiau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you for your answer. Notwithstanding the legitimate concerns and opposition to fracking, do you agree that the resources of Wales belong to the people of Wales, and that revenues resulting from any potential future exploitation of Welsh unconventional gas resources should be collected by the Welsh Government?

Diolch i chi am eich ateb. Er gwaethaf y pryderon a'r gwrthwynebiad dilys i ffracio, a ydych chi'n cytuno bod adnoddau Cymru yn eiddo i bobl Cymru, ac y dylai refferen sy'n deillio o unrhyw gamfanteisio posibl ar adnoddau nwy anghonfensiynol Cymru yn y dyfodol gael ei gasglu gan Lywodraeth Cymru?

Well, that is an issue of ongoing discussions between the Welsh Government and the UK Government, of which you will be aware.

Wel, mae hynny'n destun trafodaethau parhaus rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, fel y byddwch yn ymwybodol.

14:11

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I was disappointed by the prospectus that your colleague, the Minister for Natural Resources and Food, launched yesterday for two reasons: first, because it was not done in Wales on the floor of this Chamber, and, secondly, there was no mention in it of what should be seen as a key green economic driver—the expansion of community energy generation. Given that the Ynni'r Fro programme is to finish next year, how is the Welsh Government developing a comprehensive and robust strategy to enhance the delivery of the community energy sector for the next decade?

Weinidog, cefais fy siomi gan y prospectws a lansiwyd ddoe gan eich cydweithiwr, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, am ddau reswm: yn gyntaf, oherwydd na ddigwyddodd yng Nghymru ar lawr y Siambr hon, ac, yn ail, oherwydd nad oedd unrhyw sôn ynddo am yr hyn y dylid ei ystyried yn sbardun economaidd gwyrdd allweddol—ehangu cynhyrchiant ynni cymunedol. O gofio y bydd rhaglen Ynni'r Fro yn gorffen y flwyddyn nesaf, sut mae Llywodraeth Cymru yn datblygu strategaeth gynhwysfawr a chadarn i wella darpariaeth y sector ynni cymunedol ar gyfer y degawd nesaf?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:12 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The Minister for Natural Resources and Food did launch 'Green Growth Wales: Investing in the Future' yesterday. The prospectus was launched yesterday, as I said, and it sets out how the sustainable use of our natural resources can help create a new economic model that will deliver wealth creation and economic growth today and in the future, and I am sure that you will very much welcome the strategic commitments and practical actions that it set out.
- Fe wnaeth y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd lansio 'Twf Gwyrdd Cymru: Buddsoddi yn y Dyfodol' ddoe. Lanswyd y prospiectws ddoe, fel y dywedais, ac mae'n nodi sut y gall defnydd cynaliadwy o'n hadnoddau naturiol helpu i greu model economaidd newydd a fydd yn creu cyfoeth a thwf economaidd heddiw ac yn y dyfodol, ac rwy'n siŵr y byddwch yn croesawu'n fawr yr ymrwymadau strategol a'r camau ymarferol a nodir ynddo.
- Amseroedd Aros y GIG** **NHS Waiting Times**
- 14:12 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- 10. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu pa gamau sy'n cael eu cymryd i wella amseroedd aros y GIG ar gyfer trigolion Canol De Cymru? OAQ(4)1748(FM)*
- 10. Will the First Minister outline what steps are being taken to improve NHS waiting times for the residents of South Wales Central? OAQ(4)1748(FM)*
- 14:12 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Cardiff and Vale University Local Health Board and Cwm Taf Local Health Board, which together form South Wales Central, are each in the process of implementing their agreed three-year integrated medium-term plans, which include a range of actions and milestones to improve access to services through reduced waiting times.
- Mae Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf, sydd, gyda'i gilydd, yn ffurfio Canol De Cymru, wrthi'n gweithredu eu cynlluniau tair blynedd integredig tymor canolig y cytunwyd arnynt, sy'n cynnwys amrywiaeth o gamau a cherrig milltir i wella mynediad at wasanaethau trwy leihau amseroedd aros.
- 14:13 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Minister, for that answer. In South Wales Central, there are just short of 2,700 patients waiting over 36 weeks. That is quite an eye-watering figure just for one region of Wales to have to cope with. While I heard what you said in your answer to me, for many patients stuck on that waiting list, those words will be of little comfort. Can any of those patients expect to receive any respite from the eternal delay that they seem to be having in accessing the treatment that they have been diagnosed to have in the short term, certainly over the next two to three months? Can we expect to see some improvement in those horrendous figures in South Wales Central?
- Diolch i chi, Weinidog, am yr ateb yna. Yng Nghanol De Cymru, mae ychydig yn llai na 2,700 o gleifion yn aros dros 36 wythnos. Mae hwnnw'n ffigur enfawr i ddim ond un rhanbarth o Gymru orfod ymdopi ag ef. Er i mi glywed yr hyn a ddywedasoch yn eich ateb i mi, i lawer o gleifion sy'n dal i fod ar y rhestr aros honno, ni fydd y geiriau hynny'n fawr o gysur. A all unrhyw un o'r cleifion hynny ddisgwyl cael unrhyw ryddhad o'r oedi tragwyddol y mae'n ymddangos eu bod yn ei ddioddef wrth geisio cael gafael ar y driniaeth y maen nhw wedi derbyn diagnosis ar ei chyfer yn y tymor byr, yn sicr yn ystod y ddau i dri mis nesaf? A allwn ni ddisgwyl gweld rhywfaint o welliant i'r ffigurau erchyll hynny yng Nghanol De Cymru?
- 14:13 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- There is ongoing improvement, and the majority of patients in Wales continue to wait less than 26 weeks. Half of patients are actually waiting fewer than 10 weeks. It is disappointing to note the number of patients who are waiting over 36 weeks, but NHS Wales continues to work really hard to ensure that patients receive treatment in a timely manner and in order of clinical priority for both planned and urgent care. We must remember that, over the past 15 years, since the existence of this place, there has been a huge demand for NHS services, which has steadily risen. The NHS in Wales is performing better now than it was then.
- Ceir gwelliant parhaus, ac mae'r rhan fwyaf o gleifion yng Nghymru yn parhau i aros llai na 26 wythnos. Mae hanner y cleifion yn aros llai na 10 wythnos mewn gwirionedd. Mae'n siomedig nodi nifer y cleifion sy'n aros dros 36 wythnos, ond mae GIG Cymru yn parhau i weithio'n galed iawn i sicrhau bod cleifion yn derbyn triniaeth yn brydlon ac yn nhrefn blaenoriaeth glinigol ar gyfer gofal a drefnwyd a gofal brys. Mae'n rhaid i ni gofio, dros y 15 mlynedd diwethaf, ers bodolaeth y lle hwn, y bu galw mawr am wasanaethau'r GIG, sydd wedi cynyddu'n gyson. Mae'r GIG yng Nghymru yn perfformio'n well nawr nag yr oedd bryd hynny.

- 14:14 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, recently cancer charities have highlighted that the number of people waiting longer than six weeks in England for cancer diagnostic tests has doubled from 1% to 2% in the past year. Labour's opposition health spokesperson in the UK Government has described this as more evidence that the English NHS is going downhill. How do you think, then, he would describe the performance in Wales over the last two years, where the number of those waiting for more than eight weeks for a test such as a cystoscopy has gone from a staggering 35% to an even more staggering 45%?
- Weinidog, yn ddiweddar, mae elusennau canser wedi amlygu bod nifer y bobl sy'n aros mwy na chwe wythnos yn Lloegr am brofion diagnostig canser wedi dyblu o 1% i 2% yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae llefarydd iechyd yr wrthblaid Lafur yn Llywodraeth y DU wedi disgrifio hyn fel mwy o dystiolaeth bod y GIG yn Lloegr yn gwaethygu. Sut yn eich barn chi, felly, y byddai'n disgrifio'r perfformiad yng Nghymru dros y ddwy flynedd ddiwethaf, lle mae nifer y rhai sy'n aros am fwy nag wyth wythnos am brawf fel systosgopi wedi mynd o ganran syfrdanol o 35% i ganran hyd yn oed yn fwy syfrdanol o 45%?
- 14:15 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Looking at the latest figures, there has been an increase in performance in relation to cancer. This morning, the first e-mail that I looked at—it was to me as a constituency Assembly Member—was from somebody telling me how impressed they were with our cancer delivery plan and what excellent treatment their father had. So, while there are issues around certain diagnostic tests, the Minister for Health and Social Services has put extra funding in and we must not keep knocking the NHS in Wales.
- O edrych ar y ffigurau diweddaraf, bu gwelliant i berfformiad o ran canser. Y bore yma, roedd yr e-bost cyntaf i mi edrych arno—roedd ataf fi fel Aelod Cynulliad etholaeth—gan rywun yn dweud wrthyf pa mor falch ydoedd gyda'n cynllun cyflawni ar ganser a'r driniaeth ardderchog yr oedd ei dad wedi ei dderbyn. Felly, er bod problemau o ran profion diagnostig penodol, mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi darparu cyllid ychwanegol ac mae'n rhaid i ni roi'r gorau i feirniadu'r GIG yng Nghymru drwy'r amser.
- Rhaglen Cyflymu Cymru** **Superfast Cymru**
- 14:15 **Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- 11. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am raglen Cyflymu Cymru? OAQ(4)1754(FM)*
- 11. Will the First Minister provide an update on Superfast Cymru? OAQ(4)1754(FM)*
- 14:15 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The Superfast Cymru roll-out is progressing well. Over 156,000 premises have now been given access to fast fibre broadband thanks to the Superfast Cymru programme. The roll-out began in two thirds of unitary authorities during 2013-14, it will begin in all authorities during 2014-15 and it will be completed by spring 2016.
- Mae'r gwaith o gyflwyno Cyflymu Cymru yn mynd rhagddo'n dda. Mae dros 156,000 o safleoedd wedi cael mynediad at fand eang ffibr cyflym bellach diolch i raglen Cyflymu Cymru. Dechreuodd y broses o gyflwyno mewn dwy ran o dair o'r awdurdodau unedol yn ystod 2013-14, bydd yn dechrau ym mhob awdurdod yn ystod 2014-15 a bydd yn cael ei gwblhau erbyn gwanwyn 2016.
- 14:16 **Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I am delighted to learn this month that the project remains on track. Already, households and businesses in my region are benefiting from access to faster broadband speeds. At this point of the roll-out, is there a working timetable for the remainder of the project that communities can take a look at?
- Rwyf wrth fy modd o ddarganfod y mis hwn bod y prosiect yn parhau i fod ar y trywydd cywir. Eisoes, mae cartrefi a busnesau yn fy rhanbarth i yn elwa ar gael mynediad at fand eang cyflymach. Ar y pwynt hwn yn y broses gyflwyno, a oes amserlen waith ar gyfer gweddill y prosiect y gall cymunedau gymryd golwg arni?
- 14:16 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I mentioned the dates in my opening answer to you. I know that north Wales is way ahead of the game; a third of all properties that have been connected through Superfast Cymru are located in north Wales. We remain well ahead of the rest of the UK in rolling out superfast broadband to areas that are not served on a commercial basis. You will be aware also that we have invested over £18 million in improving broadband in south and west Wales and £14 million in north and mid Wales over the last three years.
- Soniais am y dyddiadau yn fy ateb agoriadol i chi. Rwy'n gwybod bod y gogledd ymhell ar y blaen i'r disgwyl; mae traean o'r holl adeiladau sydd wedi eu cysylltu drwy Cyflymu Cymru wedi eu lleoli yn y gogledd. Rydym yn dal i fod ymhell ar y blaen i weddill y DU o ran cyflwyno band eang cyflym iawn i ardaloedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu ar sail fasnachol. Byddwch yn ymwybodol hefyd ein bod wedi buddsoddi dros £18 miliwn i wella band eang yn y de a'r gorllewin a £14 miliwn yn y gogledd a'r canolbarth yn ystod y tair blynedd diwethaf.

14:16	<p>Russell George Bywgraffiad Biography</p> <p>The project is a tri-funded project, with the largest funding tranche coming from EU funding. That funding needs to be spent, as I understand it, at certain milestones during the project. Given the work that is still to be done, is the Minister confident that the project is moving at the appropriate pace, that EU funding deadlines will be met by the end of March and that there is not any danger of some of the EU funding returning to Brussels?</p>	<p>Mae'r prosiect yn brosiect a ariennir o dair ffynhonnell, gyda'r gyfran ariannu fwyaf yn dod o arian yr UE. Mae angen gwario'r cyllid hwnnw, yn ôl yr hyn a ddeallaf, ar gerrig milltir penodol yn ystod y prosiect. O ystyried y gwaith sydd i'w wneud o hyd, a yw'r Gweinidog yn hyderus bod y prosiect yn symud ar y cyflymder priodol, y bydd terfynau amser cyllid yr UE yn cael eu bodloni erbyn diwedd mis Mawrth ac nad oes unrhyw berygl y bydd rhywfaint o arian yr UE yn dychwelyd i Frwsel?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:17	<p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>Yes, I am.</p>	<p>Ydw, mi ydwyf.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:17	<p>Kirsty Williams Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, large parts of my constituency are still yet to receive a date as to when cabinets in their areas will be upgraded, including places like Boughrood, Llyswen and the Glasbury area. There is a great deal of frustration in not knowing when they can expect these improvements to happen. When can my constituents in the remaining parts of Brecon and Radnorshire that do not have an upgrade date be safe in the knowledge of when that upgrade will happen?</p>	<p>Weinidog, nid yw rhannau helaeth o'm hetholaeth wedi derbyn dyddiad o hyd o ran pryd y bydd cypyrddau yn eu hardaloedd yn cael eu huwchraddio, gan gynnwys lleoedd fel Bochrwyd, Llyswen ac ardal y Clas ar Wy. Ceir llawer iawn o rwystredigaeth o beidio â gwybod pryd y gallant ddisgwyl i'r gwelliannau hyn ddigwydd. Pryd all fy etholwyr yn y rhannau o Frycheiniog a Sir Faesyfed sy'n weddill nad oes ganddynt ddyddiad uwchraddio fod yn sicr o bryd y bydd yr uwchraddio hwnnw'n digwydd?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:17	<p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>I mentioned in my opening answer that everything will be completed by spring 2016, but I will ask the Deputy Minister for Skills and Technology to write to you about your specific constituency.</p>	<p>Soniais yn fy ateb agoriadol y bydd popeth wedi ei gwblhau erbyn gwanwyn 2016, ond byddaf yn gofyn i'r Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg ysgrifennu atoch am eich etholaeth benodol chi.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:18	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you, Minister.</p>	<p>Diolch i chi, Weinidog.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:18	<p>Cwestiwn Brys: Eithafiaeth</p> <p>Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>I have accepted an urgent question under Standing Order 12.66. I call on Andrew R.T. Davies to ask that question.</p>	<p>Urgent Question: Extremism</p> <p>Rwyf wedi derbyn cwestiwn brys dan Reol Sefydlog 12.66. Galwaf ar Andrew R.T. Davies i ofyn y cwestiwn hwnnw.</p>	<p>Y Senedd.tv Fideo Video</p>
14:18	<p>Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography</p> <p><i>Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch mynd i'r afael ag eithafiaeth mewn cymunedau yng Nghymru? EAQ(4)0192(CTP)</i></p>	<p><i>What discussions has the Minister had with the UK Government regarding tackling extremism in Welsh communities? EAQ(4)0192(CTP)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:18	<p>Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography</p> <p><i>Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty</i></p> <p>Thank you for that question. The Welsh Government has had discussions with the UK Government about the Prime Minister's extremism taskforce as it relates to Wales. Our officials continue to work with the UK Government in taking forward a multi-agency strategy to tackle radicalisation and extremism in Wales.</p>	<p>Diolch i chi am y cwestiwn yna. Mae Llywodraeth Cymru wedi cael trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â thasglu eithafiaeth y Prif Weinidog fel y mae'n berthnasol i Gymru. Mae ein swyddogion yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i symud ymlaen â strategaeth aml-asantiaeth i fynd i'r afael â radicleiddio ac eithafiaeth yng Nghymru.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:18

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister, for that answer. Many of us will be very disturbed at the news reports that came out over the weekend and that continue into this week. Indeed, it has been reported in the news today that the father of one of the young men who have gone out to the middle east has identified the leisure centre just across the way here, Channel View, as being host to one of the meetings that he believes the radicalisation took place at. Do you believe, like me, that the Welsh Government has a key role to play in working with local authorities? They are charged with delivering many of the community cohesion projects and education policies that will ultimately offer a clear and concise alternative—one of hope, namely that young men have a future here in Wales and can stay here and build their communities, rather than be taken along by the proposition put down via social media by many of these extremist groups. Will you commit to hosting a summit with community leaders and other organisations to show the positive aspects that are here in Wales, to stop this extremism spreading in our communities?

Diolch i chi, Weinidog, am yr ateb yna. Bydd adroddiadau'r newyddion a ddaeth i'r amlwg dros y penwythnos ac sy'n parhau i mewn i'r wythnos hon yn ysgytwol i lawer ohonom. Yn wir, adroddwyd yn y newyddion heddiw bod tad un o'r dynion ifanc sydd wedi mynd allan i'r dwyrain canol wedi nodi bod y ganolfan hamdden ar draws y ffordd yma, Channel View, wedi cynnal un o'r cyfarfodydd lle mae'n credu y digwyddodd y radcaleiddio. A ydych chi'n credu, fel yr wyf fi, bod gan Lywodraeth Cymru swyddogaeth allweddol i'w chyflawni wrth weithio gydag awdurdodau lleol? Nhw sy'n gyfrifol am ddarparu llawer o'r prosiectau cydlyniant cymunedol a pholisïau addysg a fydd yn cynnig dewis amgen eglur a chryno yn y pen draw—un o obaith, sef bod gan ddynion ifanc ddyfodol yma yng Nghymru ac y gallant aros yma ac adeiladu eu cymunedau yn hytrach na chael eu darbwylllo gan y cynnig a wneir trwy gyfryngau cymdeithasol gan lawer o'r grwpiau eithafol yna. A wnech chi ymrwymo i gynnal uwchgynhadledd gydag arweinwyr cymunedol a sefydliadau eraill i ddangos yr agweddau cadarnhaol sydd ar gael yma yng Nghymru, er mwyn atal yr eithafiaeth hon rhag lledaenu yn ein cymunedau?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:19

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much for that supplementary question. At this moment, I am not going to commit to a summit, but these are matters that we will certainly look at. We already have our community cohesion strategy in place, which I launched on 5 June. We have provided more moneys for community cohesion co-ordinators across Wales and certainly we are engaged with the Prevent strategy through the CONTEST board for Wales, which the Welsh Government chairs jointly with the Association of Chief Police Officers. I do intend, however, to meet with community leaders, and we do that regularly both in terms of the race strategy forum and the faith strategy forum, and I will certainly consider whether such a meeting as you indicate—a summit—would be useful in this circumstance.

Diolch yn fawr iawn am y cwestiwn atodol yna. Ar hyn o bryd, nid wyf yn mynd i ymrwymo i uwchgynhadledd, ond mae'r rhain yn faterion y byddwn yn sicr yn eu hystyried. Mae ein strategaeth cydlyniant cymunedol, a lansiwyd gennyf i ar 5 Mehefin, ar waith gennym eisoes. Rydym ni wedi darparu mwy o arian ar gyfer cydgyssylltwyr cydlyniant cymunedol ledled Cymru ac rydym ni'n sicr yn ymwneud â strategaeth Prevent trwy fwrdd CONTEST Cymru, y mae Llywodraeth Cymru yn ei gadeirio ar y cyd â Chymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu. Rwyf yn bwriadu, fodd bynnag, cyfarfod ag arweinwyr cymunedol, ac rydym ni'n gwneud hynny'n rheolaidd o ran y fforwm strategaeth hil a'r fforwm strategaeth ffydd, a byddaf yn sicr yn ystyried a fyddai cyfarfod fel yr un a nodwyd gennyf—uwchgynhadledd—yn ddefnyddiol yn yr achos hwn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:20

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I share the concerns that have already been expressed on this. We must ask ourselves why it is possible for young people who are educated in Wales to be susceptible to recruitment by violent movements and what we can do to reduce that risk. There are members of the Muslim community in Cardiff who have asked for support from public bodies, and we have a duty to support them and our Government should provide a strong role and leadership on this. There will be elements who will want to use recent events as a means of promoting division between our communities and to foment a culture of hatred. We must never accommodate the politics of hate, regardless of who is peddling it. Extremism takes many forms and is not limited to one community, and I hope that that point will be acknowledged. So, how can the Government now, going forward, support the Welsh Muslim community on this? Does the Government strategy as it stands need a rethink, and what steps will the Welsh Government take to combat a rise in Islamophobia in our communities?

Rwy'n rhannu'r pryderon a fynegwyd eisoes ar hyn. Mae'n rhaid i ni ofyn i'n hunain pam mae'n bosibl i bobl ifanc sy'n cael eu haddysgu yng Nghymru fod yn agored i gael eu recriwtio gan fudiadau treisgar a'r hyn y gallwn ni ei wneud i leihau'r risg hwnnw. Ceir aelodau o'r gymuned Fwslimaidd yng Nghaerdydd sydd wedi gofyn am gefnogaeth gan gyrrff cyhoeddus, ac mae gennym ni ddyletswydd i'w cefnogi a dylai ein Llywodraeth gyflawni swyddogaeth gref a darparu arweinyddiaeth gref yn hyn o beth. Bydd rhai a fydd eisïau defnyddio digwyddiadau diweddar fel modd o hyrwyddo rhaniad rhwng ein cymunedau ac i gorddi diwylliant o gasineb. Ni ddylem ni fyth roi llwyfan i wleidyddiaeth casineb, waeth pwy sy'n ceisio ei ledaenu. Mae eithafiaeth yn cymryd sawl ffurf ac nid yw wedi ei gyfyngu i un gymuned, ac rwy'n gobeithio y bydd y pwynt hwnnw'n cael ei gydnabod. Felly, sut all y Llywodraeth nawr, wrth symud ymlaen, gefnogi cymuned Fwslimaidd Cymru ar hyn? A oes angen ailfeddwl strategaeth y Llywodraeth fel y mae ar hyn o bryd, a pha gamau wnaiff Llywodraeth Cymru eu cymryd i fynd i'r afael â chynnydd mewn Islamoffobia yn ein cymunedau?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:22

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the leader of Plaid Cymru for her question. You have raised a number of different but interrelated points there. Certainly, I agree that education has a crucial role to play. That is why the Welsh Government produced the 'Respect and Resilience' and 'Creating Safe Learning Communities' guidance—so that school staff can be assisted to identify pupils who are particularly vulnerable perhaps to abuse of a racial or religious nature. Also, I must stress of course that our hate crime framework contains a particular strand on tackling far-right hate crime, and we are alert to the possibility of groups seeking to make mischief out of this situation and to cause pain and difficulties, in this case for the Islamic community. Of course, we need to stress that the overwhelming majority of Muslims in Wales want nothing to do whatsoever with this form of extremism and will do all that they can with us to try to prevent it re-occurring.

Diolchaf i arweinydd Plaid Cymru am ei chwestiwn. Rydych chi wedi codi nifer o bwyntiau gwahanol ond rhyngberthynol yn y fan yna. Yn sicr, rwy'n cytuno bod gan addysg swyddogaeth hanfodol i'w chyflawni. Dyna pam y cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau 'Gwrthsafiad a Pharch' a 'Creu Cymunedau Dysgu Diogel'—fel y gellir cynorthwyo aelodau staff ysgolion i nodi disgyblion sydd efallai'n arbennig o agored i niwed i gamdriniaeth o natur hiliol neu grefyddol. Hefyd, mae'n rhaid i mi bwysleisio, wrth gwrs, bod ein fframwaith troseddau casineb yn cynnwys rhan arbennig ar fynd i'r afael â throseddau casineb asgell dde, ac rydym ni'n effro i'r posibilrwydd y bydd grwpiau'n ceisio gwneud drygioni allan o'r sefyllfa hon ac achosi poen ac anawsterau, i'r gymuned Islamaidd yn yr achos hwn. Wrth gwrs, mae angen i ni bwysleisio nad yw mwyafrif llethol y Mwslimiaid yng Nghymru eisiau dim o gwbl i'w wneud gyda'r math hwn o eithafiaeth a byddant yn gwneud popeth y gallant gyda ni i geisio ei atal rhag digwydd eto.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:23

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, members of the Muslim communities here in Cardiff have expressed to me their deep shock, and I am sure that none of us can put ourselves in the position of those parents who are facing this situation at the moment, and our thoughts are with them. However, members of the community have also told me that some young people in the community lack confidence in their own identity as Welsh Muslims and feel that they face casual and sometimes very directed racism in their daily lives and that these very vulnerable young people need positive role models and a more positive image of their community if they are to avoid falling prey to these extremists who stir up those feelings of disconnection and stir up those feelings of discontent. I think that we need a community-led response. I am aware of a Saturday school in Splott that aims to give children exactly that—that confidence in their own identity. However, what can the Welsh Government do to encourage and support these very community-led efforts to tackle the causes of extremism at their source?

Weinidog, mae aelodau o'r cymunedau Mwslimaidd yma yng Nghaerdydd wedi mynegi eu syndod dwys i mi, ac rwy'n siŵr na all yr un ohonom roi ein hunain yn sefyllfa'r rhieni hynny sy'n wynebu'r sefyllfa hon ar hyn o bryd, ac mae ein meddyliau gyda nhw. Fodd bynnag, mae aelodau o'r gymuned hefyd wedi dweud wrthyf bod rhai pobl ifanc yn y gymuned yn brin o hyder yn eu hunaniaeth eu hunain fel Mwslimiaid Cymreig ac yn teimlo eu bod yn wynebu hiliaeth ysbeidiol ac weithiau uniongyrchol iawn yn eu bywydau beunyddiol a bod angen esiamplu cadarnhaol a delwedd fwy cadarnhaol o'u cymuned ar y bobl ifanc agored iawn i niwed hyn os ydynt am osgoi mynd i grafangau'r eithafwyr hyn sy'n ysgogi'r teimladau hynny o ddatgysylltiad ac yn ysgogi'r teimladau hynny o anfodlonrwydd. Rwy'n credu bod angen ymateb wedi ei arwain gan y gymuned arnom. Rwy'n ymwybodol o ysgol Sadwrn yn Sblot sydd â'r nod o roi yn union hynny i blant—yr hyder hwnnw yn eu hunaniaeth eu hunain. Fodd bynnag, beth all Llywodraeth Cymru ei wneud i annog a chefnogi'r ymdrechion hyn a arweinir i raddau helaeth gan y gymuned i fynd i'r afael ag achosion o eithafiaeth yn eu tarddiad?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:24

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that question. The Welsh Government is committed to working with community groups. That is why we launched the community cohesion campaign. The focus of that is supporting local community groups to bring people of all nationalities and ethnic groupings and, indeed, religions together. There was wide support for that when I launched it at an event in Swansea. So, our commitment to working with local communities is clear. The whole purpose of the Prevent strategy, which I alluded to earlier, is to stop people becoming terrorists or supporting terrorism, and that is very much a joint effort across public services in Wales. So, the commitment is there to work with local community leaders and local community groups to make sure, or do the very best we can to make sure, that communities are not suffering in this way and that, predominantly, the young men involved are not persuaded to take up the extremist cause.

Diolch i chi am y cwestiwn yna. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio gyda grwpiau cymunedol. Dyna pam y lanswyd yr ymgyrch cydlyniant cymunedol. Pwyslais hwnnw yw cefnogi grwpiau cymunedol lleol i ddod â phobl o bob cenedl a grŵp ethnig ac, yn wir, crefyddau at ei gilydd. Cafwyd cefnogaeth eang i hynny pan wnes i ei lansio mewn digwyddiad yn Abertawe. Felly, mae ein hymrwymiad i weithio gyda chymunedau lleol yn eglur. Holl bwrpas strategaeth Prevent, y cyfeiriais ati'n gynharach, yw atal pobl rhag bod yn derfysgwyr neu gefnogi terfysgaeth, ac mae hynny'n sicr yn ymdrech ar y cyd ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Felly, mae'r ymrwymiad yno i weithio gydag arweinwyr cymunedol lleol a grwpiau cymunedol lleol i wneud yn siŵr, neu i wneud y gorau y gallwn i wneud yn siŵr, nad yw cymunedau yn dioddef fel hyn ac, yn anad dim, nad yw'r dynion ifanc dan sylw yn cael eu darbwyllo i gefnogi achos yr eithafwyr.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:25

Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, you have heard my colleagues' very serious concerns about all of these affairs. Being Muslim, on 3 May 2007 when I was elected, my first words to the BBC were that I would like to remove the word 'terrorism' from the face of the Muslim community. However, I feel that I have failed there, that the Chamber has failed there and that this community and society has also failed there.

Weinidog, rydych chi wedi clywed pryderon difrifol iawn fy nghydweithwyr am yr holl faterion hyn. Â minnau'n Fwslim, ar 3 Mai 2007 pan gefais fy ethol, fy ngeiriau cyntaf i'r BBC oedd yr hoffwn gael gwared ar y gair 'terfysgaeth' oddi ar wyneb y gymuned Fwslimaidd. Fodd bynnag, rwy'n teimlo fy mod wedi methu yn hynny o beth, bod y Siambr wedi methu yn hynny o beth a bod y gymuned a'r gymdeithas hon hefyd wedi methu yn hynny o beth.

There are certain areas where we must think above politics. There are nearly 2 million Muslims in this country—2 million—and 99% are gentle, honest, peaceful, law-abiding citizens. That leaves 1%, which is 20,000, and 1% of that is still 2,000 citizens. Radicalisation is unacceptable in any society. Only a couple of weeks ago—you know this, Minister—you and I met with the Muslim Council of Wales's secretary general. Why the money was not granted to any Muslim association in Wales was clearly mentioned; your answer was that there was a shortage of funds.

Ceir rhai meysydd lle mae'n rhaid i ni feddwl uwchlaw gwleidyddiaeth. Ceir bron i 2 filiwn o Fwslimaidd yn y wlad hon—2 filiwn—ac mae 99% yn ddinasyddion addfwyn, gonest, heddychlon, sy'n parchu'r gyfraith. Mae hynny'n gadael 1%, sef 20,000, ac mae 1% o hynny yn dal i fod yn 2,000 o ddinasyddion. Mae radicaiddio yn annerbyniol mewn unrhyw gymdeithas. Dim ond wythnos neu ddwy yn ôl—rydych chi'n gwybod hyn, Weinidog—cawsoch chi a minnau gyfarfod gydag ysgrifennydd cyffredinol Cyngor Mwslimaidd Cymru. Gofynnwyd yn eglur pam na ddyfarnwyd yr arian i unrhyw gymdeithas Fwslimaidd yng Nghymru; eich ateb oedd bod prinder arian.

Minister, we are trying our best not only to educate children, but also to educate the teachers who come from all over the world from Indonesia to Morocco. There are thousands of mosques. These teachers need to be learnt. Funding is one thing and teaching people to teach peace to children between the ages of five and 10 is another. So, we need the education system to be inclusive with the community, and to educate all of the children at that tender age to put them on the right track, which is what Britishness is actually all about. So, Minister, it is about time; please, please, please bring Muslims into this whole affair to tackle this problem rather than shouting from outside the mosque, which will not achieve anything. I am sure that we will achieve something very positive in this country.

Weinidog, rydym ni'n gwneud ein gorau, nid yn unig i addysgu plant, ond hefyd i addysgu'r athrawon sy'n dod o bob cwr o'r byd o Indonesia i Foroco. Ceir miloedd o foscgiau. Mae angen addysgu'r athrawon hyn. Mae cyllid yn un peth ac mae addysgu pobl i addysgu heddwch i blant rhwng pump a 10 oed yn rhywbeth arall. Felly, mae arnom angen i'r system addysg fod yn gynhwysol gyda'r gymuned, ac i addysgu pob un o'r plant ar yr oedrannau ifanc hynny i'w rhoi ar y trywydd iawn, sef yr hyn y mae Prydeindod yn ei olygu mewn gwirionedd. Felly, Weinidog, mae'n hen bryd; plis, plis, plis dewch â Mwslimaidd i mewn i'r mater hwn er mwyn mynd i'r afael â'r broblem yn hytrach na gweiddi o'r tu allan i'r mosg, na fydd yn cyflawni unrhyw beth. Rwy'n siŵr y byddwn yn cyflawni rhywbeth cadarnhaol iawn yn y wlad hon.

14:27

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you very much for those points. I can assure you that we are not engaged in shouting at any community. We will work closely with a wide range of communities, and that certainly includes the Islamic community. I remember the discussion with Saleem Kidwai that we had in relation to the equality and inclusion grant. I do not think that that is related to this matter, but let me reassure you that we continue to work with community organisations, and our door is open to working with them. I am quite sure that I will meet the Muslim Council of Wales very soon to discuss a number of matters. That is quite a regular occurrence and, certainly, we will continue with our regular meetings of the faith council and the race council. So, I can assure you that there is no intention of seeking to blame any organisation. We want to work for genuine community cohesion.

Diolch yn fawr iawn am y pwyntiau yna. Gallaf eich sicrhau nad ydym yn ymwneud â gweiddi ar unrhyw gymuned. Byddwn yn gweithio'n agos gydag amrywiaeth eang o gymunedau, ac mae hynny'n sicr yn cynnwys y gymuned Islamaidd. Rwy'n cofio'r drafodaeth gyda Saleem Kidwai a gawsom ar gydraddoldeb a grant cynhwysiant. Nid wyf yn credu bod hynny'n gysylltiedig â'r mater hwn, ond gadewch i mi eich sicrhau ein bod yn parhau i weithio gyda sefydliadau cymunedol, ac mae ein drws yn agored i weithio gyda nhw. Rwy'n eithaf siŵr y byddaf yn cwrrd â Chyngor Mwslimaidd Cymru yn fuan iawn i drafod nifer o faterion. Mae hynny'n digwydd yn weddol reolaidd ac, yn sicr, byddwn yn parhau â chyfarfodydd rheolaidd y cyngor ffydd a'r cyngor hil. Felly, gallaf eich sicrhau nad oes unrhyw fwriad o geisio rhoi'r bai ar unrhyw sefydliad. Rydym ni eisiau gweithio dros gydlyniant cymunedol gwirioneddol.

14:28

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

There are no more speakers. Thank you, Minister.

Nid oes unrhyw siaradwyr eraill. Diolch i chi, Weinidog.

Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon

Penodiadau Cyhoeddus

14:28 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar benodiadau cyhoeddus i gyrrff sector cyhoeddus o fewn y portffolio diwylliant a chwaraeon? OAQ(4)0176(CS)

14:28 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon / The Minister for Culture and Sport

We rely on our public bodies to deliver a range of culture and sport policies. These bodies should have good quality and diverse public appointees to best fulfil their priorities.

14:29 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. I know that we often refer to the comparatively good gender balance of the board of Sport Wales, but diversity in other public bodies that come under your portfolio is not quite as positive. How can the Welsh Government ensure that public appointments to the boards of Sport Wales, national parks, the national library and all of the other bodies relating to your portfolio accurately reflect and represent our communities? In addition, as some of these appointments are made, for example, by local authorities, what work is being done to make sure that they take a similar approach?

14:29 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

These are very important matters that we rightly take very seriously. As Christine Chapman mentioned, we do have examples of good practice, such as Sport Wales in the previous appointment exercises that it has undertaken, so we are incorporating that good practice from Sport Wales into guidance that applies to all Welsh Government sponsored bodies. I have met with the chairs, and written to the chairs, of the public bodies within my portfolio on these matters, and they will be providing progress reports to me in due course. Also, of course, I work closely with the Minister for Communities and Tackling Poverty on these matters. Local authorities are the subject of various guidance from different bodies, including, of course, our Minister for Local Government and Government Business, and, again, we work very closely on these matters.

14:30 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful to hear your comment in your previous reply, Minister. However, will you undertake to give a report to the appropriate committee on how you will actually manage to increase the gender balance in these organisations within your portfolio? We wholly endorse what you intend to do, but could you show us what you have done, perhaps in a years' time?

Questions to the Minister for Culture and Sport

Public Appointments

1. Will the Minister make a statement on public appointments to public sector bodies within the culture and sport portfolio? OAQ(4)0176(CS)

Rydym yn dibynnu ar ein cyrff cyhoeddus i gyflwyno ystod o bolisiau diwylliant a chwaraeon. Dylai'r cyrff hyn wneud penodiadau cyhoeddus amrywiol, o ansawdd da i gyflawni eu blaenoriaethau yn y ffordd orau.

Diolch, Weinidog. Gwn ein bod yn aml yn cyfeirio at y cydbwysedd cymharol dda rhwng y rhywiau ar fwrdd Chwaraeon Cymru, ond nid yw amrywiaeth mewn cyrff cyhoeddus eraill sy'n rhan o'ch portffolio yr un mor gadarnhaol. Sut y gall Llywodraeth Cymru sicrhau bod penodiadau cyhoeddus i fyrddau Chwaraeon Cymru, y parciau cenedlaethol, y llyfrgell genedlaethol a'r holl gyrrff eraill sy'n ymwneud â'ch portffolio'n adlewyrchu ac yn cynrychioli ein cymunedau'n gywir? Hefyd, gan fod rhai o'r penodiadau hyn yn cael eu gwneud, er enghraifft, gan awdurdodau lleol, pa waith sy'n cael ei wneud i wneud yn siŵr eu bod hwythau'n arfer yr un math o ymgwedd?

Mae'r rhain yn faterion pwysig iawn y mae'n rhaid inni eu cymryd o ddifrif. Fel y soniodd Christine Chapman, mae gennym enghreifftiau o arfer da, megis Chwaraeon Cymru yn y prosesau penodi blaenorol y mae wedi eu cynnal, felly rydym yn ymgorffori'r arfer da hwnnw gan Chwaraeon Cymru mewn canllawiau sy'n berthnasol i bob corff a noddir gan Lywodraeth Cymru. Rwyf wedi cwrrd â chadeiryddion y cyrff cyhoeddus sy'n rhan o'm portffolio ar y materion hyn, ac wedi ysgrifennu atynt, a byddant yn rhoi adroddiadau cynnydd imi maes o law. Hefyd, wrth gwrs, rwyf yn cydweithio'n agos â'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Thlodi ar y materion hyn. Mae awdurdodau lleol yn destun canllawiau amrywiol gan wahanol gyrrff, gan gynnwys, wrth gwrs, Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, ac, unwaith eto, rydym yn gweithio'n agos iawn ar y materion hyn.

Rwyf yn ddiolchgar o glywed eich sylw yn eich ateb blaenorol, Weinidog. Fodd bynnag, a wnewch chi ymrwymo i roi adroddiad i'r pwyllgor priodol am sut y byddwch mewn gwirionedd yn llwyddo i wella'r cydbwysedd rhwng y rhywiau yn y sefydliadau hyn yn eich portffolio? Rydym yn llwyr gymeradwyo'r hyn yr ydych yn bwriadu ei wneud, ond a allech ddangos inni'r hyn yr ydych wedi ei wneud, efallai ymhen blwyddyn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:30	John Griffiths Bywgraffiad Biography	I would be very please to do that by invitation of the appropriate committee.	Byddwn yn falch iawn o wneud hynny drwy wahoddiad y pwyllgor priodol.	Senedd.tv Fideo Video
14:31	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	I call the Plaid Cymru spokesperson, Bethan Jenkins.	Galwaf ar lefarydd Plaid Cymru, Bethan Jenkins.	Senedd.tv Fideo Video
14:31	Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography	As you are responsible for the National Dance Company Wales, I wonder whether you have any input whatsoever into how people are appointed to the board and, if not, what type of scrutiny you, as Minister, have within the capacity of your role.	Gan mai chi sy'n gyfrifol am Gwmni Dawns Cenedlaethol Cymru, tybed a oes gennych fewnbwn o gwbl o ran sut y caiff pobl eu penodi i'r bwrdd ac, os nad oes, pa fath o graffu y gallwch chi, fel Gweinidog, ei wneud o fewn eich swydd.	Senedd.tv Fideo Video
14:31	John Griffiths Bywgraffiad Biography	I am always notified of appointment procedures and take an overview but, ultimately, it is a matter for the body itself and, of course, the Arts Council of Wales.	Rwyf bob amser yn cael gwybod am weithdrefnau penodi ac yn cadw trosolwg arnynt ond, yn y pen draw, mater i'r corff ei hun ydyw ac, wrth gwrs, i Gyngor Celfyddydau Cymru.	Senedd.tv Fideo Video
14:31	Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography	I recognise your answer and the arms'-length approach that you will obviously take in this regard. However, you may be aware that the National Dance Company Wales has been operating for a number of months now with a fraction of the board members that it is expected to have—three instead of eight directors. So, what assurances can you give me that the correct number of board members will soon be appointed? At the end of the day, it will receive £853,000 of public money via the arts council this financial year. We need to be assured that that money is being spent appropriately and that it has the strong governance arrangements that it promised it would adhere to.	Rwyf yn cydnabod eich ateb a'r ffaith y byddwch yn amlwg yn cadw hyd braich yn hyn o beth. Fodd bynnag, efallai y byddwch yn ymwybodol bod Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru bellach yn gweithredu ers rhai misoedd â ffraciwn nifer yr aelodau ar y bwrdd y disgwylir iddo eu cael—tri chyfarwyddwr yn hytrach nag wyth. Felly, pa sicrwydd y gallwch ei roi imi y penodir y nifer cywir o aelodau i'r bwrdd cyn hir? Yn y pen draw, bydd yn cael £853,000 o arian cyhoeddus gan gyngor y celfyddydau yn y flwyddyn ariannol hon. Mae angen inni fod yn sicr bod yr arian hwnnw'n cael ei wario'n briodol a bod ganddo'r trefniadau llywodraethu cryf yr addawodd y byddai'n cadw atynt.	Senedd.tv Fideo Video
14:32	John Griffiths Bywgraffiad Biography	I am very much aware of these matters, Llywydd, as, of course, is the Arts Council of Wales. I can assure the Member that I am kept updated of the situation and that it is a priority for me and the Arts Council of Wales.	Rwyf yn ymwybodol iawn o'r materion hyn, Lywydd, fel y mae Cyngor Celfyddydau Cymru, wrth gwrs. Gallaf sicrhau'r Aelod fy mod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa a'i bod yn flaenoriaeth i mi ac i Gyngor Celfyddydau Cymru.	Senedd.tv Fideo Video
14:32	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	I call the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Peter Black.	Galwaf ar lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.	Senedd.tv Fideo Video
14:32	Peter Black Bywgraffiad Biography	The Government has a commitment for women to account for at least 40% of public appointments to executive public bodies. In relation to the executive bodies under your control as Minister, how many of those bodies have actually met that commitment, what are you planning to do about those that have not, and what is your target date to achieve that 40% commitment?	Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i sicrhau bod o leiaf 40% o benodiadau cyhoeddus i gyrrff cyhoeddus gweithredol yn fenywod. Yn y cyrff gweithredol o dan eich rheolaeth fel Gweinidog, faint o'r cyrff hynny sydd mewn gwirionedd wedi bodloni'r ymrwymiad hwnnw, beth ydych chi'n bwriadu ei wneud am y rhai nad ydynt wedi gwneud hynny, a beth yw eich dyddiad targed i gyflawni'r ymrwymiad hwnnw o 40%?	Senedd.tv Fideo Video

14:33	John Griffiths Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Some of the bodies within my remit have met that target and some have not. We are working with those that are yet to meet it to ensure that they do. I mentioned the guidance earlier, which I think is very important, and, of course, the progress reports that will come back to me will inform me as to the state of play at that stage. We do expect that target to be met and, obviously, the quicker the better. We have not set an actual timeline as yet.</p>	<p>Mae rhai o'r cyrff o fewn fy nghylch gorchwyl wedi cyrraedd y targed hwnnw ac mae rhai nad ydynt wedi gwneud hynny. Rydym yn gweithio gyda'r rhai nad ydynt eto wedi'i gyrraedd i sicrhau eu bod yn gwneud hynny. Soniais am y canllawiau'n gynharach; credaf eu bod yn bwysig iawn, ac, wrth gwrs, bydd yr adroddiadau cynnydd a gaf yn ôl yn rhoi gwybod imi am y sefyllfa bryd hynny. Rydym yn disgwyl y caiff y targed hwnnw ei gyrraedd ac, yn amlwg, gorau po gyntaf. Nid ydym wedi gosod llinell amser fel y cyfryw eto.</p>
14:33	Peter Black Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Thank you for that answer, Minister. You will be aware that the arts council, for example, only has 33% membership in terms of female representation. As Bethan Jenkins has mentioned, it is responsible for appointing to other bodies as well. How are you going to try to spread this across the arts and sports sector if the big bodies like the arts council are not meeting this target themselves?</p>	<p>Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Byddwch yn ymwybodol mai dim ond 33% o aelodau cyngor y celfyddydau sy'n fenywod, er enghraifft. Fel y dywedodd Bethan Jenkins, mae'n gyfrifol am benodi i gyrrff eraill hefyd. Sut ydych chi'n bwriadu ceisio lledaenu hyn ar draws sector y celfyddydau a chwaraeon os nad yw'r cyrff mawr fel cyngor y celfyddydau'n cyrraedd y targed hwn eu hunain?</p>
14:33	John Griffiths Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I think that it is a matter of incorporating good practice into the guidance, such as that demonstrated by Sport Wales. The guidance will apply to all of the sponsored bodies within my portfolio. I do take these matters very seriously, as I know other Members do. It is important that organisations that make important decisions and spend large amounts of public money accurately reflect the society on behalf of whom they are making those decisions. I take these matters very seriously indeed and I will keep Members updated as to progress.</p>	<p>Rwyf yn meddwl bod hyn yn fater o ymgorffori arfer da yn y canllawiau, fel yr arfer da a ddangosir gan Chwaraeon Cymru. Bydd y canllawiau'n berthnasol i bob un o'r cyrff a noddir o fewn fy mhortffolio. Rwyf yn cymryd y materion hyn o ddifrif, a gwn fod Aelodau eraill yn gwneud hynny hefyd. Mae'n bwysig bod sefydliadau sy'n gwneud penderfyniadau pwysig ac yn gwario symiau mawr o arian cyhoeddus yn adlewyrchu'n gywir y gymdeithas y maent yn gwneud y penderfyniadau hynny ar ei rhan. Rwyf yn cymryd y materion hyn yn wirioneddol o ddifrif, a byddaf yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y cynnydd a wneir.</p>
	Adfywio ar Sail Treftadaeth	Heritage-led Regeneration
14:34	Mark Isherwood Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>2. <i>A wnaiff y Gweinidog amlinellu polisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer adfywio ar sail treftadaeth yng Ngogledd Cymru?</i> OAQ(4)0173(CS)</p>	<p>2. <i>Will the Minister outline the Welsh Government's policies for heritage-led regeneration in North Wales?</i> OAQ(4)0173(CS)</p>
14:34	John Griffiths Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I am working with Cadw, across Welsh Government and with a range of other bodies on heritage-led regeneration in Wales.</p>	<p>Rwyf yn gweithio gyda Cadw, ar draws Llywodraeth Cymru a chydag amryw o gyrrff eraill ar adfywio ar sail treftadaeth yng Nghymru.</p>
14:34	Mark Isherwood Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>It is now five years since the good news that Pontcysyllte aqueduct acquired world heritage site status, subsequent to which the then Minister for heritage, who still sits in this Chamber, announced a working group to capitalise upon the heritage-led regeneration that could deliver for the region of north-east Wales, not just for Wrexham, Denbighshire and Flintshire. Given that Flintshire Tourism Association has identified 15.5 million potential visitors within a two-hour catchment area, when will the Welsh Government be announcing its intentions to drive forward on that plan?</p>	<p>Mae pum mlynedd bellach ers y newyddion da fod traphont Pontcysyllte wedi ennill statws safle treftadaeth y byd, ac ers i'r Gweinidog treftadaeth ar y pryd, sy'n dal i eistedd yn y Siambr hon, gyhoeddi gweithgor i fanteisio ar yr adfywio ar sail treftadaeth a allai gyflawni i ranbarth y gogledd-ddwyrain, nid dim ond i Wrecsam, sir Ddinbych a sir y Fflint. O gofio bod Cymdeithas Twristiaeth Sir y Fflint wedi nodi 15.5 miliwn o ymwelwyr posibl o fewn dalgylch o ddwy awr, pryd y bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi ei bwriad i fwrw ymlaen â'r cynllun hwnnw?</p>

- 14:35 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I believe that we have made very good progress in terms of heritage-led regeneration. Whenever I have visited north Wales, I have been very struck by the commitment from local authorities and others to take that work forward. In terms of world heritage status, of course, we are lucky to have some very important sites in Wales. The criteria, of course, are very strict, and it is not for several years that there will be a further opportunity to gain a place on the UK Government's tentative list for those sites that are not currently listed. However, we will continue our work in general on heritage-led regeneration in north Wales, and across Wales.
- Rwyf yn credu ein bod wedi gwneud cynnydd da iawn o ran adfywio ar sail treftadaeth. Pob tro yr wyf wedi ymweld â'r gogledd, mae ymrwymiad yr awdurdodau lleol ac eraill i fwrw ymlaen â'r gwaith hwnnw wedi gwneud argraff fawr arnaf. O ran statws treftadaeth y byd, wrth gwrs, rydym yn ffodus bod gennym rai safleoedd pwysig iawn yng Nghymru. Mae'r meini prawf, wrth gwrs, yn llym iawn, a bydd blynyddoedd lawer cyn inni gael cyfle arall i ennill lle ar restr dros dro Llywodraeth y DU o'r safleoedd hynny nad ydynt wedi'u rhestru ar hyn o bryd. Fodd bynnag, byddwn yn parhau â'n gwaith cyffredinol ar adfywio ar sail treftadaeth yn y gogledd, a ledled Cymru.
- 14:36 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I call on the opposition spokesperson, Suzy Davies. Galwaf ar lefarydd yr wrthblaid, Suzy Davies.
- 14:36 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Diolch, Lywydd. Minister, in considering ideas for heritage-led regeneration, have you had the opportunity to look at the work of the Norwich Heritage, Economic and Regeneration Trust, which generated an economic impact of £6 million in a programme using 12 of its iconic buildings and which continues to have a regeneration legacy, even today? What can you learn from a city-based idea that might benefit urban and rural communities in north Wales, and, in fact, all of Wales, in terms of heritage regeneration?
- Diolch, Lywydd. Weinidog, wrth ystyried syniadau ar gyfer adfywio ar sail treftadaeth, a ydych wedi cael cyfle i edrych ar waith Ymddiriedolaeth Treftadaeth, Economi ac Adfywio Norwich, a greodd effaith economaidd o £6 miliwn mewn rhaglen gan ddefnyddio 12 o'i hadeiladau eiconig ac sy'n parhau i fod ag etifeddiaeth adfywio, hyd yn oed heddiw? Beth y gallwch ei ddysgu oddi wrth syniad dinesig a allai fod o fudd i gymunedau trefol a gwledig yn y gogledd, ac, yn wir, ledled Cymru, o ran adfywio treftadaeth?
- 14:36 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I am not aware of the particular project that Suzy Davies mentions, but I will ensure that, following her question today, I do become aware of it and we look at the experience, and analyse the findings to see whether it is applicable in Wales and whether there are lessons that we can learn.
- Nid wyf yn ymwybodol o'r prosiect penodol y mae Suzy Davies yn sôn amdano, ond byddaf yn sicrhau, yn dilyn ei chwestiwn heddiw, fy mod yn cael gwybod amdano a'n bod yn edrych ar y profiad, ac yn dadansoddi'r canfyddiadau i weld a yw'n berthnasol i Gymru ac a oes gwersi y gallwn eu dysgu.
- 14:37 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that answer. I hope that you will, Minister, because the trust that I referred to then went on to win the 2014 European Union prize for cultural heritage—that is the Europa Nostra award—for its Shaping 24 project, by linking its 12 buildings with 12 heritage sites in Belgium. That garnered praise from international experts in heritage and regeneration. We heard in a recent debate on the Constitutional and Legislative Affairs Committee's report that Wales needs a bigger business presence in Brussels. So, do you agree that there is more that Wales could be doing—certainly to be better than Norwich—in using European regional development fund money to invest in heritage regeneration?
- Diolch am yr ateb hwnnw. Gobeithiaf y gwnewch, Weinidog, oherwydd aeth yr ymddiriedolaeth y cyfeiriais ato yn ei blaen i ennill gwobr 2014 yr Undeb Ewropeaidd am dreftadaeth ddiwylliannol—gwobr Europa Nostra—am ei phrosiect Shaping 24, drwy gysylltu ei 12 o adeiladau â 12 safle treftadaeth yng Ngwlad Belg. Cafodd hynny ganmoliaeth gan arbenigwyr rhyngwladol ym meysydd treftadaeth ac adfywio. Clywsom mewn dadl yn ddiweddar am adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol fod ar Gymru angen mwy o bresenoldeb busnes ym Mrwsel. Felly, a ydych yn cytuno y gallai Cymru fod yn gwneud mwy—yn sicr i fod yn well na Norwich—i ddefnyddio arian o gronfa datblygu rhanbarthol Ewrop i fuddsoddi er mwyn adfywio treftadaeth?
- 14:37 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I think that we have made, and are making, very good use of European money to take regeneration, through heritage, forward in Wales, and I think that Members would be aware of many examples of that good work. However, there is always more that we could do, and I am very willing to look at these examples to see whether we can learn valuable lessons.
- Rwyf yn meddwl ein bod wedi defnyddio arian Ewropeaidd yn dda iawn, a'n bod yn dal i wneud hynny, er mwyn bwrw ymlaen ag adfywio, drwy dreftadaeth, yng Nghymru, ac rwyf yn meddwl y bydd yr Aelodau'n ymwybodol o lawer o enghreifftiau o'r gwaith da hwnnw. Fodd bynnag, mae mwy y gallwn ei wneud bob amser, ac rwyf yn fodlon iawn edrych ar yr enghreifftiau hyn i weld a allwn ddysgu gwersi gwerthfawr.

14:38	<p>Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography</p> <p>Rhan o dreftadaeth gogledd Cymru, wrth gwrs, yw'r chwareli a'r trenau bach a oedd yn cario gweithwyr a llechi i ac o'r chwareli hynny. Un o'r llwyddiannau diweddar yw'r rheilffyrdd bach, ac un ohonynt yw rheilffordd llyn Padarn yn Llanberis. A fydddech chi'n ymuno â mi i longyfarch y criw sydd wrthi gyda'r cwmni dielw ar gynnal gŵyl ynni i blant ysgolion cynradd yr ardal? Hefyd, a fydddech chi'n hoffi derbyn gwahoddiad i deithio ar y trê'n hyfryd hwnnw ar hyd glannau llyn Padarn?</p>	<p>Part of north Wales's heritage, of course, are the quarries and the trains that used to carry workers and slates to and from those quarries. One of the latest successes is the small railways, one of which is the Padarn lake railway in Llanberis. Would you join me in congratulating the group working with the not-for-profit company on holding its energy festival for the area's primary school children? Furthermore, would you accept an invitation to travel on that wonderful train along the banks of Lake Padarn?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:38	<p>John Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>Like many Members here today, I am sure, I very much enjoy train travel, and I would be very pleased to accept that invitation from Alun Ffred Jones. I think that we do need examples of good practice, commitment and initiative around Wales in terms of heritage. I know that there are some very good examples in terms of railway projects and I would like to very much congratulate everybody who is involved in that particular example.</p>	<p>Fel llawer o Aelodau yma heddiw, mae'n siŵr gennyf, rwyf yn mwynhau teithio ar y trê'n yn fawr iawn, a byddwn yn falch iawn o dderbyn y gwahoddiad hwnnw gan Alun Ffred Jones. Rwyf yn meddwl bod arnom angen enghreifftiau o arfer da, ymrwymiad a menter ledled Cymru o ran treftadaeth. Gwn fod rhai enghreifftiau da iawn o ran prosiectau rheilffordd a hoffwn longyfarch pawb sy'n ymwneud â'r enghraifft benodol honno'n fawr iawn.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:39	<p>Aled Roberts Bywgraffiad Biography</p> <p>Pa gynlluniau yr ydych chi wedi eu gwneud fel Llywodraeth, felly, i roi'r cymorth yr ydych newydd sôn amdano i'r prosiectau unigol hyn yng ngogledd Cymru?</p>	<p>What plans have you made as a Government, therefore, to provide the assistance that you have just mentioned to these individual projects in north Wales?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:39	<p>John Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>Of course, we have a range of strategies to take forward heritage in Wales, and Cadw is our prime department within Welsh Government to make sure that that strategy becomes a reality. So, Cadw does work very closely with local authorities and a range of other organisations to make sure that the required progress is made.</p>	<p>Wrth gwrs, mae gennym ystod o strategaethau i fwrw ymlaen â threftadaeth yng Nghymru, a Cadw yw ein prif adran o fewn Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y strategaeth honno'n cael ei gwireddu. Felly, mae Cadw'n cydweithio'n agos iawn ag awdurdodau lleol ac amryw o sefydliadau eraill i wneud yn siŵr bod y cynnydd angenrheidiol yn cael ei wneud.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Chwaraeon ar Lawr Gwlad		Grass-roots Sports	
14:40	<p>Gwyn R. Price Bywgraffiad Biography</p> <p><i>3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer chwaraeon ar lawr gwlad yng Nghymru? OAQ(4)0174(CS)</i></p>	<p><i>3. Will the Minister make a statement on Welsh Government support for grassroots sports in Wales? OAQ(4)0174(CS)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
<p>Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography</p> <p><i>8. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo datblygiad chwaraeon ar lawr gwlad? OAQ(4)0178(CS)</i></p>	<p><i>8. What is the Welsh Government doing to promote the development of grassroots sports? OAQ(4)0178(CS)</i></p>		
14:40	<p>John Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>Llywydd, I understand that you have given your permission for questions 3 and 8 to be grouped</p>	<p>Llywydd, rwyf ar ddeall eich bod wedi rhoi caniatâd i gwestiynau 3 ac 8 gael eu grwpio</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:40	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Yes.</p>	<p>Ydw.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:40	<p>John Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>The Welsh Government supports grass-roots sport by working with a range of partners and stakeholders across Wales.</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi chwaraeon ar lawr gwlad drwy gydweithio ag amryw o bartneriaid a rhanddeiliaid ledled Cymru.</p>	Senedd.tv Fideo Video
14:40	<p>Gwyn R. Price Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you for that answer. Does the Minister agree that investment in centres like Caerphilly County Borough centre for sporting excellence is vital in developing grass-roots talent, and will he join me in congratulating all involved, particularly the work done by Caerphilly council?</p>	<p>Diolch am yr ateb hwnnw. A yw'r Gweinidog yn cytuno bod buddsoddi mewn canolfannau megis canolfan rhagoriaeth mewn chwaraeon Bwrdeistref Sirol Caerffili yn hanfodol er mwyn datblygu talent ar lawr gwlad, ac a wnaiff ymuno â mi i longyfarch pawb dan sylw, yn enwedig y gwaith a wnaethpwyd gan gyngor Caerffili?</p>	Senedd.tv Fideo Video
14:40	<p>John Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>I am very pleased to join the Member in congratulating Caerphilly County Borough Council on its new centre for sporting excellence, where I was very pleased to be present on 21 May for the official opening. It is a very impressive facility indeed. It will be used for elite sport and for grass-roots sport. I very much support the Member's views. I must say that that is but one example of several that I have come across in terms of the work of Caerphilly County Borough Council since I have been Minister, and I am very pleased that there is that level of commitment, energy and ideas at Caerphilly County Borough Council.</p>	<p>Rwyf yn falch iawn o ymuno â'r Aelod i longyfarch Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar ei ganolfan newydd ar gyfer rhagoriaeth mewn chwaraeon; roeddwn yn falch iawn o fod yn bresennol yno ar 21 Mai yn yr agoriad swyddogol. Mae'n gyfleuster trawiadol iawn wir. Caiff ei ddefnyddio ar gyfer chwaraeon elit ac ar gyfer chwaraeon ar lawr gwlad. Rwyf yn cefnogi safbwyntiau'r Aelod yn fawr iawn. Rhaid imi ddweud mai dim ond un enghraifft yw honno o lawer yr wyf wedi dod ar eu traws o waith Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ers imi fod yn Weinidog, ac rwyf yn falch iawn fod y lefel honno o ymrwymiad, egni a syniadau'n bodoli yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.</p>	Senedd.tv Fideo Video
14:41	<p>Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, obviously, at the moment there is a bid for the Union of European Footballing Associations Championships and, if that bid is successful, it will offer huge opportunities for grass-roots sport to use that as a catalyst to develop young people who are coming forward in the game of football here in Wales. What action are you taking to work with the bid supporters to make sure that there is a comprehensive programme, should the bid be successful, for engaging grass-roots sports and getting into all communities across the whole of Wales?</p>	<p>Weinidog, wrth gwrs, ar hyn o bryd, mae cynnig ar y gweill ar gyfer Pencampwriaethau Undeb Cymdeithasau Pêl-droed Ewrop ac, os bydd y cynnig hwnnw'n llwyddiannus, bydd yn cynnig cyfleoedd aruthrol i chwaraeon ar lawr gwlad ddefnyddio hynny'n gatalydd i ddatblygu pobl ifanc sy'n dod i'r amlwg ym maes pêl-droed yma yng Nghymru. Pa gamau ydych chi'n eu cymryd i weithio gyda chefnogwyr y cynnig i wneud yn siŵr y ceir rhaglen gynhwysfawr, os bydd y cais yn llwyddiannus, ar gyfer ymgysylltu â chwaraeon ar lawr gwlad a chyrraedd pob cymuned ledled Cymru gyfan?</p>	Senedd.tv Fideo Video
14:42	<p>John Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>I am pleased to be able to tell Andrew R.T. Davies that the Welsh Government, Sport Wales and the Football Association of Wales have worked very closely together to make sure that the bid will incorporate a very strong grass-roots element to ensure that many more children are inspired to play football, and that some of them, no doubt, proceed to the elite level. That will be an integral part of that bid, and I very much hope that it does succeed.</p>	<p>Rwyf yn falch o allu dweud wrth Andrew R.T. Davies fod Llywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru a Chymdeithas Bêl-droed Cymru wedi cydweithio'n agos iawn i wneud yn siŵr y bydd y cynnig yn cynnwys elfen llawr gwlad gref iawn er mwyn sicrhau bod llawer mwy o blant yn cael eu hysbrydoli i chwarae pêl-droed, a bod rhai ohonynt, yn ddiau, yn cyrraedd lefel elit. Bydd hynny'n rhan annatod o'r cynnig hwnnw, ac rwyf yn gobeithio'n fawr iawn y bydd yn llwyddiannus.</p>	Senedd.tv Fideo Video
14:42	<p>Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, with local authority budgets for sport infrastructure being cut, we need to consider ways to ensure that grass-roots sports participation does not fall as a result. What initiatives are you considering to mitigate cuts at a local level—programmes perhaps modelled on schemes such as the local sports partnership in Ireland, or, as my Plaid Cymru colleague Bethan Jenkins proposed today, a sports and fitness Oyster card-style programme would perhaps be a good place to start?</p>	<p>Weinidog, gan fod cyllidebau awdurdodau lleol ar gyfer seilwaith chwaraeon yn cael eu torri, mae angen inni ystyried ffyrdd o sicrhau nad oes llai o bobl yn cymryd rhan mewn chwaraeon ar lawr gwlad o ganlyniad i hynny. Pa fentrau ydych chi'n eu hystyried i liniaru toriadau ar lefel leol—rhaglenni efallai wedi'u modelu ar gynlluniau megis y bartneriaeth chwaraeon leol yn Iwerddon, neu, fel y cynigiodd fy nghyd-Aelod ym Mhlaid Cymru Bethan Jenkins heddiw, efallai y byddai rhaglen chwaraeon a ffitrwydd ar batrwm cardiau Wystrys yn fan cychwyn da?</p>	Senedd.tv Fideo Video

14:43

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

May I say, first of all, Llywydd, that it is very good to see ideas being brought to the table, strategies being developed and policies put forward? I very much welcome that, and we will have a very close look at the document produced by Plaid Cymru, because I think that we should be open to ideas as a Welsh Government. A lot is already happening, of course, and we have important partnerships in terms of providing doorstep sports opportunities with organisations such as StreetGames, for example. Sport Wales has its community sports strategy, and it is working very closely with local authorities in strong partnerships. There are challenges at the current time, but we are seeing new ideas and new energy coming forward and new delivery models being developed. Although the challenges are considerable, the Welsh Government is very much, I believe, fulfilling its leadership role in working with all the necessary partners to make sure that we come through these budgetary difficulties with a very strong grass-roots sports system in Wales.

A gaf fi ddweud, yn gyntaf oll, Lywydd, ei bod yn braf iawn gweld syniadau'n cael eu cynnig, strategaethau'n cael eu datblygu a pholisïau'n cael eu cyflwyno? Rwyf yn croesawu hynny'n fawr iawn, a bydd yn rhaid inni edrych yn fanwl iawn ar y ddogfen a gynhyrchwyd gan Blaid Cymru, oherwydd credaf y dylem ni yn Llywodraeth Cymru fod yn agored i syniadau. Mae llawer eisoes yn digwydd, wrth gwrs, ac mae gennym bartneriaethau pwysig o ran darparu cyfleoedd chwaraeon ar garreg y drws â sefydliadau megis StreetGames, er enghraifft. Mae gan Chwaraeon Cymru ei strategaeth chwaraeon cymunedol, ac mae'n cydweithio'n agos iawn ag awdurdodau lleol mewn partneriaethau cryf. Mae heriau ar hyn o bryd, ond rydym yn gweld syniadau newydd ac egni newydd yn cael eu cyflwyno a modelau cyflenwi newydd yn cael eu datblygu. Er bod yr heriau'n sylweddol, mae Llywodraeth Cymru'n sicr, yn fy marn i, yn cyflawni ei swyddogaeth o arwain drwy gydweithio â'r holl bartneriaid angenrheidiol i wneud yn siŵr ein bod yn dod drwy'r anawsterau cyllidebol hyn â system chwaraeon gref iawn ar lawr gwlad yng Nghymru.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:44

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I recently had the pleasure of opening the new pavilion and wicket for the Glangrwyney Cricket Club, a cricket club whose history goes back over 100 years. Eleven months ago, it made an application to Sport Wales for a grant to help it to develop its facilities. Eleven months later, it is still waiting to hear. The volunteers who run that cricket club said that they found Sport Wales personnel, at best, ambivalent towards their hopes and aspirations, and, at worst, obstructive. I am sure that we will always be very proud of our elite sportspeople as they represent Wales, but do you agree with me that Sport Wales needs to be equally proud of its grass-roots support as it is of its biggest stars?

Weinidog, yn ddiweddar cefais y pleser o agor pafiliwn a wiced newydd Clwb Criced Glangrwyne, clwb criced a chanddo hanes yn mynd yn ôl dros 100 mlynedd. Un mis ar ddeg yn ôl, gwnaeth gais i Chwaraeon Cymru am grant i'w helpu i ddatblygu ei gyfleusterau. Un mis ar ddeg yn ddiweddarach, mae'n dal i aros i glywed. Dywedodd y gwirfoddolwyr sy'n rhedeg y clwb criced eu bod o'r farn bod personél Chwaraeon Cymru, ar y gorau, yn amwys tuag at eu gobeithion a'u dyheadau, ac, ar y gwaethaf, yn eu rhwystro. Rwyf yn siŵr y byddwn bob amser yn falch iawn o'n campwyr elit wrth iddynt gynrychioli Cymru, ond a ydych yn cytuno â mi fod angen i Chwaraeon Cymru fod yr un mor falch o'i gymorth ar lawr gwlad ag y mae o'i gymorth i'w sêr mwyaf?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:44

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have had many discussions with Sport Wales—the chair, the chief executive and others—since I have been Minister. It is clear to me that Sport Wales is very much committed to grass-roots sport in Wales, and is increasingly moving policy and delivery in that direction, while ensuring, of course, that we still perform very strongly at an elite level. The balance has to be struck, but, of course, the two are very much mutually reinforcing.

Rwyf wedi cael llawer o drafodaethau â Chwaraeon Cymru —y cadeirydd, y prif weithredwr ac eraill—ers imi ddod yn Weinidog. Mae'n amlwg i mi fod Chwaraeon Cymru'n ymroddedig iawn i chwaraeon ar lawr gwlad yng Nghymru, a'i fod yn symud ei bolisiau a'i ddarpariaeth fwyfwy i'r cyfeiriad hwnnw, gan sicrhau, wrth gwrs, ein bod yn dal i berfformio'n gryf iawn ar lefel elit. Rhaid sicrhau'r cydbwysedd, ond, wrth gwrs, mae'r ddau'n bendant yn atgyfnerthu ei gilydd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I have played cricket at Glangrwyney for Gwent solicitors before becoming an Assembly Member, many years ago. It was a very enjoyable experience indeed. However, I will look at the matters that the Member raises, and ensure that a prompt response is provided.

Chwaraeais griced yng Nglangrwyne dros gyfreithwyr Gwent cyn dod yn Aelod o'r Cynulliad, flynyddoedd lawer yn ôl. Roedd yn brofiad pleserus iawn yn wir. Fodd bynnag, byddaf yn edrych ar y materion y mae'r Aelod yn eu codi, ac yn sicrhau y rhoddir ymateb prydlon.

14:45

Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Earlier this year, the Communities, Equality and Local Government Committee, in its inquiry into sport participation in Wales, heard how girls are less likely to participate in sport, with Sport Wales highlighting that it may be due to their own personal preferences and a lack of options available. We welcome the £3 million made available by Sport Wales to tackle known participation issues among women, black and minority ethnic communities and poorer socioeconomic parts of our society. Will the Minister advise how many applications for grants from the scheme have been made now that the date has closed? Also, how many proposals were there to increase female participation rates?

Yn gynharach eleni, clywodd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, yn ei ymchwiliad i gyfranogi mewn chwaraeon yng Nghymru, fod merched yn llai tebygol o gymryd rhan mewn chwaraeon; nododd Chwaraeon Cymru y gallai hynny fod oherwydd eu dewisiadau personol eu hunain ac oherwydd bod diffyg opsiynau ar gael. Rydym yn croesawu'r £3 miliwn a ddarparwyd gan Chwaraeon Cymru i ymdrin â materion y gwyddys amdanynt o ran cyfranogi ymhlith menywod, cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a rhannau economaidd-gymdeithasol dlotach ein cymdeithas. A wnaiff y Gweinidog roi gwybod faint o geisiadau am grantiau o'r cynllun sydd wedi eu gwneud, yn awr bod y dyddiad cau wedi mynd heibio? Hefyd, faint o gynigion a gafwyd i gynyddu cyfraddau cyfranogi ymhlith menywod?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:46

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that that £3 million is very important in terms of tackling underrepresented groups in sport and physical activity. The Member is right to highlight that scheme. I will write to Members with the final position in terms of applications, but I do know that applications have been very strong from the groups that do require better representation. There has been a very proactive approach in terms of bringing those applications forward. However, I will write to Members with details.

Credaf fod y £3 miliwn yn bwysig iawn o ran ymdrin â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Mae'r Aelod yn iawn i dynnu sylw at y cynllun hwnnw. Byddaf yn ysgrifennu at yr Aelodau i roi gwybod am y sefyllfa derfynol o ran ceisiadau, ond gwn fod y grwpiau y mae arnynt angen gwell cynrychiolaeth wedi gwneud ceisiadau cryf iawn. Defnyddiwyd dulliau rhagweithiol iawn o ran cyflwyno'r ceisiadau hynny. Fodd bynnag, byddaf yn ysgrifennu at yr Aelodau i roi'r manylion.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Llwybr Arfordir Cymru

Wales Coastal Path

14:47

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar reoli Llwybr Arfordir Cymru? OAQ(4)0167(CS)

4. Will the Minister make a statement on the management of the Wales Coastal Path? OAQ(4)0167(CS)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:47

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Natural Resources Wales currently administers the Wales coast path development programme on behalf of Welsh Government and co-ordinates actions with local authority partners. I have asked Natural Resources Wales to undertake a review that will bring together recommendations about the long-term management, governance and funding of the coast path.

Ar hyn o bryd, Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gweinyddu rhaglen datblygu llwybr arfordir Cymru ar ran Llywodraeth Cymru ac mae'n cydlynu camau gweithredu gyda phartneriaid yn yr awdurdodau lleol. Rwyf wedi gofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru gynnal adolygiad a fydd yn dwyn ynghyd argymhellion am reolaeth, trefn lywodraethu a chyllid llwybr yr arfordir yn y tymor hir.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:47

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister, for that very helpful answer. Obviously, the Wales coast path is a unique asset for the tourism industry and we want visitors to have a good experience when they use it. However, I walked a section in the Vale of Glamorgan last week and found that several sections were difficult to pass. They were either flooded or in a generally poor state of repair, despite the good weather that we have had. Can you give us more detail about when you expect that report to come forward to you? What funding is available to ensure that the coast path is kept in the very best condition for the visitors that we hope to see?

Diolch, Weindog, am yr ateb defnyddiol iawn hwnnw. Wrth gwrs, mae llwybr arfordir Cymru'n ased unigryw i'r diwydiant twristiaeth a hoffem i ymwelwyr gael profiad da wrth ei ddefnyddio. Fodd bynnag, bwm yn cerdded rhan ohono ym Mro Morgannwg yr wythnos diwethaf ac roedd yn anodd cerdded ar sawl darn ohono. Roeddent naill ai dan ddŵr neu mewn cyflwr cyffredinol wael, er y tywydd da yr ydym wedi'i gael. A allwch roi mwy o fanylion inni ynghylch pryd yr ydych yn disgwyl i'r adroddiad hwnnw gael ei gyflwyno? Pa gyllid sydd ar gael i sicrhau bod llwybr yr arfordir yn cael ei gadw yn y cyflwr gorau ar gyfer yr ymwelwyr y gobeithiwn eu gweld?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:48 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that Members will be familiar with the history of the Wales coast path, and it has required substantial resource to build it. It requires substantial resource to improve it and maintain it. That funding programme continues. However, I would say to Members that, if there are any particular issues with sections of the path that have been damaged or are not of the quality that is appropriate, please bring it to the attention of Natural Resources Wales, the relevant local authority and me, as Minister. I am sure that, working together, we can ensure that those issues are addressed.

Rwyf yn credu y bydd yr Aelodau'n gyfarwydd â hanes llwybr arfordir Cymru, ac roedd angen adnoddau sylweddol i'w adeiladu. Mae angen adnoddau sylweddol i'w wella a'i gynnal a'i gadw. Mae'r rhaglen ariannu honno'n parhau. Fodd bynnag, dywedaf wrth yr Aelodau, os oes unrhyw broblemau penodol â rhannau o'r llwybr sydd wedi eu difodi neu nad yw eu safon yn briodol, tynnwch sylw Cyfoeth Naturiol Cymru, yr awdurdod lleol perthnasol a minnau, y Gweinidog, at y mater. Rwyf yn siŵr y gallwn, drwy weithio gyda'n gilydd, sicrhau bod y materion hynny'n cael sylw.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:48 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am delighted that the Pembrokeshire coast path has been voted the top UK coast path by 'Active Traveller Magazine'. As we head into summer, I hope that all Members will take the opportunity to visit Pembrokeshire. I accept that you are carrying out a review. What is the Welsh Government doing to specifically promote coastal paths, particularly Pembrokeshire coast path, ahead of this summer? Could you also outline what you are doing to specifically target problems such as littering, so that visitors to Pembrokeshire can actually enjoy the landscape to the fullest extent?

Rwyf wrth fy modd bod llwybr arfordir sir Benfro wedi ei ddatgan yn llwybr arfordirol gorau'r DU mewn pleidlais yng nghylchgrawn 'Active Traveller'. Ar ddechrau'r haf fel hyn, rwyf yn gobeithio y bydd pob Aelod yn manteisio ar y cyfle i ymweld â sir Benfro. Rwyf yn derbyn eich bod yn cynnal adolygiad. Beth y mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud i hyrwyddo llwybrau arfordirol yn benodol, yn enwedig llwybr arfordir sir Benfro, cyn yr haf? A wnech chi hefyd amlinellu'r hyn yr ydych yn ei wneud i dargedu problemau megis sbwriel yn benodol, fel y gall ymwelwyr â sir Benfro fwynhau'r dirwedd i'r eithaf?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:49 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In the month of May, of course, we celebrate the anniversary of the Wales coast path's creation. We have a month-long programme of activities and promotion, which, I think, is a very important focus. Also, of course, my colleague Edwina Hart, with her responsibilities for tourism, very much promotes the Wales coast path as an important aspect of that work. Where there are any issues with quality, which includes littering, again, I think that it should be brought to the attention of Natural Resources Wales and the relevant local authority. Much good work, of course, is done by organisations like Keep Wales Tidy. I have been present on some of the litter-picks on the coast path. I think that we have organisations that are prepared to step up to the plate to help with these matters.

Yn ystod mis Mai, wrth gwrs, rydym yn dathlu pen-blwydd creu llwybr arfordir Cymru. Mae mis o weithgareddau a hyrwyddo wedi'i drefnu, sydd, yn fy marn i, yn ffocws pwysig iawn. Hefyd, wrth gwrs, mae fy nghyd-Weinidog Edwina Hart, â'i chyfrifoldebau am dwristiaeth, yn sicr yn hyrwyddo llwybr arfordir Cymru fel agwedd bwysig ar y gwaith hwnnw. Os oes unrhyw faterion yn ymwneud ag ansawdd, sy'n cynnwys taflu sbwriel, unwaith eto, credaf y dylid tynnu sylw Cyfoeth Naturiol Cymru a'r awdurdod lleol dan sylw at hynny. Mae llawer o waith da, wrth gwrs, yn cael ei wneud gan sefydliadau megis Cadwch Gymru'n Daclus. Rwyf wedi bod yn bresennol yn rhai o'r sesiynau casglu sbwriel ar lwybr yr arfordir. Credaf fod gennym fudiadau sy'n barod i ymateb i'r her a helpu â'r materion hyn.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:50 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, mae'n bosibl y byddwch wedi gweld sylwadau gan Ymddiriedolaethau Bywyd Gwylt Cymru yn ddiweddar bod Cymru'n methu cyfle i fanteisio'n llawn ar dwristiaeth bywyd gwylt. Mae'r sefydliad yn dweud bod saith o bob 10 ymwelydd yn dod i Gymru oherwydd ein hamgylchedd naturiol godidog. A ydych yn cytuno y gellid gwneud mwy drwy gyfrwng llwybr arfordir Cymru, yn benodol, i hyrwyddo rhai o'n rhywogaethau eiconig ni er mwyn tyfu'r sector pwysig hwn?

Minister, you may have seen comments from Wildlife Trusts Wales recently that Wales is missing an opportunity to take full advantage of wildlife tourism. The organisation said that seven in 10 visitors come to Wales because of our stunning natural environment. Do you agree that more could be done, by way of the Wales coast path, in particular, to promote some of our iconic species in order to grow this important sector?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:50

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that we promote tourism effectively in Wales, with all of the important aspects of tourism and what attracts visitors here to the forefront. However, I guess that it is always possible to do more. It has been really interesting that a lot of apps have been developed in terms of the Wales coast path that make walking it more interesting and informative. There is scope there, perhaps, for work to ensure that the aspects that the Member mentions are highlighted and promoted.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Rwyf yn meddwl ein bod yn hyrwyddo twristiaeth yn effeithiol yng Nghymru, ac yn rhoi sylw blaenllaw i'r holl agweddau pwysig ar dwristiaeth a'r hyn sy'n denu ymwelwyr yma. Fodd bynnag, mae'n debyg ei bod bob amser yn bosibl gwneud mwy. Mae'n ddi-ddorol iawn fod llawer o apiau wedi eu datblygu ar gyfer llwybr arfordir Cymru sy'n gwneud cerdded arno'n fwy diddorol ac addysgiadol. Mae lle, efallai, i wneud gwaith i sicrhau bod yr agweddau y mae'r Aelod yn sôn amdanynt yn cael eu hamlygu a'u hyrwyddo.

Chwaraeon Ar Lawr Gwlad

Grass-roots Sport

14:51

Lynne Neagle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

5. Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i gefnogi chwaraeon ar lawr gwlad yn Nhorfaen? OAQ(4)0179(CS)

5. What steps is the Minister taking to support grass-roots sport in Torfaen? OAQ(4)0179(CS)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:51

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

My department invests in grass-roots sport through Sport Wales, working with a range of partners and stakeholders across Wales.

Mae fy adran yn buddsoddi mewn chwaraeon ar lawr gwlad drwy Chwaraeon Cymru, ac yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid a rhanddeiliaid ledled Cymru.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:51

Lynne Neagle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am very worried about the impact of Westminster-driven austerity in places like Torfaen. At a recent funding advice day that I held in Cwmbran, I met with a number of local sports clubs that were struggling. I know that we also have a number of clubs that are taking maintenance responsibility for their facilities for the first time in Torfaen, which is very challenging. Obviously, I heard your answers to the previous questions, but can I ask for your assurance, Minister, that you will look to see what further you can do in this area? The role of the Welsh Government in providing leadership in mitigating the impact of these cuts is vital, even if it is just simple things like spreading best practice and encouraging the use of shared facilities. Can I ask for your commitment today that you will continue to monitor carefully the impact on local sports clubs, and that you will look again at what further the Welsh Government can do in this area?

Rwyf yn bryderus iawn am effaith darbodaeth San Steffan ar fannau megis Torfaen. Ar ddiwrnod cyngori ynghylch cyllid a gynhaliais yn ddiweddar yng Nghwmbrân, cyfarfûm â nifer o glybiau chwaraeon lleol a oedd yn ei chael yn anodd. Gwn fod gennym hefyd nifer o glybiau sy'n cymryd cyfrifoldeb am gynnal a chadw eu cyfleusterau am y tro cyntaf yn Nhorfaen, sy'n heriol iawn. Wrth gwrs, clywais eich atebion i'r cwestiynau blaenorol, ond a gaf fi ofyn am sicrwydd gennych, Weinidog, yr edrychwch i weld beth arall y gallwch ei wneud yn y maes hwn? Mae rôl Llywodraeth Cymru o ran darparu arweiniad i liniaru effaith y toriadau hyn yn hanfodol, hyd yn oed os nad yw ond yn gwneud pethau syml fel lledaenu arfer gorau ac annog defnyddio cyfleusterau a rennir. A gaf fi ofyn am ymrwymiad gennych heddiw y byddwch yn parhau i fonitro'n ofalus yr effaith ar glybiau chwaraeon lleol, ac y byddwch yn edrych eto ar beth arall y gall Llywodraeth Cymru ei wneud yn y maes hwn?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:52

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am very pleased to give Lynne Neagle that commitment. Sport Wales very much has its finger on the pulse in terms of local areas right across Wales, and the issues facing sports clubs. It works with those clubs, as do the national governing bodies. However, the role of local authorities is absolutely vital. I have met with lead cabinet members and lead officers to make sure that Welsh Government leadership is provided. I am looking to organise an all-Wales event very soon to continue that work. We are looking at the alternative models being developed, and the support and advice that is available. I very much agree with Lynne Neagle that these matters are crucial. We must continue to work at them, and spreading best practice is always vital.

Rwyf yn falch iawn o roi'r ymrwymiad hwnnw i Lynne Neagle. Yn sicr, mae gan Chwaraeon Cymru ei fys ar y pŷl o ran ardaloedd lleol ledled Cymru, a'r materion sy'n wynebu clybiau chwaraeon. Mae'n gweithio gyda'r clybiau hynny, fel y gwna'r cyrff llywodraethu cenedlaethol. Fodd bynnag, mae swyddogaeth awdurdodau lleol yn gwbl hanfodol. Rwyf wedi cwrdd ag aelodau cabinet arweiniol a swyddogion arweiniol i sicrhau y darperir arweiniad Llywodraeth Cymru. Rwyf yn bwriadu trefnu digwyddiad Cymru gyfan yn fuan iawn i barhau â'r gwaith hwnnw. Rydym yn edrych ar y modelau amgen sy'n cael eu datblygu, ac ar y cymorth a'r cyngor sydd ar gael. Cytunaf yn fawr â Lynne Neagle fod y materion hyn yn hollbwysig. Rhaid inni barhau i weithio arnynt, ac mae bob amser yn hanfodol lledaenu arfer gorau.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:53	Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	Minister, leisure centres play an important role in supporting grass-roots sport. The future of the leisure centre at Llantarnam School is currently unclear, due to Torfaen County Borough Council's schools merger plan. What action can the Minister take to ensure that the facilities at Llantarnam School leisure centre are saved for the local community?	Weinidog, mae canolfannau hamdden yn bwysig o ran cefnogi chwaraeon ar lawr gwlad. Nid yw'n glir beth fydd dyfodol y ganolfan hamdden yn Ysgol Llantarnam ar hyn o bryd, o ganlyniad i gynllun uno ysgolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Pa gamau y gall y Gweinidog eu cymryd i sicrhau bod y cyfleusterau yng nghanolfan hamdden Ysgol Llantarnam yn cael eu cadw ar gyfer y gymuned leol?
14:53	John Griffiths Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	I can assure Mohammad Asghar that Sport Wales works very closely with local authorities right across Wales, as I have described. That involves partnership agreements, which are about ensuring that facilities are available across a local authority area so that sport and physical activity can flourish. I am sure that the matters that the Member mentions are being discussed through those mechanisms.	Gallaf sicrhau Mohammad Asghar fod Chwaraeon Cymru'n gweithio'n agos iawn gydag awdurdodau lleol ledled Cymru, fel yr wyf wedi'i ddisgrifio. Mae hynny'n cynnwys cytundebau partneriaeth, sy'n golygu sicrhau bod cyfleusterau ar gael ar draws ardal awdurdod lleol fel y gall chwaraeon a gweithgarwch corfforol ffynnu. Rwyf yn siŵr bod y materion y mae'r Aelod yn sôn amdanynt yn cael eu trafod drwy'r mecanweithiau hynny.
	Gwasanaethau Chwaraeon a Hamdden	Sport and Leisure Services
14:54	Simon Thomas Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<i>6. A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y mae cyrff cyhoeddus yn cydweithio er mwyn sicrhau bod gwasanaethau chwaraeon a hamdden ar gael ym mhob rhan o Gymru? OAQ(4)0181(CS)</i>	<i>6. Will the Minister outline how public bodies are co-operating to ensure that sport and leisure services are available in all areas of Wales? OAQ(4)0181(CS)</i>
14:54	John Griffiths Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	Mae rhai enghreifftiau da iawn ledled Cymru o gydweithredu ac o bartneriaethau ym maes darparu a rheoli gwasanaeth chwaraeon a hamdden.	There are some very good examples across Wales of collaboration and partnerships in the provision and management of sport and leisure services.
14:54	Simon Thomas Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	Diolch, Weinidog, am yr ateb hwnnw. Diolch hefyd am ddweud eich bod yn barod i wrando ar bob syniad. Mae dogfen Plaid Cymru yn digwydd bod yma gennyf, yn barod ichi ei darllen. Un peth rydym yn ei nodi yn y ddogfen hon yw bod cyfleusterau chwaraeon ar gael mewn rhannau helaeth o Gymru ond, yn aml iawn, nad ydynt ar gael i'r cyhoedd oherwydd eu bod wedi'u lleoli mewn ysgolion, gan fwyaf, ond weithiau mewn canolfannau chwaraeon a chanolfannau cymunedol eraill hefyd. Felly, beth y gallwn ni ei wneud, gan adeiladu ar bwynt Mohammad Asghar funud yn ôl ynglŷn â phartneriaethau lleol, cryf sy'n gallu agor y drysau—yn llythrennol, weithiau—i'r cyfleusterau hyn er mwyn iddynt fod ar gael i bawb?	Thank you, Minister, for that answer. Thank you also for saying that you are willing to listen to all ideas. I happen to have the Plaid Cymru document here with me, ready for you to read. One thing that we note in this document is that sporting facilities are available in large parts of Wales but that, very often, they are not available to the public because they are located in schools, for the most part, but also in sports centres and other community centres too. So, what can we do, building on Mohammad Asghar's point a moment ago, about strong local partnerships that can open the doors—literally, sometimes—to these facilities so that they are available to all?
14:55	John Griffiths Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	It is very important, particularly at times of great budgetary difficulties, for local authorities, us and others, that we do make best use of existing facilities and that we do build partnerships and networks. I hope that everybody understands that.	Mae'n bwysig iawn, yn enwedig ar adegau o anawsterau cyllidebol mawr, i awdurdodau lleol, i ni ac i eraill, ein bod yn defnyddio'r cyfleusterau sydd gennym yn y ffordd orau bosibl a'n bod yn meithrin partneriaethau a rhwydweithiau. Rwyf yn gobeithio bod pawb yn deall hynny.

In terms of schools, that is a prime example of facilities that are there but are not available to the general public as much as they should be. I have had discussions with my colleague Huw Lewis, in terms of education policy. There are things that we can do in terms of the twenty-first century school building programme, but of course, there is an existing stock there as well, with issues that need to be addressed. So, these are matters at the forefront of my mind and the minds of ministerial colleagues and others, and we will continue to work around the problems to see what progress can be made.

O ran ysgolion, mae hynny'n enghraifft wych o gyfleusterau sydd yno, ond nad ydynt ar gael i'r cyhoedd i'r graddau y dylent fod. Rwyf wedi cael trafodaethau â'm cydweithiwr, Huw Lewis, ynglŷn â'r polisi addysg. Mae pethau y gallwn eu gwneud o ran y rhaglen adeiladu ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, ond wrth gwrs, mae stoc yno eisoes hefyd, a materion y mae angen rhoi sylw iddynt. Felly, mae'r rhain yn faterion sydd ar flaen fy meddwl a meddyliau fy nghyd-Weinidogion ac eraill, a byddwn yn parhau i weithio o amgylch y problemau i weld pa gynnydd y gellir ei wneud.

14:56 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Minister may be aware that Powys County Council is currently examining new operational models for running its sports and leisure facilities. I support the principle of examining new ways of delivering public services, but there will be some concerns raised from communities that host smaller centres, in that, potentially, they could lose their asset if it is deemed to be unprofitable. A few years back, the Audit Commission, alongside Sport England, undertook a study to examine how local authorities in England were managing their approach to providing public sports and recreation facilities and their attempts to improve access and value for money. When did the Welsh Government last undertake such a review—has it been some time, or has it not been done at all? I would be interested in your response to that. Would you consider this potential suggestion a bit further, Minister?

Efallai y bydd y Gweinidog yn gwybod bod Cyngor Sir Powys ar hyn o bryd yn archwilio modelau gweithredu newydd ar gyfer rhedeg ei gyfleusterau chwaraeon a hamdden. Rwyf yn cefnogi egwyddor archwilio ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, ond bydd rhai cymunedau lle mae canolfannau llai'n lleisio pryderon, oherwydd gallent, o bosibl, gollu eu hased os ystyrir nad yw'n broffidiol. Ychydig flynyddoedd yn ôl, cynhaliodd y Comisiwn Archwilio, ochr yn ochr â Sport England, astudiaeth i edrych ar y ffordd yr oedd awdurdodau lleol yn Lloegr yn rheoli eu hymagwedd at ddarparu cyfleusterau chwaraeon a hamdden cyhoeddus a'u hymdrechion i wella mynediad a gwerth am arian. Pryd oedd y tro diwethaf i Lywodraeth Cymru gynnal adolygiad o'r fath—a oes peth amser ers hynny, ynteu a yw heb ei wneud o gwbl? Byddai gennyf ddiddordeb yn eich ymateb i hynny. A wnewch chi roi ychydig yn rhagor o ystyriaeth i'r awgrym posibl hwn, Weinidog?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:57 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We have done a considerable amount of work, as has Sport Wales and others, in terms of value for money and different delivery models, and I have held a number of meetings, as I mentioned, with cabinet members and officers right across Wales, which will continue. I am very willing to look at whether a specific piece of work, such as the Member describes, might be useful in addition to the work that is already taking place. I do know, however, that a great deal of change is taking place in local authorities across Wales, including in Powys, at the moment, and that is why I think it is very important for me and my officials to have meetings at the current time, so that we are aware of what is going on on the ground and that we can show leadership in terms of the best delivery models.

Rydym wedi gwneud cryn dipyn o waith, fel y mae Chwaraeon Cymru ac eraill, o ran gwerth am arian a gwahanol fodelau darparu, ac rwyf wedi cynnal nifer o gyfarfodydd, fel y soniais, gydag aelodau cabinet a swyddogion ledled Cymru, a bydd hynny'n parhau. Rwyf yn barod iawn i edrych i weld a allai darn penodol o waith, fel yr un a ddisgrifiodd yr Aelod, fod yn ddefnyddiol yn ogystal â'r gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud. Gwn, fodd bynnag, fod llawer o newid yn digwydd mewn awdurdodau lleol ledled Cymru, gan gynnwys ym Mhowys, ar hyn o bryd, a dyna pam yr wyf yn credu ei bod yn bwysig iawn i mi a fy swyddogion i gael cyfarfodydd ar hyn o bryd, fel ein bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad a'n bod yn gallu dangos arweiniad o ran y modelau darparu gorau.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Beicio

Cycling

14:58 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

7. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i annog beicio yng Nghwm Cynon? OAQ(4)0172(CS)

7. What actions is the Welsh Government taking to encourage cycling in the Cynon Valley? OAQ(4)0172(CS)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:58 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Welsh Government encourages and promotes cycling for sport, recreation and travel throughout Wales. The Active Travel (Wales) Act 2013 aims to make cycling and walking the most natural way to travel short distances. We hope that this will lead to more people cycling in Welsh communities such as the Cynon valley.

Mae Llywodraeth Cymru'n annog ac yn hyrwyddo beicio at ddibenion chwaraeon, hamdden a theithio ledled Cymru. Nod Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yw sicrhau mai beicio a cherdded yw'r ffordd fwyaf naturiol o deithio pellteroedd byr. Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn peri bod mwy o bobl yn beicio mewn cymunedau yng Nghymru megis cwm Cynon.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

It is also important that we take action to ensure that people, especially those from disadvantaged backgrounds, have access to bicycles, which we know can be expensive to buy. For a number of years, RCT council has had an innovative bicycle recycling scheme, which, importantly, can be accessed through a centre of excellence in Pontypridd High School, in my constituency. Obviously, this is good for the environment and it encourages young people into healthy activity. Minister, what other interventions can the Welsh Government make to encourage cycling among young people in particular, and what lessons can we draw from this RCT initiative?

I am very pleased to hear about this excellent initiative by Rhondda Cynon Taf County Borough Council. I am aware of similar schemes around Wales, some of them based in Communities First areas, and I think that, again, it is very important that we spread best practice around. As part of taking the active travel Act forward, we have a board to consider how we can make the Act most effective. I am sure that the board will be very interested in the example that Christine Chapman has mentioned, and I will bring it to the board's attention. It is absolutely important that we make sure that deprivation is not a barrier to cycling in Wales. I am very committed to ensuring that no such barrier exists.

Mae hefyd yn bwysig ein bod yn cymryd camau i sicrhau bod pobl, yn enwedig pobl o gefndiroedd difreintiedig, yn cael cyfle i ddefnyddio beiciau; rydym yn gwybod y gallant fod yn ddrud i'w prynu. Ers nifer o flynyddoedd, mae cyngor Rhondda Cynon Taf yn cynnal cynllun arloesol i ailgylchu beiciau, sydd, yn bwysig iawn, ar gael drwy ganolfan ragoriaeth yn Ysgol Uwchradd Pontypridd, yn fy etholaeth i. Wrth gwrs, mae hyn yn dda i'r amgylchedd ac mae'n annog pobl ifanc i wneud gweithgareddau iach. Weinidog, pa ymyriadau eraill y gall Llywodraeth Cymru eu gwneud i annog pobl ifanc yn arbennig i feicio, a pha wersi y gallwn eu dysgu o'r fenter hon yn Rhondda Cynon Taf?

Roeddwn yn falch iawn o glywed am y fenter ardderchog hon gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Rwyf yn gwybod am gynlluniau tebyg ledled Cymru, rhai ohonynt mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, ac rwyf yn meddwl, unwaith eto, ei bod yn bwysig iawn ein bod yn lledaenu arfer gorau. Wrth inni fwrw ymlaen â'r Ddeddf Teithio Llesol, mae gennym fwrdd i ystyried sut y gallwn sicrhau bod y Ddeddf mor effeithiol â phosibl. Rwyf yn siŵr y bydd gan y bwrdd ddiddordeb mawr yn yr enghraifft y soniodd Christine Chapman amdani, a byddaf yn tynnu sylw'r bwrdd ati. Mae'n hanfodol bwysig ein bod yn sicrhau nad yw amddifadedd yn faen tramgwydd i feicio yng Nghymru. Rwyf yn gwbl ymroddedig i sicrhau nad oes maen tramgwydd o'r fath yn bodoli.

15:00 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I am someone who acquired a bike for Christmas and has been on it twice since Christmas—I think that it is most probably that Lycra and my finely shaped body are not meant to meet on such a machine—but this is important. National Bike Week was last week. It is a great pastime for many people, but the one big obstacle that knocks many cyclists' confidence is the state of many roads within the South Wales Central area, and in particular Cynon Valley. Do you work with cycling organisations to bring to the Minister for local government's attention the appalling state of some areas of the road network in South Wales Central, and the need to fill as many potholes as possible in light of the extra money that has been made available in England by the Westminster Government to tackle this perennial problem?

Weinidog, cefais feic yn anrheg Nadolig ac rwyf wedi bod arno ddwywaith ers y Nadolig—rwyf yn amau nad yw Lycra a fy nghorff lluniaidd i i fod i gyfarfod ar y fath beiriant—ond mae hyn yn bwysig. Roedd Wythnos Genedlaethol y Beic yr wythnos diwethaf. Mae'n ffordd wych o hamddena i lawer o bobl, ond yr un rhwystr mawr sy'n ergyd i hyder llawer o feicwyr yw cyflwr llawer o'r ffyrdd yn ardal Canol De Cymru, ac yn arbennig yng Nghwm Cynon. A ydych yn gweithio gyda sefydliadau beicio i dynnu sylw'r Gweinidog llywodraeth leol at gyflwr echrydus rhai rhannau o'r rhwydwaith ffyrdd yng Nghanol De Cymru, a'r angen i lenwi cynifer o dyllau â phosibl yng ngoleuni'r arian ychwanegol a ddarparwyd yn Lloegr gan Lywodraeth San Steffan i ymdrin â'r broblem fythol hon?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:00 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I had better not be drawn into commenting on the leader of the opposition's physical condition and cycling. So, I will move swiftly on. It is important that we have a top-quality road network in Wales for very many reasons, including cycling. I know that my colleague, the Minister for transport, is crucially aware of that and is taking forward the necessary work. In terms of the Active Travel (Wales) Act 2013, we are very focused on off-road as well as on-road. We will have a package, as we take this work forward, to make sure that all those issues are addressed.

Byddai'n well imi beidio â dechrau gwneud sylwadau am gyflwr corfforol arweinydd yr wrthblaid a beicio. Felly, symudaf ymlaen yn gyflym. Mae'n bwysig bod gennym rwydwaith ffyrdd o safon uchel yng Nghymru am lawer iawn o resymau, gan gynnwys beicio. Gwn fod fy nghydweithiwr, y Gweinidog trafnidiaeth, yn gwbl ymwybodol o hynny ac yn bwrw ymlaen â'r gwaith angenrheidiol. O ran Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, rydym yn rhoi pwyslais mawr ar feicio oddi ar y ffordd, yn ogystal ag ar y ffordd. Bydd gennym becyn, wrth inni fwrw ymlaen â'r gwaith hwn, i wneud yn siŵr bod yr holl faterion hynny'n cael sylw.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:01 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Question 8 was grouped with question 3, so we will move to question 9 and that is from Paul Davies.

Cafodd cwestiwn 8 ei grwpio gyda chwestiwn 3, felly symudwn at gwestiwn 9 ac mae'n dod oddi wrth Paul Davies.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Digwyddiadau Diwylliannol

Cultural Events

- 15:01 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi digwyddiadau diwylliannol yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0168(CS)
- 15:01 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Our programme for government sets out how we support cultural events across Wales.
- 15:01 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Minister, you may be aware that, next month, the Fishguard International Music Festival will be held, which successfully showcases a fantastic number of local and national artists. This festival is one of many that not only bring local communities across Pembrokeshire together, but also bring in large numbers of visitors from across Wales and beyond. What is the Welsh Government specifically doing to safeguard, support and promote smaller, more local festivals, like the Fishguard music festival?
- 15:02 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
We are very fortunate in Wales to have such a number of important festivals taking place across our country throughout the year. They are a big magnet for visitors and are very important to local economies. I am pleased that the Arts Council of Wales, which is within my portfolio, supports such events across the country because of that importance. My colleague the Minister for economy has a major events programme, which not only supports those larger events, but encourages the growth of smaller events that have the necessary potential. Across Welsh Government, there is work in hand and strategies in place that recognise the importance of these festivals and help them to grow and flourish.
- 15:03 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Mae'n mynd i fod yn 18 mis prysur yn etholaeth Llanelli gydag Eisteddfod sir Gaerfyrddin eleni a thref Cydweli yn dathlu troi'n 900 mlwydd oed yn 2015, fel y byddwch yn gwybod. Weinidog, beth yw'r ffordd orau i sicrhau bod llwyddiant digwyddiadau lleol yn cael ei drosglwyddo er budd creu etifeddiaeth barhaol ar gyfer twristiaeth ddiwylliannol?
- 15:03 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Our Welsh Government cultural tourism action plan sets out how that authentic visitor experience in Wales will be showcased. I think that that helps to spread good practice. The strategy for tourism is about partnership for growth, understanding our cultural assets and making sure that they are used to maximum effect. There is a supporting framework action plan that sits underneath that. Those are important aspects of Welsh Government policy on these matters.
9. Will the Minister make a statement on how the Welsh Government is supporting cultural events in west Wales? OAQ(4)0168(CS)
- Mae ein rhaglen lywodraethu'n nodi sut yr ydym yn cefnogi digwyddiadau diwylliannol ledled Cymru.
- Weinidog, efallai eich bod yn ymwybodol y cynhelir Gŵyl Gerdd Ryngwladol Abergwaun y mis nesaf; y mae'n llwyddo i fod yn llwyfan i nifer aruthrol o artistiaid lleol a chenedlaethol. Mae'r ŵyl hon yn un o nifer sydd nid yn unig yn uno cymunedau lleol ledled sir Benfro, ond hefyd yn denu nifer mawr o ymwelwyr o bob cwr o Gymru a thu hwnt. Beth y mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud yn benodol i ddiogelu, cefnogi a hyrwyddo gwyliau llai, mwy lleol, megis gŵyl gerddoriaeth Abergwaun?
- Rydym yn ffodus iawn yng Nghymru fod gennym gynifer o wyliau pwysig yn digwydd ledled ein gwlad drwy gydol y flwyddyn. Maent yn denu llawer o ymwelwyr ac maent yn bwysig iawn i economïau lleol. Rwyf yn falch bod Cyngor Celfyddydau Cymru, sydd o fewn fy mhorthffolio, yn cefnogi digwyddiadau o'r fath ledled y wlad oherwydd y pwysigrwydd hwnnw. Mae gan fy nghydweithiwr, Gweinidog yr Economi, raglen digwyddiadau mawr, sydd nid yn unig yn cefnogi'r digwyddiadau mwy hynny, ond yn annog twf digwyddiadau llai sydd â'r potensial angenrheidiol. Ar draws Llywodraeth Cymru, mae gwaith ar y gweill a strategaethau ar waith sy'n cydnabod pwysigrwydd y gwyliau hyn ac yn eu helpu i dyfu a ffynnu.
- It is going to be a busy 18 months in the Llanelli constituency with the Carmarthenshire Eisteddfod taking place this year and the town of Kidwelly celebrating its nine-hundredth anniversary in 2015, as you will know. Minister, what is the best way of ensuring that the success of local events is transferred in order to create long-term benefit for cultural tourism?
- Mae cynllun gweithredu twristiaeth ddiwylliannol Llywodraeth Cymru'n nodi sut y caiff y profiad dilyn hwnnw i ymwelwyr â Chymru ei arddangos. Credaf fod hynny'n helpu i ledaenu arfer da. Mae'r strategaeth ar gyfer twristiaeth yn ymwneud â phartneriaeth ar gyfer twf, deall ein hasedau diwylliannol a sicrhau y cânt eu defnyddio i'r eithaf. Mae cynllun gweithredu fframwaith ategol sy'n sail i hynny. Mae'r rhain yn agweddau pwysig ar bolisi Llywodraeth Cymru ar y materion hyn.

- 15:04 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Weinidog, un o ddigwyddiadau mwyaf cyffrous y gorllewin ddydd Gwener diwethaf oedd ras yr iaith, digwyddiad a oedd yn cyfuno diwylliant a chwaraeon. Roedd pobl ifanc a phobl o bob oedran yn rhedeg y ras ac yn rhedeg er mwyn hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Roedd yn ddigwyddiad llwyddiannus iawn. Gofynnaf ichi longyfarch y trefnwyr am gynnal digwyddiad mor llwyddiannus. A wnewch chi a'ch adran weithio gyda threfnwyr rasys o'r math hwn i hyrwyddo'r syniad o gydweithio chwaraeon â hybu'r Gymraeg, a gwneud hynny nid dim ond yn y gorllewin, yng Ngheredigion, ond yn ddigwyddiad a all ledu trwy Gymru gyfan?
- Minister, one of the most exciting events in west Wales last Friday was 'ras yr iaith'—the race for the language—an event that combined culture and sport. Young people and people of all ages ran the race in order to promote the Welsh language. It was an exceptionally successful event. I ask you to congratulate the organisers for hosting such a successful event. Will you and your department work with the organisers of such races to promote the idea of the collaboration of sports and the promotion of the Welsh language, and to do that not only in west Wales, in Ceredigion, but to make it an event that can spread to the whole of Wales?
- 15:05 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I am pleased to join Elin Jones in recognising the importance and the success of that event. As Minister, and with my officials, I am very pleased to explore opportunities of joint working. It is good to see the Welsh language being used in this way, around physical activity and racing, and the two can benefit each other very much.
- Rwyf yn falch o ymuno ag Elin Jones a chydabod pwysigrwydd a llwyddiant y digwyddiad hwnnw. Rwyf fi fel Gweinidog, a chyda fy swyddogion, yn falch iawn o archwilio cyfleoedd i weithio ar y cyd. Mae'n braf gweld y Gymraeg yn cael ei defnyddio fel hyn, mewn cysylltiad â gweithgarwch corfforol a rasio, a gall y naill a'r llall eu helpu ei gilydd yn fawr iawn.
- I have been very impressed with events such as Gemau Cymru, and the Urdd, which increasingly links with Sport Wales, and has such a strong volunteer base and such a good infrastructure around Wales that Sport Wales is very pleased with the benefits that that relationship with the Urdd brought for the language and for sport in Wales.
- Mae digwyddiadau megis Gemau Cymru, a'r Urdd, sy'n meithrin cyswllt fwyfwy â Chwaraeon Cymru, wedi gwneud argraff dda iawn arnaf ac mae ganddynt gronfa mor gryf o wirfoddolwyr a seilwaith mor dda ledled Cymru ac mae Chwaraeon Cymru'n falch iawn o'r manteision a roddodd y berthynas â'r Urdd i'r iaith ac i chwaraeon yng Nghymru.
- 15:06 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- How is the Welsh Government targeting its support to broaden access to, and participation in, cultural events in west Wales in a way that targets tackling poverty?
- Sut y mae Llywodraeth Cymru'n targedu ei chefnogaeth i ehangu mynediad i ddigwyddiadau diwylliannol yn y gorllewin, ac i ddenu mwy o bobl i gymryd rhan ynddynt, mewn ffordd sy'n targedu trechu tlodi?
- 15:06 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- This is a matter that I am keen to strengthen, as far as my own responsibilities are concerned. The 'Culture and Poverty' report, launched in March, looks at how cultural bodies could work more closely and strategically with programmes such as Communities First. Increasingly, Communities First will be a focus for my work, and that is the case across the Welsh Government. We are consulting with key stakeholders to develop a detailed response and delivery plan, and that will be forthcoming in the autumn.
- Mae hwn yn fater yr wyf yn awyddus i'w gryfhau, o safbwynt fy nghyfrifoldebau fy hun. Mae'r adroddiad 'Diwylliant a Thlodi', a lanswyd ym mis Mawrth, yn edrych ar sut y gallai cyrff diwylliannol gydweithio'n agosach ac yn strategol â rhaglenni megis Cymunedau yn Gyntaf. Bydd fy ngwaith yn canolbwyntio fwyfwy ar Cymunedau yn Gyntaf, ac mae hynny'n wir ar draws Llywodraeth Cymru. Rydym yn ymgynghori a rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu ymateb manwl a chynllun cyflawni, a bydd hynny ar y gweill yn yr hydref.
- 15:06 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- As you may know, next week sees the staging of the Llandeilo Jazz Festival, which goes from strength to strength, and, this year, enters its third year. Would you join me in congratulating the volunteers and the members of the business community who combined to make that event possible, and, notably, the Evan Evans Brewery, which has been central to its development? What can be done to roll out such best practice to encourage the development of events of that kind in the future?
- Fel y gwyrddoch efallai, yr wythnos nesaf cynhelir Gŵyl Jazz Llandeilo, sy'n mynd o nerth i nerth, ac sydd, eleni, yn ei thrydedd flwyddyn. A wnewch chi ymuno â mi a llongyfarch y gwirfoddolwyr a'r aelodau o'r gymuned fusnes a lwyddodd, gyda'i gilydd, i wneud y digwyddiad yn bosibl, ac, yn arbennig, Fragdy Evan Evans, sydd wedi bod yn ganolog i'w datblygiad? Beth y gellir ei wneud i gyflwyno arfer gorau o'r fath er mwyn hybu datblygiad digwyddiadau tebyg yn y dyfodol?

15:07	<p>John Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>I am pleased, again, to join the Member in applauding the initiative and the efforts of the volunteers and the business community in Llandeilo. As I have described to other Members in answering their questions, those strategies, policies and approaches, I hope, will help to spread that best practice, as they will with the other examples mentioned. On volunteers in particular, all Members here will understand the importance of volunteers in so many aspects of life in Wales, and, certainly, that is very true in the areas of culture and sport.</p>	<p>Rwyf yn falch, unwaith eto, o ymuno â'r Aelod a chanmol y fenter ac ymdrechion y gwirfoddolwyr a'r gymuned fusnes yn Llandeilo. Fel yr wyf wedi dweud wrth Aelodau eraill wrth ateb eu cwestiynau, bydd y strategaethau, y polisiau a'r ymagweddau hynny, rwyf yn gobeithio, yn helpu i ledaenu'r arfer gorau hwnnw, fel gyda'r enghreifftiau eraill a grybwyllwyd. O ran gwirfoddolwyr yn benodol, bydd yr holl Aelodau yma'n deall pwysigrwydd gwirfoddolwyr mewn cynifer o agweddau ar fywyd yng Nghymru, ac, yn sicr, mae hynny'n wir iawn ym meysydd diwylliant a chwaraeon.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Digwyddiadau Chwaraeon Rhyngwladol		International Sporting Events	
15:08	<p>Rebecca Evans Bywgraffiad Biography</p> <p><i>10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar flaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran cynyddu cyfranogiad Cymru mewn digwyddiadau chwaraeon rhyngwladol?</i> OAQ(4)0182(CS)</p>	<p><i>10. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's priorities in terms of increasing Welsh participation at international sporting events?</i> OAQ(4)0182(CS)</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:08	<p>John Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>Through Sport Wales's elite sport strategy, we are providing the best possible support for our athletes to participate and be successful at major sporting events.</p>	<p>Drwy strategaeth chwaraeon elit Chwaraeon Cymru, rydym yn darparu'r cymorth gorau posibl i'n hathletwyr i gymryd rhan a bod yn llwyddiannus mewn digwyddiadau chwaraeon mawr.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:08	<p>Rebecca Evans Bywgraffiad Biography</p> <p>I know that you will join me in enthusiastically backing Team Wales at the Commonwealth Games, and I would like to take this opportunity to ask you to join me in congratulating the Welsh men and women who have recently represented Wales for the very first time at the FIH Masters Hockey World Cup in Rotterdam. However, I wonder whether any work has been done in recent years to better understand the background of our international sports men and women to ensure that their personal circumstances are no barrier to being able to represent Wales, if they are at the top of their game.</p>	<p>Gwn y byddwch yn ymuno â mi ac yn cefnogi Tîm Cymru'n frwd yng Ngemau'r Gymanwlad, a hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ofyn ichi ymuno â mi a llongyfarch y dynion a'r menywod o Gymru a gynrychiolodd Gymru am y tro cyntaf erioed yn ddiweddar yng Nghwpan Hoci'r Byd yr FIH Masters yn Rotterdam. Fodd bynnag, tybed a oes unrhyw waith wedi ei wneud dros y blynyddoedd diwethaf i ddechrau ddeall yn well gefndir ein dynion a'n menywod ym myd y campau rhyngwladol er mwyn sicrhau nad yw eu hamgylchiadau personol yn rhwystr i'w gallu i gynrychioli Cymru, os ydynt ar frig eu gêm.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:09	<p>John Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>I join Rebecca Evans in applauding the international profile raising and sporting prowess of our hockey team. I know that Sport Wales is constantly looking at the elite sport strategy and is seeking to learn lessons. It has an important community sport strategy, and an anti-poverty strategy, as part of its grass-roots activity, which, hopefully, will bring opportunities to all of our people to go on and become elite athletes, if they have the ability and the commitment. However, it is important that we review these matters regularly, and I know, for example, that Sport Wales will be reviewing the talent system in Wales post the Glasgow Commonwealth Games, and that will be done in parallel with a review of the elite sport strategy.</p>	<p>Ymunaf â Rebecca Evans a chanmol ein tîm hoci am godi ein proffil rhyngwladol ac am ei allu ym myd y campau. Gwn fod Chwaraeon Cymru'n edrych yn gyson ar y strategaeth chwaraeon elit ac yn ceisio dysgu gwersi. Mae ganddo strategaeth bwysig ar gyfer chwaraeon cymunedol, a strategaeth gwrthdlodi, fel rhan o'i weithgareddau ar lawr gwlad, a fydd, rwyf yn gobeithio, yn rhoi cyfleoedd i'n pobl i gyd i fynd ymlaen i fod yn athletwyr elit, os yw'r gallu a'r ymroddiad ganddynt. Fodd bynnag, mae'n bwysig inni adolygu'r materion hyn yn rheolaidd, a gwn, er enghraifft, y bydd Chwaraeon Cymru'n adolygu'r system dalent yng Nghymru ar ôl Gemau'r Gymanwlad yn Glasgow, ac y gwneir hynny ochr yn ochr ag adolygiad o'r strategaeth chwaraeon elit.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

15:09	Mark Isherwood Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Given the exciting announcement of investment in the Racecourse ground by Glyndŵr University—I believe that it will possibly be back to international standard—and facilities such as the Deeside stadium for athletics, and, of course, our offshore facilities in north-west Wales for sailing, how will you ensure that north Wales will continue to be, and will grow as, a venue for international sporting events?</p>	<p>Ac ystyried y cyhoeddiad cyffrous ynghylch buddsoddiad Prifysgol Glyndŵr yn y Cae Ras—rwyf yn credu y gallai gyrraedd safon ryngwladol eto—a chyfleusterau megis stadiwm athletau Glannau Dyfrdwy, ac, wrth gwrs, ein cyfleusterau ar y dŵr yn y gogledd-orllewin ar gyfer hwylio, sut y byddwch yn sicrhau y bydd y gogledd yn parhau i fod yn lleoliad ar gyfer digwyddiadau chwaraeon rhyngwladol, ac yn tyfu yn hynny o beth?</p>
15:10	John Griffiths Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>All of the matters, policies and strategies, and approaches that I have mentioned to previous questioners apply, of course, to north Wales. Every part of Wales is included in our approach as the Welsh Government, and we will certainly ensure that north Wales does not miss out in any way.</p>	<p>Mae pob un o'r materion, y polisiau a'r strategaethau hyn, a'r ymagweddau yr wyf wedi sôn amdanynt wrth holwyr blaenorol yn berthnasol, wrth gwrs, i'r gogledd. Mae'r hyn a wnawn fel Llywodraeth Cymru'n cynnwys pob rhan o Gymru, a byddwn yn sicr yn sicrhau nad yw'r gogledd ar ei gollod yn unrhyw ffordd.</p>
	Adnoddau Treftadaeth	Heritage Resources
15:10	Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p><i>11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar warchod adnoddau treftadaeth? OAQ(4)0177(CS)</i></p>	<p><i>11. Will the Minister make a statement on the protection of heritage resources? OAQ(4)0177(CS)</i></p>
15:10	John Griffiths Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Adeiladau hanesyddol a henebion sy'n rhoi cymeriad i gymunedau ac maent yn haeddu eu gwerthfawrogi a'u gwarchod. Ledled Cymru, mae dros 4,000 o henebion hynafol wedi'u cofrestru a rhyw 30,000 o adeiladau wedi'u gwarchod drwy eu rhestru. Mae grantiau ar gael i ddiogelu'r rhain gan Cadw, rhannau eraill o Lywodraeth Cymru a sefydliadau eraill.</p>	<p>Historic buildings and monuments give communities their character and deserve our appreciation and protection. Over 4,000 ancient monuments are scheduled and some 30,000 buildings across Wales are protected through listing. Grants are available to support their conservation from Cadw, other parts of the Welsh Government and other organisations.</p>
15:11	Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Diolch ichi am eich ymateb. Byddwch, wrth gwrs, wedi nodi'r penderfyniad, rwy'n siŵr, i beidio ag erlyn y sawl oedd yn gyfrifol am achosi difrod difrifol i ran o Glawdd Offa yn ddiweddar. A ydych yn cytuno â mi bod hynny'n gosod cysail peryglus? Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau na fydd trychineb o'r fath yn medru digwydd eto?</p>	<p>Thank you for your response. You will, of course, have noted the decision, I am sure, not to prosecute those responsible for causing serious damage to part of Offa's Dyke recently. Do you agree with me that that sets a dangerous precedent? What is the Welsh Government doing to ensure that such a disaster does not recur?</p>
15:11	John Griffiths Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I very much agree with the Member in terms of the importance of Offa's Dyke and, indeed, other ancient monuments right across Wales. There is a gap in the law, which has been there for quite some time, and it is one that I hope to close through the heritage Bill. I very much look forward to working with Members through the scrutiny process to ensure that that happens effectively.</p>	<p>Cytunaf yn fawr iawn â'r Aelod o ran pwysigrwydd Clawdd Offa ac, yn wir, henebion eraill ledled Cymru. Mae bwlch yn y gyfraith, sydd wedi bod yno ers peth amser, ac mae'n un yr wyf yn gobeithio ei gau drwy'r Bil treftadaeth. Rwyf yn edrych ymlaen yn fawr iawn at weithio gyda'r Aelodau drwy'r broses graffu i sicrhau bod hynny'n digwydd yn effeithiol.</p>

- 15:12 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I am very pleased to hear that response from you, Minister, but we are also losing another significant part of our heritage, unfortunately, at an alarming rate, and that is great examples of the incredible and amazing chapels in Wales. These form an important part of our nonconformist history and spiritual heritage in Wales. What action will you take through the forthcoming heritage Bill to plug that gap in our legislation to ensure that those parts of our spiritual heritage are also afforded the protection that they deserve?
- Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:12.*
- Rwyf yn falch iawn o glywed yr ymateb hwnnw gennych, Weinidog, ond rydym hefyd yn colli rhan sylweddol arall o'n treftadaeth, yn anffodus, yn frawychus o gyflym, sef yr enghreifftiau gwych o gapeli anhygoel a rhyfeddol yng Nghymru. Maent yn rhan bwysig o'n hanes anghydfurfiol a'n treftadaeth ysbrydol yng Nghymru. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd drwy'r Bil treftadaeth sydd yn yr arfaeth i gau'r bwlch hwnnw yn ein deddfwriaeth er myn sicrhau bod y rhannau hynny o'n treftadaeth ysbrydol hefyd yn cael eu diogelu fel y maent yn ei haeddu?
- The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15:12.*
- 15:12 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I very much accept what the Member says in terms of the importance of our chapels, of course. In general, we need to get the balance right in that heritage Bill between greater protection and more flexibility in the system. That greater flexibility is partly about finding alternative uses, facilitating and encouraging those alternative uses. That general approach will be one that will be effective in terms of the issues relating to chapels in Wales, as with our important buildings in general.
- Rwyf yn sicr yn derbyn yr hyn y mae'r Aelod yn ei ddweud o ran pwysigrwydd ein capeli, wrth gwrs. Yn gyffredinol, mae angen inni gadw'r cydbwysedd iawn yn y Bil treftadaeth hwnnw rhwng mwy o ddiogelu a mwy o hyblygrwydd yn y system. Mae'r hyblygrwydd mwy hwnnw'n rhannol yn fater o ddo o hyd i ffyrdd eraill o'u defnyddio, a hwyluso ac annog eu defnyddio yn y ffyrdd eraill hynny. Bydd yr ymagwedd gyffredinol honno'n effeithiol o ran y materion sy'n ymwneud â chapeli yng Nghymru, ac o ran ein hadeiladau pwysig yn gyffredinol.
- 15:13 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Minister.
- Diolch, Weinidog.
- 15:13 **Datganiad a Chyhoeddiad Busnes** **Business Statement and Announcement** **Y** Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
- I call on the Minister for Local Government and Government Business, Lesley Griffiths.
- Galwaf ar y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, Lesley Griffiths.
- 15:13 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*
- I have no changes to report to this week's business. However, today's consideration of Stage 3 amendments to the Housing (Wales) Bill will conclude after three and a half hours or after all amendments to section 59 have been disposed of, whichever is the earliest. Stage 3 consideration will conclude next week. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers that are available to Members electronically.
- Nid oes gennyf newidiadau i'w hadrodd i fusnes yr wythnos hon. Fodd bynnag, bydd yr ystyriaeth a roddir heddiw i welliannau Cyfnod 3 Bil Tai (Cymru) yn dod i ben ar ôl tair awr a hanner neu ar ôl ymdrin â'r holl welliannau i adran 59, pa un bynnag yw'r cynharaf. Bydd ystyriaeth Cyfnod 3 yn dod i ben yr wythnos nesaf. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i dangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes, sydd ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.

15:14

Byron Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I raised on 21 May in the Chamber with the Minister for Education and Skills the issue of the future funding of Technocamps. I asked in particular whether he would outline what is happening with the funding element of this innovative programme, and was told that the Welsh European Funding Office is having ongoing discussions in relation to a possible extension and continuation of funding. The director of Technocamps, Professor Faron Moller of Swansea University, tells me that he is baffled by this and has requested clarification from WEFO, believing that it would have briefed him. However, the response that he has had says that the statement provided for the Minister for Education and Skills was not as clear as it should have been. WEFO is not, in fact, awaiting any finance and project information regarding the Technocamps project; rather the response reaffirmed WEFO's decision taken in February. The last time that he had had contact with WEFO regarding this issue, the Technocamps project was required to come to a close in September. There is mass confusion around this, Minister, and I ask for an urgent statement from the Minister regarding this very important funding for Technocamps.

Weinidog, ar 21 Mai yn y Siambr soniais wrth y Gweinidog Addysg a Sgiliau am ariannu Technocamps yn y dyfodol. Gofynnais yn benodol iddo amlinellu'r hyn sy'n digwydd o ran elfen ariannu'r rhaglen arloesol hon, a dywedodd wrthyf fod Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru'n cynnal trafodaethau parhaus ynglŷn ag estyniad posibl a chyllid parhaus. Mae cyfarwyddwr Technocamps, yr Athro Faron Moller o Brifysgol Abertawe, yn dweud wrthyf fod hyn yn peri penbleth iddo a'i fod wedi gofyn am eglurhad gan WEFO, oherwydd ei fod yn credu y byddai wedi ei frifio. Fodd bynnag, mae'r ymateb a gafodd yn dweud nad oedd y datganiad a ddarparwyd i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau mor glir ag y dylai fod wedi bod. Nid yw WEFO, mewn gwirionedd, yn aros am unrhyw wybodaeth ariannol na gwybodaeth prosiect am Technocamps; yn hytrach, roedd yr ymateb yn ailddatgan y penderfyniad a wnaeth WEFO ym mis Chwefror. Y tro diwethaf iddo fod mewn cysylltiad â WEFO ynghylch y mater hwn, roedd yn ofynnol i brosiect y Technocamps ddod i ben ym mis Medi. Mae dryswch mawr ynghylch hyn, Weinidog, a gofynnaf am ddatganiad brys gan y Gweinidog ynglŷn â'r cyllid pwysig iawn hwn i Technocamps.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:15

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You raise a very specific example of education funding. I will ask the Minister for Education and Skills to write to you, rather than make a statement.

Rydych yn codi enghraifft benodol iawn o ran cyllid addysg. Gofynnaf i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau ysgrifennu atoch, yn hytrach na gwneud datganiad.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:15

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Following the issues raised in the urgent question earlier on today and questions during questions to the First Minister, does the Minister think it would be a good idea to have a full and considered debate on multiculturalism in Wales, bearing in mind that the Welsh Government and the Welsh Assembly's aim has always been to give every person in every community a part in Welsh society? From the events of last weekend, it does look as if this has passed by some young men in particular.

Yn dilyn y materion a godwyd yn y cwestiwn brys yn gynharach heddiw a chwestiynau yn ystod y cwestiynau i'r Prif Weinidog, a yw'r Gweinidog yn credu y byddai'n syniad da cael trafodaeth lawn ac ystyriol am amlddiwylliaeth yng Nghymru, o gofio ei bod bob amser wedi bod yn nod gan Lywodraeth Cymru a Chynulliad Cymru i sicrhau bod pob unigolyn ym mhob cymuned yn rhan o gymdeithas Cymru? O ystyried digwyddiadau'r penwythnos diwethaf, mae'n ymddangos bod rhai dynion ifanc yn arbennig wedi methu â sylwi ar hyn.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:16

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think it is absolutely imperative that we listen to our communities, and you will have heard me in answers earlier, and also the Minister for Communities and Tackling Poverty, agree that that is the approach to take if we are going to build up resilience in such situations. The Minister for Communities and Tackling Poverty is going to set up a meeting, as he said, with community representatives and members of the faith communities forum to discuss any further support that might be needed in this area. After he has updated Members, we could perhaps then look to have a debate.

Credaf ei bod yn gwbl hanfodol ein bod yn gwrandao ar ein cymunedau, a byddwch wedi fy nghlywed mewn atebion yn gynharach, a'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi hefyd, yn cytuno mai dyna'r ymagwedd i'w harfer er mwyn meithrin cydnherthedd mewn sefyllfaoedd o'r fath. Mae'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi'n bwriadu trefnu cyfarfod, fel y dywedodd, â chynrychiolwyr cymunedol ac aelodau o'r fforwm cymunedau ffydd i drafod unrhyw gymorth pellach y gallai fod ei angen yn y maes hwn. Ar ôl iddo roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau, efallai y gallen wedyn ystyried cael dadl.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:16

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, can we have a statement please on the progress of the Playing Fields (Community Involvement in Disposal Decisions) (Wales) Measure 2010? I understand that, since it has had Royal Assent in 2010, this year has been the first opportunity that you have taken as a Government to consult on the regulations. I think we need a statement because you may have seen that City and County of Swansea Council has gone out to consultation with regard to selling off many playing fields—in Pontarddulais Comprehensive School, Blaenymaes Primary School, Tre Uchaf Primary School and Ysgol Gyfun Gymraeg Gellionnen. When we are talking about the encouragement of sport in our communities, selling off playing fields is not something that will help or aid people in getting involved in sport in our local communities.

Weinidog, a gawn ni ddatganiad os gwelwch yn dda am hynt Mesur Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2010? Rwyf ar deall, gan ei fod wedi cael Cydsyniad Brenhinol yn 2010, mai eleni oedd y cyfle cyntaf i chi ei gymryd fel Llywodraeth i ymgynghori ar y rheoliadau. Rwyf yn meddwl bod angen datganiad arnom oherwydd efallai y byddwch wedi gweld bod Dinas a Sir Abertawe'n cynnal ymgynghoriad ynglŷn â gwerthu llawer o gaeau chwarae—yn Ysgol Gyfun Pontarddulais, Ysgol Gynradd Blaenymaes, Ysgol Gynradd Tre Uchaf ac Ysgol Gyfun Gymraeg Gellionnen. Pan fyddwn yn sôn am annog chwaraeon yn ein cymunedau, nid yw gwerthu caeau chwarae'n rhywbeth a fydd yn helpu nac yn cynorthwyo pobl i gymryd rhan mewn chwaraeon yn ein cymunedau lleol.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:17

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, we do want to encourage further participation in sport, as we mentioned before. There are sometimes very specific issues around playing fields, but I will have a look at what we are doing as a Government regarding the regulations and write to the Member.

Wel, rydym yn awyddus i annog mwy o gyfranogiad mewn chwaraeon, fel y nodwyd eisoes. Weithiau ceir materion penodol iawn yn ymwneud â chaeau chwarae, ond edrychaf ar yr hyn yr ydym yn ei wneud fel Llywodraeth ynglŷn â'r rheoliadau ac ysgrifennaf at yr Aelod.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:17

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I heard what you said earlier, when wearing your other hat as acting First Minister, in relation to local government reorganisation, that the First Minister will be making a statement before the end of this term. However, at the weekend—or I think it was on Friday, in fact—you made a statement to the Welsh Local Government Association conference in which you set out timetables for how this is going to proceed. You chose to make those remarks to a body outside of this Chamber, rather than to this Chamber itself, thus avoiding scrutiny on that particular issue. May I ask, therefore, whether you, wearing your third hat as Minister for local government, will bring a statement to this Chamber along the lines of what you have already told the Welsh Local Government Association so that you can answer questions on that? I do think, Deputy Presiding Officer, that it was a gross discourtesy to make that statement outside of this Chamber rather than to the Chamber itself, and I do hope that you are able to correct that with a statement this time, Minister.

Weinidog, clywais yr hyn a ddywedasoch yn gynharach, wrth wisgo eich het arall fel Prif Weinidog dros dro, ynglŷn ag ad-drefnu llywodraeth leol, sef y bydd y Prif Weinidog yn gwneud datganiad cyn diwedd y tymor hwn. Fodd bynnag, dros y penwythnos—neu rwyf yn credu mai dydd Gwener oedd hi, a dweud y gwir—gwnaethoch ddatganiad i gynhadledd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn nodi amserlenni ar gyfer sut y bydd hyn yn mynd rhagddo. Dewisasoch gyflwyno'r sylwadau hynny i gorff y tu allan i'r Siambr hon, yn hytrach nag i'r Siambr hon ei hun, ac felly osgoi craffu ar y mater penodol hwnnw. A gaf fi ofyn, felly, a wnewch chi, gan wisgo eich trydedd het fel Gweinidog llywodraeth leol, gyflwyno datganiad tebyg i'r Siambr hon i'r un yr ydych eisoes wedi'i gyflwyno i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fel y gallwch ateb cwestiynau am hynny? Rwyf yn meddwl, Ddirprwy Lywydd, ei bod yn anghwrtais iawn gwneud y datganiad hwnnw y tu allan i'r Siambr hon yn hytrach nag yn y Siambr ei hun, ac rwyf yn gobethio y gallwch unioni hynny gyda datganiad y tro hwn, Weinidog.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:18

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I do not agree with Peter Black on that. It was a very important audience of stakeholders, and I felt it was very important to give them a sense of the longer term thinking. I will be bringing forward a White Paper before the summer recess, which will go out for a 12-week consultation. There will be an opportunity there for everyone, including opposition parties and the public, to be fully consulted in the usual way. I will be doing that before the summer recess.

Nid wyf yn cytuno â Peter Black yn hynny o beth. Roedd yn gynulleidfa bwysig iawn o randdeiliaid, ac roeddwn yn teimlo ei bod yn bwysig iawn rhoi rhyw syniad iddynt o'r meddylfryd mwy hirdymor. Byddaf yn cyflwyno Papur Gwyn cyn toriad yr haf, a fydd yn destun ymgynghoriad 12 wythnos. Bydd cyfle yno i bawb, gan gynnwys y gwrthbleidiau a'r cyhoedd, i gael eu cynnwys yn llawn yn yr ymgynghoriad yn y ffordd arferol. Byddaf yn gwneud hynny cyn toriad yr haf.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

- 15:19 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I wonder whether the Minister for business would provide, perhaps by way of statement, an explanation as to why there are so many amendments to your legislation required because of mistranslation? It occurred considerably with the Social Services and Well-being (Wales) Bill, and I notice that we have the same thing before us this afternoon. Could you also explain what measures you will take to make sure it does not happen again?
- Tybed a wnaiff y Gweinidog busnes egluro, efallai drwy gyfrwng datganiad, pam y mae angen cynifer o welliannau i'ch deddfwriaeth oherwydd camgyfieithu? Digwyddodd yn aml yn y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), ac rwyf yn sylwi bod yr un peth ger ein bron y prynhawn yma. A allwch hefyd egluro pa gamau y byddwch yn eu cymryd i wneud yn siŵr nad yw'n digwydd eto?
- 15:19 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- It is certainly something that I have discussed with officials; you will be aware of the number of Welsh Government amendments today to the Housing (Wales) Bill, but also other amendments from opposition parties. It is something I have asked officials to look at and supply me with an answer.
- Mae'n sicr yn rhywbeth yr wyf wedi'i drafod â swyddogion; byddwch yn gwybod am nifer y gwelliannau gan Lywodraeth Cymru heddiw i'r Bil Tai (Cymru), ond hefyd am welliannau eraill gan y gwrthbleidiau. Mae'n rhywbeth yr wyf wedi gofyn i swyddogion edrych arno a rhoi ateb imi.
- 15:20 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, a fortnight ago, the First Minister issued a written statement with regard to his request to the Permanent Secretary to carry out an investigation into the behaviour of the Minister for the environment. He said he expected to receive that report within the fortnight. That fortnight has now passed. Could you confirm when the First Minister will be making a further statement to the Chamber regarding that inquiry?
- Weinidog, bythefnos yn ôl, cyflwynodd y Prif Weinidog ddatganiad ysgrifenedig ynglŷn â'i gais i'r Ysgrifennydd Parhaol i gynnal ymchwiliad i ymddygiad Gweinidog yr amgylchedd. Dywedodd ei fod yn disgwyl i'r adroddiad hwnnw ddod i law o fewn pythefnos. Mae'r pythefnos hwnnw bellach wedi dod i ben. A wnewch chi gadarnhau pryd y bydd y Prif Weinidog yn cyflwyno datganiad pellach i'r Siambr ynglŷn â'r ymchwiliad hwnnw?
- On the subject of the Minister for the environment, in March this year I asked the Minister whether he had any plans to close the agricultural field office in Brecon. He said at that time that he had no plans to close that office and that he was looking to enhance support to farmers in my constituency. He gave me a 'copper-bottomed guarantee'. On Thursday, he wrote to me saying that he was closing the Brecon field office next month. Could he please make a statement to the Chamber on how the plans outlined in his letter to me of last Thursday will enhance the service to my constituency? My understanding is that constituents will now have the choice of either going to a hot desk at Brecon market, at which officials will not have access to computer records, or making an appointment to travel to the Welsh Government offices in Merthyr Tydfil, where they will have to give advance notice of their vehicle registration number, where there will be restrictions on the type of vehicles that they will be able to travel to that office in, and where they will be required to travel through airport-type security before they can meet with officials.
- Ynglŷn Gweinidog yr amgylchedd, ym mis Mawrth eleni, gofynnais i'r Gweinidog a oedd ganddo unrhyw gynlluniau i gau'r swyddfa maes amaethyddol yn Aberhonddu. Dywedodd ar y pryd nad oedd ganddo unrhyw gynlluniau i gau'r swyddfa honno a'i fod yn gobeithio gwella'r cymorth i ffermwyr yn fy etholaeth. Rhoddodd 'sicrwydd cwbl bendant' imi. Ddydd lau, ysgrifennodd ataf i ddweud ei fod yn cau'r swyddfa maes yn Aberhonddu y mis nesaf. A wnaiff os gwelwch yn dda gyflwyno datganiad i'r Siambr ynglŷn â sut y bydd y cynlluniau a amlinellwyd yn ei lythyr ataf ddydd lau diwethaf yn gwella'r gwasanaeth i'm hetholaeth? Rwyf ar ddeall y bydd etholwyr yn awr yn gorfod dewis naill ai fynd at ddesg boeth ym marchnad Aberhonddu, lle na fydd cofnodion ar gyfrifiaduwr ar gael i swyddogion, neu wneud apwyntiad i deithio i swyddfeydd Llywodraeth Cymru ym Merthyr Tudful, lle bydd yn rhaid iddynt roi rhybudd ymlaen llaw o rif cofrestru eu cerbyd, lle bydd cyfyngiadau ar y math o gerbydau y gallant deithio i'r swyddfa honno ynndynt, a lle bydd rhaid iddynt deithio drwy systemau diogelwch tebyg i rai maes awyr cyn y gallant gwrdd â swyddogion.
- 15:21 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- In relation to your first question, you will be aware that the First Minister is out of the country on Government business and that he has said that he will update Members in due course when he receives the report, which he will do.
- O ran eich cwestiwn cyntaf, fel y gwyddoch, mae'r Prif Weinidog allan o'r wlad ar fusnes y Llywodraeth ac mae wedi dweud y bydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau maes o law pan ddaw'r adroddiad i law, a bydd yn gwneud hynny.

In relation to your question regarding the closure of the Brecon agricultural office, the decision to withdraw from that office is in line with the Welsh Government's location strategy. I should say that there are two farm liaison staff based there, along with five farm inspectors. So, I think the Minister felt it was difficult to justify on that basis. Also, he wants to see his staff spending more time out and about and I think the outreach initiative —

O ran eich cwestiwn ynghylch cau'r swyddfa amaethyddol yn Aberhonddu, mae'r penderfyniad i ymadael â'r swyddfa honno'n cyd-fynd â strategaeth leoli Llywodraeth Cymru. Dylwn ddweud bod dau aelod o staff cyswllt fferm yn gweithio yno, ynghyd â phum arolygwr ffermydd. Felly, rwyf yn meddwl bod y Gweinidog o'r farn ei bod yn anodd ei chyfiawnhau ar y sail honno. Hefyd, mae am weld ei staff yn treulio mwy o amser o gwmpas y lle ac rwyf yn meddwl y bydd y fenter allgymorth—

15:22 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Why did he not say that in March?

Pam na ddywedodd hynny ym mis Mawrth?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:22 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Continues.]— that he has set up will be far more effective than the Brecon office is. What the Minister for Natural Resources and Food gave a guarantee about in March was that the support provided to farmers in the region would be enhanced and that he would work with the agricultural community to reduce the administrative burden wherever possible. He believes that the proposed way forward will achieve those objectives.

[Parhau.]—y mae wedi'i sefydlu'n fwy effeithiol o lawer na'r swyddfa yn Aberhonddu. Yr hyn y rhoddodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd sicrwydd yn ei gylch ym mis Mawrth oedd y byddai'r cymorth a roddir i ffermwyr yn y rhanbarth yn cael ei wella ac y byddai'n gweithio gyda'r gymuned amaethyddol i leihau'r baich gweinyddol lle bynnag y bo'n bosibl. Mae'n credu y bydd y ffordd arfaethedig ymlaen yn cyflawni'r amcanion hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:22 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Could I endorse the comments of the leader of the Welsh Liberal Democrats? We were told that the Permanent Secretary would be reporting to the First Minister within 14 days. Those 14 days are up today. I think, just to clear that matter up, it would be timely for that report, or certainly the First Minister's response to that report, to be made publicly available. So, hopefully, you will be able to give us an indication of when that might be forthcoming.

A gaf fi ategu sylwadau arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru? Dywedwyd wrthym y byddai'r Ysgrifennydd Parhaol yn adrodd i'r Prif Weinidog o fewn 14 diwrnod. Mae'r 14 diwrnod hynny'n dod i ben heddiw. Rwyf yn credu, er mwyn egluro'r mater hwnnw, y byddai'n amserol i'r adroddiad hwnnw, neu'n sicr i ymateb y Prif Weinidog i'r adroddiad hwnnw, fod ar gael i'r cyhoedd. Felly, gobeithio y gallwch roi rhyw syniad inni pryd y gallai hynny ddiwydd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Could I also seek a statement from the Minister for business, enterprise, transport and science—I think that is the complete brief that she covers—in relation to the Severn bridge? I appreciate that the operation of the Severn bridge is a UK Government issue, but I was talking to various businesses the other day and they were saying it is not uncommon to be stuck there, and I, too, have been stuck in the queues at the toll booths to come into Wales. Certainly, in some instances, is not uncommon for traffic at peak times to be queued up for half an hour to 40 minutes to pay the tolls. That has a direct impact on the economic footprint, certainly in south-east Wales, but it also is a very negative impression for people entering Wales that they are stuck in that traffic. I fail to see why better management cannot be put in place to allow for smoother running of the traffic, and certainly for more of the booths to be made available, because, very often, a lot of the booths are out of action. So, I would be grateful to understand what engagement with the UK Government the Welsh Government has on this particular issue, and whether your own highways officials have any innovative solutions to address the tailbacks that particularly occur on Fridays and when there is a major event in Cardiff or anywhere else in south-east Wales.

A gaf fi hefyd ofyn am ddatganiad gan y Gweinidog busnes, menter, trafnidiaeth a gwyddoniaeth—rwyf yn meddwl mai dyna'r briff cyflawn y mae'n ei gwmpasu—ynglŷn â phont Hafren? Rwyf yn sylweddoli mai mater i Lywodraeth y DU yw gweithrediad pont Hafren, ond roeddwn yn siarad ag amryw o fusnesau y diwrnod o'r blaen ac roeddent yn dweud nad yw'n anarferol bod yn sownd yno, ac rwyf finnau wedi bod yn sownd yn y ciwiau wrth y bythau tollau i ddod i mewn i Gymru. Yn sicr, mewn rhai achosion, nid yw'n anarferol i draffig yn ystod yr oriau brig fod mewn ciw am hanner awr i 40 munud i dalu'r tollau. Mae hynny'n cael effaith uniongyrchol ar yr ôl troed economaidd, yn sicr yn y de-ddwyrain, ond mae hefyd yn argraff negyddol iawn i bobl sy'n dod i Gymru eu bod yn cael eu dal yn y traffig. Ni allaf weld pam na ellir rheoli hyn yn well i ganiatáu i'r traffig deithio'n rhwyddach, ac yn sicr i ganiatáu i fwy o'r bythau fod ar gael, oherwydd, yn aml iawn, mae llawer o'r bythau wedi cau. Felly, byddwn yn ddiolchgar o gael gwybod beth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud i ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar y mater penodol hwn, ac a oes gan eich swyddogion priffyrdd chi unrhyw atebion blaengar i ymdrin â'r tagfeydd sy'n digwydd yn enwedig ar ddydd Gwener a phan fydd digwyddiad mawr yn Nghaerdydd neu yn rhywle arall yn y de-ddwyrain.

15:24

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I do not really think there is much I can add to my answer to Kirsty Williams. The ministerial code is a matter for the First Minister. The First Minister is not in the Chamber today due to being away on Government business. He did say that he would update Members in due course once he had received the report.

In relation to your question regarding the Severn bridge, I will ask the Minister for Economy, Science and Transport to bring forward a written statement.

Nid wyf yn meddwl bod llawer y gallaf ei ychwanegu at fy ateb i Kirsty Williams. Mater i'r Prif Weinidog yw'r cod gweinidogol. Nid yw'r Prif Weinidog yn y Siambr heddiw oherwydd ei fod i ffwrdd ar fusnes y Llywodraeth. Dywedodd y byddai'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau maes o law ar ôl i'r adroddiad ddod i law.

O ran eich cwestiwn am bont Hafren, gofynnaf i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth gyflwyno datganiad ysgrifenedig.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:24

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, mae nifer o e-byst a llythyrau wedi cael eu cyhoeddi dros y penwythnos sydd yn cwestiynu sut mae grant amddifadedd plant yn cael ei wario, a hefyd gwarant y Llywodraeth ynglŷn â gwario mwy nag 1% ar ein hysgolion. A gaf ofyn felly a fydd y Llywodraeth yn gwneud datganiad er mwyn esbonio beth yn union sydd yn digwydd, wrth ystyried bod nifer ohonom fel Aelodau wedi gofyn cwestiynau i'r gwahanol Weinidogion, gan gynnwys y Gweinidog Cyllid, ac mae'n debyg bod cwestiynau ym myd addysg ynglŷn â beth yn union sydd yn digwydd?

Minister, a number of e-mails and letters were published over the weekend that question the way in which the pupil deprivation grant is spent, and also the Government guarantee in relation to spending more than 1% on our schools. May I ask therefore whether the Government intends to make a statement in order to explain exactly what is happening, considering that a number of us as Members have asked questions of the various Ministers, including the Minister for Finance, and it appears that there are questions in the world of education about exactly what is happening?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:25

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

No, we do not intend to bring forward a statement. As I said in an answer—I think it was to you—before, we have been completely transparent on this matter. I suggest that you ask your colleague Peter Black, who I know has had detailed discussions with the Minister for Finance. I understand that he is in possession of the full facts. However, as I said before, the important fact is that we have increased spending on Welsh schools by more than 1% above overall changes to the block grant since our commitment in 2011-12. We are proud of this achievement, and I think that we should be celebrating the fact that more money is going into our schools, particularly in our deprived areas.

Nac ydym, nid ydym yn bwriadu cyflwyno datganiad. Fel y dywedais mewn ateb—i chi, rwyf yn meddwl—o'r blaen, rydym wedi bod yn gwbl dryloyw ar y mater hwn. Awgrymaf eich bod yn gofyn i'ch cydweithiwr Peter Black; gwn ei fod wedi cael trafodaethau manwl â'r Gweinidog Cyllid. Rwyf ar ddeall bod ganddo'r ffeithiau llawn. Fodd bynnag, fel y dywedais eisoes, y ffaith bwysig yw ein bod wedi cynyddu gwariant ar ysgolion Cymru fwy nag 1% yn fwy na'r newidiadau cyffredinol i'r grant bloc ers ein hymrwymiad yn 2011-12. Rydym yn falch o fod wedi cyflawni hynny, ac rwyf yn meddwl y dylem fod yn dathlu'r ffaith bod mwy o arian yn mynd i mewn i'n hysgolion, yn enwedig yn ein hardaloedd diffreintiedig.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:26

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, 'My Language, My Health', a report on the Welsh language in primary care, was published by the Welsh Language Commissioner in June this year, earlier this month. The Welsh Government's response, however, is not due until December. Some of the recommendations in the report will obviously require some detailed consideration, but it does seem unnecessary to deprive us of a response to the whole report for six months, particularly when the Welsh Language Commissioner will be giving the results of the second investigation into standards, which will be with the NHS in September, two full months before the Minister for Health and Social Services' response is due on this report. I think that a preliminary response dealing with the more straightforward recommendations and giving us some steer on perhaps more costly and long-term recommendations would be very helpful, if we could have that, Minister. I wonder whether you could speak to the Minister for health and, indeed, the First Minister on this to see whether we might have a preliminary, indicative response before recess.

Weinidog, cyhoeddwyd 'Fy Iaith, Fy Iechyd', adroddiad am yr iaith Gymraeg mewn gofal sylfaenol, gan Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Mehefin eleni, yn gynharach y mis hwn. Nid ydym yn disgwyl ymateb gan Lywodraeth Cymru, fodd bynnag, tan fis Rhagfyr. Wrth gwrs, bydd angen rhoi ystyriaeth fanwl i rai o'r argymhellion yn yr adroddiad, ond ni allaf weld pam y mae angen ein hatal rhag cael ymateb i'r adroddiad cyfan am chwe mis, yn enwedig pan fydd Comisiynydd y Gymraeg yn rhoi canlyniadau'r ail ymchwiliad i safonau, a fydd gan y GIG ym mis Medi, ddau fis llawn cyn bod disgwyl i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ymateb i'r adroddiad hwn. Rwyf yn meddwl y byddai ymateb cychwynnol yn ymdrin â'r argymhellion symlaf ac yn rhoi rhywfaint o arweiniad inni efallai ar yr argymhellion a allai fod yn fwy costus a hirdymor yn ddefnyddiol iawn inni, pe galleu gael hynny, Weinidog. Tybed a allech siarad â'r Gweinidog Iechyd ac, yn wir, â'r Prif Weinidog am hyn i weld a gawn ni ymateb cychwynnol, dangosol cyn y toriad?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 15:27 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, the Minister for Health and Social Services has heard your question, but I think that he would rather bring forward a substantive response at the end of the year.
- Wel, mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi clywed eich cwestiwn, ond rwyf yn meddwl y byddai'n well ganddo gyflwyno ymateb sylweddol ar ddiwedd y flwyddyn.
- 15:27 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Minister.
- Diolch, Weiniidog.
- 15:27 **Datganiad: Adroddiad Blynyddol Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru 2014** **Y** Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Statement: The Wales Infrastructure Investment Plan Annual Report 2014**
- Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
- I call the Minister for Finance, Jane Hutt.
- Galwaf ar y Gweinidog Cyllid, Jane Hutt.
- 15:27 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Gweinidog Cyllid / The Minister for Finance*
- Since 2011, this Government's focus has been on supporting the economic recovery and public services in Wales. In May 2012, we published our first Wales infrastructure investment plan. Today, I am pleased to be publishing the 2014 Wales infrastructure investment plan annual report. It highlights the progress we have made over the past 12 months to deliver the plan's aims, concentrating on our priorities, improving investment planning, and boosting the resources available for infrastructure investment.
- Ers 2011, mae'r Llywodraeth hon yn rhoi pwyslais ar gefnogi'r adferiad economaidd a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Ym mis Mai 2012, cyhoeddwyd ein cynllun cyntaf i fuddsoddi yn seilwaith Cymru. Heddiw, rwyf yn falch o gyhoeddi adroddiad blynyddol 2014 y cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru. Mae'n tynnu sylw at y cynnydd yr ydym wedi'i wneud dros y 12 mis diwethaf o ran cyflawni amcanion y cynllun, gan ganolbwyntio ar ein blaenoriaethau, gwella cynllunio buddsoddiadau, a rhoi hwb i'r adnoddau sydd ar gael i fuddsoddi mewn seilwaith.
- Since I published the plan in 2012, I have been very clear about the contribution that investment in our infrastructure can make to supporting economic growth and protecting and boosting jobs. To date, our capital allocations and innovative finance initiatives will deliver around £2.7 billion of new capital investment into the Welsh economy and public services. Recent research by the Construction Industry Training Board showed that the number of jobs in the industry in Wales increased by 3,000; the rate of growth outstripped growth in the UK. This is good news and is testament to the approach that we have taken with our partners in Wales.
- Ers imi gyhoeddi'r cynllun yn 2012, rwyf wedi bod yn glir iawn am y cyfraniad y gall buddsoddi yn ein seilwaith ei wneud i gefnogi twf economaidd a diogelu swyddi a rhoi hwb iddynt. Hyd yma, bydd ein dyraniadau cyfalaf a'n mentrau cyllid arloesol yn darparu tua £2.7 biliwn o fuddsoddiad cyfalaf newydd yn economi a gwasanaethau cyhoeddus Cymru. Mae ymchwil diweddar gan Fwrdd Hyfforddiant y Diwydiant Adeiladu'n dangos bod nifer y swyddi yn y diwydiant yng Nghymru wedi cynyddu 3,000; roedd y gyfradd twf yn uwch na thwf yn y DU. Mae hyn yn newyddion da ac yn tystio i'r ymagwedd yr ydym wedi'i harfer gyda'n partneriaid yng Nghymru.

Our approach to boosting investment in Welsh infrastructure has a distinctive focus, and we are boosting our resources wherever possible through a range of innovative finance schemes. This includes the £1 billion programme of revenue-funded infrastructure investment that I announced last month to support delivery of the dualling of the A465 and the new cancer specialist care facility using non-dividend investment vehicles. Today, I am announcing our intention to boost this already substantial programme with an additional £250 million investment in social and affordable housing. This new funding will triple the size of the successful housing finance grant, which I launched last September with the Minister for Housing and Regeneration. Currently, the scheme is delivering around £125 million of much needed investment in housing. The new investment will deliver more than 2,000 social and affordable housing units and create more than 5,000 jobs in the process. This is on top of the 1,000 new affordable homes we announced in September. We will continue to work with registered social landlords, local authorities and commercial lenders to deliver this scheme, and I expect it to be operational by 2017-18.

Today's announcement means that, in total, our innovative funding investments announced since the launch of the plan will create around 30,000 jobs during the construction phases. Through the ongoing development of our plan, we have carefully targeted our investment on interventions that deliver the maximum impact. Since the launch of our plan, including the additional £657.5 million of capital investment I announced last October, we have invested £1.1 billion of additional capital funding to support our priorities, including £253 million to improve the Welsh transport network; £312 million to support investment in housing; and £128 million to improve the quality of the educational estate, particularly schools, through the twenty-first century schools programme.

We estimate that these capital investments will create around 20,000 jobs during this construction. These projects will make a real difference to our economy, our public services and, ultimately, people's lives. Just yesterday, I had the opportunity to visit the £4.8 million former Rumpoles development site in Cardiff. In collaboration with the United Welsh housing association, this successful investment will create 49, much-needed, one and two-bedroomed homes by March 2015. I am also allocating an additional capital package of £18 million to support the development of schemes, including £9.5 million to support further development in Morriston Hospital; £3 million to support Hywel Dda neonatal services; £2 million to support a diagnostic hub in Cwm Taf; £1 million to support an emergency medical retrieval and transfer service; and £2.5 million to support the provision of up-to-date and additional diagnostics equipment. These investments support the NHS reconfiguration of our health services. They help to ensure that health services are sustainable, efficient and affordable in the long term, as well as to deliver an improved patient experience in a prudent healthcare service for Wales.

Mae pwyslais penodol i'n hymagwedd at hybu buddsoddi yn seilwaith Cymru, ac rydym yn rhoi hwb i'n hadnoddau lle bynnag y bo modd drwy gyfrwng amrywiaeth o gynlluniau cyllid arloesol. Mae hyn yn cynnwys rhaglen gwerth £1 biliwn o fuddsoddiad refeniw mewn seilwaith a gyhoeddais y mis diwethaf i gefnogi'r gwaith o ddeuoli'r A465 a darparu'r cyfleuster gofal canser arbenigol newydd gan ddefnyddio cyfryngau buddsoddi heb ddividendau. Heddiw, rwyf yn cyhoeddi ein bwriad i roi hwb i'r rhaglen hon, sydd eisoes yn sylweddol, â buddsoddiad ychwanegol o £250 miliwn mewn tai cymdeithasol a fforddiadwy. Bydd y cyllid newydd hwn yn treblu maint y grant cyllid tai llwyddiannus, a lansiws fis Medi diwethaf gyda'r Gweinidog Tai ac Adfywio. Ar hyn o bryd, mae'r cynllun yn buddsoddi tua £125 miliwn sydd ei angen yn ddirfawr mewn tai. Bydd y buddsoddiad newydd yn darparu mwy na 2,000 o unedau tai cymdeithasol a fforddiadwy ac yn creu mwy na 5,000 o swyddi ar yr un pryd. Mae hyn ar ben y 1,000 o gartrefi fforddiadwy newydd a gyhoeddwyd gennym ym mis Medi. Byddwn yn parhau i weithio gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, awdurdodau lleol a benthycwyr masnachol i gyflwyno'r cynllun hwn, ac rwyf yn disgwyl y bydd yn weithredol erbyn 2017-18.

Mae'r cyhoeddiad heddiw'n golygu y bydd cyfanswm ein buddsoddiadau cyllid arloesol a gyhoeddwyd ers lansio'r cynllun yn creu tua 30,000 o swyddi yn ystod y cyfnodau adeiladu. Drwy barhau i ddatblygu ein cynllun, rydym wedi targedu ein buddsoddiad yn ofalus at ymyriadau sy'n cael yr effaith fwyaf. Ers lansio ein cynllun, gan gynnwys y £657.5 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf ychwanegol a gyhoeddais fis Hydref diwethaf, rydym wedi buddsoddi £1.1 biliwn o gyllid cyfalaf ychwanegol i gefnogi ein blaenoriaethau, gan gynnwys £253 miliwn i wella rhwydwaith trafnidiaeth Cymru; £312 miliwn i gefnogi buddsoddi mewn tai; a £128 miliwn i wella ansawdd yr ystâd addysgol, yn enwedig ysgolion, drwy gyfrwng y rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.

Rydym yn amcangyfrif y bydd y buddsoddiadau cyfalaf hyn yn creu tuag 20,000 o swyddi yn ystod y gwaith adeiladu hwn. Bydd y prosiectau hyn yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'n heconomi, i'n gwasanaethau cyhoeddus ac, yn y pen draw, i fywydau pobl. Ddoe ddiwethaf, cefais gyfle i ymweld â safle datblygiad gwerth £4.8 miliwn yr hen Rumpoles yng Nghaerdydd. Mewn cydweithrediad â Chymdeithas Tai Unedig Cymru, bydd y buddsoddiad llwyddiannus hwn yn creu 49 o gartrefi un a dwy ystafell wely y mae eu hangen yn ddirfawr erbyn mis Mawrth 2015. Rwyf hefyd yn dyrannu pecyn cyfalaf ychwanegol o £18 miliwn i helpu i ddatblygu cynlluniau, gan gynnwys £9.5 miliwn i gefnogi gwaith datblygu pellach yn Ysbyty Treforys; £3 miliwn i gefnogi gwasanaethau newyddenedigol Hywel Dda; £2 filiwn i gefnogi canolfan ddiagnostig yng Nghwm Taf; £1 miliwn i gefnogi gwasanaeth adfer a throsglwyddo meddygol brys; a £2.5 miliwn i helpu i ddarparu offer diagnosteg ychwanegol o'r radd flaenaf. Mae'r buddsoddiadau hyn yn cefnogi gwaith ad-drefnu'r GIG ar ein gwasanaethau iechyd. Maent yn helpu i sicrhau bod gwasanaethau iechyd yn gynaliadwy, yn effeithlon ac yn fforddiadwy yn y tymor hir, ac yn sicrhau profiad gwell i gleifion mewn gwasanaeth gofal iechyd darbodus i Gymru.

Central to ensuring the effective delivery of our investments has been increased levels of collaboration across the public and private sectors. Through our continued work with stakeholders, we have made significant progress in developing the scope of our investment pipeline. This has helped to provide clarity, transparency and certainty of investments in Wales.

Last year, we included for the first time both national and local government infrastructure investments. This year, we have gone one step further. In the pipeline published alongside today's annual report, we have included rail and energy data in line with our 'Energy Wales' delivery plan commitment. The pipeline now details over 320 schemes across the public and private sectors, with an investment value in excess of £34 billion.

We are having a real impact across Wales. Since the launch of our plan, including the additional investment that I announced today, our total capital allocations and innovative finance initiatives will now deliver almost £3 billion of new capital investment into the Welsh economy and public services. This is a clear demonstration, Deputy Presiding Officer, of a Government that is delivering for the people of Wales.

15:33

Paul Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

May I first of all thank the Minister for her statement this afternoon, and again place on record our broad support for the Wales infrastructure investment plan? The Minister made a pledge to report to the Chamber annually on the plan, and I am pleased that, in the spirit of transparency, that commitment is still continuing. As we so often hear in the Chamber, the Welsh Government is working with reduced budgets when it comes to capital expenditure, therefore it is essential that any project that the Welsh Government funds is robust, delivered in a timely fashion and actually achieves value for money.

As I noted from the project pipeline update last December, there is no acknowledgement in the report of whether the projects are actually achieving value for money. I once again reiterate one of my biggest original concerns when the plan was first launched, which is how the Welsh Government is monitoring value for money from these particular investments. Perhaps the Minister, two years on, will be able to tell us the specific mechanisms that are used to monitor value for money from these schemes.

The Minister insists that the adoption of the Welsh Government's five-case model that outlines best practice guidance is in fact supporting the delivery of infrastructure projects. However, perhaps the Minister will be kind enough to demonstrate the real outcomes that have been witnessed from the Wales infrastructure investment plan as a result of the implementation of this model. Where are we seeing best practice across the Welsh public sector, and how is that best practice filtering across the country? I hope that the Minister, in her response, will highlight some specific examples.

Mae mwy o gydweithio ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat wedi bod yn elfen ganolog o sicrhau y caiff ein buddsoddiadau eu rhoi ar waith yn effeithiol. Drwy barhau i weithio gyda rhanddeiliaid, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran datblygu cwmmpas ein piblinell fuddsoddi. Mae hyn wedi helpu i roi eglurder, tryloywder a sicrwydd i fuddsoddiadau yng Nghymru.

Y llynedd, am y tro cyntaf cynhwyswyd buddsoddiadau mewn seilwaith gan lywodraeth genedlaethol a lleol. Eleni, rydym wedi mynd gam ymhellach. Yn y biblinell a gyhoeddwyd ochr yn ochr ag adroddiad blynyddol heddiw, rydym wedi cynnwys data rheifffyrdd ac ynni yn unol ag ymrwymiad ein cynllun cyflawni 'Ynni Cymru'. Mae'r biblinell bellach yn rhoi manylion dros 320 o gynlluniau ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat, a gwerth buddsoddi o dros £34 biliwn.

Rydym yn cael effaith wirioneddol ledled Cymru. Ers lansio ein cynllun, gan gynnwys y buddsoddiad ychwanegol a gyhoeddais heddiw, bydd cyfanswm ein dyraniadau cyfalaf a'n mentrau cyllid arloesol bellach yn darparu bron i £3 biliwn o fuddsoddiadau cyfalaf newydd yn economi a gwasanaethau cyhoeddus Cymru. Mae hyn yn arwydd clir, Ddirprwy Lywydd, o Lywodraeth sy'n cyflawni dros bobl Cymru.

A gaf fi ddiolch yn gyntaf oll i'r Gweinidog am ei datganiad y prynhawn yma, a chofnodi unwaith eto ein cefnogaeth gyffredinol i'r cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru? Addawodd y Gweinidog y byddai'n adrodd i'r Siambr yn flynyddol am y cynllun, ac rwyf yn falch, yn ysbryd tryloywder, fod yr ymrwymiad hwnnw'n parhau. Fel yr ydym yn ei glywed mor aml yn y Siambr, mae cyllidebau Llywodraeth Cymru wedi eu lleihau o ran gwariant cyfalaf, felly mae'n hanfodol bod unrhyw brosiect a ariennir gan Lywodraeth Cymru'n gadarn, yn cael ei gyflawni mewn modd amserol ac yn rhoi gwerth am arian gwirioneddol.

Fel y nodais o ddiweddariad piblinell y prosiectau fis Rhagfyr diwethaf, nid yw'r adroddiad yn cydnabod a yw'r prosiectau'n rhoi gwerth am arian gwirioneddol. Ailadroddaf unwaith eto un o'm pryderon gwreiddiol mwyaf pan gafodd y cynllun ei lansio gyntaf, sef y ffordd y mae Llywodraeth Cymru'n monitro gwerth am arian y buddsoddiadau penodol hyn. Efallai y gall y Gweinidog, ddwy flynedd yn ddiweddarach, ddweud wrthym pa fecanweithiau penodol sy'n cael eu defnyddio i fonitro gwerth am arian y cynlluniau hyn.

Mae'r Gweinidog yn mynnu bod mabwysiadu model pum achos Llywodraeth Cymru sy'n amlinellu'r canllawiau arfer gorau yn cefnogi cyflawni prosiectau seilwaith. Fodd bynnag, efallai y byddai'r Gweinidog mor garedig â dangos canlyniadau gwirioneddol y cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru o ganlyniad i roi'r model hwn ar waith. Ble ydym ni'n gweld arfer gorau ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru, a sut y mae'r arfer gorau hwnnw'n treiddio ledled y wlad? Gobeithiaf y bydd y Gweinidog, yn ei hymateb, yn rhoi sylw i rai enghreifftiau penodol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

While the infrastructure investment plan recognises the importance of the Welsh public sector, it is careful also not to neglect the importance of the private sector when it comes to funding projects. It will come as no shock to the Minister that we on this side of the Chamber are in favour of using the private sector to supplement traditional funding avenues for capital projects. I accept that the Minister has looked at using private finance initiatives, and that there are examples, such as the non-dividend investment vehicle, which is being developed for the A465.

I note in the plan that the Minister talks about an additional £700 million of private investment, through the Help to Buy—Wales scheme. However, we are yet to hear exactly how much private money has been levered in total for all projects across Wales, and so I hope that the Minister will today confirm not only the total amount of private sector money that the Welsh Government has levered in to fund some of these projects, but also a breakdown per annum.

I also believe that a key outcome of the Wales infrastructure investment plan is the number of jobs that can be created, both through the construction phase of projects and, indeed, beyond that. Will the Minister confirm what targets she has set for the number of construction jobs to be created over the next 12 months? Will she also confirm for the record that the Welsh Government has met every jobs pledge that she has made since the plan's launch in 2012? I note that she says that 30,000 jobs have indeed been created during the construction phases. Now, I accept that there is some detail in certain parts of this plan regarding job creation, but in others it mentions only the potential of creating a certain number of jobs. Therefore, perhaps the Minister will commit to publishing clear job creation statistics with each update, so that Members can see exactly what new jobs have in fact been created as a result of this plan.

I would also like to tease out a bit more information about the Minister's sectoral priorities over the coming years. The plan provides an investment framework for the prioritisation of nationally significant schemes, and outlines seven high-level sectoral priorities. Now, two years on from the launch of the plan, what reviews has the Minister made of these sectoral priorities, to ensure that each of these priorities are actually being met, and that the Welsh Government is delivering outcomes in these areas? Are there any plans to review the framework, to reflect any new, emerging technologies or industries?

Finally, I note that, today, you have also announced a £3 million package to support Hywel Dda neonatal services. However, I understand that the establishment of a level 2 neonatal service at Glangwili hospital will cost some £12 million. Could the Minister therefore confirm that the additional investment will be found within the Hywel Dda Local Health Board's current budget?

In closing, I would like to once again thank the Minister for her statement, and I look forward to hearing more about the development of these projects over the coming weeks and months. Thank you.

Er bod y cynllun buddsoddi mewn seilwaith yn cydnabod pwysigrwydd y sector cyhoeddus yng Nghymru, mae hefyd yn ofalus i beidio ag esgeuloso pwysigrwydd y sector preifat o ran ariannu prosiectau. Ni fydd yn syndod i'r Gweinidog ein bod ni ar yr ochr hon i'r Siambr o blaid defnyddio'r sector preifat i ategu llwybrau ariannu traddodiadol ar gyfer prosiectau cyfalaf. Rwyf yn derbyn bod y Gweinidog wedi edrych ar ddefnyddio mentrau cyllid preifat, a bod enghreifftiau, fel y cyfrwng buddsoddi heb ddifidendau, sy'n cael ei ddatblygu ar gyfer yr A465.

Rwyf yn nodi bod y Gweinidog yn sôn yn y cynllun am £700 miliwn yn ychwanegol o fuddsoddi preifat, drwy'r cynllun Cymorth i Brynu—Cymru. Fodd bynnag, nid ydym eto wedi clywed faint yn union o arian preifat sydd wedi ei ysgogi ar gyfer pob prosiect ledled Cymru, felly rwyf yn gobeithio y bydd y Gweinidog heddiw'n cadarnhau nid yn unig gyfanswm arian y sector preifat y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ysgogi i ariannu rhai o'r prosiectau hyn, ond hefyd ddadansoddiad fesul blwyddyn.

Rwyf hefyd yn credu mai un o ganlyniadau allweddol y cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru yw nifer y swyddi y gellir eu creu, drwy gyfnod adeiladu prosiectau ac, yn wir, y tu hwnt i hynny. A wnaiff y Gweinidog gadarnhau pa dargedau y mae wedi'u gosod ar gyfer nifer y swyddi adeiladu a gaiff eu creu yn ystod y 12 mis nesaf? A wnaiff hi hefyd gadarnhau ar gofnod fod Llywodraeth Cymru wedi cadw pob addewid ynghylch swyddi y mae wedi'i wneud ers lansio'r cynllun yn 2012? Nodaf ei bod yn dweud bod 30,000 o swyddi wedi cael eu creu yn ystod y cyfnod adeiladu. Yn awr, rwyf yn derbyn bod rhai rhannau o'r cynllun hwn yn rhoi rhai manylion am greu swyddi, ond mewn rhannau eraill, dim ond sôn am y posibilrwydd o greu nifer penodol o swyddi sydd. Felly, efallai y gwnaiff y Gweinidog ymrwymo i gyhoeddi ystadegau clir am greu swyddi ym mhob diweddariad, fel y gall Aelodau weld yn union pa swyddi newydd a grëwyd mewn gwirionedd o ganlyniad i'r cynllun hwn.

Hoffwn hefyd gael ychydig mwy o wybodaeth am flaenoriaethau sectoraidd y Gweinidog dros y blynyddoedd i ddod. Mae'r cynllun yn darparu fframwaith buddsoddi ar gyfer blaenoriaethu cynlluniau o bwys cenedlaethol, ac yn amlinellu saith blaenoriaeth sectoraidd lefel uchel. Yn awr, ddwy flynedd ar ôl lansio'r cynllun, pa adolygiadau y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal o'r blaenoriaethau sectoraidd hyn, er mwyn sicrhau bod pob un o'r blaenoriaethau hyn yn cael eu cyflawni mewn gwirionedd, a bod Llywodraeth Cymru'n sicrhau canlyniadau yn y meysydd hyn? A oes cynlluniau i adolygu'r fframwaith, i adlewyrchu unrhyw dechnolegau neu ddiwydiannau newydd sy'n dod i'r amlwg?

Yn olaf, nodaf eich bod hefyd, heddiw, wedi cyhoeddi pecyn gwerth £3 miliwn i gefnogi gwasanaethau newyddenedigol Hywel Dda. Fodd bynnag, rwyf ar ddeall y bydd sefydlu gwasanaeth newyddenedigol lefel 2 yn Ysbyty Glangwili'n costio tua £12 miliwn. Felly, a wnaiff y Gweinidog gadarnhau y bydd y buddsoddiad ychwanegol i'w weld yng nghyllideb gyfredol Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda?

I gloi, hoffwn ddiolch unwaith eto i'r Gweinidog am ei datganiad, ac edrychaf ymlaen at glywed mwy am ddatblygiad y prosiectau hyn dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf. Diolch.

I would like to thank Paul Davies for his questions, and thank the opposition finance spokesperson for his broad support for the Wales infrastructure investment plan, in recognition of our reduced capital budget, and in recognition of what we are seeking to achieve in terms of innovative investment and best use of our capital funding arrangements. However, I also welcome the questions that he asked me today.

Of course, it is key that we achieve value for money. In terms of the importance of that, I want to just respond to the questions in terms of our Better Business Case approach to business assurance. Of course, it is about the clarity of the objectives of investment and rigorous appraisal, which are key to ensuring that we deliver the outcomes that we wish to see. This is an opportunity, within my annual report, to scrutinise this. So, all of the projects in this £3 billion investment programme are subject to established business assurance practices. You have commented on the five-case model, which we developed in collaboration with the Treasury, and of course it is our Better Business Case approach. It is a cross-Government process, and it is about maximising the benefits that we can achieve, ensuring best practice for our spending proposal and strategic fits with our priorities, in terms of the programme for government, as well as high-level investment priorities. However, you also mentioned the importance of our partnership, which I acknowledged in my statement, with the private sector as well the public sector, looking at our funding options, contracts and commercial arrangements, and ensuring that they are robust, deliverable, and that they optimise value for money. That is clear in terms of our objectives. It is also clear, in terms of one example—. We have gateway reviews to ensure that all Welsh Government pipeline programmes and projects are assessed by our own internal integrated assurance hub. Of course, that reviews the level of risk offered by programmes or projects, but it also has to have an appropriate level of accreditation in terms of the Better Business Case approach, and, of course, assurance is provided through the Office of Government Commerce gateway review.

I think that that relates to the importance of sectoral priorities, as you said in one of your questions. We have been very clear about our investment priorities that were developed leading up to the establishment of the Wales infrastructure planning process and we believe that they stand us in good stead in terms of our strategic priorities. However, we have to be clear that we can account for that in terms of delivery, linking particularly to the boost for growth and jobs and benefit to the economy.

Hoffwn ddiolch i Paul Davies am ei gwestiynau, a diolch i lefarydd cyllid yr wrthblaid am ei gefnogaeth gyffredinol i'r cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru, gan gydnabod bod ein cyllideb gyfalaf yn lleihau, a chydabod yr hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni o ran buddsoddi arloesol a defnyddio ein trefniadau ariannu cyfalaf yn y ffordd orau bosibl. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn croesawu'r cwestiynau a ofynnodd imi heddiw.

Wrth gwrs, mae'n allweddol ein bod yn sicrhau gwerth am arian. O ran pwysigrwydd hynny, hoffwn ymateb i'r cwestiynau am ein hymagwedd Achos Busnes Gwell ar gyfer sicrwydd busnes. Wrth gwrs, mae'n ymwneud ag eglurder amcanion buddsoddi a gwerthuso trylwyr, sy'n allweddol i sicrhau ein bod yn cyflawni'r canlyniadau yr hoffem eu gweld. Mae hyn yn gyfle, yn fy adroddiad blynyddol, i graffu ar hyn. Felly, mae pob un o'r prosiectau yn y rhaglen fuddsoddi £3 biliwn hon yn destun arferion sicrwydd busnes sefydledig. Rydych wedi sôn am y model pum achos, a ddatblygwyd gennym ar y cyd â'r Trysorlys, ac wrth gwrs dyna yw ein hymagwedd Achos Busnes Gwell. Mae'n broses ar draws y Llywodraeth, ac mae'n golygu hybu i'r eithaf y manteision y gallwn eu cyflawni, a sicrhau arfer gorau ar gyfer ein cynnig gwariant a ffitiau strategol â'n blaenoriaethau, o ran y rhaglen lywodraethu, yn ogystal â blaenoriaethau buddsoddi lefel uchel. Fodd bynnag, soniasoch hefyd am bwysigrwydd ein partneriaeth, a gydnabuwyd yn fy natganiad, â'r sector preifaf yn ogystal â'r sector cyhoeddus, gan edrych ar ein hopsiynau ariannu, ein contractau a'n trefniadau masnachol, a sicrhau eu bod yn gadarn, y gellir eu cyflawni, a'u bod yn rhoi'r gwerth gorau posibl am arian. Mae hynny'n glir o ran ein hamcanion. Mae hefyd yn glir, o ran un enghraifft—. Mae gennym adolygiadau porth i sicrhau bod yr holl raglenni a phrosiectau ym mhiblinell Llywodraeth Cymru'n cael eu hasesu gan ein canolfan sicrwydd integredig fewnol ein hunain. Wrth gwrs, mae hynny'n adolygu lefel y risg a gynnigir gan raglenni neu brosiectau, ond rhaid iddo hefyd fod â lefel briodol o achredu o ran yr ymagwedd Achos Busnes Gwell, ac, wrth gwrs, darperir sicrwydd drwy adolygiad porth Swyddfa Masnach y Llywodraeth.

Credaf fod hynny'n ymwneud â phwysigrwydd blaenoriaethau sectoraidd, fel y dywedasoch yn un o'ch cwestiynau. Rydym wedi bod yn glir iawn ynghylch ein blaenoriaethau buddsoddi a ddatblygwyd cyn inni sefydlu proses gynllunio seilwaith Cymru ac rydym yn credu eu bod yn ein rhoi mewn sefyllfa dda o ran ein blaenoriaethau strategol. Fodd bynnag, mae'n rhaid inni fod yn glir y gallwn roi cyfrif am hynny o ran cyflawni, gan gysylltu'n benodol â'r hwb i dwf a swyddi a'r budd i'r economi.

It is important that we have moved forward in terms of moving away from the old discredited PFI model to a better and well-accepted arrangement in terms of our non-dividend investment models using private finance. Of course, it is very clear—I have already launched a £1 billion investment programme, as you mentioned, for the A465 and also the Velindre Cancer Centre propositions—that we are using non-dividend investment models and that we are supplementing our capital projects in this way. Of course, this is an important model, because it does cap private sector returns on investment and it eliminates windfalls. It does this by replacing equity with a tranche of subordinated debt. It also increases transparency of the non-profit distributing model, as a public interest director is appointed to the board of the project company delivering infrastructure.

I know that the Finance Committee has scrutinised this, and, again, I want to be able to report back on the development of the use of these models, and, clearly, the private sector and private financing in terms of investors are very keen to work with this in terms of these opportunities. We are also working very closely with the European Investment Bank on this front.

I certainly will want to account for delivery of those targets in terms of jobs. There is a target of 30,000 construction jobs and, of course, that is based on the allocation of capital today in terms of the construction schemes that I have announced. I will certainly want to look at ways that I can account for that and report back on the delivery of the Wales infrastructure investment plan.

The Minister for Health and Social Services will, of course, make further announcements to substantiate the announcement of allocations that I have made today in terms of health schemes, including £3 million at this stage to support Hywel Dda neonatal services. That does include the establishment of a level 2 neonatal unit, a new obstetric unit, a paediatric high dependency unit at Carmarthen's Glangwili hospital, and two new purpose-built midwife-led units at Glangwili and Wityhush hospitals. However, it is for the Minister for health, of course, to report more on that as announcements are followed through.

Mae'n bwysig ein bod wedi symud ymlaen o ran symud oddi wrth yr hen fodel PFI sydd wedi colli'i hygredded at drefniant cydnabyddedig gwell o ran ein modelau buddsoddi heb ddifidendau sy'n defnyddio cyllid preifat. Wrth gwrs, mae'n amlwg iawn—rwyf eisoes wedi lansio rhaglen fuddsoddi werth £1 biliwn, fel y soniasoch, ar gyfer yr A465 a hefyd gynigion Canolfan Ganser Felindre—ein bod yn defnyddio modelau buddsoddi heb ddifidendau a'n bod yn ategu ein prosiectau cyfalaf fel hyn. Wrth gwrs, mae hwn yn fodel pwysig, oherwydd mae'n capio enillion y sector preifat ar fuddsoddiadau ac mae'n cael gwared ar ffawdelw. Mae'n gwneud hyn drwy ddisodli ecwiti â chyfran o ddyled isradd. Mae hefyd yn cynyddu tryloywder y model dosbarthu dielw, drwy benodi cyfarwyddwr budd y cyhoedd ar fwrdd cwmni'r prosiect sy'n darparu'r seilwaith.

Gwn fod y Pwyllgor Cyllid wedi craffu ar hyn, ac, unwaith eto, hoffwn allu adrodd yn ôl am ddatblygiadau o ran defnyddio'r modelau hyn, ac, wrth gwrs, mae'r sector preifat ac arianwyr preifat o ran buddsoddwyr yn awyddus iawn i weithio gyda hyn o ran y cyfleoedd hyn. Rydym hefyd yn cydweithio'n agos iawn â Banc Buddsoddi Ewrop yn y cyswllt hwn.

Yn sicr, bydd arnaf eisiau rhoi cyfrif am gyflawni'r targedau hynny o ran swyddi. Mae targed o 30,000 o swyddi adeiladu ac, wrth gwrs, mae hynny'n seiliedig ar y dyraniad cyfalaf heddiw o ran y cynlluniau adeiladu yr wyf wedi'u cyhoeddi. Byddaf yn sicr yn awyddus i edrych ar ffyrdd y gallaf roi cyfrif am hynny ac adrodd yn ôl am gyflawni'r cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru.

Bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, wrth gwrs, yn gwneud cyhoeddiadau pellach i gadarnhau cyhoeddiad y dyraniadau yr wyf wedi'i wneud heddiw o ran cynlluniau iechyd, gan gynnwys £3 miliwn yn awr i gefnogi gwasanaethau newyddenedigol Hywel Dda. Mae hynny'n cynnwys sefydlu uned newyddenedigol lefel 2, uned obstetreg newydd, uned bediatrig dibyniaeth uchel yn Ysbyty Glangwili Caerfyrddin, a dwy uned bwrpasol newydd dan arweiniad bydwragedd yn ysbytai Glangwili a Llwynhelyg. Fodd bynnag, mater i'r Gweinidog Iechyd, wrth gwrs, yw adrodd mwy am hynny wrth inni weithredu yn sgil cyhoeddiadau.

15:43

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch am y datganiad. Yn gyffredinol, rydym ni ym Mhlaid Cymru yn croesawu'r cyfeiriad y mae'r Llywodraeth yn ei ddilyn o ran gwariant cyfalaf. Roedd Plaid Cymru wedi adnabod yr angen am gynnal gwariant cyfalaf ac i ychwanegu ato i geisio cynnal cyflogaeth ac i roi hwb i gwmnïau yn ystod y dirwasgiad ers cyn yr etholiad. Roeddem hefyd wedi nodi'r angen i chwilio am ffynonellau ychwanegol o arian cyfalaf, ac, wrth gwrs, dyna oedd wrth wraidd ein cynllun, 'Build for Wales', ac er i'r Prif Weinidog ddiifrio'r syniad hwnnw i ddechrau, rwy'n falch iawn o weld bod cynllun o'r fath yn rhan o strategaeth y Llywodraeth hon.

A gaf fi hefyd groesawu'r cyhoeddiadau heddiw ynglŷn â gwariant ychwanegol ar dai cymdeithasol? Mae hynny i'w groesawu'n fawr iawn; mae'r angen yn fawr iawn ac fe fydd nid yn unig yn diwallu'r angen, ond yn hwb i gwmnïau adeiladu.

Thank you for the statement. Generally speaking, we in Plaid Cymru welcome the direction taken by the Government in terms of capital spend. Plaid Cymru, prior to the election, had identified the need for maintaining capital expenditure and to add to it in order to sustain employment and to give a boost to companies during the recession. We had also noted the need to identify additional sources of capital funding, and, of course, that is what was at the heart of our 'Build for Wales' proposal, and although the First Minister derided that idea initially, I am pleased to see that such a scheme is now part of this Government's strategy.

May I also welcome the announcements made today on additional expenditure on social housing? That is to be welcomed; the needs are great in that area and it will not only meet that need, but it will be a boost for construction companies.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Un anhawster gyda'r adroddiad hwn, fel rwyf yn ei weld, yw bod y rhestr cynlluniau yn rhedeg dros nifer fawr o flynyddoedd, ac mae'n anodd, os nad yn amhosibl, gweld beth sydd yn digwydd mewn un flwyddyn. Rwy'n meddwl bod angen cyflwyniad ychydig yn fwy manwl er mwyn i ni gael gwerthuso llwyddiant ac aflwyddiant y cynlluniau hyn. Er enghraifft, cafodd cynllun ailddyblu'r rheilffordd Wrecsam i Saltney ei gyhoeddi, os ydw i'n cofio'n iawn, yn ystod Llywodraeth Cymru'n Un, a dim ond rwan y mae'n cael ei wireddu. Felly, rwy'n credu bod lle i wella'r ffordd yr ydym yn cyflwyno'r wybodaeth sydd ar gael.

A gaf i hefyd ddweud ei bod hi'n bwysig iawn ein bod ni'n gwerthuso llwyddiant ac effaith y cynlluniau hynny? Wrth gwrs fod cynlluniau o'r fath yn cynnig cyflogaeth, ac mae hynny i'w groesawu, ond rwy'n meddwl y dylai'r Llywodraeth fod yn gwneud rhyw fath o ymdrech i geisio gwerthuso llwyddiant y cynlluniau hyn ar ôl iddynt gael eu cyflawni. Nid oes dim, neu ychydig iawn o arwydd o hynny sydd yn yr adroddiad.

O ran cwestiynau, mae caffael yn dal i fod yn elfen bwysig iawn o lwyddiant neu aflwyddiant y gwariant cyfalaf hwn a'r angen i weld cymaint o gwmnïau o Gymru â phosibl yn ennill cytundebau o'r fath. Felly, a wnaiff y Gweinidog amlinellu dangosyddion tryloyw a mesuradwy am ganran y contractau caffael cyhoeddus sy'n cael ei hennill bob blwyddyn gan gwmnïau sydd wedi'u seilio yng Nghymru?

Hefyd, yn natganiad diweddaraf y Gweinidog ar fodelau cyllido arloesol, a groesawyd gennym yn gyffredinol, soniodd y Gweinidog fod prosiectau trafniadaeth yn y gogledd yn cael eu hystyried. A fydech chi'n gallu manylu ar y cynlluniau hyn a beth yn union sydd dan ystyriaeth o safbwynt yr angen i wella'r A55, ystyriaethau ynglŷn â chroesfan newydd ar draws afon Menai a rheilffordd ar draws y gogledd hefyd?

A sôn am reilffyrdd, rydym ni eisïau gwybod a yw'r Llywodraeth yn cytuno â Phlaid Cymru y dylai Cymru, pan aiff prosiect HS2, a HS3 o bosibl, ymlaen, gael cyfran o'r gwariant hwnnw i'n pwrpas ein hunain gan eu bod nhw, i bob pwrpas, yn gynlluniau penodol ar gyfer Lloegr. Rwy'n credu ei bod yn bwysig inni wybod beth yw safbwynt y Llywodraeth ar hynny.

Yn olaf, o ran effaith y gwariant hwn a'r benthyciadau newydd hyn ar y gyllideb refeniw, gan gynnwys y dulliau cyllido arloesol hynny, mae angen mwy o fanylion arnom am y trefniadau ad-dalu ar gyfer unrhyw fenthycia buddsoddiadau drwy fecanweithiau di-ddifidend. Felly, a oes modd i ni gael hynny, naill ai fel rhan o'r adroddiad blynyddol neu fel rhan o adroddiad pellach gan y Gweinidog yn y dyfodol?

One difficulty with this report, as I see it, is that the list of schemes runs over a number of years and, therefore, it is very difficult, if not impossible, to identify what is happening within one year. I think that we need a little more detail in terms of the introduction of these schemes in order for us to evaluate their success or failure. For example, the scheme to redouble the Wrexham-to-Saltney line was announced, if I remember correctly, during the One Wales Government, although it is only now being delivered. So, I do think that there is room to improve the way in which we present the information that is available.

May I also say that it is very important that we evaluate the success and impact of those schemes? Such schemes of course provide employment, and that is to be welcomed, but I do think that the Government should be making some effort to evaluate the success of these schemes once they have been delivered. There is no, or very little, sign of that in this report.

In terms of questions, procurement remains a very important element of the success or failure of this capital spend and the need to see as many Welsh companies as possible actually gaining such contracts. So, will the Minister outline indicators that are transparent and measurable on the percentage of public procurement contracts that are won on an annual basis by companies based in Wales?

Also, in the Minister's latest statement on innovative funding models, which we welcomed in general, the Minister mentioned the fact that transport projects in north Wales were being considered. Could you give us some detail on these proposals and on what exactly is being considered from the point of view of the need to improve the A55, the considerations as regards a new crossing over the Menai straits and the north Wales main line as well?

In talking of railways, I would like to know whether the Government agrees with Plaid Cymru that Wales, when the HS2 project, and possibly HS3, goes forward, should have a consequential as a result of that expenditure for our own ends, as they are, to all intents and purposes, projects specifically for England. I think that it is important for us to know what the Government's stance is on this issue.

Finally, in terms of the impact of this expenditure and the new borrowing on the revenue budget, including the innovative finance models, we need greater detail on the repayment proposals for any borrowing and any investments made through the not-for-dividend model. So, can we have that information as part either of the annual report or as part of a further report from the Minister in future?

15:48

Jane Hutt [Bywgraffiad Biography](#)

Diolch yn fawr am gefnogi'r datganiad heddiw.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Thank you very much for your support for today's statement.

I am very pleased, again, to be reporting today in terms of the development of the Wales infrastructure investment plan, which has had widespread support, and I believe that that is not just across the Chamber, but from the private sector. I think that this comes to your first question, Alun Ffred, about the importance for our stakeholders in the public and private sectors to understand that we have a strategic plan, that we have a pipeline of projects and that we are going to account for how we are going to fund those projects. The pipeline of projects is a rolling pipeline, and the opportunity to take stock on an annual basis, as I am doing with this annual review, allows you to scrutinise progress and impacts. I accept that, in terms of where we are with those announcements, it takes some time, as you well know, to then see the work under way.

Therefore, throughout the review that I have published today, I do give examples. For example, the Wrexham-Saltney redoubling is under way now and is due for completion by spring 2015, as stated in the report. Also, it is not just under way in terms of timeline, but that £44 million project will provide that urgently needed infrastructure facilitating increased rail network capacity. Of course, the planning in the pipeline goes way back in terms of preparations and making the business case, but, of course, that is all-important in terms of the better business planning and the business assurance on which I responded in the questions from Paul Davies in detail. I will not repeat myself in terms of how we are ensuring that we have that business assurance in terms of not only the business case planning, but the implementation.

I think that it is a fair point to ask about the impact of these schemes. This is about the outcome of that investment. Okay, we could approve the business planning, and this can fit with the WIIP investment priorities, and we can have clarity across the Welsh Government. Of course, this is why it included local government in terms of that pipeline, but we also want to ensure that we can deliver on the outcomes. I do not think that there is any difficulty in seeing, for example, the beneficial impacts of our twenty-first century school investment programme in terms of the impact that that has in terms of the educational opportunities for our children. The investments that I have announced today in terms of using our precious capital programme for health, which is particularly geared towards delivering in terms of reconfiguration and responding to many of the valuable points and learning from the Nuffield Trust report last week.

It is important that we look to the impact of the opportunities for procurement as a result of this huge investment now of capital investment through direct and innovative capital investment profiles. Yesterday, I was pleased to be at the housing site just down the road, in Cardiff, to see how United Welsh housing association was actually using its procurement policies to ensure that apprentices, for example, were on site as a result of the investment, and also that the construction company undertaking that—again, a Welsh-based company doing a lot of work in terms of housing construction—was able to report on the benefits of this investment, and also to report on the community benefits as a result of that investment.

Rwyf yn falch iawn, unwaith eto, o fod yn adrodd heddiw am ddatblygiad y cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru, sydd wedi cael cefnogaeth eang, ac rwyf yn credu nad dim ond ar draws y Siambr y mae hynny, ond yn y sector preifat hefyd. Credaf fod hyn yn dod at eich cwestiwn cyntaf, Alun Ffred, am ba mor bwysig yw hi fod ein rhanddeiliaid yn y sectorau cyhoeddus a phreifat yn deall bod gennym gynllun strategol, bod gennym biblinell o brosiectau a'n bod yn mynd i roi cyfrif am sut y byddwn yn ariannu'r prosiectau hynny. Mae'r biblinell brosiectau'n un dreigl, ac mae'r cyfle i graffu arni'n flynyddol, fel yr wyf yn ei wneud gyda'r adolygiad blynyddol hwn, yn eich galluogi i graffu ar gynnydd ac effeithiau. Rwyf yn derbyn, o safbwynt ble yr ydym o ran y cyhoeddiadau hynny, ei bod yn cymryd peth amser, fel y gwyddoch yn iawn, i weld y gwaith yn digwydd.

Felly, drwy gydol yr adolygiad yr wyf wedi'i gyhoeddi heddiw, rwyf yn rhoi enghreifftiau. Er enghraifft, mae ailddyblu Wrecsam-Saltney ar y gweill yn awr a dylai fod wedi'i gwblhau erbyn gwanwyn 2015, fel y nodwyd yn yr adroddiad. Hefyd, mae wedi dechrau nid yn unig o ran y llinell amser, ond bydd y prosiect gwerth £44 miliwn hwnnw'n darparu'r seilwaith sydd ei angen ar frys i hwyluso mwy o allu ar y rhwydwaith rheilffyrdd. Wrth gwrs, mae'r cynllunio yn y biblinell yn mynd yn ôl yn bell o ran paratodau a gwneud yr achos busnes, ond, wrth gwrs, mae hynny'n hollbwysig o ran cynllunio busnes yn well a'r sicrwydd busnes y soniais yn fanwl amdano wrth ateb cwestiynau Paul Davies. Nid wyf am ailadrodd yr hyn a ddywedais ynghylch sut yr ydym yn sicrhau ein bod yn cael y sicrwydd busnes hwnnw, nid yn unig o ran cynllunio achosion busnes, ond o ran gweithredu hefyd.

Rwyf yn meddwl ei bod yn deg gofyn am effaith y cynlluniau hyn. Mae hyn yn ymwneud â chanlyniad y buddsoddi hwnnw. Iawn, gallem gymeradwyo'r cynllunio busnes, a gall hynny gyd-fynd â blaenoriaethau buddsoddi'r cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru, a gallwn sicrhau eglurder ar draws Llywodraeth Cymru. Wrth gwrs, dyma pam yr oedd yn cynnwys llywodraeth leol o ran y biblinell honno, ond rydym hefyd am sicrhau y gallwn gyflawni'r canlyniadau. Nid wyf yn credu ei bod yn anodd, er enghraifft, gweld effeithiau buddiol ein rhaglen i fuddsoddi mewn ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain o ran yr effaith a gaiff ar gyfleoedd addysgol i'n plant. Mae'r buddsoddiadau yr wyf wedi eu cyhoeddi heddiw o ran defnyddio ein rhaglen gyfalaf werthfawr ar gyfer iechyd, sydd wedi'i hanelu'n arbennig at gyflawni o ran ad-drefnu ac ymateb i lawer o'r pwyntiau gwerthfawr a dysgu oddi wrth adroddiad Ymddiriedolaeth Nuffield yr wythnos diwethaf.

Mae'n bwysig ein bod yn edrych ar effaith y cyfleoedd o ran caffael o ganlyniad i'r buddsoddiad cyfalaf enfawr hwn yn awr drwy broffiliau buddsoddi cyfalaf uniongyrchol ac arloesol. Ddoe, roeddwn yn falch o fod yn y safle tai ychydig i lawr y ffordd, yng Nghaerdydd, i weld sut yr oedd cymdeithas tai Unedig Cymru yn defnyddio ei pholisiau caffael i sicrhau bod prentisiaid, er enghraifft, ar y safle yn sgil y buddsoddiad, a hefyd bod y cwmni adeiladu sy'n gwneud y gwaith hwnnw—unwaith eto, cwmni o Gymru sy'n gwneud llawer o waith o ran adeiladu tai—yn gallu adrodd ar fanteision y buddsoddiad hwn, ac adrodd hefyd am y manteision cymunedol o ganlyniad i'r buddsoddiad hwnnw.

Clearly, there are important developments taking place. We need to make sure that we have our fair share. That is what I see, because your Minister for Finance always ensures a fair share in terms of negotiations with the Treasury in relation to HS2 and anything that may follow on from that. It is important that I can assure you on my commitment to that, in securing that faire share, but also that I can provide—and this is something, again, that I can look at, and it will certainly be available in terms of budget scrutiny—the cost in terms of the revenue funding of this capital investment.

Wrth gwrs, mae datblygiadau pwysig yn digwydd. Mae angen inni wneud yn siŵr ein bod yn cael ein cyfran deg. Dyna'r wyf yn ei weld, oherwydd mae eich Gweinidog Cyllid bob amser yn sicrhau cyfran deg o ran trafodaethau â'r Trysorlys ynglŷn â HS2 ac unrhyw beth a allai ddilyn hynny. Mae'n bwysig fy mod yn gallu eich sicrhau ynghylch fy ymrwymiad i hynny, i sicrhau'r gyfran deg honno, ond hefyd y gallaf roi—ac mae hyn yn rhywbeth, unwaith eto, y gallaf edrych arno, a bydd yn sicr ar gael o ran craffu ar y gyllideb—cost y buddsoddiad cyfalaf hwn o ran cyllid refeniw.

15:53

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I also welcome this statement. Clearly, the extra investment is welcome, particularly the £9.5 million to Morriston Hospital in my region, which I think will make a huge difference in terms of the restructuring of that hospital.

Rwyf finnau hefyd yn croesawu'r datganiad hwn. Wrth gwrs, mae'r buddsoddiad ychwanegol i'w groesawu, yn arbennig y £9.5 miliwn i Ysbyty Treforys yn fy rhanbarth i, a fydd, yn fy marn i, yn gwneud gwahaniaeth aruthrol o ran ailstrwythuro'r ysbyty hwnnw.

I have just a couple of questions. Many of the questions that I wanted to ask have been covered. First, you said in your 2013 statement:

Mae gen i rai cwestiynau. Mae llawer o'r cwestiynau yr oeddwn am eu gofyn eisoes wedi eu trafod. Yn gyntaf, dywedasoch yn eich datganiad yn 2013:

'It is crucial that public infrastructure investment generates sustainable growth and jobs in local communities. That is why we are integrating the Welsh Government community benefits policy into the plan and all associated investments, to ensure maximum job and training opportunities from public procurement in Wales.'

'Mae'n hanfodol bod buddsoddi mewn seilwaith cyhoeddus yn cynhyrchu twf a swyddi cynaliadwy mewn cymunedau lleol. Dyna pam yr ydym yn integreiddio polisi manteision cymunedol Llywodraeth Cymru yn y cynllun a'r holl fuddsoddiadau cysylltiedig, er mwyn sicrhau'r cyfleoedd mwyaf posibl o ran swyddi a hyfforddiant yn sgil caffael cyhoeddus yng Nghymru.'

I know that you have touched upon public procurement here, but what progress are you making on this, and what outcomes have you achieved from this integration, which you signalled a year ago?

Gwn eich bod wedi crybwyll caffael cyhoeddus yma, ond pa gynnydd ydych chi'n ei wneud yn hyn o beth, a pha ganlyniadau ydych chi wedi eu cyflawni yn sgil yr integreiddio hwn, a nodwyd gennych flwyddyn yn ôl?

Secondly, Minister, in relation to the additional money particularly into housing, what efforts are being made to use that money to lever in additional private sector money into the housing market? Rather than just spending the money on building houses, are you able to generate additional money as a result of that particular investment?

Yn ail, Weinidog, ynglŷn â'r arian ychwanegol, yn enwedig i dai, pa ymdrechion sy'n cael eu gwneud i ddefnyddio'r arian i ddenu arian ychwanegol gan y sector preifat i mewn i'r farchnad dai? Yn hytrach na dim ond gwario'r arian ar adeiladu tai, a ydych yn gallu creu arian ychwanegol o ganlyniad i'r buddsoddiad arbennig hwnnw?

Daeth y Llywydd i'r Gadair am 15:55.

The Presiding Officer took the Chair at 15:55.

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Finally, Minister, in relation to innovative finance, again I see that there no mention of initiatives such as tax increment financing, in terms of using that additional regeneration money as it is being used in cities around England. May I ask what progress has been made on studying the pilot projects that are going on in England to generate additional resources for regeneration, and whether you will be in a position to apply some of those lessons to Wales?

Yn olaf, Weinidog, ynglŷn â chyllid arloesol, eto rwyf yn gweld nad oes sôn am fentrau megis ariannu drwy gynnyddrannau treth, o ran defnyddio'r arian adfywio ychwanegol hwnnw fel y mae'n cael ei ddefnyddio mewn dinasoedd ledled Lloegr. A gaf fi ofyn pa gynnydd sydd wedi'i wneud o ran astudio'r prosiectau peilot sy'n digwydd yn Lloegr i greu adnoddau ychwanegol ar gyfer adfywio, ac a fyddwch mewn sefyllfa i ddefnyddio rhai o'r gwersi hynny yng Nghymru?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:55

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Welsh Liberal Democrats' finance spokesperson for his support for the way that we are moving forward in terms of our Wales infrastructure investment plan. I also confirm that this is clearly linked to my public procurement policy statement, particularly my ambitions in relation to community benefits. I mentioned the investment that I saw yesterday in the United Welsh project—49 new homes for people. The total scheme costs £5.325 million. The contractor will be required to invest up to 0.25% of the final contract sum in community projects identified within the local area. There will be a total of one trainee plan for each £1 million worth of building contract value. That is the kind of contract compliance that we would expect and that we are developing from our community benefits projects. There are clear opportunities. This is about the Minister for Finance working with the Minister for Housing and Regeneration to progress opportunities for a help-to-build initiative, as well as the Help to Buy initiative, in terms of ensuring that we can use all opportunities in terms of innovative finance, particularly working very closely with our RSLs. We are co-funding investment, alongside our delivery partners, in terms of new prospects for housing, and that will continue.

In terms of TIF and how we are taking tax increment financing forward, this is clearly an area that you know we are working on to deliver opportunities. However, these are clearly opportunities for projects that would be most appropriate. Our approach is consistent with that of Governments in other parts of the UK. In terms of tax increment financing, it is an option that is available to be used by local authorities in Wales. We hope that the business rates task and finish group will also give consideration to this, but it has to provide robust value for money.

Diolch i lefarydd cyllid Democratiaid Rhyddfrydol Cymru am ei gefnogaeth i'r ffordd yr ydym yn symud ymlaen o ran ein cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru. Rwyf hefyd yn cadarnhau bod cysylltiad clir rhwng hyn a'm datganiad polisi caffael cyhoeddus, yn enwedig fy uchelgais o ran budd i'r gymuned. Soniais am y buddsoddiad a welais ddoe ym mhrosiect cymdeithas tai Unedig Cymru—49 o gartrefi newydd i bobl. Mae'r cynllun cyfan yn costio £5.325 miliwn. Bydd yn rhaid i'r contractwr fuddsoddi hyd at 0.25% o swm terfynol y contract mewn prosiectau cymunedol a nodwyd yn yr ardal leol. Bydd cyfanswm o un cynllun hyfforddai ar gyfer pob £1 miliwn o werth y contract adeiladu. Dyna'r math o gydymffurfiaeth â chontract y byddem yn ei ddisgwyl ac yr ydym yn ei ddatblygu o'n prosiectau budd i'r gymuned. Mae cyfleoedd clir. Mae hyn yn fater o gydweithio rhwng y Gweinidog Cyllid a'r Gweinidog Tai ac Adfywio i ddatblygu cyfleoedd ar gyfer menter cymorth i adeiladu, yn ogystal â'r fenter Cymorth i Brynu, i sicrhau y gallwn ddefnyddio pob cyfle o ran cyllid arloesol, gan gydweithio'n agos iawn yn arbennig â'n Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Rydym yn cydariannu buddsoddi, ochr yn ochr â'n partneriaid cyflawni, o ran cyfleoedd newydd ar gyfer tai, a bydd hynny'n parhau.

O ran TIF a sut yr ydym yn bwrw ymlaen ag ariannu drwy gynyddrannau treth, mae hyn yn amlwg yn faes yr ydych yn gwybod ein bod yn gweithio arno i ddarparu cyfleoedd. Fodd bynnag, mae'r rhain yn amlwg yn gyfleoedd i'r prosiectau a fyddai fwyaf priodol. Mae ein hymagwedd yn gyson â dulliau Llywodraethau mewn rhannau eraill o'r DU. O ran ariannu drwy gynyddrannau treth, mae'n opsiwn sydd ar gael i awdurdodau lleol yng Nghymru ei ddefnyddio. Rydym yn gobeithio y bydd y grŵp gorchwyl a gorffen trethi busnes hefyd yn ystyried hyn, ond mae'n rhaid iddo ddarparu gwerth cadarn am arian.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:58

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have just a single question regarding your announcement of £250 million in funding for the tripling of the housing finance grant. Could you confirm whether, like the housing finance grant, it will be over 30 years, so we are talking presumably about around £8 million per annum from 2017? Also, to what extent can the Welsh Government therefore bind future Governments over that 30-year period?

Mae gennyf un cwestiwn am eich cyhoeddiad ynghylch £250 miliwn i dreblu'r grant cyllid tai. A allwch gadarnhau a fydd, fel y grant cyllid tai, dros 30 mlynedd, a'n bod felly'n sôn yn ôl pob tebyg am tua £8 miliwn y flwyddyn o 2017 ymlaen? Hefyd, i ba raddau y gall Llywodraeth Cymru, felly, rwyf i Llywodraethau'r dyfodol dros y cyfnod hwnnw o 30 mlynedd?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:58

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Clearly, that is now a commitment, as all public-private partnerships and financial arrangements of this kind are. This is a commitment that I am sure all future governments will want to engage in and support in the future.

Wrth gwrs, mae hynny yn awr yn ymrwymiad, fel pob partneriaeth gyhoeddus-preifat a phob trefniant ariannol o'r math hwn. Mae hwn yn ymrwymiad yr wyf yn siŵr y bydd pob llywodraeth yn y dyfodol yn awyddus i fod yn rhan ohono a'i gefnogi yn y dyfodol.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Dadreoleiddio mewn perthynas â Gwelliannau i'r Bil mewn perthynas â Deddf Daliadau Amaethyddol 1986, Deddf Bridio Cŵn 1973 a Deddf Bridio a Gwerthu Cŵn (Lles) 1999

Detholwyd y gwelliant canlynol: gwelliant 1 yn enw Elin Jones.

Supplementary Legislative Consent Motion on the Deregulation Bill in respect of Amendments to the Bill in relation to the Agricultural Holdings Act 1986, Breedings of Dogs Act 1973 and Breeding and Sale of Dogs (Welfare) Act 1999

The following amendment has been selected: amendment 1 in the name of Elin Jones.

15:59 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Minister for Natural Resources and Food to move the motion.

Galwaf ar y Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd i gyflwyno'r cynnig.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cynnig NDM5531 Alun Davies

Motion NDM5531 Alun Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno mai Senedd y DU ddylai ystyried darpariaethau'r Bil Dadreoleiddio, sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth, iechyd a lles anifeiliaid a thai, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6 agrees that provisions in the Deregulation Bill, relating to agriculture, animal health and welfare and housing in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.

15:59 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food

I move the motion.

Cynigiad y cynnig.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I am grateful for the opportunity to briefly explain the background to this supplementary legislative consent motion on the United Kingdom Deregulation Bill. In starting my remarks this afternoon, I record my thanks to the National Assembly's Constitutional and Legislative Affairs Committee for its thorough work and its report on this LCM. The committee highlighted the issue of commencement powers and whether these should reside with the Welsh Ministers in relation to the repeals of dog breeding legislation. I assume that the amendment that we have this afternoon also deals with the same point, so I will address that matter in my opening remarks.

Rwy'n ddiolchgar am gael y cyfle i egluro'n gryno cefndir y cynnig cydsyniad deddfwriaethol atodol hwn ar Fil Dadreoleiddio y Deyrnas Unedig. Wrth ddechrau fy sylwadau y prynhawn yma, rwy'n cofnodi fy niolch i Bwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol am ei waith trylwyr a'i adroddiad ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn. Tynnodd y pwyllgor sylw at y mater o bwerau cychwyn a pha un a ddylai'r rhain fod yn gyfrifoldeb i Weinidogion Cymru o ran diddymiaid deddfwriaeth bridio cŵn. Rwy'n cymryd yn ganiataol bod y gwelliant sydd gennym y prynhawn yma hefyd yn ymdrin â'r un pwynt, felly trafodaf y mater yn fy sylwadau agoriadol.

The sections of the Breeding of Dogs Act 1973 and the Breeding and Sale of Dogs (Welfare) Act 1999 that are being repealed relate to the identification of dogs. They require licensed breeders to retain paper records and for puppies to wear a collar and tag before being sold to pet shops and then to the public. We are content with the repeals because we are bringing forward our own legislation on dog breeding and microchipping. I intend to lay two sets of regulations today: the Animal Welfare (Breeding of Dogs) (Wales) Regulations 2014 to replace the Breeding of Dogs Act 1973 in Wales, planned to come into force on 31 December 2014, and the Animal Welfare (Identification of Dogs) (Wales) Regulations 2014, which will introduce a requirement for all dog owners in Wales to microchip their dogs by 1 March 2015, and all puppies thereafter by the time that they are 56 days old. I understand that Government lawyers have been discussing with lawyers from the National Assembly and have reached agreement on these matters today, and the regulations will be laid later this afternoon.

The committee highlighted potential problems, not with the repeals per se, but because the repeals were commenced by the Secretary for State, rather than by Welsh Ministers. The committee felt that issues could arise because of a different timetable for replacement regulations in England and Wales. Our regulations are likely to be in place first. The committee asked that we keep stakeholders informed of progress on our own dog breeding and microchipping legislation, and I am happy to say that we will clearly do that.

I can also reassure Members that, in this case, there is no issue at all arising from the Secretary of State's exercise of these commencement powers. We are well on course for our dog breeding and microchipping legislation to be in place well ahead of England, where regulations are due to come into force in 2016. This, of course, is subject to the Assembly's agreement to the regulations that we will be laying. So, there will not be a gap in the regulation of dog breeders in Wales. Even if our own regulations did not go ahead before those of England, there would still not be a gap in regulation, because the licensing authorities could then use their existing powers to impose relevant licence conditions to require both record keeping and identification of individual dogs, if they considered it necessary.

There will not be the duplication of regulation while we wait for the Secretary of State to commence the repeals, because our own regulations will, in practice, take Welsh dog breeders out of the current licensing regime as soon as our new regime comes into force. I hope that Plaid Cymru, having listened to that explanation, will recognise that the amendment is therefore unnecessary. We are taking forward our own legislation for Wales, and that takes Wales out of the regulatory environment that is otherwise the case in England.

Mae adrannau Deddf Bridio Cŵn 1973 a Deddf Bridio a Gwerthu Cŵn (Lles) 1999 sy'n cael eu diddymu yn ymwneud ag adnabod cŵn. Maent yn ei gwneud yn ofynnol i fridwyr trwyddedig gadw cofnodion papur ac i gŵn bach wisgo coler a thag cyn cael eu gwerthu i siopau anifeiliaid anwes ac yna i'r cyhoedd. Rydym ni'n fodlon â'r diddymiadau gan ein bod yn cyflwyno ein deddfwriaeth ein hunain ar fridio cŵn a gosod microsglodion. Rwy'n bwriadu cyflwyno dwy gyfres o reoliadau heddiw: Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014 i ddisodli'r Ddeddf Bridio Cŵn 1973 yng Nghymru, y bwriedir iddynt ddod i rym ar 31 Rhagfyr 2014, a Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Adnabod Cŵn) (Cymru) 2014, a fydd yn cyflwyno gofyniad i bob perchennog ci yng Nghymru osod microsglodion ar eu cŵn erbyn 1 Mawrth, 2015, a phob ci bach wedi hynny erbyn y byddant yn 56 diwrnod oed. Rwy'n deall bod cyfreithwyr y Llywodraeth wedi bod yn trafod gyda chyfreithwyr o'r Cynulliad Cenedlaethol ac wedi dod i gytundeb ar y materion hyn heddiw, a bydd y rheoliadau yn cael eu cyflwyno yn ddiweddarach y prynhawn yma.

Tynnodd y pwyllgor sylw at broblemau posibl, nid gyda'r diddymiadau fel y cyfryw, ond oherwydd y cychwynnwyd y diddymiadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol, yn hytrach na chan Weinidogion Cymru. Roedd y pwyllgor yn teimlo y gallai problemau godi oherwydd amserlen wahanol ar gyfer rheoliadau newydd yng Nghymru a Lloegr. Mae ein rheoliadau ni yn debygol o gael eu cyflwyno gyntaf. Gofynnodd y pwyllgor i ni hysbysu rhanddeiliaid am gynnydd ein deddfwriaeth ein hunain o ran bridio cŵn a gosod microsglodion, ac rwy'n falch o ddweud y byddwn yn amlwg yn gwneud hynny.

Gallaf hefyd dawelu meddyliau'r Aelodau, yn yr achos hwn, nad oes unrhyw broblem o gwbl yn codi o'r ffaith mai'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n gweithredu'r pwerau cychwyn hyn. Rydym ni ar y trywydd iawn i'n deddfwriaeth bridio cŵn a gosod microsglodion ni fod ar waith ymhell o flaen Lloegr, lle disgwylir i reoliadau ddod i rym yn 2016. Mae hyn, wrth gwrs, yn amodol ar gytundeb y Cynulliad i'r rheoliadau y byddwn yn eu cyflwyno. Felly, ni fydd bwlch o ran rheoleiddio bridwyr cŵn yng Nghymru. Hyd yn oed pe na byddai ein rheoliadau ein hunain yn cael eu cyflwyno cyn rhai Lloegr, ni fyddai bwlch yn y rheoleiddio wedyn ychwaith, gan y gallai'r awdurdodau trwyddedu ddefnyddio eu pwerau presennol wedyn i osod amodau trwyddedu perthnasol i'w gwneud yn ofynnol i gadw cofnodion ac adnabod cŵn unigol, pe byddent yn ystyried bod hynny'n angenrheidiol.

Ni fydd dyblygu o ran rheoleiddio tra ein bod yn aros i'r Ysgrifennydd Gwladol gychwyn y diddymiadau, gan y bydd ein rheoliadau ni ein hunain, yn ymarferol, yn mynd â bridwyr cŵn Cymru allan o'r drefn drwyddedu bresennol cyn gynted ag y bydd ein trefn newydd ni yn dod i rym. Rwy'n gobeithio y bydd Plaid Cymru, ar ôl gwrandao ar yr esboniad hwnnw, yn cydnabod bod y gwelliant yn ddiangen felly. Rydym yn datblygu ein deddfwriaeth ein hunain i Gymru, ac mae hynny'n mynd â Chymru allan o'r amgylchedd rheoleiddio sydd fel arall ar waith yn Lloegr.

In respect of the agricultural holdings Act amendment, that is also included in the legislative consent memorandum. This will allow for an alternative method of dispute resolution to arbitration and propose that the tenant and landlord of an agricultural holding jointly agree to the appointment of a third party to determine the outcome. This will bring the 1986 Act more in line with the Agricultural Tenancies Act 1995, meaning greater consistency across all agricultural tenancies in the way that disputes are resolved. The proposed amendment will not prejudice the existing rights of access that landlords or tenants have to tribunals, arbitration or the courts, but builds on those rights, giving parties the opportunity to agree to an alternative. This is not a controversial, technical amendment that is being supported by industry experts, who approve it—the tenancy reform industry group. I am happy to respond to any other issues raised during the debate in my closing remarks.

O ran y gwelliant i Ddeddf daliadau amaethyddol, mae hwnnw hefyd wedi ei gynnwys yn y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol. Bydd hyn yn caniatáu dull amgen o ddatrys anghydfod at gymrodeddu ac yn cynnig bod tenant a landlord daliad amaethyddol yn cytuno ar y cyd i benodi trydydd parti i benderfynu ar y canlyniad. Bydd hyn yn golygu bod Deddf 1986 yn cyd-fynd yn well â Deddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995, sy'n golygu mwy o gysondeb ar draws pob tenantiaeth amaethyddol o ran y ffordd y caiff anghydfodau eu datrys. Ni fydd y gwelliant arfaethedig yn amharu ar hawliau mynediad presennol sydd gan landlordiaid neu denantiaid i dribiwnlysoedd, cymrodeddu neu'r llysoedd, ond yn adeiladu ar yr hawliau hynny, gan roi'r cyfle i bartion gytuno i ddewis arall. Nid yw hwn yn welliant dadleuol, technegol sy'n cael ei gefnogi gan arbenigwyr yn y diwydiant, sy'n ei gymeradwyo—y grŵp diwydiant diwygio tenantiaeth. Rwy'n hapus i ymateb i unrhyw faterion eraill a godir yn ystod y ddatl yn fy sylwadau i gloi.

16:03 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I have selected the amendment to the motion, and I call on Simon Thomas to move amendment 1, which is tabled in the name of Elin Jones.

Rwyf wedi dethol y gwelliant i'r cynnig, a galwaf ar Simon Thomas i gynnal gwelliant 1, a gyflwynir yn enw Elin Jones.

Gwelliant 1—Elin Jones

Amendment 1—Elin Jones

Cynnwys ar ddiwedd y cynnig:

Insert at end of motion:

'ar yr amod fod y pwerau i gychwyn yr Atodlenni yn y Bil sy'n ymdrin â diddymu yn cael eu rhoi i Weinidogion Cymru yn hytrach na'r Ysgrifennydd Gwladol.'

'on condition that the powers to commence the Schedules of the Bill dealing with repeals are vested with Welsh Ministers rather than the Secretary of State.'

16:03 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cynigiau welliant 1.

I move amendment 1.

Rwyf wedi gwrando'n ofalus ar yr hyn oedd gan y Gweinidog i'w ddweud, ond rwy'n meddwl bod y gwelliant yn dal yn gweddu i'r sefyllfa yr ydym ynddi. Y sefyllfa yw hyn: mae'r Bil dadreoleiddio i fod i godi baich oddi ar fusnesau bach. Yn y cyd-destun hwnnw, yn benodol, rwyf am siarad am y busnesau sy'n magu cŵn, gan mai dyna lle mae posibilid y bydd y ddwy set o ddeddfwriaethau yn taro yn erbyn ei gilydd, gydag ansicrwydd yn yr hyn sy'n deillio o hynny.

I have listened carefully to the Minister's comments, but I still think that the amendment is appropriate given the situation that we find ourselves in. The situation is this: the deregulation Bill is meant to take a burden from the shoulders of small businesses. In that context, in particular, I want to talk about dog breeding businesses, because that is where there is a possibility that the two sets of legislation may conflict, with uncertainty as a result of that.

Fel y mae'r Gweinidog wedi ei amlinellu, oherwydd ei fod, o'r diwedd, wedi cyflwyno'r rheoliadau—nid ydym wedi eu gweld tan heddiw, er bod sôn amdanynt am hir—mae'n glir bod gan Lywodraeth Cymru fwiad i gyflwyno set o reoliadau sy'n ymwneud â'r maes hwn yng Nghymru; rwy'n derbyn hynny. Mae hefyd yn glir, os pasiwn ni'r cynnig fel ag y mae heddiw, heb y gwelliant, bydd y gallu i godi'r baich rheoleiddio oddi ar y busnesau magu cŵn, o dan y Deddfau presennol, sef Deddf 1973 a Deddf 1999, yn aros yn nwylo Gweinidogion Cymru. Mae dwy broblem yn hynny o beth, rwy'n meddwl. Un yw problem yr egwyddor. Rydym yn fodlon, yn y fan hon, i San Steffan, o bryd i'w gilydd, ddeddfu yn y meysydd yr ydym ni'n gyfrifol amdanynt, ond pam yr ydym yn fodlon i Weinidogion San Steffan benderfynu pryd i weithredu ar y Deddfau hynny? Pam nad ydym yn cadw'r hawl hwnnw i'n hunain? Dyna fy nghwestiwn cyntaf.

As the Minister has outlined, because he, at last, has introduced regulations—we had not seen them until today, although we have been talking about them for a very long time—it is clear that the Welsh Government's intention is to introduce a set of regulations relating to this area in Wales; I accept that. It is also clear that, if we pass the motion as it stands today, without the amendment, the ability to take that regulatory burden off the shoulders of dog breeding businesses, under the existing Acts, namely the 1973 Act and the 1999 Act, will remain in the hands of Welsh Ministers. There are two problems with that, I think. One is the problem of the principle. We are content here for Westminster, from time to time, to legislate in the areas for which we are responsible, but why are we content for Westminster Ministers to decide when to take action on those Acts? Why do we not retain that right for ourselves? That is my first question.

Rwy'n meddwl mai dyma'r tro cyntaf inni drafod gwelliant o'r fath—mae hynny mewn trefn, neu ni fyddai wedi ymddangos. Mae'n welliant sy'n tanlinellu rhai o'r agweddau sydd angen eu trafod wrth inni symud ymlaen â datblygu sgiliau deddfu yn y fan hon. Yr ail ran o beth sy'n digwydd yn y fan hon yw'r posibilrwydd y bydd y Deddfau presennol yn dal mewn grym yng Nghymru ac y bydd rheoliadau ychwanegol gan y Llywodraeth. Felly, byddai dwy set o reoliadau, i bob pwrpas, ar y cwmnïau sy'n magu cŵn. Y rheswm am hynny yw y byddai codi'r baich o dan y Ddeddf yn San Steffan yn aros yn nwylo'r Gweinidog yn San Steffan ac yn aros, felly, ynghlwm â'r etholiad cyffredinol a fydd yn digwydd ar gyfer San Steffan. Rydym yn rhydd o hynny.

Dwywedodd y Gweinidog wrth agor y ddatl ei fod o'r farn nad oedd posibilrwydd y byddai hynny'n digwydd, oherwydd—beth a ddywedodd?—rhywbeth fel y byddai'r system yng Nghymru yn cymryd y busnesau hyn allan o Ddeddfau 1973 a 1999. Ond, nid dyna'r cyngor a dderbyniodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. I ddweud y gwir, ni allaf weld sut bod hynny'n wir, gan na allwch ddisodli un Ddeddf gyda Deddf arall oni bai eich bod yn gwneud darpariaeth benodol ar gyfer hynny. Nid ydym yn y sefyllfa honno.

Mae'n gliriach o lawer, os ydym i gytuno ar hyn, ein bod yn gwneud hynny ar yr amod mai Gweinidogion Cymru sy'n penderfynu pryd y dylid codi'r baich gweinyddol hwnnw ar y busnesau, achos gallant gydlyn hynny'n berffaith gyda chyflwyno rheoliadau Cymru a gweithredu'r rheoliadau hynny. Ar y sail hwnnw, mae Plaid Cymru yn dal o'r farn fod y gwelliant yn un dilys a, mwy na hynny, yn un pwysig hefyd.

I think that this is the first time that we have discussed such an amendment—that is in order, or it would not have appeared on the agenda. It is an amendment that highlights some of the aspects that need to be discussed as we move forward with the development of legislative skills here. The second issue here is the possibility that current legislation will remain in place in Wales alongside additional Government regulations. Therefore, there would be two sets of regulations, to all intents and purposes, on dog breeding companies. The reason for that is that removing the burden under the Westminster Act remains in the hands of the Minister in Westminster and is, therefore, still linked to the general election that will take place for Westminster. We are free of that.

The Minister said, in opening the debate, that he was of the opinion that there was no possibility of that happening, because of—what did he say?—something like that the system in Wales will take these businesses out of the 1973 and 1999 Acts. However, that is not the advice received by the Constitutional and Legislative Affairs Committee. To be honest, I cannot see how that can be the case, because you cannot replace one Act with another unless you make specific provision for that. We are not in that position.

It is much clearer, if we are to agree on this, that we do so on the condition that it is Welsh Ministers who would decide when to lift this administrative burden from businesses, because they could co-ordinate that with the introduction of Welsh regulations and the implementation of those regulations. On that basis, Plaid Cymru is still of the opinion that the amendment is valid and, more than that, is important also.

16:07 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, David Melding.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, David Melding.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

16:07 **David Melding** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The committee reported on this supplementary legislative consent memorandum on 19 June 2014. There are a few issues that I would like to draw to the Assembly's attention, and they have already been referred to in the debate. As a committee, we make no secret of our desire to see Welsh Government law set out as clearly as possible. We had some concerns with the approach that has been adopted here. We have commented on this specific point in relation to legislation about dogs in the past and this is relevant to the LCM before us.

Adroddodd y pwyllgor ar y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol hwn ar 19 Mehefin 2014. Ceir rhai materion yr hoffwn dynnu sylw'r Cynulliad atynt, a chyfeiriwyd atynt eisoes yn y ddatl. Fel pwyllgor, nid ydym yn gwneud unrhyw gyfrinach o'n dymuniad i weld cyfraith Llywodraeth Cymru wedi ei chyflwyno mor eglur â phosibl. Roedd gennym rai pryderon gyda'r dull a fabwysiadwyd yma. Rydym ni wedi gwneud sylwadau ar y pwynt penodol hwn o ran deddfwriaeth yn ymwneud â chŵn yn y gorffennol ac mae hyn yn berthnasol i'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol sydd ger ein bron.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

In our view, one of the consequences of using the approach set out in the LCM is to give rise to further complexity and uncertainty surrounding certain aspects of dog policy and legislation in Wales. We note that commencement powers, in relation to the Schedules to the Bill that deal with repeals, reside with the Secretary of State. That is a matter that we have already discussed this afternoon. This provides a division of power between Welsh and UK Ministers. What most concerned the committee in this respect is that this could lead to ineffective collaboration between administrations here and in Westminster and could lead to further delay and confusion. Clearly, such an outcome would be to the detriment of the people of Wales.

I have heard what the Minister has said, and he seems to have moved pretty quickly to ensure that some of the potential pitfalls identified in our report do not arise. However, it is very important that stakeholders are kept clearly informed of progress in the development of Welsh dog policy and legislation. I was pleased to hear what he said in terms of publishing the regulations today—obviously, I am unsighted on that and have not had advice. We did fear that there could be a policy gap, but the Minister seems to have moved to ensure that that does not now occur.

However, when we draft new regulations and consider the way in which we wish to provide for new legislation, I think that we need an elegant approach and a clear approach. It is a strange situation to have the commencement powers reside with the Secretary of State, but then the power of initiation for the new regulations to reside with Welsh Ministers. For the future, at the very least, we need to look at this issue.

In closing, there is a general and important point of principle that I would like to raise. Where LCMs relate to amendments tabled to UK Bills, relevant information should be provided about those amendments, such as, who tabled them and the amendment numbers. That would enable their progress to be tracked in the House of Commons proceedings. This is a matter of good practice that we would encourage the Welsh Government to follow in future.

Yn ein barn ni, un o ganlyniadau defnyddio'r dull a nodir yn y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yw creu cymhlethdod ac ansicrwydd ychwanegol ynghylch rhai agweddau ar bolisi a deddfwriaeth cŵn yng Nghymru. Rydym ni'n nodi bod pwerau cychwyn, o ran yr Atodlenni i'r Bil sy'n ymdrin â diddymiadau, gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae hwnnw'n fater yr ydym ni eisoes wedi ei drafod y prynhawn yma. Mae hwn yn darparu rhan o bŵer rhwng Gweinidogion Cymru a rhai'r DU. Yr hyn a oedd yn peri'r pryder mwyaf i'r pwyllgor yn hyn o beth yw y gallai hyn arwain at gydweithio aneffeithiol rhwng gweinyddiaethau yma ac yn San Steffan ac y gallai arwain at oedi a dryswch pellach. Yn amlwg, byddai canlyniad o'r fath yn anafantaisol i bobl Cymru.

Rwyf wedi clywed yr hyn a ddywedodd y Gweinidog, ac mae'n ymddangos ei fod wedi symud yn weddol gyflym i sicrhau na fydd rhai o'r peryglon posibl a nodwyd yn ein hadroddiad yn codi. Fodd bynnag, mae'n bwysig iawn bod rhanddeiliaid yn cael eu hysbysu'n eglur am gynnydd wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth cŵn Cymru. Roeddwn i'n falch o glywed yr hyn a ddywedodd o ran cyhoeddi'r rheoliadau heddiw—yn amlwg, nid wyf yn ymwybodol o hynny ac nid wyf wedi cael cyngor. Roeddem ni'n ofni y gallai fod bwlch mewn polisi, ond ymddengys bod y Gweinidog wedi symud i sicrhau na fydd hynny'n digwydd bellach.

Fodd bynnag, pan fyddwn yn drafftio rheoliadau newydd ac yn ystyried y ffordd yr ydym ni'n dymuno darparu ar gyfer deddfwriaeth newydd, rwy'n meddwl bod angen i ni angen dull coeth a dull eglur. Mae'n sefyllfa ryfedd i'r Ysgrifennydd Gwladol fod â'r pwerau cychwyn, ond i Weinidogion Cymru fod â'r pŵer cychwyn ar gyfer y rheoliadau newydd wedyn. Ar gyfer y dyfodol, o leiaf, mae angen i ni edrych ar y mater hwn.

I gloi, ceir pwynt cyffredinol a phwysig o egwyddor yr hoffwn ei godi. Pan fo cynigion cydsyniad deddfwriaethol yn ymwneud â gwelliannau a gyflwynwyd i Ffiliau'r DU, dylid darparu gwybodaeth berthnasol am y diwygiadau hynny, fel pwy sy'n eu cyflwyno a rhifau'r gwelliannau. Byddai hynny'n caniatáu i'w cynnydd gael ei olrhain yn nhrefodion Tŷ'r Cyffredin. Mae hyn yn fater o arfer da y byddem yn annog Llywodraeth Cymru i'w ddilyn yn y dyfodol.

Diolchaf i'r Gweinidog am gyflwyno ei gynnis cydsyniad deddfwriaethol. Fel plaid, rydym ni'n cefnogi'r ymgyrch i symleiddio a dadreoleiddio, ac rydym ni'n cefnogi'r hyn y mae Llywodraeth y DU yn ei wneud yn hynny o beth. Ceir pryder, wrth gwrs, ynghylch y bwlch posibl yn y gyfraith a allai ddod i'r amlwg, gyda'r bwlch mewn deddfwriaeth rhwng y ddwy stôl. Rwyf wedi clywed yr hyn a ddywedodd y Gweinidog heddiw, ond rwy'n cwestiynu pa un a ddylai'r swyddogion trwyddedu, yr wyf yn credu oedd yr hyn a ddywedodd, gael eu rhoi yn y sefyllfa honno, fel y nodwyd ganddo.

16:10

Russell George [Bywgraffiad Biography](#)

I thank the Minister for bringing forward his LCM. As a party, we support the drive to simplify and deregulate, and we support what the UK Government is doing in that regard. There is, of course, a concern regarding the potential lacuna in law that could emerge, with the gap in legislation between the two stools. I have heard what the Minister has said today, but I question whether the licensing officers, which I think is what he said, should be put in that position, as he set out.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

With regard to the regulations that he intends to bring forward on 15 July, I welcome that, but I would like to know why it has taken so long to bring this legislation forward and what the delay has been. He clearly showed us last July that the National Assembly has had competence in this area. Therefore, why did he not get on with it and do it at that point, rather than bringing it forward to the Chamber at this later stage?

I have some empathy with the points and the amendment that Simon Thomas has put forward. There is a larger constitutional question here, around the technical operation of the current settlement and how the harmonisation process of legislation brought forward by two different Ministers, who have equal status in law, works in practice. There is, no doubt, an inconvenience here. I am of the view that the Minister has had plenty of time to get this right with his UK counterparts.

Finally, can you set out the timetable, Minister? What might that look like in bringing forward these regulations and when are they likely to commence? Also, with regard to the lacuna, can you give us some assurance that you have discussed and agreed the process with UK Government Ministers?

O ran y rheoliadau y mae'n bwriadu eu cyflwyno ar 15 Gorffennaf, rwy'n croesawu hynny, ond hoffwn wybod pam mae wedi cymryd cyhyd i gyflwyno'r deddfwriaeth hon a'r rheswm am yr oedi. Dangosodd yn eglur i ni fis Gorffennaf diwethaf bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi cael cymhwysedd yn y maes hwn. Felly, pam na wnaeth ef fwrw ymlaen â'r gwaith a'i wneud ar yr adeg honno, yn hytrach na'i gyflwyno i'r Siambr ar yr y cam diweddarach hwn?

Mae gennyf rywffaint o gydymdeimlad â'r pwyntiau a'r gwelliant y mae Simon Thomas wedi ei gyflwyno. Ceir cwestiwn cyfansoddiadol mwy yma, ynghylch gweithrediad technegol y setliad cyfredol a sut mae'r broses cysoni deddfwriaeth a gyflwynwyd gan ddau wahanol Weinidog, sydd â statws cyfartal yn y gyfraith, yn gweithio yn ymarferol. Nid oes amheuaeth bod anghyfleustra yma. Rwyf o'r farn bod y Gweinidog wedi cael digon o amser i gael hyn yn iawn gyda'i gymheiriaid ar lefel y DU.

Yn olaf, a allwch chi nodi'r amserlen, Weinidog? Sut allai honno edrych o ran cyflwyno'r rheoliadau hyn a phryd maen nhw'n debygol o ddechrau? Hefyd, o ran y bwllch, a allwch chi roi rhywfaint o sicrwydd eich bod wedi trafod a chytuno ar y broses gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU?

16:12

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We support the LCM that is before us. We see it very much as a consolidation Bill, which, I believe, will help to reduce the burden of excessive and unnecessary regulation to business. However, on that point, we have, if you like, an irony here. When it comes to the Plaid Cymru amendment, I thank the Minister for his comments on the practical implications of what we are suggesting. Clearly, we were concerned that the potential existed, even if it was not likely, that dog breeding in Wales might be subject to either two sets of regulations concurrently or no regulation, and no-one wanted to see that. However, there is the question of having consistency, clarity and accessibility in the interrelationship between the Welsh Government and the UK Government, particularly in areas where Ministers in both places have some sets of responsibilities. That relationship, outlined in the LCM as it sits in front of us at the moment, seems to be unnecessarily tangled in this instance, and I remain of the opinion that it would be a cleaner solution if we were to support the Plaid Cymru amendment today. I think that the purpose of this LCM is exactly that: to clarify, to simplify and to make sure that people have a clear understanding of what applies to them and what the law means for them. In this instance, I ask the Minister to reconsider, because we are looking here for a clean and simple solution that the public will be able to understand and to see how it works in practice.

Rydym ni'n cefnogi'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol sydd ger ein bron. Rydym ni'n sicr yn ei ystyried yn Fil cydgrynhoi, a fydd, yn fy marn i, yn helpu i leihau'r baich rheoleiddio gormodol a diangen i fusnesau. Fodd bynnag, ar y pwynt hwnnw, mae gennyf, os hoffech chi, eironi yma. Pan ddaw at welliant Plaid Cymru, diolchaf i'r Gweinidog am ei sylwadau ar oblygiadau ymarferol yr hyn yr ydym ni'n ei awgrymu. Yn amlwg, roeddem ni'n pryderu bod y potensial yn bodoli, hyd yn oed os nad oedd yn debygol, y gallai bridio cŵn yng Nghymru fod naill ai'n destun dwy gyfres o reoliadau ar yr un pryd neu ddim rheoleiddio o gwbl, ac nid oedd unrhyw un eisiau gweld hynny. Fodd bynnag, ceir y cwestiwn o gael cysondeb, eglurder a hygyrchedd yn y rhyngberthynas rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, yn enwedig mewn meysydd lle mae gan Weinidogion yn y ddau le rai cyfresi o gyfrifoldebau. Mae'n ymddangos bod y berthynas honno, a amlinellir yn y cynnig cydsyniad deddfwriaethol fel y mae o'n blaenau ar hyn o bryd, yn ddryslyd heb fod angen yn yr achos hwn, ac rwyf yn dal o'r farn y byddai'n ateb glanach pe byddem yn cefnogi gwelliant Plaid Cymru heddiw. Rwy'n credu mai dyna yw union ddiben y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn: egluro, symleiddio a gwneud yn siŵr bod gan bobl ddealltwriaeth eglur o'r hyn sy'n berthnasol iddyn nhw a beth mae'r gyfraith yn ei olygu iddyn nhw. Yn yr achos hwn, gofynnaf i'r Gweinidog ailystyried, oherwydd ein bod yn chwilio yma am ateb glân a syml y bydd y cyhoedd yn gallu ei ddeall a gweld sut mae'n gweithio yn ymarferol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:14

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Minister to reply.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food*

I very much agree with that final point: we need a very clean and straightforward system. In replying to the debate, I acknowledge the words of David Melding, Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, that we have moved quickly to respond to the concerns outlined by the committee. Our lawyers have spent the day working on these matters to ensure that the regulations, when they are laid, will meet the concerns of the committee and those of the National Assembly. I hope that, when we do see those regulations, Members will be reassured by that.

Many of the questions asked by Russell George refer to those regulations, rather than the debate that we are having today. I will address those matters in the debate on 15 July, and I am grateful to him for giving us early sight of the questions that he will be asking during that debate.

I feel that I owe Members an apology for the time that it has taken to bring these matters forward. I do not want to bring legislation before Members that I do not believe meets the high standards that we would expect from and for Welsh law. Until I am satisfied that the regulations that we have in place meet that test, I will not bring them to the Chamber. It has taken me longer than I had anticipated; I accept that and I apologise that it has taken so long. However, I believe that we now have a set of regulations that will stand the test of time and that I can ask Members to vote for in good faith.

In terms of the question asked by Simon Thomas, I think that it is a fair question. If I believed that your assumption was a real one, then I would vote for the amendment myself. I have to say that I think that the points made by Eluned Parrott are also correct, but we do not need two sets of regulations and we do not have two sets of regulations; we have a single set, enacted by this place. We do not require the amendment, because the regulations—*if we accept the regulations on 15 July—will, in themselves, create Welsh law and will, in themselves, ensure that we are able to put forward a comprehensive set of regulations to meet the requirements. I am out of time, but I am happy to take an intervention if the Presiding Officer is happy for me to do so.*

Cytunaf yn llwyr â'r pwynt olaf: mae angen system lân a syml iawn arnom. Wrth ymateb i'r ddatl, rwy'n cydnabod geiriau David Melding, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, ein bod wedi symud yn gyflym i ymateb i'r pryderon a amlinellwyd gan y pwyllgor. Mae ein cyfreithwyr wedi treulio'r diwrnod yn gweithio ar y materion hyn i sicrhau bod y rheoliadau, pan fyddant yn cael eu cyflwyno, yn ateb pryderon y pwyllgor a rhai'r Cynulliad Cenedlaethol. Rwy'n gobeithio, pan fyddwn yn gweld y rheoliadau hynny, y bydd hynny'n tawelu meddyliau'r Aelodau.

Mae llawer o'r cwestiynau a ofynnwyd gan Russell George yn cyfeirio at y rheoliadau hynny, yn hytrach na'r ddatl yr ydym ni'n ei chael heddiw. Byddaf yn mynd i'r afael â'r materion hynny yn y ddatl ar 15 Gorffennaf, ac rwy'n ddiolchgar iddo am roi golwg gynnar i ni ar y cwestiynau y bydd yn eu gofyn yn ystod y ddatl honno.

Rwy'n teimlo y dylwn i ymddiheuro i'r Aelodau am yr amser y mae wedi ei gymryd i gyflwyno'r materion hyn. Nid wyf eisiau dod â deddfwriaeth gerbron yr Aelodau nad wyf yn credu sy'n cyrraedd y safonau uchel y byddech yn eu disgwyl gan ac ar gyfer cyfraith Cymru. Tan y byddaf yn fodlon bod y rheoliadau sydd gennym ar waith yn bodloni'r prawf hwnnw, ni fyddaf yn dod â nhw i'r Siambr. Mae wedi cymryd mwy o amser i mi nag y rhagwelais; rwy'n derbyn hynny ac rwy'n ymddiheuro ei fod wedi cymryd cyhyd. Fodd bynnag, credaf fod gennym gyfres o reoliadau bellach a fydd yn gwrthsefyll prawf amser ac y gallaf ofyn i'r Aelodau bleidleisio o blaid gyda phob ewyllys da.

O ran y cwestiwn a ofynnwyd gan Simon Thomas, rwy'n meddwl ei fod yn gwestiwn teg. Pe byddwn i'n credu bod eich tybiaeth yn un gwir, yna byddwn yn pleidleisio o blaid y gwelliant fy hun. Mae'n rhaid i mi ddweud fy mod i'n credu bod y pwyntiau a wnaed gan Eluned Parrott hefyd yn gywir, ond nid oes angen dwy gyfres o reoliadau arnom ac nid oes gennym ddwy gyfres o reoliadau; un gyfres sydd gennym, a deddfwyd gan y lle hwn. Nid oes angen y gwelliant arnom, gan y bydd y rheoliadau—*os byddwn yn derbyn y rheoliadau ar 15 Gorffennaf—ynddynt eu hunain, yn creu cyfraith i Gymru a byddant, ynddynt eu hunain, yn sicrhau ein bod yn gallu cyflwyno cyfres gynhwysfawr o reoliadau i fodloni'r gofynion. Mae fy amser ar ben, ond rwy'n fodlon derbyn ymyriad os yw'r Llywydd yn fodlon i mi wneud hynny.*

16:16 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Was someone intervening? I did not see that.

A oedd rhywun yn ymyrryd? Ni welais i hynny.

16:16 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes. It was Simon Thomas.

Oedd. Simon Thomas oedd yn ymyrryd.

16:16 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call Simon Thomas.

Galwaf ar Simon Thomas.

16:16	Simon Thomas Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I accept what the Minister is saying, and I am sure that he is genuine in what he says, but we have not had sight of those regulations to make that decision ourselves.</p>	<p>Rwy'n derbyn yr hyn y mae'r Gweinidog yn ei ddweud, ac rwy'n siŵr ei fod yn ddifffuant o ran yr hyn y mae'n ei ddweud, ond nid ydym ni wedi cael golwg ar y rheoliadau hynny i wneud y penderfyniad hwnnw ein hunain.</p>
16:16	Alun Davies Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>That is a fair point to make. I hope that Members will understand that we have been attempting to reach agreement with lawyers who work with the Constitutional and Legislative Affairs Committee, otherwise those regulations would have been laid by this time. However, in reaching agreement to ensure that our regulations meet the concerns of the committee, it has taken a little longer than we had anticipated. I expect them to be laid within the next quarter of an hour, but I understand that that is no reassurance for Members who are being asked to vote for these matters now.</p>	<p>Mae hwnna'n bwynt teg i'w wneud. Rwy'n gobeithio y bydd yr Aelodau'n deall ein bod wedi bod yn ceisio dod i gytundeb gyda'r cyfreithwyr sy'n gweithio gyda'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, fel arall byddai'r rheoliadau hynny wedi cael eu cyflwyno erbyn hyn. Fodd bynnag, wrth ddod i gytundeb i sicrhau bod ein rheoliadau yn ateb pryderon y pwyllgor, mae wedi cymryd ychydig yn hwy na'r disgwyl. Rwy'n disgwyl iddynt gael eu cyflwyno o fewn y chwarter awr nesaf, ond rwy'n deall nad yw hynny'n tawelu meddyliau'r Aelodau y gofynnir iddynt bleidleisio dros y materion hyn nawr.</p>
	<p>The point of principle that has been outlined by Members this afternoon about the role of Welsh Ministers and the Secretary of State is absolutely right. It is a matter for us, here, to make this law; it is a matter for us, here, to commence these regulations; and it is a matter for us, here, to scrutinise those regulations. If I felt that we were providing powers here for the Secretary of State that would lead to a potential conflict in the future, then I would not bring this matter here and ask Members to vote for it.</p>	<p>Mae'r pwynt o egwyddor a amlinellwyd gan yr Aelodau y prynhawn yma am swyddogaeth Gweinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol yn hollol gywir. Mater i ni, yma, yw gwneud y gyfraith hon; mater i ni, yma, yw cychwyn y rheoliadau hyn; a mater i ni, yma, yw craffu ar y rheoliadau hynny. Pe byddwn i'n teimlo ein bod yn darparu pwerau yma i'r Ysgrifennydd Gwladol a fyddai'n arwain at wrthdaro posibl yn y dyfodol, yna ni fyddwn yn dod â'r mater hwn yma a gofyn i'r Aelodau bleidleisio drosto.</p>
16:17	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? There is objection. Therefore, I will defer all voting until voting time.</p>	<p>Y cynnig yw derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad. Felly, gohiriaf yr holl bleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.</p>
	<p><i>Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.</i></p>	<p><i>Voting deferred until voting time.</i></p>
	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	
	<p>The Business Committee agreed that voting time would take place before we start Stage 3, so I will move straight to the votes, unless any Member objects. I see that there are no objections.</p>	<p>Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai'r cyfnod pleidleisio'n digwydd cyn inni ddechrau Cyfnod 3, felly rwyf am symud yn syth at y pleidleisiau, oni bai fod unrhyw Aelod yn gwrthwynebu. Gwelaf nad oes gwrthwynebiad.</p>
	<h2>Cyfnod Pleidleisio</h2>	<h2>Voting Time</h2>
	Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnis NDM5531	Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5531
	<p><i>Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 12, Yn erbyn 23, Ymatal 10.</i></p>	<p><i>Amendment not agreed: For 12, Against 23, Abstain 10.</i></p>
	Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5531	Result of the vote on motion NDM5531
	<p><i>Derbyniwyd y cynnig: O blaid 37, Yn erbyn 0, Ymatal 8.</i></p>	<p><i>Motion agreed: For 37, Against 0, Abstain 8.</i></p>
16:19	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Before we move to Stage 3 of the Housing (Wales) Bill I will suspend proceedings for 10 minutes. The bell will be rung five minutes before we reconvene. I would encourage Members to return to the Chamber promptly. Thank you very much.</p>	<p>Cyn inni symud i Gyfnod 3 Bil Tai (Cymru) rwyf am ohirio'r trafodion am 10 munud. Bydd y gloch yn cael ei chanu bum munud cyn inni ailymgynnull. Byddwn yn annog yr Aelodau i ddychwelyd i'r Siambr yn brydlon. Diolch yn fawr iawn i chi.</p>

Ataliwyd y Cyfarfod Llawn am 16:19.

Plenary was suspended at 16:19.

Ailymgynullodd y Cynulliad am 16:30, gyda'r Llywydd yn y Gadair.

The Assembly reconvened at 16:30, with the Presiding Officer in the Chair.

16:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I bring the National Assembly to order.

Galwaf y Cynulliad Cenedlaethol i drefn.

Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Tai (Cymru)

Stage 3 Standing Order 26.44 Debate on the Housing (Wales) Bill

Grŵp 1: Drafftio a Thechnegol (Gwelliannau 48, 49, 50, 51, 54, 56, 58, 59, 60, 61, 62, 63, 64, 65, 66, 67, 68, 69, 70, 71, 72, 73, 74, 75, 76, 77, 78, 79, 80, 81, 82, 83, 84, 85, 86, 87, 89, 90, 91, 92, 93, 94, 95, 96, 97, 98, 99, 100, 101, 290, 291, 293, 106, 107, 111, 114, 115, 121, 122, 125, 126, 130, 132, 134, 135, 136, 137, 139, 143, 146, 149, 150, 152, 153, 155, 159, 161, 162, 163, 164, 165, 166, 167, 168, 169, 412, 170, 171, 173, 176, 178, 181, 182, 184, 185, 187, 188, 190, 192, 193, 194, 197, 198, 199, 200, 201, 202, 203, 204, 205, 206, 207, 208, 209, 210, 211, 212, 213, 214, 215, 216, 217, 218, 219, 220, 221, 222, 223, 224, 225, 226, 227, 236, 237, 240, 243, 248, 249, 251, 258, 263, 265, 266, 267, 271, 273, 281, 298, 299, 289, 41, 42, 44 a 46)

Group 1: Drafting and Technical (Amendments 48, 49, 50, 51, 54, 56, 58, 59, 60, 61, 62, 63, 64, 65, 66, 67, 68, 69, 70, 71, 72, 73, 74, 75, 76, 77, 78, 79, 80, 81, 82, 83, 84, 85, 86, 87, 89, 90, 91, 92, 93, 94, 95, 96, 97, 98, 99, 100, 101, 290, 291, 293, 106, 107, 111, 114, 115, 121, 122, 125, 126, 130, 132, 134, 135, 136, 137, 139, 143, 146, 149, 150, 152, 153, 155, 159, 161, 162, 163, 164, 165, 166, 167, 168, 169, 412, 170, 171, 173, 176, 178, 181, 182, 184, 185, 187, 188, 190, 192, 193, 194, 197, 198, 199, 200, 201, 202, 203, 204, 205, 206, 207, 208, 209, 210, 211, 212, 213, 214, 215, 216, 217, 218, 219, 220, 221, 222, 223, 224, 225, 226, 227, 236, 237, 240, 243, 248, 249, 251, 258, 263, 265, 266, 267, 271, 273, 281, 298, 299, 289, 41, 42, 44 and 46)

16:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The lead amendment in the group is amendment 48. I call on the Minister to move amendment 48 and to speak to it and the other amendments in the group.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 48. Galwaf ar y Gweinidog i gynneg gwelliant 48 ac i siarad amdano a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

16:30 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Gweinidog Tai ac Adfywio / The Minister for Housing and Regeneration

I move amendment 48 in my name.

Cynigiau welliant 48 yn fy enw i.

Given that this is the first group in Stage 3, I will take a brief moment to say a few general words about the Bill and where we have reached so far. I place on record my sincere thanks to Members of the Assembly, the members of the Constitutional and Legislative Affairs Committee and the Finance Committee, and particularly members of the Communities, Equality and Local Government Committee for their work during Stage 2, which has shaped this Bill. I would also like to thank Members for the amendments that have been tabled for today. We have tried to work with consensus to move towards drafting a Bill that can have as much consensus across the Chamber as possible.

Gan mai hwn yw'r grŵp cyntaf yng Nghyfnod 3, cymeraf funud i ddweud ychydig eiriau cyffredinol am y Bil, a lle'r ydym wedi cyrraedd hyd yma. Hoffwn gofnodi fy niolech diffuant i Aelodau'r Cynulliad, aelodau'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r Pwyllgor Cyllid, ac yn enwedig aelodau'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol am eu gwaith yn ystod Cyfnod 2, sydd wedi llywio'r Bil hwn. Hoffwn hefyd ddiolch i'r Aelodau am gwelliannau sydd wedi'u cyflwyno ar gyfer heddiw. Rydym wedi ceisio gweithio â chonsensws i symud tuag at ddrafftio Bil y bydd cymaint o gonsensws â phosibl yn ei gylch ar draws y Siambr.

Without further ado, Presiding Officer, I move the lead amendment in this group, and as most of these amendments are largely technical in nature, I commend the remainder of the amendments in the group.

Heb oedi pellach, Lywydd, cynigiau y prif welliant yn y grŵp hwn, a gan fod y rhan fwyaf o'r gwelliannau hyn yn dechnegol eu natur, cymeradwyaf weddill y gwelliannau yn y grŵp.

16:31	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>I have no other speakers, so I take it that you do not intend to reply to the debate. The question is that amendment 48 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Therefore, amendment 48 is agreed in accordance with Standing Order 12.36.</p> <p><i>Derbyniwyd gwelliant 48 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i></p>	<p>Nid oes gennyf siaradwyr eraill, felly cymeraf nad ydych yn bwriadu ymateb i'r ddaol. Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 48. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Felly, mae gwelliant 48 wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</p> <p><i>Amendment 48 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
16:31	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>I call on the Minister to move amendment 49.</p>	<p>Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 49.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
The Bill creates a large number of criminal offences but, at the same time, provides the powers to deal with these by requiring payment of a fixed penalty. It is recognised good regulatory practice to deal with matters outside the criminal courts wherever possible, and the idea of fixed penalties already acknowledges this principle. The logical step, therefore, would be to replace criminal prosecution altogether for less serious offences by a system of civil penalties. This would be cheaper and simpler to operate. Currently, the amounts received in respect of fines have to be paid to the UK Treasury, but civil penalties will be paid into the Welsh consolidated fund, which will allow for the money to be made available to assist with funding enforcement of the licensing and registration scheme. Criminal prosecution will be reserved for more serious offences. Recipients of penalty notices who wish to dispute them would have a right of appeal to the residential property tribunal, which would have more expertise in this field, anyway, than a magistrates' court. The Assembly therefore should move away from criminalisation for less serious offences and to a scheme that criminalises those who should be criminalised and ensures that more of the money raised in Wales stays.

Mae'r Bil yn creu nifer fawr o droseddau, ond, ar yr un pryd, yn darparu pwerau i ddelio â'r rhain drwy ei gwneud yn ofynnol talu cosb benodedig. Mae'n arfer da cydnabyddedig o ran rheoleiddio ymdrin â materion y tu allan i'r llysoedd troseddol lle bynnag y bo'n bosibl, ac mae'r syniad o gosbau penodedig eisoes yn cydnabod yr egwyddor hon. Y cam rhesymegol, felly, fyddai disodli erlyniadau troseddol yn gyfan gwbl am droseddau llai difrifol â system o gosbau sifil. Byddai hon yn rhatach ac yn symlach i'w gweithredu. Ar hyn o bryd, mae'r symiau a dderbynnir mewn perthynas â dirwyon yn gorfod cael eu talu i Drysorlys y DU, ond bydd cosbau sifil yn cael eu talu i gronfa gyfunol Cymru, a fydd yn caniatáu i'r arian fod ar gael i gynorthwyo i ariannu gorfodi'r cynllun trwyddedu a chofrestru. Bydd erlyniadau troseddol yn cael eu cadw ar gyfer troseddau mwy difrifol. Byddai'r sawl sy'n derbyn rhybuddion cosb ac sy'n dymuno dadlau yn eu herbyn yn cael hawl i apelio i'r tribiwnlys eiddo preswyl, a fyddai â mwy o arbenigedd yn y maes hwn, beth bynnag, na llys ynadon. Felly dylai'r Cynulliad symud i ffwrdd oddi wrth droseddoli am droseddau llai difrifol ac at gynllun sy'n troseddoli'r rhai a ddylai gael eu troseddoli a sicrhau bod mwy o'r arian a godir yng Nghymru yn aros.

16:54 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

May I speak opposing these amendments? I make it clear from the start that I do not support this group. Penalties for non-compliance were, quite rightly, covered in great detail by the committee at Stage 1. I am grateful for the views expressed then. I proposed a number of changes at Stage 2 to take account of and reflect the committee's views on these penalties; these were agreed at Stage 2. I remain of the opinion that the measures contained in the Bill are appropriate, and I ask Members to reject these amendments.

A gaf fi siarad i wrthwynebu'r gwelliannau hyn? Rwyf yn ei gwneud yn glir o'r dechrau nad wyf yn cefnogi'r grŵp hwn. Cafodd cosbau am beidio â chydymffurfio, yn gwbl briodol, eu trafod yn fanwl iawn gan y pwyllgor yng Nghyfnod 1. Rwyf yn ddiolchgar am y farn a fynegwyd bryd hynny. Cynigiais nifer o newidiadau yng Nghyfnod 2 i ystyried ac i adlewyrchu barn y pwyllgor ar y cosbau hyn; cytunwyd ar y rhain yng Nghyfnod 2. Rwyf yn dal o'r farn bod y mesurau a gynhwysir yn y Bil yn briodol, a gofynnaf i'r Aelodau wrthod y gwelliannau hyn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:55 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call Mark Isherwood to reply.

Galwaf ar Mark Isherwood i ymateb.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:55 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcome the fact that you did respond positively to some of the committee's wishes at Stage 2, but nonetheless there are aspects here that require further attention if we are to achieve the goals that we all share. One thing that we need to emphasise is that, throughout this Bill, we do all share the same goals. I think that, as the Minister said at Stage 2, we may differ, however, over the means of achieving them. This simply seeks to strengthen the means to achieve those better outcomes with a system of civil penalties that, as I said, leaves more money raised in Wales and does not criminalise people who have made errors but have not necessarily broken the law. Thank you.

Croesawaf y ffaith eich bod wedi ymateb yn gadarnhaol i rai o ddymuniadau'r pwyllgor yng Nghyfnod 2, ond serch hynny mae agweddau yma y mae angen sylw pellach arnynt os ydym am gyrraedd y nodau yr ydym i gyd yn eu rhannu. Un peth y mae angen inni ei bwysleisio, drwy gydol y Bil hwn, yw ein bod i gyd yn rhannu'r un nodau. Credaf, fel y dywedodd y Gweinidog yn ystod Cyfnod 2, efallai fod gennym farn wahanol, fodd bynnag, o ran sut i'w cyflawni. Diben hyn yw ceisio cryfhau'r ffordd o gyflawni'r canlyniadau gwell hynny â system o gosbau sifil sydd, fel y dywedais, yn gadael mwy o arian a godir yng Nghymru ac nad yw'n troseddoli pobl sydd wedi gwneud camgymeriadau ond nid o reidrwydd wedi torri'r gyfraith. Diolch.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:55 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The question is that amendment 368 be agreed to. Does any Member object? There is objection, therefore we will move to an electronic vote.

Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 368. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly symudwn at bleidlais electronig.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 368.](#)

[Result of the vote on amendment 368.](#)

Gwrthodwyd gwelliant 368: O blaid 10, Yn erbyn 35, Ymatal 0.

Amendment 368 not agreed: For 10, Against 35, Abstain 0.

- 16:56 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I call Mark Isherwood to move amendment 369. Galwaf ar Mark Isherwood i gynnig gwelliant 369.
- 16:56 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I move amendment 369 in my name. Cynigaf welliant 369 yn fy enw i.
- 16:56 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
If amendment 369 is agreed, amendment 59 will fall. The question is that amendment 369 be agreed to. Are there any objections? There is objection, therefore we will move to an electronic vote. Os derbynnir gwelliant 369, bydd gwelliant 59 yn methu. Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 369. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Mae gwrthwynebiad, felly symudwn at bleidlais electronig.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 369.](#) [Result of the vote on amendment 369.](#)
- Gwrthodwyd gwelliant 369: O blaid 10, Yn erbyn 36, Ymatal 0.* *Amendment 369 not agreed: For 10, Against 36, Abstain 0.*
- 16:56 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I call on the Minister to move amendment 59. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 59.
- 16:56 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I move amendment 59 in my name. Cynigaf welliant 59 yn fy enw i.
- 16:56 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The question is that amendment 59 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 59 is agreed. Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 59. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiadau, felly mae gwelliant 59 wedi ei dderbyn.

Derbyniwyd gwelliant 59 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36. *Amendment 59 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*
- 16:56 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I call on the Minister to move amendment 60. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 60.
- 16:56 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I move amendment 60 in my name. Cynigaf welliant 60 yn fy enw i.
- 16:56 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The question is that amendment 60 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 60 is agreed. Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 60. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiadau, felly mae gwelliant 60 wedi ei dderbyn.

Derbyniwyd gwelliant 60 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36. *Amendment 60 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*
- 16:57 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I call Mark Isherwood to move amendment 309. Galwaf ar Mark Isherwood i gynnig gwelliant 309.
- 16:57 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I move amendment 309 in my name. Cynigaf welliant 309 yn fy enw i.

- 16:57 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- If amendment 309 is agreed, amendments 61, 310, 62 and 311 will fall. The question is that amendment 309 be agreed to. Does any Member object? There is objection, therefore we will move to an electronic vote. Os derbynir gwelliant 309, bydd gwelliannau 61, 310, 62 a 311 yn methu. Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 309. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly symudwn at bleidlais electronig.
- [Canlyniad y bleidlais ar welliant 309.](#) [Result of the vote on amendment 309.](#)
- Gwrthodwyd gwelliant 309: O blaid 10, Yn erbyn 36, Ymatal 0.* *Amendment 309 not agreed: For 10, Against 36, Abstain 0.*
- 16:57 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- I call on the Minister to move amendment 61. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 61.
- 16:57 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- I move amendment 61 in my name. Cynigiau welliant 61 yn fy enw i.
- 16:57 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- The question is that amendment 61 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 61 is agreed. Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 61. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiadau, felly mae gwelliant 61 wedi ei dderbyn.
- Derbyniwyd gwelliant 61 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.* *Amendment 61 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*
- Grŵp 5: Tai Rhent Preifat: Eithriadau i'r Gofyniad i fod yn Gofrestredig a Thrwyddedig (Gwelliannau 310, 311, 379, 88 a 380)** **Group 5: Private Rented Housing: Exceptions to the Requirement to be Registered or Licensed (Amendments 310, 311, 379, 88 and 380)**
- 16:57 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- The lead amendment in the group is amendment 310. I call on Mark Isherwood to move amendment 310 and to speak to it and the other amendments in the group. Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 310. Galwaf ar Mark Isherwood i gynnig gwelliant 310 ac i siarad amdano a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.
- 16:57 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- I move amendment 310 in my name. Cynigiau welliant 310 yn fy enw i.
- In terms of amendment 310, there is exemption from having to register the property for 28 days, beginning with the date that the property is transferred to the landlord, if the landlord then takes steps within that 28-day period to recover possession. However, greater clarity is needed as to what is meant by this, for example in serving a section 21 notice. Assembly lawyers advised that, in order to tighten the wording and make it more precise, the insertion of the word 'formal', as in 'takes formal steps to recover possession', would strengthen the provision in section 5(c), without becoming overly complicated. O ran gwelliant 310, mae esemptiad rhag gorfod cofrestru eiddo am 28 diwrnod, gan ddechrau ar y dyddiad y caiff yr eiddo ei drosglwyddo i'r landlord, os yw'r landlord wedyn yn cymryd camau o fewn y cyfnod 28 diwrnod i adennill meddiant. Fodd bynnag, mae angen mwy o eglurder o ran yr hyn a olygir wrth hyn, er enghraifft, o ran cyflwyno hysbysiad adran 21. Dywedodd cyfreithwyr y Cynulliad, er mwyn tynhau'r geiriad a'i wneud yn fwy manwl, y byddai mewnosod y gair 'ffurfiol', fel yn 'cymryd camau ffurfiol i adennill meddiant', yn cryfhau'r ddarpariaeth yn adran 5(c), heb fod yn rhy gymhleth.

Amendment 311, as drafted in this Bill, provides that a licence expires on death, lack of capacity, insolvency and dissolution of a corporate body. The effect of this provision is that the property is immediately unlicensed. This is a great concern, particularly in cases of death or mental incapacity. After all, the close family and friends of those involved have enough to worry about, and the last thing that they will think about is an unlicensed rental property. There is provision in section 5(b) that a licence is not required for a period of 28 days, beginning on the date that the property is transferred to the landlord. However, this takes no account of the fact that, in the circumstances envisaged in section 19(6), there is not necessarily a transfer of ownership. For instance, in the case of liquidation or administration, there is no transfer of ownership to the liquidator or administrator. It remains vested in the company. In the case of a person dying intestate, there is a transfer of ownership, but this sits with the public guardian. The property can devolve on executors, but, again, they may well not obtain probate for well over 28 days, so, in practice, they may not be in a position to deal with matters anyway. We believe that protected provisions need to be considered to deal with these situations. Twenty-eight days, in any event, is too short a period. Again, the 2004 Act adopted the temporary exemption notice for three months, which we feel is more appropriate in such circumstances.

In terms of amendment 379, there is a temporary exemption for 28 days if action is taken to regain possession. The purpose of this amendment is to make it clear that the service of a prescribed notice, such as a section 21 notice for possession or a section 8 notice because there are rent arrears, for example, counts as such a step. It is also related to another issue that needs to be addressed in relation to restriction on serving section 21 notices appearing in section 44. The exceptions to the prohibition in subsection 2 do not mirror the exceptions for the requirement to be registered and licensed in sections 5 and 8. In particular, a landlord who has an impending application cannot serve such a notice if he is self-managing. Amendment 380 allows a landlord of 28 days to find a new agent if the existing agent's licence is revoked. Otherwise, this landlord is immediately liable because there is then no licence in existence relating to the property. I commend these amendments accordingly.

Mae gwelliant 311, fel y'i drafftwyd yn y Bil hwn, yn darparu bod trwydded yn dod i ben ar farwolaeth, diffyg gallu, ansolfedd a diddymu corff corfforaethol. Effaith y ddarpariaeth hon yw bod yr eiddo heb drwydded ar unwaith. Mae hyn yn bryder mawr, yn enwedig mewn achosion o farwolaeth neu anallu meddyliol. Wedi'r cyfan, mae gan deulu a ffrindiau agos y rhai sydd dan sylw ddigon i boeni amdano, a'r peth olaf y byddant yn meddwl amdano yw eiddo ar rent heb ei drwyddedu. Mae darpariaeth yn adran 5(b) nad oes angen trwydded am gyfnod o 28 diwrnod, gan ddechrau ar y dyddiad y caiff yr eiddo ei drosglwyddo i'r landlord. Fodd bynnag, nid yw hyn yn ystyried y ffaith, yn yr amgylchiadau a ragwelir yn adran 19(6), na throsglwyddir perchnogaeth o reidrwydd. Er enghraifft, yn achos diddymu neu fod yn nwylo gweinyddwyr, ni throsglwyddir perchnogaeth i'r diddymwyr na'r gweinyddwr. Mae'n parhau i fod yn freiniedig yn y cwmni. Yn achos person sy'n marw heb ewyllys, trosglwyddir perchnogaeth, ond mae hyn yn nwylo'r gwarcheidwad cyhoeddus. Gall yr eiddo ddisgyn ar ysgutorion, ond, unwaith eto, efallai na fyddant yn cael profiant am ymhell dros 28 diwrnod, felly, yn ymarferol, efallai na fyddant mewn sefyllfa i ymdrin â materion beth bynnag. Rydym yn credu bod angen ystyried darpariaethau gwarchoddedig i ymdrin â'r sefyllfaoedd hyn. Mae dau ddeg wyth diwrnod, beth bynnag, yn gyfnod rhy fyr. Unwaith eto, mabwysiadodd Deddf 2004 yr hysbysiad esemptio dros dro am dri mis, ac rydym o'r farn bod hynny'n fwy priodol mewn amgylchiadau o'r fath.

O ran gwelliant 379, mae esemptiad dros dro am 28 diwrnod os cymerir camau i adennill meddiant. Pwrpas y gwelliant hwn yw ei gwneud yn glir bod cyflwyno hysbysiad rhagnodedig, megis hysbysiad adran 21 am feddiant neu hysbysiad adran 8 oherwydd bod ôl-ddyledion rhent, er enghraifft, yn cyfrif fel cam o'r fath. Mae hefyd yn gysylltiedig â mater arall y mae angen mynd i'r afael ag ef mewn perthynas â chyfyngu ar gyflwyno hysbysiadau adran 21 sy'n ymddangos yn adran 44. Nid yw'r esemptiadau i'r gwaharddiad yn isadran 2 yn adlewyrchu'r esemptiadau o ran y gofyniad i gael eu cofrestru a'u trwyddedu yn adrannau 5 a 8. Yn arbennig, ni all landlord sydd â chais sydd yn yr arfaeth gyflwyno hysbysiad o'r fath os yw'n hunan-reoli. Mae gwelliant 380 yn caniatáu 28 diwrnod i landlord ddod o hyd i asiant newydd os yw trwydded yr asiant presennol yn cael ei diddymu. Fel arall, mae'r landlord hwn yn atebol ar unwaith oherwydd nad oes trwydded yn bodoli mewn perthynas â'r eiddo. Cymeradwyaf y gwelliannau hyn yn unol â hynny.

17:01

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

There are no other speakers, so I call the Minister.

Nid oes siaradwyr eraill, felly galwaf ar y Gweinidog.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:01	Carl Sargeant Bywgraffiad Biography	<p>Mark Isherwood's amendments would change the circumstances for people to whom licensing or registering apply, including a method of temporary exemption for landlords in terms of registration requirements. I recognise that some Members, during Stage 2, were keen to ensure that people who might not be able to get licensed in time could be given temporary exemptions for situations such as becoming the executor of a will or dealing with insolvency. While I can see what Mark Isherwood is trying to seek with his amendments, I believe that our amendment 88 allows a change to the exemptions list for licensing, which means that Welsh Ministers will have an Order-making power to specify cases in future, should the list of licensing exemptions need to be changed. Detailing specifics on the face of the Bill would be to narrow the provisions just too much. Therefore, I would ask Members to support the Government's amendment 88 and reject Mark Isherwood's amendments today.</p>	<p>Byddai gwelliannau Mark Isherwood yn newid yr amgylchiadau i bobl y mae trwyddedu neu gofrestru yn berthnasol iddynt, gan gynnwys dull o esemptio dros dro ar gyfer landlordiaid o ran gofynion cofrestru. Rwyf yn cydnabod bod rhai Aelodau, yn ystod Cyfnod 2, yn awyddus i sicrhau y gallai pobl na fyddai'n gallu cael eu trwyddedu mewn pryd gael eu hesemptio dros dro ar gyfer sefyllfaoedd megis dod yn ysgutor ewyllys neu ymdrin ag ansolfedd. Er fy mod yn gallu gweld yr hyn y mae Mark Isherwood yn ei geisio gyda'i welliannau, credaf fod ein gwlliant 88 yn caniatáu newid y rhestr esemptiadau ar gyfer trwyddedu, sy'n golygu y bydd gan Weinidogion Cymru rym i wneud Gorchmynion i bennu achosion yn y dyfodol, pe byddai angen newid y rhestr o esemptiadau trwyddedu. Byddai rhoi manylion penodol ar wyneb y Bil yn gwneud y darpariaethau'n rhy gul. Felly, byddwn yn gofyn i'r Aelodau gefnogi gwlliant 88 y Llywodraeth a gwrthod gwelliannau Mark Isherwood heddiw.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:02	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	<p>I call Mark Isherwood.</p>	<p>Galwaf ar Mark Isherwood.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:02	Mark Isherwood Bywgraffiad Biography	<p>These are simple and practical amendments that will make it easier to encourage providers of housing to provide that housing. These are some of the easily addressed barriers that they have themselves identified and that we can, together, address and remove in order to, again, incentivise more supply for the purposes that we will be discussing later in this Bill. Therefore, I am pleased to stand by my moving of these amendments.</p>	<p>Mae'r rhain yn welliannau syml ac ymarferol a fydd yn ei gwneud yn haws i annog darparwyr tai i ddarparu'r tai hynny. Dyma rai o'r rhwystrau y mae'n hawdd mynd i'r afael â hwy y maent hwy eu hunain wedi eu nodi ac y gallwn, gyda'n gilydd, roi sylw iddynt a chael gwared arnynt er mwyn, unwaith eto, cymell mwy o gyflenwad at ddibenion y byddwn yn eu trafod yn nes ymlaen yn y Bil hwn. Felly, rwyf yn falch o barhau i gynnig y gwelliannau hyn.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:03	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	<p>The question is that amendment 310 be agreed to. Does anyone object? There is objection, therefore we will have an electronic vote.</p> <p>Canlyniad y bleidlais ar welliant 310.</p> <p><i>Gwrthodwyd gwlliant 310: O blaid 10, Yn erbyn 36, Ymatal 0.</i></p>	<p>Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwlliant 310. A oes unrhyw un yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly cawn bleidlais electronig.</p> <p>Result of the vote on amendment 310.</p> <p><i>Amendment 310 not agreed: For 10, Against 36, Abstain 0.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:03	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	<p>I call the Minister to move amendment 62.</p>	<p>Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwlliant 62.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:03	Carl Sargeant Bywgraffiad Biography	<p>I move amendment 62 in my name.</p>	<p>Cynigiaf welliant 62 yn fy enw i.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:03	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	<p>The question is that amendment 62 be agreed to. Are there any objections? There are no objections, therefore amendment 62 is agreed.</p> <p><i>Derbyniwyd gwlliant 62 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i></p>	<p>Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwlliant 62. A oes gwrthwynebiadau? Nid oes gwrthwynebiadau, felly mae gwlliant 62 wedi ei dderbyn.</p> <p><i>Amendment 62 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

17:03	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	I call Mark Isherwood to move amendment 311.	Galwaf ar Mark Isherwood i gynnig gwelliant 311.	Senedd.tv Fideo Video
17:03	Mark Isherwood Bywgraffiad Biography	I move amendment 311 in my name.	Cynigiau welliant 311 yn fy enw i.	Senedd.tv Fideo Video
17:03	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	The question is that amendment 311 be agreed to. Does anyone object? There is objection. Open the vote.	Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 311. A oes unrhyw un yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad. Agorwch y bleidlais.	Senedd.tv Fideo Video
		Canlyniad y bleidlais ar welliant 311.	Result of the vote on amendment 311.	
		<i>Gwrthodwyd gwelliant 311: O blaid 15, Yn erbyn 31, Ymatal 0.</i>	<i>Amendment 311 not agreed: For 15, Against 31, Abstain 0.</i>	
17:03	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	I call Mark Isherwood to move amendment 312.	Galwaf ar Mark Isherwood i gynnig gwelliant 312.	Senedd.tv Fideo Video
17:03	Mark Isherwood Bywgraffiad Biography	I move amendment 312 in my name.	Cynigiau welliant 312 yn fy enw i.	Senedd.tv Fideo Video
17:03	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	If amendment 312 is agreed to, amendments 63, 64, 65, 66, 370, 67, 371, 372, 373, 68, 69, 374, 70, 71 and 375 will fall. The question is that amendment 312 be agreed to. Does anyone object? There is objection. Open the vote.	Os derbynir gwelliant 312, bydd gwelliannau 63, 64, 65, 66, 370, 67, 371, 372, 373, 68, 69, 374, 70, 71, a 375 yn methu. Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 312. A oes unrhyw un yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad. Agorwch y bleidlais.	Senedd.tv Fideo Video
		Canlyniad y bleidlais ar welliant 312.	Result of the vote on amendment 312.	
		<i>Gwrthodwyd gwelliant 312: O blaid 10, Yn erbyn 36, Ymatal 0.</i>	<i>Amendment 312 not agreed: For 10, Against 36, Abstain 0.</i>	
17:04	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	We now move to amendments 63 to 66, which I propose that we vote for en bloc as they appear consecutively in the marshalled list. Does anyone object to the en bloc vote? There is no objection. I call the Minister to move amendments 63 to 66.	Symudwn yn awr at welliannau 63-66, ac rwyf yn cynnig ein bod yn pleidleisio drostynt gyda'i gilydd gan eu bod yn ymddangos yn olynol ar y rhestr o welliannau wedi'u didoli. A oes unrhyw un yn gwrthwynebu pleidlais en bloc? Nid oes gwrthwynebiad. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliannau 63-66.	Senedd.tv Fideo Video
17:04	Carl Sargeant Bywgraffiad Biography	I move amendments 63, 64, 65 and 66 in my name.	Cynigiau welliannau 63, 64, 65 a 66 yn fy enw i.	Senedd.tv Fideo Video
17:04	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	The question is that amendments 63 to 66 be agreed to. Does anyone object? There are no objections, therefore they are agreed.	Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliannau 63-66. A oes unrhyw un yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly maent wedi eu derbyn.	Senedd.tv Fideo Video
		<i>Derbyniwyd gwelliannau 63, 64, 65 a 66 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i>	<i>Amendments 63, 64, 65 and 66 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i>	

Grŵp 6: Tai Rhent Preifat: Gofyniad i fod yn Drwyddedig er mwyn Ymgymryd â Gweithgareddau Gosod a Gwaith Rheoli Eiddo (Gwelliannau 370, 371, 374, 375, 376, 377, 378, 383, 384, 385, 388 a 389)

Group 6: Private Rented Housing: Requirement to be Licensed to Carry Out Lettings and Property Management Work and Activities (Amendments 370, 371, 374, 375, 376, 377, 378, 383, 384, 385, 388 and 389)

17:05

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The lead amendment in the group is amendment 370. I call on Mark Isherwood to move and speak to the lead amendment and other amendments in the group.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 370. Galwaf ar Mark Isherwood i gynnig y gwelliant ac i siarad am y prif welliant a gwelliannau eraill yn y grŵp.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:05

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendment 370 in my name.

Cynigiai welliant 370 yn fy enw i.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

To make sense of section 6, page 5, line 6, and section 7, page 6, line 3, the reference should be to the relevant thing that is prohibited, and not to 'something'. The 'thing' referred to in subsection (1)(b) needs to cross-reference to subsection (2). If it does not, it is grammatically incorrect. So, technically, it is a technical amendment.

Er mwyn gwneud synnwyr o adran 6, tudalen 5, llinell 7, ac adran 7, tudalen 6, llinell 3, dylid cyfeirio at y peth perthnasol sydd wedi ei wahardd, ac nid at 'rhywbeth'. Mae angen i'r 'peth' y cyfeirir ato yn isadran (1) (b) groesgyfeirio at isadran (2). Os nad yw'n gwneud hynny, mae'n ramadegol anghywir. Felly, yn dechnegol, mae'n welliant technegol.

In terms of amendments 384 and 385, in the Bill, property management work is defined in section 12(1). It is a series of things, such as collecting rent, and the landlord or agent has to be licensed to carry out property management work. The position is different with lettings. Lettings activities are defined under section 6(2), including such things as conducting viewings. However, unlike property management work, there is a much more general prohibition on carrying out lettings work, unless the landlord or agent is licensed. Section 10(1) defines 'lettings work' very widely as things done by any person in response to instructions received from a landlord seeking to find a tenant. It is so widely drafted that it could even include a decorator who has been told by the landlord to paint the front room of a house, because he wants to make the house easier to let and more attractive to potential tenant. This is a thing done by the decorator in response to instructions from the landlord, who is seeking to find someone to rent the property.

O ran gwelliannau 384 a 385, yn y Bil, caiff gwaith rheoli eiddo ei ddiffinio yn adran 12(1). Mae'n gyfres o bethau, megis casglu rhent, a rhaid i'r landlord neu'r asiant fod wedi ei drwyddedu i wneud gwaith rheoli eiddo. Mae'r sefyllfa'n wahanol o ran gosod eiddo. Caiff gweithgareddau gosod eiddo eu diffinio o dan adran 6(2), gan gynnwys pethau megis cynnal ymweliadau. Fodd bynnag, yn wahanol i waith rheoli eiddo, mae gwahardd llawer mwy cyffredinol ar gynnal gwaith gosod eiddo, oni bai fod y landlord neu'r asiant wedi ei drwyddedu. Mae adran 10(1) yn diffinio 'gwaith gosod eiddo' yn eang iawn fel pethau a wneir gan unrhyw berson mewn ymateb i gyfarwyddiadau a dderbyniwyd gan landlord sy'n ceisio dod o hyd i denant. Mae wedi ei ddrafftio mor eang nes y gallai hyd yn oed gynnwys addurnwr y dywedodd y landlord wrtho am beintio ystafell flaen tŷ, oherwydd ei fod am wneud y tŷ yn haws i'w osod ac yn fwy deniadol i ddarpar denant. Mae hyn yn rhywbeth a wnaed gan yr addurnwr mewn ymateb i gyfarwyddiadau gan y landlord, sy'n ceisio dod o hyd i rywun i rentu'r eiddo.

The purpose of these amendments, therefore, is to bring the prohibition in line with that which applies already to property management work, where it is involved already with specific activities relating to property management, which is prohibited without a licence. The proposed amendment only prohibits certain things related to lettings, rather than the current very wide prohibition undoing anything that could in any way be related to finding a tenant. The problem at the moment is that there is a very wide definition of lettings work that is only subject to certain exclusions. It would be far better to define this by way of inclusion, as is already the case for property management work under the Bill.

Diben y gwelliannau hyn, felly, yw sicrhau bod y gwaharddiad yn cyd-fynd â'r hyn sydd eisoes yn gymwys i waith rheoli eiddo, lle mae eisoes yn ymwneud â gweithgareddau penodol yn ymwneud â rheoli eiddo, sydd wedi ei wahardd heb drwydded. Nid yw'r gwelliant arfaethedig ond yn gwahardd rhai pethau'n ymwneud â gosod eiddo, yn hytrach na'r gwaharddiad eang iawn ar hyn o bryd sy'n dadwneud unrhyw beth a allai mewn unrhyw ffordd fod yn gysylltiedig â dod o hyd i denant. Y broblem ar hyn o bryd yw bod diffiniad eang iawn o waith gosod eiddo sydd ddim ond yn amodol ar rai eithriadau. Byddai'n llawer gwell diffinio hyn drwy gynhwysiant, fel sydd eisoes yn wir ar gyfer gwaith rheoli eiddo o dan y Bil.

With regard to amendment 389, section 12 currently defines property management work to include collecting rent. It is not clear whether this relates simply to taking money or more widely covers chasing arrears and debt collecting. The purpose of the amendment is to make it clear that solicitors and others, such as debt collectors, are not caught by the prohibition on property management work without a licence where they are simply pursuing unpaid rent on behalf a landlord.

In terms of amendment 371, currently, as the Bill stands, without a licence, the landlord cannot arrange for the preparation of any inventory or schedule of condition when the property is to let. A schedule of condition in this context is not defined and could include a survey report or a specification for a builder, which, while needed, is not directly related to the letting. Clearly, the intention is that what is prohibited is preparing a schedule of condition for the purposes of letting the property. An unlicensed landlord who wants to commission a survey report or a schedule of condition for some purpose or other, such as to get repairs to the property done, cannot do so without involving a licensed agent, leading to more trouble and expense, even though it is not directly relevant to the letting itself.

In amendments 374, 377, 383 and 388, there is a theme relating to a number of the reasonable defence excuses. The defence is to show that you have a reasonable excuse for not being licensed. The reasonable excuse defence should also relate to doing whatever you are prohibited from doing without a licence. For example, a responsible but unlicensed landlord employs a licensed managing agent. The tenant gets in touch with the landlord to say that he is getting poor service from the agent, who never arranges for repairs to be done. The tenant asks the landlord to come round to have a look at the property, but not to tell the agent because he does not want the agent to know that he is going behind the agent's back. The landlord goes round to have a look. The landlord commits a criminal offence, but there could well be a reasonable excuse. The reasonable excuse, however, relates to paying a visit to check up on the agent in such a situation, not the fact of not having a licence in the first place. These various reasonable excuse defences should therefore provide an alternative reasonable excuse for doing whatever is prohibited, so that landlords who act in a bona fide way have a chance of putting such a defence to the court.

O ran gwelliant 389, mae adran 12 ar hyn o bryd yn diffinio gwaith rheoli eiddo i gynnwys casglu rhent. Nid yw'n glir a yw hyn yn ymwneud â dim ond cymryd arian neu'n fwy eang yn cwmpasu mynd ar drywydd ôl-ddyledion a chasglu dyledion. Diben y gwelliant yw ei gwneud yn glir nad yw cyfreithwyr ac eraill, megis casglwyr dyledion, yn cael eu dal gan y gwaharddiad ar y gwaith rheoli eiddo heb drwydded lle maent yn mynd ar drywydd rhent heb ei dalu ar ran landlord.

O ran gwelliant 371, ar hyn o bryd, fel y mae'r Bil yn sefyll, heb drwydded, ni all y landlord drefnu i baratoi unrhyw restr eiddo neu atodlen o gyflwr pan fydd yr eiddo yn cael ei osod. Nid yw atodlen o gyflwr yn y cyd-destun hwn yn cael ei diffinio a gallai gynnwys adroddiad arolwg neu fanyleb ar gyfer adeiladwr, nad yw, er bod ei hangen, yn uniongyrchol gysylltiedig â'r gosod. Yn amlwg, y bwriad yw mai'r hyn sydd wedi ei wahardd yw paratoi rhestr o gyflwr at ddibenion gosod yr eiddo. Ni all landlord heb drwydded sydd am gomisiynu adroddiad arolwg neu atodlen o gyflwr at ryw ddiben neu'i gilydd, megis trefnu gwaith trwsio i'r eiddo, wneud hynny heb gynnwys asiant trwyddedig, gan arwain at fwy o drafferth a chost, er nad yw'n uniongyrchol berthnasol i'r gosod ei hun.

Yng ngwelliannau 374, 377, 383 a 388, mae thema'n ymwneud â nifer o esgusodion amddiffyniad rhesymol. Diben yr amddiffyniad yw dangos bod gennych esgus rhesymol dros beidio â bod wedi eich trwyddedu. Dylai'r amddiffyniad esgus rhesymol hefyd fod yn berthnasol i wneud beth bynnag yr ydych wedi eich gwahardd rhag ei wneud heb drwydded. Er enghraifft, mae landlord cyfrifol ond didrwydded yn cyflogi asiant rheoli trwyddedig. Mae'r tenant yn cysylltu â'r landlord i ddweud ei fod yn cael gwasanaeth gwael gan yr asiant, sydd byth yn trefnu i waith atgyweirio gael ei wneud. Mae'r tenant yn gofyn i'r landlord ddod draw i gael golwg ar yr eiddo, ond mae'n gofyn iddo beidio â dweud wrth yr asiant gan nad yw am i'r asiant wybod ei fod yn mynd y tu ôl i gefn yr asiant. Mae'r landlord yn mynd draw i gael golwg. Mae'r landlord yn cyflawni trosedd, ond gallai fod yn esgus rhesymol. Mae'r esgus rhesymol, fodd bynnag, yn ymwneud ag ymweliad i holi ynghylch yr asiant mewn sefyllfa o'r fath, nid y ffaith nad yw wedi ei drwyddedu yn y lle cyntaf. Felly, dylai'r amddiffyniadau esgus rhesymol amrywiol hyn ddarparu esgus rhesymol arall dros wneud beth bynnag sy'n cael ei wahardd, fel bod landlordiaid sy'n gweithredu mewn ffordd bona fide yn cael cyfle i roi amddiffyniad o'r fath i'r llys.

Turning to amendment 375, an unlicensed landlord who appoints a licensed agent cannot do various things and runs the risk of being prosecuted if he or she does so. These include conducting a viewing or interviewing a prospective tenant as to their suitability. Unless the Bill is amended to provide protection for such landlords, it means that, in practice, a landlord could not even be present at a viewing to avoid the risk of being accused of conducting the viewing. Clearly, the landlord might well know a lot more about the property than the agent, and if an owner or occupier is letting out their own home before moving away from a job, they are going to want to be there at the viewing and that would be beneficial for the tenant. Likewise, a landlord should be entitled, if he wishes, to meet with prospective tenants to assess their suitability. The proposed amendment allows for both things to happen, so long as the agent or a representative of the agent is also present.

Finally, I turn to amendment 378. A similar issue has arisen in connection with lettings. The underlying policy of this Bill is to divorce unlicensed landlords from being involved in the letting or management process altogether, thus promoting a culture of absentee landlordism. Some landlords may want to operate through licensed agents but also retain involvement. It is beneficial for tenants to have their landlords involved. Also, it has the advantage of avoiding giving too much power to agents. Some landlords are small builders or tradespeople, and they may prefer to have their properties managed through licensed agents, but wish to carry out repair work themselves. That could be beneficial to all concerned because it would keep costs down. It is also wrong to prevent a landlord being present to check an inventory, for example. After all, it is the landlord, not the agent, who is ultimately affected by the outcome, namely how much of the deposit is to be refunded. Why should a landlord be banned altogether from being present at their property if they want or need to be there?

The amendment would therefore allow landlords to be present, so long as the agent or representative of the agent was also present. In the case of repairs, it would clearly not be practical for the agent to be there all the time. So, the proposal is that the landlord can be present at the property to carry out repairs, so long as arrangements are made via the agent.

A throi at welliant 375, ni all landlord heb drwydded sy'n penodi asiant trwyddedig wneud amryw o bethau ac mae mewn perygl o gael ei erlyn os yw ef neu hi yn gwneud hynny. Mae'r rhain yn cynnwys cynnal ymweliad neu gyfweld darpar denant o ran ei addasrwydd. Oni chaiff y Bil ei ddiwygio i ddarparu amddiffyniad i landlordiaid o'r fath, mae'n golygu, yn ymarferol, na allai landlord hyd yn oed fod yn bresennol mewn ymweliad er mwyn osgoi'r risg o gael ei gyhuddo o gynnal yr ymweliad. Wrth gwrs, efallai y bydd y landlord yn gwybod llawer mwy am yr eiddo na'r asiant, ac os yw perchennog neu feddiannydd yn gosod ei gartref ei hun cyn symud i ffwrdd o swydd, bydd eisiau bod yno yn ystod yr ymweliad a byddai hynny'n fuddiol i'r tenant. Yn yr un modd, dylai fod gan landlord hawl, os yw'n dymuno, i gwrdd â darpar denantiaid i asesu eu haddasrwydd. Mae'r gwelliant arfaethedig yn caniatáu i'r ddau beth hyn ddigwydd, cyhyd ag y bo'r asiant neu gynrychiolydd yr asiant hefyd yn bresennol.

Yn olaf, trof at welliant 378. Mae mater tebyg wedi codi mewn cysylltiad â gosod eiddo. Polisi sylfaenol y Bil hwn yn datgysylltu landlordiaid didrwydded rhag cymryd rhan yn y broses osod neu reoli yn gyfan gwbl, a thrwy hynny hyrwyddo diwylliant o landlordiaid absennol. Efallai y bydd rhai landlordiaid yn awyddus i weithredu drwy asiantau trwyddedig ond hefyd fod yn rhan o'r broses. Mae'n fanteisiol i denantiaid fod eu landlordiaid yn rhan o hyn. Hefyd, mae iddo'r fantais o osgoi rhoi gormod o bŵer i asiantau. Mae rhai landlordiaid yn adeiladwyr bach neu'n grefftwyr, a gallai fod yn well ganddynt fod eu heiddo wedi'i reoli trwy asiantau trwyddedig, ond eu bod yn dymuno gwneud gwaith trwsio eu hunain. Gallai hynny fod o fudd i bawb dan sylw oherwydd y byddai'n cadw costau i lawr. Nid yw chwaith yn iawn atal landlord rhag bod yn bresennol i wirio rhestr eiddo, er enghraifft. Wedi'r cyfan, y landlord, nid yr asiant, y mae'r canlyniad yn effeithio arno yn y pen draw, sef faint o'r blaendal sy'n cael ei ad-dalu. Pam y dylai landlord gael ei wahardd yn gyfan gwbl rhag bod yn bresennol yn ei eiddo os oes arno eisiau neu angen bod yno?

Byddai'r gwelliant felly yn caniatáu i landlord fod yn bresennol, cyhyd ag y bo'r asiant neu gynrychiolydd yr asiant yn bresennol hefyd. Yn achos gwaith atgyweirio, yn amlwg ni fyddai'n ymarferol i'r asiant fod yno drwy'r amser. Felly, y cynnig yw y gall y landlord fod yn bresennol yn yr eiddo i wneud gwaith atgyweirio, cyhyd ag y bo trefniadau'n cael eu gwneud drwy'r asiant.

17:11

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Presiding Officer, as you can see, there has been a relentless attack on the policy of Part 1 of this housing Bill. The opposition Member from the Conservative Party and the sector have been tackling this whole process, first of all by not wishing to support it at all, and now by tinkering with amendments to make it not workable.

Lywydd, fel y gallwch weld, bu ymosodiad di-baid ar bolisi Rhan 1 y Bil tai hwn. Mae Aelod yr wrthblaid o'r Blaid Geidwadol a'r sector wedi bod yn mynd i'r afael â holl broses hon, yn gyntaf oll drwy beidio â dymuno ei chefnogi o gwbl, ac yn awr trwy botsian â gwelliannau i'w gwneud yn anymarferol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The first thing I should tell Members is that, after Stage 2, I received a letter from the Residential Landlords Association, proposing very similar amendments to the ones tabled by the Member today. I considered them all and tried to work with the sector and Members right the way through the drafting of this Bill to make sure that we have a workable scheme that will have a big impact on the communities that we all represent, in making sure that rogue landlords are not in place and delivering services to sometimes vulnerable people in our communities. People like the NUS gave evidence to the committee, saying how, on regular occurrences, there were issues where landlords were acting unprofessionally and, quite frankly, delivering some very dangerous housing and accommodation to individuals. That is not acceptable to me and not acceptable to many on the committee that was sitting.

The amendments that Mark Isherwood has alluded to this afternoon are categorised as ones that will just tinker with the system to make it unworkable. I cannot support these amendments. They are needless and I ask Members to reject them today.

Y peth cyntaf y dylwn ddweud wrth yr Aelodau yw imi gael llythyr, ar ôl Cyfnod 2, oddi wrth Gymdeithas y Landlordiaid Preswyl, yn cynnig gwelliannau tebyg iawn i'r rhai a gyflwynwyd gan yr Aelod heddiw. Ystyriais bob un ohonynt a cheisio gweithio gyda'r sector ac Aelodau gydol drafftio'r Bil hwn i wneud yn siŵr bod gennym gynllun ymarferol a fydd yn cael effaith fawr ar y cymunedau yr ydym i gyd yn eu cynrychioli, er mwyn sicrhau nad yw landlordiaid twyllodrus yn gweithredu ac yn darparu gwasanaethau i bobl sydd weithiau'n agored i niwed yn ein cymunedau. Rhoddodd pobl fel Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr dystiolaeth i'r pwyllgor, gan ddweud bod materion yn codi, yn rheolaidd, lle mae landlordiaid yn gweithredu'n amhroffesiynol ac, a dweud y gwir, yn darparu tai a llety peryglus iawn i unigolion. Nid yw hynny'n dderbyniol i mi nac yn dderbyniol i lawer ar y pwyllgor a oedd yn eistedd.

Mae'r gwelliannau y mae Mark Isherwood wedi cyfeirio atynt y prynhawn yma'n cael eu categoreiddio fel rhai a fydd yn gwneud dim ond potsian â'r system i'w gwneud yn anymarferol. Ni allaf gefnogi'r gwelliannau hyn. Maent yn ddiangen a gofynnaf i'r Aelodau eu gwrthod heddiw.

17:13 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mark Isherwood, did you wish to reply briefly?

Mark Isherwood, ydych chi am ymateb yn fyr?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:13 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

These are responsible and much-needed amendments if the Bill is finally going to begin to start addressing its objectives, which are to improve the supply of decent private rented sector property to enable the Welsh Government and local authorities to discharge their homelessness duty, and to help drive down waiting lists and give better support to people on local housing allowance.

These are practical issues that, if addressed, will minimise the disincentives for landlords to invest. Nobody has to invest a penny in providing property anywhere if they choose not to. If you do not work with them and address the barriers that they identify, you will have the opposite effect to that intended.

Yes, you are absolutely right: we must drive out bad and criminal landlords for everybody, including students. That means enforcement and better selective licensing, and the implementation of some of that in Wales means better enforcement of empty dwelling management tools and the housing health and safety rating system, et cetera, which simply has not been happening on the scale required. If, as we understand, 12% of tenants are reporting having experienced bad, criminal or threatening landlord conduct, then let us target those landlords and work with the others to deliver a better supply of better housing for all.

Mae'r rhain yn welliannau cyfrifol a mawr eu hangen os yw'r Bil o'r diwedd am ddechrau ymdrin â'i amcanion, sef gwella'r cyflenwad eiddo boddhaol yn y sector rhentu preifat i alluogi Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswydd ddigartrefedd, ac i helpu i leihau rhestrau aros a rhoi gwell cefnogaeth i bobl sydd ar lwfans tai lleol.

Mae'r rhain yn faterion ymarferol a fydd, os ymdrinnir â hwy, yn lleihau'r anghymhellion i landlordiaid i fuddsoddi. Nid oes raid i neb fuddsoddi ceiniog mewn darparu eiddo yn unman os ydynt yn dewis peidio. Os nad ydych yn gweithio gyda hwy ac yn ymdrin â'r rhwystrau y maent yn eu nodi, fe gewch yr effaith groes i'r hyn a fwriadwyd.

Ydych, rydych yn llygad eich lle: mae'n rhaid inni yrru allan landlordiaid gwael a throsteddol i bawb, gan gynnwys myfyrwyr. Mae hynny'n golygu gorfodaeth a gwell trwyddedu dethol, ac mae gweithredu rhywfaint o hynny yng Nghymru'n golygu gorfodi offer rheoli anheddau gwag a'r system mesur iechyd a diogelwch ar gyfer tai yn well, ac ati, ac nid yw hynny wedi bod yn digwydd ar y raddfa angenrheidiol. Os yw 12% o denantiaid, fel yr ydym ar ddeall, yn adrodd eu bod wedi cael profiad o ymddygiad gwael, trosteddol neu fygythiol gan landlord, yna gadewch inni dargedu'r landlordiaid hynny a gweithio gyda'r lleill i ddarparu cyflenwad gwell o dai gwell i bawb.

17:15 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The question is that amendment 370 be agreed to. Does any Member object? There is objection, therefore, we will move to an electronic vote.

Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 370. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly, symudwn at bleidlais electronig.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 370.](#)

[Result of the vote on amendment 370.](#)

Gwrthodwyd gwelliant 370: O blaid 10, Yn erbyn 36, Ymatal 0.

Amendment 370 not agreed: For 10, Against 36, Abstain 0.

- 17:15 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I call on the Minister to move amendment 67. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 67.
- 17:15 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I move amendment 67 in my name. Cynigiau welliant 67 yn fy enw i.
- 17:15 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The question is that amendment 67 be agreed to. Does any Member object? There is no objection, therefore amendment 67 is agreed. Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 67. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 67 wedi ei dderbyn.
Derbyniwyd gwelliant 67 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36. Amendment 67 agreed in accordance with Standing Order 12.36.
- 17:15 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I call on Mark Isherwood to move amendment 371. Galwaf ar Mark Isherwood i gynnig gwelliant 371.
- 17:15 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I move amendment 371 in my name. Cynigiau welliant 371 yn fy enw i.
- 17:15 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The question is that amendment 371 be agreed to. Does any Member object? There is objection, therefore we will move to an electronic vote. Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 371. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly symudwn at bleidlais electronig.
Rwy'n siarad am y gwelliannau yn y grŵp hwn, a gyflwynwyd yn fy enw i. Pan gafodd y Bil tai ei gynnis yn gyntaf, roeddem yn addo darn o ddeddfwriaeth flaengar a fyddai'n sicrhau bod pobl yng Nghymru yn cael mynediad at gartref boddhaol a fforddiadwy. Mae gennym broblem ddifrifol gyda safonau byw yn y wlad hon. Yr wythnos diwethaf, roedd adroddiad gan y prosiect Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol yn honni bod y nifer o gartrefi Prydain sy'n disgyn yn is na'r safon byw gofynnol wedi mwy na dyblu yn y 30 mlynedd diwethaf. Mae hynny, wrth gwrs, er gwaethaf y ffaith fod yr economi wedi cynyddu'n ddeublyg. Yn aml, mae hyn yn golygu bod pobl yn byw mewn amodau gwael iawn. Canfu'r astudiaeth honno fod bron i 18 miliwn o drigolion y DU mewn amodau tai annigonol, sy'n cynnwys 2.5 miliwn o blant yn byw mewn cartrefi llai.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

This is particularly true of properties in the private rental sector, where poor conditions are, sadly, all too common, and where tenants often do not have the ability to make changes themselves and landlords can be unresponsive to requests, or worse, evict those who dare to complain. Sadly, conditions in Wales are worse than in England. A study by Shelter found that tenants in Wales were 19% more likely to have damp homes and 23% more likely to have roof leaks.

When properties fall below a decent standard, people's health and wellbeing suffer. Children living in damp, mouldy homes are between one and a half and three times more likely to suffer from coughing and wheezing than children who do not. Children who continue to live in houses that are poorly heated and damp are more than twice as likely to suffer from chest and breathing problems like asthma and bronchitis. These problems are likely to persist into their adult lives.

Cold housing is a particular problem for older people. I do not think that that needs to be said, but we do know that it makes other conditions that they have worse, and it increases the likelihood of heart attack, stroke, pneumonia and breathing difficulties.

In fact, improving housing conditions should be a health priority for the country. I am under no illusion that a single piece of legislation can fix the established and deeply ingrained problems with housing in Wales, but this Bill could certainly do more. As it stands, rather than pushing to improve the quality of properties in the private rental sector, the Bill enforces the current minimum legal standards. We should be aiming higher, I think, than for properties that do not pose an immediate health and safety risk.

These amendments put the Minister's own words on the face of the Bill. Let us put that in the legislation, so that, if a property falls below that decent standard, the landlord's licence and registration can be revoked. This could act as a necessary incentive for landlords to keep properties in good repair and well maintained. It will also empower tenants to feel that they have solid legal backing in asking for repairs and improvements. We could look back for a moment at the White Paper, and I will quote the Welsh Government again:

'We intend doing as much as we can to improve the conditions in private rented accommodation.... People need a decent home'.

It also says that, in 2008 in Wales, one in 10 private rented sector dwellings were classified as 'unfit', and—I will finish with this quotation—states that:

'There is a compelling case for improving people's housing.'

So, I think that this Bill should be ambitious, and I hope that people support my amendments.

Mae hyn yn arbennig o wir am eiddo yn y sector rhentu preifat, lle mae amodau gwael, yn anffodus, yn rhy gyffredin o lawer, a lle mae tenantiaid yn aml heb y gallu i wneud newidiadau eu hunain a lle y gall landlordiaid beidio ag ymateb i geisiadau, neu'n waeth, troi allan y rhai sy'n meiddio cwyno. Yn anffodus, mae amodau yng Nghymru yn waeth nag yn Lloegr. Canfu astudiaeth gan Shelter bod tenantiaid yng Nghymru 19% yn fwy tebygol o gael cartref llaith a 23% yn fwy tebygol o gael to yn gollwng.

Pan fydd eiddo yn disgyn yn is na'r safon foddhaol, mae iechyd a lles pobl yn dioddef. Mae plant sy'n byw mewn cartrefi llaith, sydd â llwydni ynddynt rhwng un a hanner a thair gwaith yn fwy tebygol o ddioddef o beswch a brest yn gwichian na phlant nad ydynt. Mae plant sy'n parhau i fyw mewn tai sydd wedi'u gwresogi'n wael ac yn llaith yn fwy na dwywaith yn fwy tebygol o ddioddef o broblemau'r frest ac anadlu fel asthma a bronchitis. Mae'r problemau hyn yn debygol o barhau i'w bywydau fel oedolion.

Mae tai oer yn broblem arbennig i bobl hŷn. Nid wyf yn credu bod angen dweud hynny, ond rydym yn gwybod ei fod yn gwneud cyflyrau eraill sydd ganddynt yn waeth, ac mae'n cynyddu'r tebygolrwydd o drawiad ar y galon, strôc, niwmonia ac anawsterau anadlu.

Mewn gwirionedd, dylai gwella amodau tai fod yn flaenoriaeth iechyd ar gyfer y wlad. Nid wyf dan unrhyw gamargraff y gall un darn o ddeddfwriaeth ddatrys y problemau sy'n bodoli eisoes ac sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn o ran tai yng Nghymru, ond gallai'r Bil hwn yn sicr wneud mwy. Fel y mae'n sefyll, yn hytrach na gwthio i wella ansawdd yr eiddo yn y sector rhentu preifat, mae'r Bil yn gorfodi'r safonau gofynnol cyfredol yn ôl y gyfraith. Dylai ein nod fod yn uwch, yn fy marn i, nag ar gyfer eiddo nad ydynt yn peri risg ar unwaith i iechyd a diogelwch.

Mae'r gwelliannau hyn yn rhoi geiriau'r Gweinidog ei hun ar wyneb y Bil. Gadewch inni roi hynny yn y ddeddfwriaeth, er mwyn sicrhau, os bydd eiddo yn disgyn yn is na'r safon foddhaol, gall trwydded a chofrestrriad y landlord gael ei dirymu. Gallai hyn fod yn gymhelliant angenrheidiol i landlordiaid gadw eiddo mewn cyflwr da a'i gynnal a'i gadw'n dda. Bydd hefyd yn grymuso tenantiaid i deimlo bod ganddynt gefnogaeth gyfreithiol gadarn wrth ofyn am atgyweiriadau a gwelliannau. Gallem edrych yn ôl am eiliad ar y Papur Gwyn, ac rwyf am ddyfynnu Llywodraeth Cymru eto:

Rydym yn bwriadu gwneud cymaint ag y gallwn i wella amodau mewn llety rhent preifat Mae angen cartref boddhaol ar bobl.

Mae hefyd yn dweud, yn 2008 yng Nghymru, bod un o bob 10 o anheddau yn y sector rhentu preifat yn cael eu dosbarthu fel bod yn 'anaddas', ac— byddaf yn gorffen gyda'r dyfyniad hwn—yn datgan bod:

Achos cryf ar gyfer gwella tai pobl.

Felly, rwy'n meddwl y dylai'r Bil hwn fod yn uchelgeisiol, ac rwy'n gobeithio y bydd pobl yn cefnogi fy ngwelliannau.

I rise to support the two amendments in the name of Jocelyn Davies. It is really important that, if we are going to have a licensing and registration scheme, we take advantage of that to drive up the standards of private rented properties as much as possible. In fact, that was the stated aim of the Bill. Certainly, the Minister has reiterated that aim throughout this whole process. It seems to me that what we have in front of us is a registration and licensing scheme that will, hopefully, improve the management of the properties. However, when it comes to improving the actual standard of properties, we are very much dependent on the guidance that the Minister is going to issue under what I think is still section 28 of the Bill, which we have not yet had sight of despite a recommendation by the committee that we should have sight of it before we came to consider the Bill. I am uneasy about leaving this to guidance. The Minister has not given an indication, in giving evidence to the committee, that the guidance will address the issue of the quality of the accommodation. In fact, the way that the licensing and registration scheme is designed, as Mark Isherwood has pointed out in previous contributions today, there is no requirement on local authorities to carry out inspections on properties. We are reliant on tenants coming to local authorities to raise issues in terms of standards. As such, it seems to me that we need more in the Bill in terms of trying to drive up those standards and the quality of accommodation in which tenants are going to have to live.

Regarding the amendments that Jocelyn Davies has brought before us—and I note that it has taken 90 minutes to reach amendment 1—amendment 1 is a fairly straightforward and simple amendment, which basically says that these properties should be of a decent standard. Obviously, the lawyers may have a field day with that. However, it seems to me that that is a straightforward and understandable clause that can go into the Bill. If it ends up in court, I am sure that everyone will understand what a 'decent standard' means. It seems to me that a decent standard is the very least that we want to achieve in terms of the private rented sector. When you look at the private rented sector around Wales, there are areas of rented accommodation where there is huge deprivation and very poor accommodation indeed, where there is damp, there are dangerous electrics, there are insufficient means of escape in terms of fire, and there is insufficient access to hot water, for example, in some cases. All of these things, of course, are in breach of current regulations and current legislation, but these are not being enforced. Given that there is no provision for inspection, they may still not be enforced as part of this regime, unless the tenant is aware of his or her right and takes the matter up with the relevant environmental health department. So, I think this is the least that we could do in terms of specifying what we expect of the private rented sector as part of the registration and licensing scheme. I think it is the least that we can do in terms of sending a signal to tenants themselves that we would like to see their property being of a decent standard, and that they should take that on board and go to the relevant authorities if they feel that their property is not of a decent standard and ask them to take action on that. Therefore, I hope that we can support these amendments for that reason.

Rwy'n codi i gefnogi'r ddau welliant yn enw Jocelyn Davies. Mae'n wirioneddol bwysig, os ydym yn mynd i gael cynllun trwyddedu a chofrestru, ein bod yn cymryd mantais o hynny i godi safonau eiddo rhent preifat cymaint ag y bo modd. Yn wir, dyna oedd nod penodol y Bil. Yn sicr, mae'r Gweinidog wedi ailadrodd y nod hwnnw trwy gydol yr holl broses hon. Mae'n ymddangos i mi mai'r hyn sydd gennym o'n blaenau yw cynllun cofrestru a thrwyddedu a fydd, gobeithio, yn gwella rheolaeth yr eiddo. Fodd bynnag, pan ddaw i wella gwir safon eiddo, rydym yn dibynnu yn fawr iawn ar y canllawiau y mae'r Gweinidog yn mynd i'w cyhoeddi o dan yr hyn yr wyf yn meddwl sy'n dal i fod yn adran 28 y Bil, nad ydym wedi cael golwg arni eto er gwaethaf argymhelliad gan y pwyllgor y dylem gael golwg arni cyn i ni ddod i ystyried y Bil. Rwy'n anesmwyth ynglŷn â gadael hyn i ganllawiau. Nid yw'r Gweinidog wedi rhoi arwydd, wrth roi tystiolaeth i'r pwyllgor, y bydd y canllawiau yn mynd i'r afael â'r mater o ansawdd y llety. Yn wir, y ffordd y mae'r cynllun trwyddedu a chofrestru wedi ei gynllunio, fel y mae Mark Isherwood wedi nodi mewn cyfraniadau blaenorol heddiw, nid oes unrhyw ofyniad ar awdurdodau lleol i gynnal arolygiadau ar eiddo. Rydym yn dibynnu ar denantiaid i ddod at awdurdodau lleol i godi materion o ran safonau. Fel y cyfryw, mae'n ymddangos i mi bod arnom angen mwy yn y Bil o ran ceisio codi'r safonau hynny ac ansawdd y llety y mae tenantiaid yn mynd i orfod byw ynddo.

O ran y gwelliannau y mae Jocelyn Davies wedi eu rhoi ger ein bron—a sylwaf ei fod wedi cymryd 90 munud i gyrraedd gwelliant 1—mae gwelliant 1 yn welliant gweddol di-lol a syml, sydd yn y bôn yn dweud y dylai'r eiddo hyn fod o safon foddhaol. Yn amlwg, efallai y bydd y cyfreithwyr yn cael hwyl anfarwol gyda hynny. Fodd bynnag, ymddengys i mi bod hwnnw'n gymal syml a dealladwy a allai fynd i mewn i'r Bil. Os yw'n diweddu yn y llys, rwy'n siŵr y bydd pawb yn deall beth mae 'safon foddhaol' yn ei olygu. Mae'n ymddangos i mi mai safon foddhaol yw'r lleiaf yr ydym yn dymuno ei gyflawni o ran y sector rhentu preifat. Pan edrychwch ar y sector rhentu preifat o amgylch Cymru, ceir ardaloedd llety rhent lle y ceir amddifadedd enfawr a llety gwael iawn yn wir, lle mae lleithder, trydan peryglus, nid oes digon o ffyrdd o ddianc pe byddai tân, ac nid oes digon o fynediad at ddŵr poeth, er enghraifft, mewn rhai achosion. Mae pob un o'r pethau hyn, wrth gwrs, yn torri rheoliadau presennol a deddfwriaeth gyfredol, ond nid yw'r rhain yn cael eu gorfodi. O gofio nad oes unrhyw ddarpariaeth ar gyfer arolygu, efallai na fyddant yn dal i gael eu gorfodi yn rhan o'r drefn hon, oni bai bod y tenant yn ymwybodol o'i hawliau ac yn trafod y mater gyda'r adran iechyd amgylcheddol perthnasol. Felly, rwy'n credu mai dyma'r lleiaf y gallwn ei wneud o ran nodi beth yr ydym yn ei ddisgwyl gan y sector rhentu preifat yn rhan o'r cynllun cofrestru a thrwyddedu. Rwy'n credu ei fod y lleiaf y gallwn ei wneud o ran anfon arwydd i denantiaid eu hunain y byddem yn hoffi gweld eu heiddo o safon foddhaol, ac y dylent sylweddoli hynny a mynd at yr awdurdodau perthnasol os ydynt yn teimlo nad yw eu heiddo o safon foddhaol a gofyn iddynt weithredu ar hynny. Felly, rwy'n gobeithio y gallwn gefnogi'r gwelliannau hyn am y rheswm hwnnw.

Carl Sargeant [Bywgraffiad Biography](#)

I have listened carefully to the arguments made by Jocelyn Davies, Mark Isherwood and Peter Black this afternoon. I will speak to my amendments first, if I may. Amendments 108 and 144 are Government amendments aimed at clarifying when revocation of a licence should occur. The change of the wording is important to ensure that revocation should only occur where an offence has been committed. I ask Members to support these amendments.

Yr wyf wedi gwranddo'n ofalus ar y dadleuon a wnaethpwyd gan Jocelyn Davies, Mark Isherwood a Peter Black y prynhawn yma. Byddaf yn siarad am fy ngwelliannau i yn gyntaf, os caf. Mae gwelliannau 108 a 144 yn welliannau'r Llywodraeth sydd â'r nod o egluro pryd y dylai dirymu trwydded ddigwydd. Mae'r newid yn y geiriad yn bwysig i sicrhau na ddylai dirymu digwydd heblaw pan fydd trosedd wedi'i chyflawni. Gofynnaf i'r Aelodau gefnogi'r gwelliannau hyn.

Turning to Mark Isherwood's amendments, I am unable to accept and support amendment 393, as it assumes that the registration process is no longer applicable, but it is. Similarly, I cannot support amendments 320 and 333. These are not needed, as any contravention of housing or landlord and tenant law is likely to mean that the appellant will fail the fit-and-proper-person test. Amendment 332 could result in unintended consequences. Defining 'serious' is a subjective argument, and a repeated breach may be of a very minor nature that may not justify revocation.

Gan droi at welliannau Mark Isherwood, nid wyf yn gallu derbyn a chefnogi gwelliant 393, gan ei fod yn cymryd yn ganiataol nad yw'r broses gofrestru yn berthnasol mwyach, ond y mae'n berthnasol. Yn yr un modd, ni allaf gefnogi gwelliannau 320 a 333. Nid oes angen y rhain, gan fod unrhyw dorri cyfraith tai neu landlord a thenant yn debygol o olygu y bydd yr apelydd yn methu prawf person addas a phriodol. Gallai Gwelliant 332 arwain at ganlyniadau anfwriadol. Mae diffinio 'difrifol' yn ddaol oddrychol, ac efallai y bydd toriad dro ar ôl tro o natur eithaf dibwys na fyddai efallai'n cyfiawnhau dirymu.

Just turning to Jocelyn Davies's amendments, which Peter Black supported, I understand exactly what the intention of this amendment could be. It is that a licence could be revoked if a property was not maintained to a decent standard. Again, 'decent' is subjective. I do not agree with Peter that we should take this to court to define what 'decent' means; I think that it is very subjective, and we would need to try to clarify that prior to introducing it into any legislation. As I have said on many occasions, the proposals under Part 1 are person-specific, not property-specific, so I cannot support these amendments.

Gan droi at welliannau Jocelyn Davies, yr oedd Peter Black yn eu cefnogi, rwy'n deall yn union yr hyn y gallai bwriad y gwelliant hwn fod. Hynny yw, y gallai trwydded gael ei dirymu os nad yw eiddo yn cael ei gynnal i safon foddhaol. Unwaith eto, mae 'boddhaol' yn oddrychol. Nid wyf yn cytuno â Peter y dylem fynd â hyn i'r llys i ddiffinio beth yw ystyr 'boddhaol'; rwy'n credu ei fod yn oddrychol iawn, a byddai angen i ni geisio egluro hynny cyn ei gyflwyno i mewn i unrhyw ddeddfwriaeth. Fel yr wyf wedi dweud ar sawl achlysur, mae'r cynigion o dan Ran 1 yn benodol i'r unigolyn, nid i'r eiddo, felly ni allaf gefnogi'r gwelliannau hyn.

Just to pick up on a point that Peter made about the code, and I do recognise the recommendations of the committee, the code will be subject to consultation, Presiding Officer, and will be subject to the approval of the Assembly under section 40 of the Bill.

Dim ond i gyfeirio at bwynt a wnaeth Peter ynghylch y cod, ac rwy'n cydnabod argymhellion y pwyllgor, bydd y cod yn destun ymgynghoriad, Lywydd, a bydd yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Cynulliad o dan adran 40 y Bil.

I would ask Members to support the Government amendments and reject the opposition amendments tabled in this group 12.

Byddwn yn gofyn i'r Aelodau gefnogi gwelliannau'r Llywodraeth a gwrthod gwelliannau'r gwrthbleidiau a gyflwynwyd yn y grŵp 12 hwn.

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

I call Mark Isherwood to reply.

Galwaf ar Mark Isherwood i ymateb.

Mark Isherwood [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you. My amendments seek proportionate action against bad landlords and action with good landlords, with a big stick against bad landlords and working with better and good landlords to improve matters where they need improvement and to deliver an effective system where the system works satisfactorily.

Diolch. Mae fy ngwelliannau yn ceisio camau cymesur yn erbyn landlordiaid gwael a chamau gyda landlordiaid da, gyda ffon fawr yn erbyn landlordiaid gwael a gweithio gyda landlordiaid gwell a da i wella pethau lle mae angen gwella ac i gyflwyno system effeithiol lle y mae'r system yn gweithio'n foddhaol.

The 2004 Act introduced the enforcement measures that remain in place under the proposals in this Bill. If the Minister feels that those enforcement measures have been ineffective or have been insufficiently used to take action against the bad and criminal landlords that we keep talking about, and which the Minister has already indicated were the forefront of his mind when formulating these sections of this Bill, then either we need action to drive better enforcement or we need a different enforcement regime. What we cannot have, sadly, is two enforcement regimes. So long as the Minister is relying on the housing health and safety rating system, we cannot also put in a decent homes standard or a repairing standard, as in Scotland. Had the Minister chosen instead to focus on action against bad landlords and replacing the current enforcement mechanisms with a different enforcement mechanism, then, of course, we could have been open to discussing how best to make that operate. So, let us work with the good, let us penalise the bad, and let us drive forward the agenda of decent housing for all.

Cyflwynodd Deddf 2004 y mesurau gorfodi sy'n parhau i fod ar waith o dan y cynigion yn y Bil hwn. Os yw'r Gweinidog yn teimlo bod y mesurau gorfodi hynny wedi bod yn aneffeithiol, neu heb gael eu defnyddio'n ddigonol i gymryd camau yn erbyn y landlordiaid gwael a'r rhai sy'n torri'r gyfraith yr ydym yn dal i siarad amdanynt, ac y mae'r Gweinidog eisoes wedi nodi eu bod yn flaenllaw yn ei feddwl wrth lunio'r adrannau hyn o'r Bil, yna naill ai mae angen inni weithredu i sbarduno gwell gorfodi neu mae angen cyfundrefn orfodi wahanol. Yr hyn na allwn ei gael, yn anffodus, yw dwy gyfundrefn orfodi. Cyn belled â bod y Gweinidog yn dibynnu ar y system mesur iechyd a diogelwch ar gyfer tai, ni allwn hefyd gynnwys safon cartrefi foddhaol neu safon atgyweirio, fel yn yr Alban. Pe byddai'r Gweinidog wedi dewis yn hytrach i ganolbwyntio ar weithredu yn erbyn landlordiaid gwael a newid y mecanweithiau gorfodi presennol gyda dull gorfodi gwahanol, yna, wrth gwrs, gallem fod wedi bod yn agored i drafod y ffordd orau i wneud i hynny weithio. Felly, gadewch i ni weithio gyda'r da, gadewch i ni gosbi'r gwael, a gadewch inni fwrw ymlaen â'r agenda tai boddhaol i bawb.

- 18:03 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- If amendment 393 is agreed, amendment 108 will fall. The question is that amendment 393 be agreed to. Are there any objections? There is objection. Open the vote.
- Os yw gwelliant 393 yn cael ei dderbyn, bydd gwelliant 108 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 393 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Ceir gwrthwynebiad. Agorwch y bleidlais.
- [Canlyniad y bleidlais ar welliant 393.](#) [Result of the vote on amendment 393.](#)
- Gwrthodwyd gwelliant 393: O blaid 10, Yn erbyn 36, Ymatal 0.* *Amendment 393 not agreed: For 10, Against 36, Abstain 0.*
- 18:04 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I call on the Minister to move amendment 108.
- Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 108.
- 18:04 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I move amendment 108 in my name.
- Cynigiau welliant 108 yn fy enw i.
- 18:04 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The question is that amendment 108 be agreed to. Are there any objections? There are no objections, therefore amendment 108 is agreed.
- Y cwestiwn yw bod gwelliant 108 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly mae gwelliant 108 wedi ei dderbyn.
- Derbyniwyd gwelliant 108 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.* *Amendment 108 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*
- 18:04 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I call on Jocelyn Davies to move amendment 1.
- Galwaf ar Jocelyn Davies i gynnig gwelliant 1.
- 18:04 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I move amendment 1 in my name.
- Cynigiau welliant 1 yn fy enw i.
- 18:04 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The question is that amendment 1 be agreed to. Are there any objections? There is objection. Open the vote.
- Y cwestiwn yw bod gwelliant 1 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Ceir gwrthwynebiad. Agorwch y bleidlais.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1.](#)

[Result of the vote on amendment 1.](#)

Gwrthodwyd gwelliant 1: O blaid 13, Yn erbyn 33, Ymatal 0.

Amendment 1 not agreed: For 13, Against 33, Abstain 0.

18:04 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Mark Isherwood, amendment 320. Mark Isherwood, gwelliant 320.

18:04 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Yes, please. Ie, os gwelwch yn dda.

18:04 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The question is that amendment 320—. I think you meant 'I move', rather than 'Yes, please'. The question is that question 320 be agreed to. Does any Member object? There is objection. Open the vote. Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 320 —. Rwy'n credu eich bod yn golygu 'Rwy'n cynnig', yn hytrach na 'Ie, os gwelwch yn dda'. Y cwestiwn yw bod cwestiwn 320 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad. Agorwch y bleidlais.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 320.](#)

[Result of the vote on amendment 320.](#)

Gwrthodwyd gwelliant 320: O blaid 18, Yn erbyn 28, Ymatal 0.

Amendment 320 not agreed: For 18, Against 28, Abstain 0.

18:05 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I propose that amendments 109 to 117 are disposed of en bloc. Does any Member object? There is no objection. I call on the Minister to move amendments 109 to 117. Cynigiau waredu gwelliannau 109 i 117 en bloc. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliannau 109 i 117.

18:05 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I move amendments 109, 110, 111, 112, 113, 114, 115, 116 and 117 in my name. Cynigiau welliannau 109, 110, 111, 112, 113, 114, 115, 116 a 117 yn fy enw i.

18:05 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The question is that amendments 109 to 117 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendments 109 to 117 are agreed. Y cwestiwn yw bod gwelliannau 109 i 117 yn cael eu derbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad, felly mae gwelliannau 109 i 117 wedi eu derbyn.

Derbyniwyd gwelliannau 109, 110, 111, 112, 113, 114, 115, 116 and 117 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Amendments 109, 110, 111, 112, 113, 114, 115, 116 and 117 agreed in accordance with Standing Order 12.36.

18:05 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Mark Isherwood, amendment 321. Mark Isherwood, gwelliant 321.

18:05 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Yes—I move. Thank you. I move amendment 321 in my name. Ie—rwy'n cynnig. Diolch. Cynigiau welliant 321 yn fy enw i.

18:05 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The question is that amendment 321 be agreed to. Does any Member object? There is objection. Open the vote. Y cwestiwn yw bod gwelliant 321 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad. Agorwch y bleidlais.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 321.](#)

[Result of the vote on amendment 321.](#)

Grŵp 13: Tai Rhent Preifat: Gofynion Hyfforddi (Gwelliannau 118, 119, 123, 124, 129, 327, 328, 20, 288 a 45)

Group 13: Private Rented Housing: Training Requirements (Amendments 118, 119, 123, 124, 129, 327, 328, 20, 288 and 45)

18:05 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The lead amendment in the group is amendment 118. I call on the Minister to move amendment 118 and to speak to it and the other amendments in the group.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 118. Galwaf ar y Gweinidog i gynnis gwelliant 118 ac i siarad amdano a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

18:06 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendment 118 in my name.

Cynigaf welliant 118 yn fy enw i.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

My amendments consolidate the relevant provisions for the training required for licensing into one section. At the same time, they amend the provisions for training and its content, granting regulation-making powers for Welsh Ministers instead of allowing them to set up training requirements, including requirements relating to the approval of courses and the authorisation of training providers. The regulation can also allow for fees to be levied for the authorisation or approval of training courses.

Mae fy ngwelliannau'n atgyfnerthu'r darpariaethau perthnasol ar gyfer yr hyfforddiant sydd ei angen ar gyfer trwyddedu i mewn i un adran. Ar yr un pryd, maent yn diwygio darpariaethau ar gyfer hyfforddiant a'i gynnwys, gan roi pwerau gwneud rheoliadau i Weiniogion Cymru yn hytrach na gadael iddynt sefydlu gofynion hyfforddi, gan gynnwys gofynion sy'n ymwneud â chymeradwyo cyrsiau ac awdurdodi darparwyr hyfforddiant. Gall y rheoliadau hefyd ganiatáu i ffioedd gael eu codi ar gyfer yr awdurdodiad neu gymeradwyaeth o gyrsiau hyfforddi.

Peter Black's amendment 20 was previously rejected at Stage 2; it relates to Welsh Ministers having to make provisions for CPD under the training requirements and licences. The amendments tabled in the name of Mark Isherwood were also previously rejected at Stage 2; the first changes the terminology from 'may' to 'must' and the second adds a provision requiring that the Equality Act 2010 is covered in the training requirements. I seek support for the Government amendments and rejection of the opposition amendments today.

Cafodd gwelliant 20 Peter Black ei wrthod yn flaenorol yng Nghyfnod 2; mae'n ymwneud â Gweinidogion Cymru yn gorfod gwneud darpariaethau ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus o dan y gofynion hyfforddi a thrwyddedau. Cafodd y gwelliannau a gyflwynwyd yn enw Mark Isherwood hefyd eu gwrthod yn flaenorol yng Nghyfnod 2; mae'r cyntaf yn newid y derminoleg o 'gallai' i 'rhaid' a'r ail yn ychwanegu darpariaeth sy'n mynnu bod Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cael ei chynnwys yn y gofynion hyfforddi. Rwy'n ceisio cefnogaeth i welliannau'r Llywodraeth a gwrthod gwelliannau'r gwrthbleidiau heddiw.

18:07 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As the Minister said, equivalent amendments to 327 and 328 were defeated at Stage 2, but only on the casting vote of the Chair, which, as you know, is mandatory. These amendments would ensure that all authorities provide training for landlords on these areas and ensure that no landlord is left unaware of their role or responsibility to their tenants. We are talking about statutory obligations of a landlord and tenant, the contractual relationship between landlord and tenant, the role of an agent or responsible person, and best practice in managing a rental property. I point out that these amendments were proposed by Tai Pawb and supported by Cymorth Cymru, Gofal and Shelter Cymru.

Fel y dywedodd y Gweinidog, cafodd gwelliannau sy'n cyfateb i 327 a 328 eu trechu yng Nghyfnod 2, ond dim ond ar bleidlais fwrw'r Cadeirydd, sydd, fel y gwyddoch, yn orfodol. Byddai'r gwelliannau hyn yn sicrhau bod pob awdurdod yn darparu hyfforddiant i landlordiaid ar y meysydd hyn ac yn sicrhau nad oes unrhyw landlord yn cael ei adael heb fod yn gwybod beth yw ei swyddogaeth neu ei gyfrifoldeb i'w denantiaid. Rydym yn sôn am rwymedigaethau statudol landlord a thenant, y berthynas gytundebol rhwng y landlord a'r tenant, swyddogaeth asiant neu unigolyn cyfrifol, ac arfer gorau wrth reoli eiddo rhent. Nodaf fod y gwelliannau hyn wedi cael eu cynnis gan Tai Pawb a'u cefnogi gan Cymorth Cymru, Gofal a Shelter Cymru.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The Equality Act 2010 details who is protected from discrimination, the protected groups and the different types of discrimination that may occur, such as direct and indirect harassment and victimisation. As the Equality Act 2010 covers landlords, it is felt essential that they are made aware of who the protected groups are and their legal responsibilities not to discriminate, as well as other parts of the Equality Act 2010, such as the provision of reasonable adjustments for disabled people. These amendments would add the Equality Act 2010 to the list of training matters that a landlord must undertake. While Tai Pawb appreciated that there must be flexibility for authorities to provide training that is relevant to their local area, it believes that the training listed in section 20(1) should be a minimum for all landlords, hence my moving these amendments today.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn manylu pwy a ddiogelir rhag gwahaniaethu, y grwpiau a ddiogelir a'r gwahanol fathau o wahaniaethu a allai ddigwydd, megis aflonyddu ac erledigaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol. Gan fod Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ymdrin â landlordiaid, teimlir ei bod yn hanfodol eu bod yn cael eu gwneud yn ymwybodol o bwy yw'r grwpiau a ddiogelir a'u cyfrifoldebau cyfreithiol i beidio â gwahaniaethu, yn ogystal â rhannau eraill Deddf Cydraddoldeb 2010, megis darparu addasiadau rhesymol ar gyfer pobl anabl. Byddai'r gwelliannau hyn yn ychwanegu Deddf Cydraddoldeb 2010 i'r rhestr o faterion hyfforddiant y mae'n rhaid i landlord ymgymryd â nhw. Er bod Tai Pawb yn gwerthfawrogi bod yn rhaid cael hyblygrwydd i awdurdodau ddarparu hyfforddiant sy'n berthnasol i'w hardal leol hwy, mae'n credu y dylai'r hyfforddiant a restrir yn adran 20 (1) fod yn ofynnol ar gyfer pob landlord, a dyna pam yr wyf yn cynnig y gwelliannau hyn heddiw.

18:08

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I stand to speak in favour of my amendment 20. I think we should start with the idea that, just because an amendment has been rejected at Stage 2, it does not mean it lacks intrinsic merit. The Minister also had amendments that were rejected at Stage 2, which I am sure he thought had intrinsic merit. So, in this particular case, I hope that amendment 20 does have the merit that will enable the Minister to reconsider rejecting it.

I supported Jocelyn Davies's amendment in the previous group, in terms of raising the standard and the quality of accommodation, and the purpose of this amendment is to try to raise the quality of the landlords in ensuring that the training is not just a one-off but that there is continuing professional development for landlords over the period of their ownership of the property. It seems to me that, given the complexity of housing law, and that we are adding to that complexity today, and no doubt will do so in the next housing Bill, it is important that landlords fully understand the obligations and requirements on them as a result of owning property.

There are a lot of landlords that own just one property. We are not just talking about landlords who own large numbers of properties and would therefore be expected to understand the law; there are a lot of people who have been unable to sell their property and who rent it out as a single property most probably do not understand the requirements upon them as a landlord and could well benefit from this training. So, I think that this continuous professional development provision is important, and it was certainly included in the committee's recommendations at Stage 1; it was recommendation 3. I hope that the Minister will reconsider his opposition to it.

Rwy'n sefyll i siarad o blaid fy ngwelliant 20. Rwy'n credu y dylen ni ddechrau gyda'r syniad, dim ond oherwydd bod gwelliant wedi cael ei wrthod yng Nghyfnod 2, nad yw'n golygu ei fod yn brin o deilyngdod cynhenid. Roedd gan y Gweinidog hefyd welliannau a wrthodwyd yng Nghyfnod 2, ac rwy'n siŵr ei fod ef yn meddwl bod ganddynt deilyngdod cynhenid. Felly, yn yr achos penodol hwn, rwy'n gobeithio bod gan welliant 20 y teilyngdod a fydd yn galluogi'r Gweinidog i ailystyried o ran ei wrthod.

Cefnogais welliant Jocelyn Davies yn y grŵp blaenorol, o ran codi safon ac ansawdd llety, a diben y gwelliant hwn yw ceisio codi ansawdd y landlordiaid i sicrhau nad yw'r hyfforddiant yn digwydd unwaith yn unig ond bod datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer landlordiaid dros gyfnod eu perchnogaeth o'r eiddo. Mae'n ymddangos i mi, o ystyried cymhlethdod cyfraith tai, a'n bod yn ychwanegu at y cymhlethdod hwnnw heddiw, a byddwn yn ddiâu yn gwneud hynny yn y Bil tai nesaf, mae'n bwysig bod landlordiaid yn deall y rhwymedigaethau a'r gofynion arnynt o ganlyniad i fod yn berchen ar eiddo.

Mae llawer o landlordiaid sy'n berchen ar un eiddo yn unig. Nid ydym yn sôn am landlordiaid sy'n berchen ar nifer fawr o eiddo ac felly byddai disgwyl iddynt ddeall y gyfraith; mae llawer o bobl sydd wedi methu â gwerthu eu heiddo ac sy'n ei rentu fel eiddo sengl yn ôl pob tebyg, nad ydynt yn deall y gofynion arnynt fel landlord a gallant elwa ar yr hyfforddiant hwn. Felly, credaf fod y ddarpariaeth datblygiad proffesiynol parhaus hyn yn bwysig, ac yn sicr cafodd ei gynnwys yn argymhellion y pwyllgor yng Nghyfnod 1; dyna oedd argymhelliad 3. Rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn ailystyried ei wrthwynebiad iddo.

18:10

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I listened carefully to Peter's articulation of the process in Stage 2 and 3 in terms of this point on CPD. The Bill already makes provision for training requirements on application for a licence. Therefore, I do not believe that my current position has changed, in terms of putting CPD in the licensing requirements of this legislation. Therefore, I will not, at this point, be changing my mind.

Gwrandewais yn ofalus ar fynegiant Peter o'r broses yng Nghyfnod 2 a 3 o ran y pwynt ar ddatblygiad proffesiynol parhaus. Mae'r Bil eisoes yn gwneud darpariaeth ar gyfer gofynion hyfforddi ar adeg gwneud cais am drwydded. Felly, nid wyf yn credu bod fy safbwynt presennol wedi newid, o ran rhoi datblygiad proffesiynol parhaus yng ngofynion trwyddedu'r ddeddfwriaeth hon. Felly, ni fyddaf, ar hyn o bryd, yn newid fy meddwl.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

18:10	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>If amendment 118 is not agreed, amendment 288 falls. The question is that amendment 118 be agreed to. There is objection, therefore we will move to an electronic vote.</p> <p>Canlyniad y bleidlais ar welliant 118.</p> <p><i>Derbyniwyd gwelliant 118: O blaid 36, Yn erbyn 0, Ymatal 10.</i></p>	<p>Os nad yw gwelliant 118 yn cael ei dderbyn, mae gwelliant 288 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 118 yn cael ei dderbyn. Ceir gwrthwynebiad, felly symudwn i bleidlais electronig.</p> <p>Result of the vote on amendment 118.</p> <p><i>Amendment 118 agreed: For 36, Against 0, Abstain 10.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
18:11	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>I call on the Minister to move amendment 119.</p>	<p>Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 119.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
18:11	<p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>I move amendment 119 in my name.</p>	<p>Cynigiaf welliant 119 yn fy enw i.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
18:11	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>If amendment 119 is agreed, amendment 121 falls. The question is that amendment 119 be agreed to. Does any Member object? There is no objection, therefore amendment 119 is agreed.</p> <p><i>Derbyniwyd gwelliant 119 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i></p> <p><i>Methodd gwelliant 121.</i></p>	<p>Os derbynir gwelliant 119, mae gwelliant 121 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 119 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 119 wedi ei dderbyn.</p> <p><i>Amendment 119 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i></p> <p><i>Amendment 121 fell.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
<p>Grŵp 14: Tai Rhent Preifat: Gofynion Gwneud Cais am Drwydded (Gwelliannau 120, 394, 395, 322 a 323)</p>		<p>Group 14: Private Rented Housing: Licensing Application Requirements (Amendments 120, 394, 395, 322 and 323)</p>	
18:11	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The lead amendment in this group is amendment 120. I call on the Minister to move amendment 120 and to speak to the lead amendment and any other amendments in the group.</p>	<p>Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 120. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 120 ac i siarad am y prif welliant ac unrhyw welliannau eraill yn y grŵp.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
18:12	<p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>I move amendment 120 in my name.</p> <p>Amendment 120 will remove the requirement for an agent to be a member of a professional body. The need for agents to have safeguards in place will, instead, be set out in the code of practice proposed under section 40. By supporting this amendment, Mark Isherwood's amendments 394 and 395 would no longer be required.</p> <p>Turning to Mark Isherwood's other amendments, the requirement to be part of a redress scheme is also best provided under the code of guidance, and, again, I do not support amendment 322.</p>	<p>Cynigiaf welliant 120 yn fy enw i.</p> <p>Bydd gwelliant 120 yn dileu'r gofyniad i asiant i fod yn aelod o gorff proffesiynol. Bydd yr angen i asiantau fod â mesurau diogelu ar waith, yn lle hynny, yn cael ei nodi yn y cod ymarfer arfaethedig o dan adran 40. Drwy gefnogi'r gwelliant hwn, ni fyddai angen gwelliannau 394 a 395 Mark Isherwood mwyach.</p> <p>Gan droi at welliannau eraill Mark Isherwood, mae'r gofyniad i fod yn rhan o gynllun gwneud iawn hefyd yn cael ei ddarparu orau o dan y cod canllawiau, ac, unwaith eto, nid wyf yn cefnogi gwelliant 322.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

I have moved amendment 120 and reject the other amendments in Mark Isherwood's name.

Rwyf wedi cynnig gwelliant 120 a gwrthod y gwelliannau eraill yn enw Mark Isherwood.

18:12

Mark Isherwood [Bywgraffiad Biography](#)

We will not be supporting Government amendment 120, because we understand that this would enable Welsh Ministers to bypass professional bodies in the regulation of letting agents, without necessarily having the resource or professional understanding required.

Amendment 322 seeks to ensure that where the applicant is an agent, the applicant is a member of a consumer redress scheme. The need for this has been highlighted, among others, by the Royal Institution of Chartered Surveyors. Welsh Ministers already have the power to introduce such a requirement under the Consumers, Estate Agents and Redress Act 2007. I therefore invite the Minister to explain why that requirement has not been introduced, and whether he believes that it is outside the Assembly's legislative competence, as a matter coming within the consumer protection exception. I hope that the Minister will answer that question in his response.

Amendment 323 was only defeated at Stage 2 due to the Chair's casting vote. This reflects concern about the wide reference to the body staff. This extends, potentially, to administrative and secretarial staff's direct involvement in managing a property in the sense in which it is commonly understood. However, subsection 18(4) refers to anyone who is engaged in managing rental properties on behalf of the body corporate. Arguably, this could be someone who answers the telephone, and this is a very wide-ranging provision that needs to be addressed, and it is a matter of legal and technical terminology, because, at the moment, it is too widely interpretable.

Turning to amendments 394 and 395, these amendments are necessary to provide clarity as to what is meant in terms of what is construed to be in the course of a business. Arguably, anything is a business if it is not a thing relating to one's personal affairs or hobbies. This is relevant where someone, such as a friend or relative, manages a property on behalf of a landlord. Surely, it is not intended that they should have to be a member of a professional organisation and, indeed, they may not be eligible. On the other hand, could they be said to be acting in the course of a business? It is an insufficiently flexible concept. In terms of amendment 395, it is sensible to dispense with the requirement relating to a general category of persons or in an individual case in appropriate cases, rather than making judgments as to whether someone is in business or is not in business.

Ni fyddwn yn cefnogi gwelliant 120 y Llywodraeth, oherwydd ein bod yn deall y byddai hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i anwybyddu cyrff proffesiynol wrth reoleiddio asiantau gosod, heb o reidrwydd fod â'r adnoddau neu'r ddealltwriaeth broffesiynol ofynnol.

Mae gwelliant 322 yn ceisio sicrhau, pan fo'r ymgeisydd yn asiant, bod yr ymgeisydd yn aelod o gynllun gwneud iawn i ddefnyddwyr. Mae'r angen am hyn wedi cael ei amlygu, ymhlith eraill, gan Sefydliad Brenhinol y Syrffwyr Siartredig. Mae gan Weiniogion Cymru y pŵer eisoes i gyflwyno gofyniad o'r fath o dan Ddeddf Defnyddwyr, Gwerthwyr Tai a Gwneud Iawn 2007. Felly, rwy'n gwahodd y Gweinidog i esbonio pam nad yw'r gofyniad hwnnw wedi ei gyflwyno, ac a yw'n credu ei fod y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, fel mater yn dod o fewn yr eithriad diogelu defnyddwyr. Rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn ateb y cwestiwn hwnnw yn ei ymateb.

Cafodd gwelliant 323 ei drechu yng Nghyfnod 2 oherwydd pleidlais fwrw'r Cadeirydd yn unig. Mae hyn yn adlewyrchu pryder ynghylch y cyfeiriad eang at y staff corff. Mae hyn yn ymestyn, o bosibl, i gyfranogiad uniongyrchol staff gweinyddol ac ysgrifenyddol i reoli eiddo yn yr ystyr y deallir hyn yn gyffredin. Fodd bynnag, mae isadran 18 (4) yn cyfeirio at unrhyw un sy'n ymwneud â rheoli eiddo ar rent ar ran y corff corfforaethol. Gellid dadlau y gallai hynny fod yn rhywun sy'n ateb y ffôn, ac mae hyn yn ddarpariaeth eang iawn y mae angen rhoi sylw iddi, ac mae'n fater o derminoleg gyfreithiol a thechnegol, oherwydd, ar hyn o bryd, gellir ei ddehongli'n rhy eang.

Gan droi at welliannau 394 a 395, mae'r gwelliannau hyn yn angenrheidiol er mwyn rhoi eglurder ynghylch yr hyn a olygir o ran yr hyn sy'n cael ei ddehongli i fod yn digwydd wrth gynnal busnes. Gellid dadlau bod unrhyw beth yn fusnes os nad yw'n rhywbeth sy'n ymwneud â materion personol neu hobiau rhywun. Mae hyn yn berthnasol pan fo rhywun, fel ffrind neu berthynas, yn rheoli eiddo ar ran landlord. Yn sicr, ni fwriedir y dylai fod yn rhaid iddynt fod yn aelod o sefydliad proffesiynol ac, yn wir, efallai na fyddant yn gymwys. Ar y llaw arall, a ellid dweud eu bod yn gweithredu wrth gynnal busnes? Mae'n gysyniad nad yw'n ddigon hyblyg. O ran gwelliant 395, mae'n synhwyrol i hepgor y gofyniad sy'n ymwneud â chategori cyffredinol o unigolion neu mewn achos unigol mewn achosion priodol, yn hytrach na llunio barn ynghylch pa un a yw rhywun mewn busnes neu nad yw mewn busnes.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

18:15

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

I call on the Minister to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddadl.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

- 18:15 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I think that I was very clear in the reasoning as to why we would not be supporting Mark Isherwood's amendments today. He mentioned one particular amendment: amendment 323 would work against the purpose of the licensing. The Government's position is that all staff who carry out any of the matters comprising lettings work or property management work should have the requisite training. This training will be designed to deal not simply with advisory related functions or matters to take into account when exercising discretion on behalf of a landlord, but such matters as best practice in letting and managing dwellings and the role of an agent in carrying out lettings and property management work. Therefore, I cannot support his amendments. I do not recognise Mark's point that amendments 394 and 395 would strengthen the legislation, as quite frankly they are not required, subject to the agreement of the amendments tabled in my name.
- Rwy'n credu fy mod yn glir iawn yn y rhesymu ynghylch pam na fyddem yn cefnogi gwelliannau Mark Isherwood heddiw. Soniodd am un gwelliant penodol: byddai gwelliant 323 yn gweithio yn erbyn diben y trwyddedu. Safbwynt y Llywodraeth yw y dylai'r holl staff sy'n cyflawni unrhyw un o'r materion sy'n ymwneud a gwaith gosod eiddo neu waith rheoli eiddo gael yr hyfforddiant angenrheidiol. Bydd yr hyfforddiant hwn yn cael ei gynllunio i ymdrin nid yn unig â swyddogaethau ymgynghorol cysylltiedig neu faterion i'w hystyried wrth arfer disgrisiwn ar ran landlord, ond materion fel arfer gorau o ran gosod a rheoli tai a swyddogaeth asiant wrth gyflawni gosod eiddo a gwaith rheoli eiddo. Felly, ni allaf gefnogi ei welliannau. Nid wyf yn cydnabod pwynt Mark y byddai gwelliannau 394 a 395 yn cryfhau'r ddeddfwriaeth, gan nad ydynt yn ofynnol a dweud y gwir, yn amodol ar dderbyn y gwelliannau a gyflwynwyd yn fy enw i.
- 18:16 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- If amendment 120 is agreed, amendments 394, 122, 395 and 399 will fall. The question is that amendment 120 be agreed to. Does any Member object? There are objections, therefore we will move to a vote.
- Os derbynnir gwelliant 120, bydd gwelliannau 394, 122, 395 a 399 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 120 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiadau, felly symudwn at bleidlais.
- [Canlyniad y bleidlais ar welliant 120.](#) [Result of the vote on amendment 120.](#)
	The question is that amendment 409 be agreed to. Does any Member object? There is objection, therefore we will proceed to an electronic vote. Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 409. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly symudwn at bleidlais electronig.	
	Canlyniad y bleidlais ar welliant 409. Result of the vote on amendment 409.	
	<i>Gwrthodwyd gwelliant 409: O blaid 10, Yn erbyn 36, Ymatal 0.</i> <i>Amendment 409 not agreed: For 10, Against 36, Abstain 0.</i>	
19:49	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	I call the Minister to move amendment 243. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 243.	
19:49	Carl Sargeant Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	I move amendment 243 in my name. Cynigiaf welliant 243 yn fy enw i.	
19:49	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	The question is that amendment 243 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 243 is agreed. Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 243. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiadau, felly mae gwelliant 243 wedi ei dderbyn.	
	<i>Derbyniwyd gwelliant 243 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i> <i>Amendment 243 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i>	
	Grŵp 27: Digartrefedd: Strategaethau (Gwelliannau 413, 350 a 351) Group 27: Homelessness: Strategies (Amendments 413, 350 and 351)	
19:49	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	The lead amendment in the group is amendment 413. I call on the Minister to move amendment 413 and to speak to it and the other amendments in the group. Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 413. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 413 ac i siarad amdano a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.	

19:49

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendment 413 in my name.

I gave a commitment at Stage 2 to consider further Peter Black's amendment, which he brought forward on behalf of Gofal, Cymorth Cymru and Shelter. Amendment 413 delivers on my commitment. It will ensure that homelessness strategies will now include provision relating to action planned by the local authority to support particular groups that are receiving or leaving institutional care or care services in the community.

I will not be supporting the amendment from Mark Isherwood on this matter, as it is covered within my own amendment. The requirement to work with other bodies is already contained within the Bill. I trust that Members will agree that Mark Isherwood's amendment is unnecessary and therefore will not support it.

I am grateful for Members' contributions throughout the drafting of this Bill, and I have kept to my commitment in introducing this amendment.

Cynigaf welliant 413 yn fy enw i.

Rhoddais ymrwymiad yng Nghyfnod 2 i roi mwy o ystyriaeth i welliant Peter Black, a gyflwynwyd ganddo ar ran Gofal, Cymorth Cymru a Shelter. Mae gwelliant 413 yn cyflawni fy ymrwymiad. Bydd yn sicrhau y bydd strategaethau digartrefedd bellach yn cynnwys darpariaeth sy'n ymwneud â gweithredu a gynlluniwyd gan yr awdurdod lleol i gefnogi grwpiau penodol sy'n derbyn neu'n gadael gofal sefydliadol neu wasanaethau gofal yn y gymuned.

Ni fyddaf yn cefnogi'r gwelliant gan Mark Isherwood ar y mater hwn, gan ei fod wedi ei gynnwys yn fy ngwelliant fy hun. Mae'r gofyniad i weithio gyda chyrff eraill eisoes wedi'i gynnwys yn y Bil. Hyderaf y bydd yr Aelodau'n cytuno bod gwelliant Mark Isherwood yn ddiangen ac na fyddant felly'n ei gefnogi.

Rwyf yn ddiolchgar am gyfraniadau'r Aelodau trwy gydol proses ddrafftio'r Bil hwn, ac rwyf wedi cadw at fy ymrwymiad wrth gyflwyno'r gwelliant hwn.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

19:50

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Amendment 351 is much stronger than the content to which the Minister referred. Existing duties in the Bill could be strengthened by including specific requirements for local authorities to work with other statutory and non-statutory agencies to address the needs of groups at particular risk of homelessness. Many of the groups listed in the Bill consist of people who are leaving public institutions, such as hospitals, prisons, the armed forces or foster care. In each of these cases, there are clear opportunities to work with the relevant public authorities and voluntary organisations to ensure that steps are taken to avoid homelessness.

Although this can be addressed in the code of guidance, the inclusion of specific duties within primary legislation would demonstrate a clear commitment to the prevention agenda. We understand that the Bill cannot place duties on non-devolved functions, like the criminal justice system, but believe that it should contain the strengthened duties on local housing authorities to work with bodies in other sectors.

Mae gwelliant 351 yn llawer cryfach na'r cynnwys y cyfeiriodd y Gweinidog ato. Gellid cryfhau dyletswyddau presennol yn y Bil drwy gynnwys gofynion penodol ar awdurdodau lleol i weithio gydag asiantaethau statudol ac anstatudol eraill i fynd i'r afael ag anghenion grwpiau sydd mewn perygl arbennig o fod yn ddiartref. Mae llawer o'r grwpiau a restrir yn y Bil yn cynnwys pobl sy'n gadael sefydliadau cyhoeddus, megis ysbytai, carchardai, y lluoedd arfog neu ofal maeth. Ym mhob un o'r achosion hyn, mae cyfleoedd clir i weithio gyda'r awdurdodau cyhoeddus perthnasol a sefydliadau gwirfoddol i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i osgoi digartrefedd.

Er y gellir ymdrin â hyn yn y cod canllawiau, byddai cynnwys dyletswyddau penodol o fewn y ddeddfwriaeth sylfaenol yn dangos ymrwymiad clir i'r agenda atal. Rydym yn deall na all y Bil osod dyletswyddau ar swyddogaethau nad ydynt wedi'u datganoli, fel y system cyfiawnder troseiddol, ond credwn y dylai gynnwys y dyletswyddau cryfach ar awdurdodau tai lleol i weithio gyda chyrff mewn sectorau eraill.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

19:52

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I just wanted to rise to thank the Minister for bringing forward his own version of the amendment that I tabled at Stage 2. It is important that vulnerable groups, particularly, are referenced in homelessness strategies. The list in this amendment will, I think, enable local authorities to target their strategies at those particular groups and ensure that relevant action is taken for them. It is very important that this amendment is passed.

Roeddwn am godi i ddiolch i'r Gweinidog am gyflwyno ei fersiwn ei hun o'r gwelliant a gyflwynais yng Nghyfnod 2. Mae'n bwysig cyfeirio at grwpiau agored i niwed, yn enwedig, mewn strategaethau digartrefedd. Bydd y rhestr yn y gwelliant hwn, yn fy marn i, yn galluogi awdurdodau lleol i dargedu eu strategaethau at y grwpiau penodol hynny a sicrhau bod camau perthnasol yn cael eu cymryd ar eu cyfer. Mae'n bwysig iawn bod y gwelliant hwn yn cael ei dderbyn.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

19:52

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Minister to reply.

Galwaf ar y Gweinidog i ateb.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

19:52	Carl Sargeant Bywgraffiad Biography	Again I thank Members who have influenced the process of drafting this amendment, and I seek support for it.	Unwaith eto, diolch i'r Aelodau sydd wedi dylanwadu ar y broses o ddrafftio'r gwelliant hwn, a gofynnaf am gefnogaeth iddo.	Senedd.tv Fideo Video
19:52	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	The question is that amendment 413 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 413 is agreed.	Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 413. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiadau, felly mae gwelliant 413 wedi ei dderbyn.	Senedd.tv Fideo Video
		<i>Derbyniwyd gwelliant 413 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i>	<i>Amendment 413 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i>	
		<i>Tynnwyd gwelliant 350 yn ôl.</i>	<i>Amendment 350 withdrawn.</i>	
19:52	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	I call on Mark Isherwood to move amendment 351.	Galwaf ar Mark Isherwood i gynnig gwelliant 351.	Senedd.tv Fideo Video
19:52	Mark Isherwood Bywgraffiad Biography	I move amendment 351 in my name.	Cynigïaf welliant 351 yn fy enw i.	Senedd.tv Fideo Video
19:52	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	The question is that amendment 351 be agreed to. Does any Member object? There is objection, therefore we will proceed to an electronic vote.	Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 351. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly symudwn at bleidlais electronig.	Senedd.tv Fideo Video
		Canlyniad y bleidlais ar welliant 351.	Result of the vote on amendment 351.	
		<i>Gwrthodwyd gwelliant 351: O blaid 15, Yn erbyn 31, Ymatal 0.</i>	<i>Amendment 351 not agreed: For 15, Against 31, Abstain 0.</i>	
	Grŵp 28: Digartrefedd: Termau Allweddol (Gwelliannau 27, 5, 6, 7 a 352)	Group 28: Homelessness: Key Terms (Amendments 27, 5, 6, 7 and 352)		
19:53	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	The lead amendment in the group is amendment 27. I call on Peter Black to move amendment 27 and to speak to it and the other amendments in the group.	Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 27. Galwaf ar Peter Black i gynnig gwelliant 27 ac i siarad amdano a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.	Senedd.tv Fideo Video
19:53	Peter Black Bywgraffiad Biography	I move amendment 27 in my name.	Cynigïaf welliant 27 yn fy enw i.	Senedd.tv Fideo Video
		This is based on a recommendation in the committee report that the Minister amends the Bill to make provision for a 90-day homelessness prevention period for prisoners. I believe that the committee felt that this additional period was required because of the removal of the duty to rehouse ex-prisoners, or the amendment to that duty. Clearly, there needs to be more time to work with former prisoners to try to ensure that proper rehabilitation is put in place. I have had a discussion with Swansea prison about some of these issues, and it is very concerned that the removal of that particular priority need for prisoners is going to make life there more difficult in terms of rehabilitating prisoners.	Mae hwn yn seiliedig ar argymhelliad yn adroddiad y pwyllgor fod y Gweinidog yn diwygio'r Bil i wneud darpariaeth ar gyfer atal digartrefedd am gyfnod o 90 diwrnod i garcharorion. Credaf fod y pwyllgor o'r farn bod angen y cyfnod ychwanegol yn sgîl cael gwared ar y ddyletswydd i ailgartrefu cyn garcharorion, neu ddiwygio'r ddyletswydd honno. Yn amlwg, mae angen mwy o amser i weithio gyda chyn garcharorion i geisio sicrhau bod camau adsefydlu priodol yn cael eu rhoi ar waith. Rwyf wedi cael trafodaeth â charchar Abertawe am rai o'r materion hyn, ac mae'n bryderus iawn y byddai dileu'r angen blaenoriaethol penodol hwn i garcharorion yn gwneud bywyd yno yn fwy anodd o ran adsefydlu carcharorion.	

The important issue here is trying to prevent reoffending, to make sure that the various agencies have time to work with prisoners to ensure that they have appropriate accommodation when they leave prison, and to make sure that there is, if possible, appropriate employment for them as well, so that they do not revert back to their former habits of committing crime. This is absolutely crucial, given that 80% of prisoners have a mental health or substance misuse issue. In that case, they would be considered to be very vulnerable. The work that the authorities do with those prisoners, in terms of making sure that they can find accommodation, is absolutely crucial in preventing that reoffending behaviour.

The report commissioned by a previous Government stated that around one third of prisoners do not have a settled home prior to going into prison, and around one third will lose their home during their sentence, making the resettlement role a significant and challenging one. If an offender or ex-offender lacks a suitable place to live, it is more difficult for them to get and keep a job or to engage effectively with any other interventions in relation to their needs. For that reason, I believe that the 56-day period, in this particular instance, should be extended in relation to prisoners to give them that extra time to deal with that particular cohort.

Yr hyn sy'n bwysig yma yw ceisio atal aildroseddu, er mwyn sicrhau bod y gwahanol asiantaethau yn cael amser i weithio gyda charcharorion i sicrhau bod ganddynt lety priodol pan fyddant yn gadael y carchar, ac er mwyn gwneud yn siŵr bod cyflogaeth briodol iddynt hefyd, os yw hynny'n bosibl, fel nad ydynt yn mynd yn ôl at eu hen arferion o droseddu. Mae hyn yn gwbl hanfodol, o ystyried bod gan 80% o garcharorion broblemau iechyd meddwl neu eu bod yn camddefnyddio sylweddau. Os felly, byddent yn cael eu hystyried yn agored iawn i niwed. Mae'r gwaith y mae'r awdurdodau'n ei wneud gyda'r carcharorion hynny, o ran gwneud yn siŵr eu bod yn gallu dod o hyd i lety, yn hollbwysig er mwyn atal yr ymddygiad aildroseddu.

Roedd yr adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth flaenorol yn nodi nad oes gan tua un rhan o dair o garcharorion gartref sefydlog cyn mynd i'r carchar, ac y bydd tua un rhan o dair yn colli eu cartrefi yn ystod eu dedfryd, sy'n gwneud y swyddogaeth adsefydlu'n un sylweddol a heriol. Os na fydd gan droseddwr neu gyn droseddwr le addas i fyw, mae'n fwy anodd iddynt gael swydd a'i chadw, neu ymgysylltu'n effeithiol ag unrhyw ymyriadau eraill mewn perthynas â'u hanghenion. Am y rheswm hwnnw, credaf y dylid estyn y cyfnod 56 diwrnod, yn yr achos penodol hwn, mewn perthynas â charcharorion i roi amser ychwanegol iddynt i ymdrin â'r garfan arbennig honno.

- 19:55 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I will speak to amendment 354. Siaradaf am welliant 354.
- 19:55 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
No; we are on group 28. Na; rydym ar grŵp 28.
- 19:55 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Sorry; amendment 352. I apologise. This is linked to amendment 144, where, as currently drafted, the Bill fails to address findings in the 2011 Communities and Culture Committee report on the private rented sector regarding social letting agencies. Having taken the lead on social letting agencies and landlord accreditation, landlords organisations told that committee inquiry that there should be Wales-wide private rented sector access agencies for vulnerable people based on the Agorfa-Cefni lettings model, thereby adopting good practice. It is a social enterprise; it is not in the private sector, with landlord organisations and the third sector implementing and delivering more for less rather than replicating for higher costs. I therefore move this amendment on the basis that only genuine partnership and co-production on this basis can and will improve the supply of private rented sector housing for vulnerable and homeless people. Mae'n ddrwg gennyf; gwelliant 352. Mae hwn yn gysylltiedig â gwelliant 144, lle mae'r Bil, fel y'i drafftwyd ar hyn o bryd, yn methu â mynd i'r afael â chanfyddiadau adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant yn 2011 ar y sector rhentu preifat ynghylch asiantaethau gosod tai cymdeithasol. Ar ôl arwain ar asiantaethau gosod tai cymdeithasol ac achredu landlordiaid, dywedodd sefydliadau landlordiaid wrth ymchwiliad y pwyllgor hwnnw y dylai fod asiantaethau mynediad sector rhentu preifat ledled Cymru i bobl sy'n agored i niwed yn seiliedig ar fodol gosodiadau Agorfa-Cefni, a thrwy hynny fabwysiadu arfer da. Mae'n fenter gymdeithasol; nid yw yn y sector preifat, ac mae sefydliadau landlordiaid a'r trydydd sector yn gweithredu ac yn darparu mwy am lai yn hytrach na dyblygu am gostau uwch. Felly, rwyf yn cynnig y gwelliant hwn ar y sail mai dim ond gwir bartneriaeth a chydgyhyrchu ar y sail hon a fydd yn gwella'r cyflenwad tai, ac a all wneud hynny, yn y sector rhentu preifat i bobl sy'n agored i niwed a phobl ddigartref.
- 19:56 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Thank you. I did allow you to speak in this group, but your amendment has already fallen as a consequence of a previous vote. These procedures are long and intricate, but I apologise that I did not spot that beforehand. Diolch. Gadewais ichi siarad yn y grŵp hwn, ond mae eich gwelliant eisoes wedi ei wrthod o ganlyniad i bleidlais flaenorol. Mae'r gweithdrefnau hyn yn hir a chymhleth, ond rwyf yn ymddiheuro na sylwais ar hynny ymlaen llaw.

I speak to my amendments in this group, but, before I do, I would like to put on record my full support for Peter Black's amendment on the 90-day intervention prior to prisoner release, and I hope that the Minister is not just sympathetic, but that he is prepared to act on this.

Coming to amendment 5, on the list of why it is not reasonable for someone to continue to occupy accommodation, the impact that housing can have on health is, I am afraid, absent. Yet, if someone is ill, the condition of their property can be hugely important, whether it is for those with long-term health conditions that make a property unsuitable, or for those whose homes are in such poor condition that it is contributing to their poor health. When I proposed a similar amendment at Stage 2 of the Bill, the Minister rejected it for being too broad, and I think that he described it as too lenient. So, I have tabled it again, but added the provision that the opinion of a relevant health professional should be taken into account. I think that it is entirely reasonable for someone to leave their home if it is having such a detrimental effect on their health that their doctor agrees that they should move. No-one should be found to be intentionally homeless for acting to protect their own health or their family's health, especially when we know the impact that housing condition can have on health.

Minister, your White Paper acknowledged this and makes numerous mentions of the huge impact that poor housing conditions has on health and wellbeing, particularly in the case of children, as it says that it affects their ability to learn and their future prospects—'throughout their lives' are the words used in your White Paper. So, I think that I can assume then that the Minister is in agreement with me, and so it will be very disappointing if he cannot then support my amendment.

Moving on to amendment 6, once again, I tabled an amendment that makes explicit the aim of the Housing Bill to ensure that everyone has access to a decent home, and we should develop this concept of decent housing. There is evidence that poor conditions are rife when local housing authorities in other parts of the UK have discharged their duty into the private rented sector. A study by Shelter that followed homeless people who were housed in the private rented sector in England found that every property had a problem with conditions at some point, and some were so severe that it had a significant impact on health. The most commonly reported problem was damp and mould. The report mentions extreme circumstances, such as walls running with water, ceilings caving in under the weight of excess water, and entire walls of rooms covered in mould.

Siaradaf am fy ngwelliannau yn y grŵp hwn, ond, cyn imi wneud hynny, hoffwn gofnodi fy nghefnogaeth lawn i welliant Peter Black ar yr ymyriad 90 diwrnod cyn rhyddhau carcharorion, ac rwyf yn gobeithio bod y Gweinidog yn gwneud mwy na dim ond cydymdeimlo, ond ei fod yn barod i weithredu ar hynny hefyd.

O ran gwelliant 5, ar y rhestr o pam nad yw'n rhesymol i rywun barhau i fyw mewn llety, mae'r effaith y gall tai ei chael ar iechyd, mae arnaf ofn, yn absennol. Eto i gyd, os yw rhywun yn sâl, gall cyflwr ei eiddo fod yn hynod o bwysig, boed hynny i'r rhai â chyflyrau iechyd hirdymor sy'n gwneud eiddo'n anaddas, neu i'r rhai y mae eu cartrefi mewn cyflwr mor wael fel bod hynny'n cyfrannu at eu hiechyd gwael. Pan gynigiais welliant tebyg yng Nghyfnod 2 y Bil, gwrthododd y Gweinidog ef am ei fod yn rhy eang, ac rwyf yn credu iddo ddweud ei fod yn rhy drugarog. Felly, rwyf wedi ei gyflwyno eto, ond wedi ychwanegu darpariaeth y dylid rhoi ystyriaeth i farn gweithiwr iechyd proffesiynol perthnasol. Rwyf yn meddwl ei bod yn gwbl resymol i rywun adael ei gartref os yw'n cael effaith mor andwyol ar ei iechyd nes bod ei feddyg yn cytuno y dylai symud. Ni ddylid ystyried bod neb yn fwiadol ddigartref am iddo weithredu i ddiogelu ei iechyd ei hunan neu iechyd ei deulu, yn enwedig o wybod am yr effaith y gall cyflwr tai ei chael ar iechyd.

Weinidog, roedd eich Papur Gwyn yn cydnabod hyn ac yn sôn sawl gwaith am yr effaith aruthrol y mae amodau tai gwael yn ei chael ar iechyd a lles, yn enwedig yn achos plant, oherwydd mae'n dweud y gall hynny effeithio ar eu gallu i ddysgu ac ar eu rhagolygon at y dyfodol— 'trwy gydol eu bywydau' yw'r geiriau a ddefnyddir yn eich Papur Gwyn. Felly, rwyf yn meddwl y gallaf dybio felly fod y Gweinidog yn cytuno â mi, ac felly bydd yn destun siom os na all ef wedyn gefnogi fy ngwelliant.

A symud ymlaen at welliant 6, unwaith eto, rwyf yn cyflwyno gwelliant sy'n ei gwneud yn glir mai nod y Bil Tai yw sicrhau bod gan bawb gartref boddhaol, a dylem ddatblygu'r cysyniad hwn o dai boddhaol. Mae tystiolaeth bod amodau gwael yn rhemp pan fydd awdurdodau tai lleol mewn rhannau eraill o'r DU yn cyflawni eu dyletswydd drwy'r sector rhentu preifat. Canfu astudiaeth gan Shelter a ddilynodd bobl ddigartref a oedd wedi eu cartrefu yn y sector rhentu preifat yn Lloegr fod gan bob eiddo broblem o ran amodau ar ryw adeg, ac roedd rhai mor ddifrifol fel bod hynny wedi cael effaith sylweddol ar iechyd. Y broblem fwyaf a nodwyd oedd lleithder a llwydni. Mae'r adroddiad yn sôn am amgylchiadau eithriadol, megis dŵr yn llifo i lawr waliau, nenfydau'n disgyn dan bwysau dŵr uwchben, a waliau cyfan mewn ystafelloedd wedi eu gorchuddio â llwydni.

Poor conditions can have knock-on effects such as increasing heating bills as people attempt to battle the damp, sometimes to an unaffordable level. They can undermine attempts to feel that that house is really a home. Since many of those being housed may well have been particularly vulnerable, the threat of poor conditions should be particularly worrying. Those who are in priority need for housing may be less resilient and less able to cope with the anxieties and health risks caused by their housing conditions. So, it seems entirely reasonable for housing authorities to have regard to whether a property is of a decent standard before they discharge their duty into that property. I think that local authorities can judge decent housing and will be well able to perform this function.

While the Bill currently includes reference to a number of other pieces of legislation that regulates housing conditions, having an easily understood standard on the face of the Bill will reinforce and simplify its interpretation and implementation. I remind you again, Minister, of the words in your White Paper. It says:

'A decent home embraces the values that we as a Government believe are right for a society that helps people to achieve their potential. This is particularly important for children, whose educational attainment and life chances can be impaired by poor housing.'

What do those words mean if we cannot have a statutory protection for those children? The White Paper also says that the downside to discharging the homelessness duty into the private rented sector is that it is expensive, short-term and of poor quality. There is a pledge in the White Paper to improve quality and practices by allowing

'local authorities to discharge their homelessness duty through an offer of good quality private rented sector housing.'

This Bill has not achieved the safeguard that you promised in the White Paper. I cannot understand your insistence on sticking to the current minimum legal standard, rather than meeting the explicit and implied pledges in the White Paper. I would like to know, Minister, what happened to change your mind. How do you intend to improve quality without a requirement to do so?

Gall amodau gwael gael sgîl-ffeithiau megis cynyddu biliau gwresogi wrth i bobl geisio brwydro yn erbyn y lleithder, weithiau hyd at lefel anfforddiadwy. Gallant danseilio ymdrechion i deimlo bod y tŷ mewn gwirionedd yn gartref. Gall llawer o'r rhai sy'n cael eu cartrefu fod yn arbennig o agored i niwed, ac felly dylai bygythiad amodau gwael fod yn destun pryder neilltuol. Gall y rhai y mae angen blaenoriaethol am dai arnynt fod yn llai cydnerth ac yn llai abl i ymdopi â'r pryderon a'r peryglon i iechyd y mae amodau tai yn eu hachosi. Felly, mae'n ymddangos yn gwbl resymol i awdurdodau tai ystyried a yw eiddo o safon foddhaol cyn iddynt gyflawni eu dyletswydd o safbwynt yr eiddo hwnnw. Credaf y gall awdurdodau lleol farnu a yw tai'n foddhaol a'u bod mewn sefyllfa dda i gyflawni'r swyddogaeth hon.

Er bod y Bil ar hyn o bryd yn cyfeirio at nifer o ddarnau eraill o ddeddfwriaeth sy'n rheoleiddio amodau tai, bydd cael safon hawdd ei deall ar wyneb y Bil yn atgyfnerthu ac yn symleiddio'r gwaith o'i ddehongli a'i weithredu. Rwyf yn eich atgoffa unwaith eto, Weinidog, o'r geiriau yn eich Papur Gwyn. Dywed:

Mae cartref boddhaol yn coffleiddio'r gwerthoedd yr ydym ni fel Llywodraeth yn credu sy'n iawn ar gyfer cymdeithas sy'n helpu pobl i gyflawni eu potensial. Mae hyn yn arbennig o bwysig i blant, y mae tai gwael yn amharu ar eu cyrhaeddiad addysgol a'u cyfleoedd bywyd.

Beth y mae'r geiriau hynny'n ei olygu os na allwn gael amddiffyniad statudol i'r plant hynny? Mae'r Papur Gwyn hefyd yn dweud mai anfantais cyflawni'r ddyletswydd ddigartrefedd drwy'r sector rhentu preifat yw ei fod yn ddud, yn fyrdymor ac o ansawdd gwael. Mae addewid yn y Papur Gwyn i wella ansawdd ac arferion drwy ganiatáu i

awdurdodau lleol gyflawni eu dyletswydd ddigartrefedd drwy gynnig tai o ansawdd da yn y sector rhentu preifat.

Nid yw'r Bil wedi cyflawni'r mesur diogelwch a addawyd yn y Papur Gwyn. Ni allaf ddeall pam yr ydych yn mynnu cadw at y safon gyfreithiol ofynnol ar hyn o bryd, yn hytrach na chadw at yr addewidion penodol a'r rhai sydd ymhlyg yn y Papur Gwyn. Hoffwn wybod, Weinidog, beth a ddigwyddodd i newid eich meddwl. Sut ydych chi'n bwriadu gwella ansawdd heb reidrydd i wneud hynny?

20:02

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Again, I have listened to Members' contributions. It was an interesting part of the Bill process that we went through at Stage 2, with lots of debate around this. What I tried to do was to change much of the Bill to accommodate Members' and external groups' thoughts in that process. Throughout this process, I was called many things, including 'a Tory fascist' by one individual, which I thought was rather bizarre in many ways. However, I am seeking to act in the best interest of individuals.

Unwaith eto, rwyf wedi gwrandao ar gyfraniadau'r Aelodau. Roedd yn rhan ddiddorol o broses y Bil yr aethom drwyddi yng Nghyfnod 2, a bu llawer o drafodaeth ynghylch hynny. Yr hyn yr oeddwn yn ceisio ei wneud oedd newid llawer o'r Bil i gynnwys safbwyntiau Aelodau a grwpiau allanol yn y broses honno. Trwy gydol y broses hon, cefais fy ngalw'n llawer o bethau, gan gynnwys 'ffasgydd o Dori' gan un unigolyn, ac roeddwn yn meddwl bod hynny'n rhyfedd iawn mewn sawl ffordd. Fodd bynnag, rwyf yn ceisio gweithredu er budd unigolion.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

To pick up on the amendments specifically, as Members have heard, amendments 5 and 6 deal with the suitability of accommodation for homeless people and when people are treated as homeless because it is unreasonable for them to continue to occupy accommodation. Local authorities must have the responsibility for making decisions on homelessness and, in doing so, must take into account the relevant facts in each case.

I listened very carefully to Jocelyn's very passionate and meaningful contributions at Stage 2 and today. I am not in a position to legislate for that, because we believe that we can deal with this more appropriately through subordinate legislation and guidance. Therefore, I will not be supporting Jocelyn's amendments today. However, I will look very carefully at that process and I will engage with Members on drafting that guidance as we move forward.

With regard to amendment 27, Peter Black spoke about extending the period for the prevention duty for prisoners from 56 days to 90 days. I tried to explain through the committee process that the system just does not work in its current format. We already have conditions in place but they are clearly not working. I have set up a working group that deals with this very point. So, whether we have 56 days, 90 days or 180 days, if the system does not work, it will not matter what number of days you attribute to that process. Therefore, I have made it very clear that the working group will look at outside organisations to make sure that the 56-day system works. If people who are incarcerated can be supported prior to 56 days, that could happen, so it is not a process where the timing prohibits support for prisoners. We will work, and continue to work, with the working group on supporting ex-offenders on their leaving of prisons.

I know that this is controversial with some Members, but we are seeking to make a system that works effectively. Hopefully, in the future, the deal for ex-offenders on leaving, particularly vulnerable ex-offenders, will be a better deal for the future. I ask Members to join me in opposing the amendments tabled today by the opposition Members.

A sôn am y gwelliannau'n benodol, fel y mae'r Aelodau wedi clywed, mae gwelliannau 5 a 6 yn ymdrin ag addasrwydd y llety i bobl ddigartref a phan fydd pobl yn cael eu trin fel pobl ddigartref oherwydd ei bod yn afresymol iddynt barhau i fyw mewn llety. Rhaid i awdurdodau lleol fod yn gyfrifol am wneud penderfyniadau am ddigartrefedd ac, wrth wneud hynny, rhaid ystyried y ffeithiau perthnasol ym mhob achos.

Gwrandewais yn astud iawn ar gyfraniadau angerddol ac ystyrlon iawn Jocelyn yng Nghyfnod 2 a heddiw. Nid wyf mewn sefyllfa i ddeddfu ar gyfer hynny, oherwydd credwn y gallwn ymdrin â hyn yn fwy priodol drwy is-ddeddfwriaeth a chanllawiau. Felly, ni fyddaf yn cefnogi gwelliannau Jocelyn heddiw. Fodd bynnag, byddaf yn edrych yn ofalus iawn ar y broses honno, ac yn ymgysylltu ag Aelodau ar ddrafftio'r canllawiau hynny wrth inni symud ymlaen.

O ran gwelliant 27, siaradodd Peter Black am estyn cyfnod y ddyletswydd atal ar gyfer carcharorion o 56 diwrnod i 90 diwrnod. Ceisiais esbonio drwy'r broses bwyllgor nad yw'r system yn gweithio ar ei ffurf bresennol. Mae gennym eisoes amodau ar waith ond mae'n amlwg nad ydynt yn gweithio. Rwyf wedi sefydlu gweithgor sy'n delio â'r union bwynt hwn. Felly, pa un a oes gennym 56 diwrnod, 90 diwrnod neu 180 diwrnod, os nad yw'r system yn gweithio, ni fydd ots faint o ddyddiau yr ydych yn eu neilltuo i'r broses honno. Felly, rwyf wedi ei gwneud yn glir iawn y bydd y gweithgor yn edrych ar sefydliadau allanol i wneud yn siŵr bod y system 56 diwrnod yn gweithio. Os gall pobl sy'n cael eu carcharu gael cymorth cyn 56 diwrnod, gallai hynny ddigwydd, felly nid yw'n broses lle mae'r amseru'n gwahardd cymorth i garcharorion. Byddwn yn gweithio, ac yn parhau i weithio, gyda'r gweithgor ar roi cymorth i gyn droseddwyd wrth iddynt adael carchardai.

Gwn fod hyn yn ddadleuol i rai Aelodau, ond rydym yn ceisio creu system sy'n gweithio'n effeithiol. Rwyf yn gobeithio, yn y dyfodol, y bydd y drefn i gyn droseddwyd pan fyddant yn gadael, yn enwedig cyn droseddwyd sy'n agored i niwed, yn fargen well ar gyfer y dyfodol. Gofynnaf i'r Aelodau ymuno â mi i wrthwynebu'r gwelliannau a gyflwynwyd heddiw gan Aelodau'r wrthblaid.

I think that it was an interesting admission by the Minister at the end of this process that the system is not working as it is currently set out. I think that we all accept that. It has not been working for some considerable time. I do not think that the legislation is at fault; I think that the system itself is at fault in terms of how people administrate it, and the fact that we have different responsibilities applied to it. The UK Government, the Welsh Government and local councils are not working together effectively in delivering the necessary measures to try to prevent reoffending and to make sure that prisoners, when they come out of prison, are properly rehabilitated and put back onto what is quaintly known as 'the straight and narrow'. It is also quite clear in the report that I referred to in introducing this amendment, and which was commissioned by the Welsh Government in 2008, namely 'Necessary but not sufficient: housing and the reduction of re-offending'. It acknowledged that 75% of those offenders most likely to reoffend had a housing need, compared with 30% of the general offender population. I have already referred to point about the one third of prisoners who lose their homes during their sentence et cetera and that the issues around accommodation impact severely upon prisoners' reoffending behaviour.

The question then has to be: if the system is not working, can the Minister make it work, and can the Minister make it work in a way that can be accommodated in the 56-day period, which is in the Bill? It seems to me that this is quite a big job and has been tackled by many other people, before the term of office of the present Minister, in trying to make it work, simply because you are trying to bring together so many disparate organisations to make it work. The argument that I like to put in terms of this particular amendment is that you need that additional time to make it work in some cases, where more time is needed for those prisoners. That is why I think that the 90-day period is more apt than the 56-day period, given that the system is not working and given the difficulties in making it work. Clearly, there are a number of individuals who will be particularly difficult in terms of rehousing or finding suitable placements. Therefore, the extra time that is available will be particularly valuable, I think, in enabling that to happen. For that reason, I think that it is a really good argument that the Minister put just now in favour of amendment 27. I certainly hope that Members will take note of the Minister's argument in favour of this amendment and will vote for it.

In summing up this section, Deputy Presiding Officer, I also wish to express my support for Jocelyn Davies's amendments 5, 6 and 7. I think that Jocelyn did a very good job of making the case for this, but I think that the issue, again, is raising the quality of accommodation. In this case, it is discharging homeless people to the private rented sector, and making sure that that is not going to have an impact on their health, by being of a suitable condition. It is absolutely vital. I do not think that there is any point in placing someone in a property where they will be worse off than they were when they were homeless. I think that these amendments, which the Minister says that he will pick up in guidance, really are so important that I think they should be on the face of the Bill. For that reason, I am happy to support them.

Rwyf yn meddwl bod hynny'n gyfaddefiad diddorol gan y Gweinidog ar ddiwedd y broses hon nad yw'r system yn gweithio fel y mae wedi ei threfnu ar hyn o bryd. Credaf ein bod i gyd yn derbyn hynny. Nid yw'n gweithio ers peth amser. Nid wyf yn credu mai'r ddeddfwriaeth sydd ar fai; rwyf yn credu bod y system ei hun ar fai o ran y ffordd y mae pobl yn ei gweinyddu, a'r ffaith bod gennyf gyfrifoldebau gwahanol ynghlwm â hi. Nid yw Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a chynghorau lleol yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i gymryd y camau angenrheidiol i geisio atal aildroseddu ac i wneud yn siŵr bod carcharorion, pan fyddant yn dod allan o'r carchar, yn cael eu hadsefydlu'n briodol ac yn mynd yn ôl ar yr hyn a elwir yn 'llwybr cul'. Mae hyn hefyd yn eithaf clir yn yr adroddiad y cyfeiriais ato wrth gyflwyno'r gwelliant hwn, ac a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2008, sef 'Angenrheidiol ond nid yn ddigonol: tai a lleihau aildroseddu'. Mae'n cydnabod bod angen tai ar 75% o'r troseddwr hynny sydd fwyaf tebygol o aildroseddu, o gymharu â 30% o boblogaeth gyffredinol troseddwr. Rwyf eisoes wedi cyfeirio at y pwynt bod un rhan o dair o garcharorion yn colli eu cartrefi yn ystod eu dedfryd ac ati a bod y problemau sy'n ymwneud â llety yn cael effaith ddifrifol ar ymddygiad aildroseddu carcharorion.

Y cwestiwn felly yw hyn: os nad yw'r system yn gweithio, a all y Gweinidog wneud iddi weithio, ac a all y Gweinidog wneud iddi weithio mewn ffordd y gellir ei chynnwys yn y cyfnod 56 diwrnod, sydd yn y Bil? Mae'n ymddangos i mi fod hon yn dasg enfawr a bod llawer o bobl eraill wedi mynd i'r afael â hi, cyn cyfnod y Gweinidog presennol yn y swydd, er mwyn ceisio gwneud i hyn weithio, oherwydd eich bod yn ceisio dod â chynifer o wahanol sefydliadau at ei gilydd i wneud iddo weithio. Y ddadl yr wyf am ei chyflwyno o ran y gwelliant penodol hwn yw bod angen yr amser ychwanegol hwnnw i wneud iddo weithio, mewn rhai achosion, lle mae angen mwy o amser ar y carcharorion hynny. Dyna pam yr wyf yn credu bod y cyfnod 90 diwrnod yn fwy addas na'r cyfnod 56 diwrnod, gan nad yw'r system yn gweithio ac o ystyried yr anawsterau o ran gwneud iddi weithio. Wrth gwrs, mae nifer o unigolion a fydd yn arbennig o anodd o safbwynt ailgartrefu neu ddod o hyd i leoliadau addas. Felly, bydd yr amser ychwanegol sydd ar gael yn arbennig o werthfawr, yn fy marn i, o ran galluogi i hynny ddigwydd. Am y rheswm hwnnw, rwyf yn meddwl bod y Gweinidog wedi cyflwyno dadl wirioneddol dda bellach o blaid gwelliant 27. Rwyf yn sicr yn gobeithio y bydd yr Aelodau'n cymryd sylw o ddadl y Gweinidog o blaid y gwelliant hwn ac yn pleidleisio o'i blaid.

Wrth grynhoi'r adran hon, Ddirprwy Lywydd, rwyf hefyd am leisio fy nghefnogaeth i welliannau 5, 6 a 7 Jocelyn Davies. Credaf fod Jocelyn wedi cyflwyno achos da iawn dros hyn, ond credaf mai'r hyn sydd ei angen, unwaith eto, yw gwella ansawdd y llety. Yn yr achos hwn, yr hyn sydd dan sylw yw rhyddhau pobl ddigartref i'r sector rhentu preifat, a gwneud yn siŵr nad yw hynny'n cael effaith ar eu hiechyd, trwy fod mewn cyflwr addas. Mae'n gwbl hanfodol. Nid wyf yn credu bod dim diben rhoi rhywun mewn eiddo lle y bydd yn waeth ei fyd nag yr oedd pan oedd yn ddigartref. Credaf fod y gwelliannau hyn, y mae'r Gweinidog yn dweud y bydd yn eu nodi yn y canllawieb, mewn gwirionedd mor bwysig nes y dylent fod ar wyneb y Bil. Am y rheswm hwnnw, rwyf yn hapus i'w cefnogi.

20:09	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The question is that amendment 27 be agreed to. Does any Member object? There is objection. Therefore, we will proceed to an electronic vote.</p> <p>Canlyniad y bleidlais ar welliant 27.</p> <p><i>Gwrthodwyd gwelliant 27: O blaid 23, Yn erbyn 23, Ymatal 0.</i></p> <p><i>Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog Rhif 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.</i></p>	<p>Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 27. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad. Felly, symudwn at bleidlais electronig.</p> <p>Result of the vote on amendment 27.</p> <p><i>Amendment 27 not agreed: For 23, Against 23, Abstain 0.</i></p> <p><i>As required by Standing Order No. 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
20:09	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>I call on Jocelyn Davies to move amendment 5.</p>	<p>Galwaf ar Jocelyn Davies i gynnig gwelliant 5.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
20:09	<p>Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>I move amendment 5 in my name.</p>	<p>Cynigiau welliant 5 yn fy enw i.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
20:09	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The question is that amendment 5 be agreed to. Does any Member object? There is objection. Therefore, we will proceed to an electronic vote.</p> <p>Canlyniad y bleidlais ar welliant 5.</p> <p><i>Gwrthodwyd gwelliant 5: O blaid 22, Yn erbyn 23, Ymatal 1.</i></p>	<p>Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 5. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad. Felly, symudwn at bleidlais electronig.</p> <p>Result of the vote on amendment 5.</p> <p><i>Amendment 5 not agreed: For 22, Against 23, Abstain 1.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
20:10	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>I call on Jocelyn Davies to move amendment 6.</p>	<p>Galwaf ar Jocelyn Davies i gynnig gwelliant 6.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
20:10	<p>Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>I move amendment 6 in my name.</p>	<p>Cynigiau welliant 6 yn fy enw i.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
20:10	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The question is that amendment 6 be agreed to. Does any Member object? There is objection. We will have an electronic vote.</p> <p>Canlyniad y bleidlais ar welliant 6.</p> <p><i>Gwrthodwyd gwelliant 6: O blaid 13, Yn erbyn 29, Ymatal 4.</i></p> <p><i>Tynnwyd gwelliant 7 yn ôl.</i></p> <p><i>Methodd gwelliant 352.</i></p>	<p>Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 6. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad. Cawn bleidlais electronig.</p> <p>Result of the vote on amendment 6.</p> <p><i>Amendment 6 not agreed: For 13, Against 29, Abstain 4.</i></p> <p><i>Amendment 7 withdrawn.</i></p> <p><i>Amendment 352 fell.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
20:10	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>It was decided earlier that we would not precede beyond group 28 today, and therefore that brings today's proceedings to a close. Thank you.</p>	<p>Penderfynwyd yn gynharach na fyddem yn mynd ymhellach na grŵp 28 heddiw, ac felly mae hynny'n dod â'n trafodion heddiw i ben. Diolch.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

Daeth y cyfarfod i ben am 20:10.

The meeting ended at 20:10.